Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
| --- | --- |
| ar gyfer | for a |
| CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN | MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |
| a gynhelir yn | to be held at the |
| SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFA'R SIR<br>LLANGEFNI | COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI |
| DYDD MAWRTH,<br>14 MAI 2019 | TUESDAY,<br>14 MAY, 2019 |
| am 10.30 o'r gloch yb | at 10.30 p.m. |

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1. COFNODION**

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 27 Chwefror, 2019.

**2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

**3. UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

**4. CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL A RHEOL 4.1.12.4 Y CYFANSODDIAD**

- I gyflwyno'r cwestiwn canlynol o rybudd gan y Cynghorydd Shaun Redmond i'r Deilydd Portffolio Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant :-

  *'Daeth yn amlwg i sawl aelod fod y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn ymarfer sy'n cael ei gyrru gan ystyriaethau ariannol yn hytrach na gwelliannau addysgol.*

  *Oherwydd bod yr ysgolion uwchradd yn hen adeiladau nad ydynt yn addas ar gyfer darparu pynciau technegol iawn megis gwyddoniaeth ac yn creu anfantais i'r disgyblion hynny sydd ag angen brys am safonau addysgol uchel o ran y dysgu a'r cymhorthion a'r amgylchedd dysgu, beth yw'r cynlluniau ar gyfer Moderneiddio'r Ysgolion Uwchradd?'*

- I gyflwyno'r cwestiwn canlynol o rybydd gan y Cynghorydd Shaun Redmond i'r Deilydd Portffolio Cyllid :-

  *'Gan fod y Cyngor yn parhau i weithredu mesurau i dorri costau, pa gamau ydych chi'n eu cymryd i sicrhau bod dyledwyr – p'un a ydynt yn sefydliadau, yn fusnesau neu'n unigolion yn cael eu herio i dalu'r arian hwn yn ôl i'r Cyngor?'*

- I gyflwyno'r cwestiwn canlynol o rybudd gan y Cynghorydd Peter Rogers i'r Deilydd Portffolio Priffrydd, Eiddo a Gwastraff :-

  *'Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith yr wythnos ddiwethaf ar Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach yn feirniadol ac yn ddamniol iawn o'r modd y mae Stad David Hughes yn cael ei rhedeg. Am ba hyd fedrwch chi ganiatáu i hyn barhau?'*

**5. RHYBUDD O GYNNIG YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 O'R CYFANSODDIAD**

- Derbyn Rhybudd o Gynig gan y Cynghorwyr K P Hughes a Bryan Owen :-

  *'Bod y Cyngor hwn yn cefnogi mewn egwyddor, ac yn amodol ar ganlyniad y prosesau statudol perthnasol, drigolion Llanfachraeth yn eu hymdrechion i ostwng y cyfyngiad cyflymder drwy'r pentref o 30mya i 20mya.'*

- Derbyn y Rhybuddion o Gynigiad isod gan y Cynghorwyr Bryan Owen a Shaun Redmond :-

  1. *Rhybudd o Gynigiad yw hwn yn gofyn i aelodau'r Cyngor wrthod argymhelliad y swyddogion i beidio ag ariannu ysgolion yn ôl cost lawn yr holl bwysau cyllidebol y byddant yn eu hwynebu yn 2019/20.*

     *Gofynnir i'r Cyngor Llawn gefnogi eu cyllido'n llawn er mwyn cwrdd â'r pwysau ariannol a fydd arnynt yn 2019/20.*

  2. *Rhybudd o Gynigiad yw hwn yn gofyn i aelodau'r Cyngor gefnogi cadw'r holl staff dysgu yn holl ysgolion Ynys Môn am weddill cyfnod y Weinyddiaeth hon – hyd at 2022.*

     *Yn ychwanegol at hyn, bod yr aelodau'n cefnogi penodi i'r holl swyddi dysgu mewn modd sy'n gymesur â'r lefelau a argymhellir yn ôl niferoedd disgyblion yn ystod yr un cyfnod.*

**6. CYFLWYNO DEISEBAU**

Nodi fod dwy ddeiseb wedi eu derbyn yn unol â Pharagraff 4.1.11 o'r Cyfansoddiad.

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD 2018/19**

Ystyried Adroddiad Blynyddol Arweinydd y Cyngor yn unol â pharagraff 4.1.11 o'r Cyfansoddiad.

**8. STRATEGAETH GYFALAF A RHAGLEN GYFALAF 2019/20 I 2021/22**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR SAFONAU 2018/19**

Cyflwyno adroddiad gan Mr Michael Wilson, Cadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Safonau.

**10. ADRODDIAD BLYNYDDOL TROSOLWG A SGRIWTINI 2018/19**

Cyflwyno adroddiad gan Gadeiryddion y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

## 11. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 2018/19

Cyflwyno adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 23 Ebrill, 2019.

## 12. PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - ADRODDIAD BLYNYDDOL 2018/19

Cyflwyno adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

## 13. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

**"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

## 14. GEMAU'R YNYSOEDD - CAIS I WARANTU COSTAU'R GEMAU

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr mewn perthynas â'r uchod.

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror, 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Margaret Murley Roberts (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, John Griffith, Richard Griffiths, Glyn Haynes, K P Hughes, T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, Richard O Jones, G O Jones, R Ll Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, Bob Parry OBE FRAgS, Shaun James Redmond, Alun Roberts, Dafydd Roberts, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams a Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaeth),<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo Dros Dro,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Uwch Swyddog Adnoddau Dynol (ar gyfer eitem 10),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Eric W Jones. |

**1. COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfodydd canlynol Cyngor Sir Ynys Môn fel rhai cywir :-

- 11 Rhagfyr, 2018
- 28 Ionawr, 2019 (Cyfarfod Arbennig)

**2. DATGAN DIDDORDEB**

Cafwyd y datganiadau personol canlynol mewn perthynas ag Eitem 7 – Y Gyllideb ar gyfer 2019/20 a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol:-

Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, Richard O Jones, Llinos M Huws, R Meirion Jones, Dafydd Roberts, Bryan Owen, Margaret M Roberts, Nicola Roberts, Robin Williams.

Cafwyd y datganiadau personol canlynol mewn perthynas ag Eitem 10 – Datganiad Polisi Tâl:-

Y Cynghorwyr Richard Griffiths, Aled M Jones, Carwyn Jones, Robert Ll Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robin Williams.

Gwnaeth yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Swyddogaeth Adnoddau a Busnes y Cyngor ddatganiad o ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 10 – Datganiad Polisi Tâl 2019 ac nid oeddynt yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod unrhyw drafodaeth neu bleidlais arni.

**3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau a ganlyn:-

- Estynnwyd dymuniadau gorau i'r Cynghorydd Richard O Jones ac aelodau o'r 'Tîm Pêl-droed Cerdded' – Tîm Pêl-droed Amlwch a fydd yn cynrychioli Cymru yn St George's Park ar ddydd Sul;

- Llongyfarchiadau i Ms Christina Darbyshire-Jones, Gweithiwr Cymdeithasol sydd wedi ennill gwobr 'Asiantaeth Faethu Credo Care fel y Gweithiwr Proffesiynol mwyaf Eithriadol' yn ddiweddar;

- Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Bryan Owen ar ddod yn daid i efeilliaid.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cael y pleser o gwrdd â theulu o Ffoaduriaid o Syria yn ddiweddar, sydd wedi setlo ar Ynys Môn.

Hoffai'r Cadeirydd atgoffa'r Aelodau y cynhelir Cyngerdd Elusennol y Cadeirydd yn Ysgol Gyfun Llangefni ddydd Gwener, 5 Ebrill, 2019 am 7.00 p.m.

* * * * *

Cydymdeimlwyd â'r cyn Gynghorydd John Chorlton a'i deulu ar golli eu merch Heather yn ddiweddar.

Cydymdeimlwyd ag unrhyw Aelod neu staff o'r Cyngor a oedd wedi dioddef profedigaeth.

Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion mewn tawelwch fel arwydd o'u parch a'u cydymdeimlad.

**4. CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.12.4 O'R CYFANSODDIAD**

Cyflwynwyd – y cwestiwn canlynol o rybudd gan y Cynghorydd Robert Ll Jones i'r Aelod Portffolio Cyllid :-

Yn wyneb y gorwariant mawr ar y Gwasanaethau Plant :-

*'Pa gamau a gymerwyd i adolygu'r gwariant yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ar sail wythnosol ac a oedd hyn y cael ei ddwyn at sylw'r Pwyllgor Gwaith bob wythnos?'*

Ymatebodd yr Aelod Portffolio Cyllid drwy ddweud fod y Gwasanaethau Plant yn wasanaeth a arweinir gan y galw, a phan fydd Llys yn penderfynu rhoi plentyn mewn gofal, mae'n rhaid i'r Awdurdod ymateb. Mynegodd bod rhaid i'r Awdurdod roi cyfleusterau addas ar gael i blant sy'n cael eu rhoi mewn gofal naill ai gyda rhieni maeth neu mewn unedau arbenigol. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfodydd anffurfiol a'r UDA yn derbyn adroddiadau misol ar bob gwasanaeth ac mae'r Pwyllgor Gwaith llawn yn derbyn adroddiadau bob chwarter. Dywedodd yr Aelod Portffolio ymhellach fod adroddiadau'n cael eu cyflwyno i Banel Sgriwtini y Gwasanaethau Plant ac mae'r Pennaeth Gwasanaethau wedi mynychu'r cyfarfodydd hyn ar ddau achlysur. Yn ogystal, mae'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael cyfarfodydd misol gyda Phennaeth y Gwasanaethau Plant ynghyd â Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, a chaiff cyllideb yr adran ei thrafod a'i monitro yn y cyfarfodydd hyn.

Diolchodd y Cynghorydd Robert Ll Jones i'r Aelod Portffolio Cyllid am ei ymateb a mynegodd ei werthfawrogiad i'r staff yn y Gwasanaethau Plant am eu gwaith wrth alluogi'r gwelliant sydd wedi digwydd yn y gwasanaeth yn ddiweddar. Dywedodd yr hoffai weld ymagwedd newydd fel y gallai'r adran fforddio cyfleusterau oddi mewn i'r Ynys ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, heb orfod eu lleoli tu allan i'r sir.

**5. RHYBUDD O GYNNIG YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 O'R CYFANSODDIAD**

- Cyflwynwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol gan y Cynghorydd Robert Ll Jones:-

  *Ar 27ain Ebrill 2010, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ar y pryd gymeradwyo cynigiad i geisio sicrhau nad oedd yr hyn a ddigwyddodd gyda'r cais cynllunio mawr mewn perthynas â Tŷ Mawr, Llanfairpwll yn 2008, yn digwydd eto. Cafodd y cais hwnnw ei alw i mewn gan Lywodraeth Cymru a'i wrthod yn y diwedd.*

  *Penderfynwyd cymeradwyo Siartr ar gyfer Cytundeb Perfformiad Cynllunio yn nodi'r modd y dylai'r Awdurdod weithio gyda'r datblygwr, y gymuned a chydran-ddeiliaid allweddol eraill i sicrhau bod cynigion ar gyfer datblygiadau mawr a chymhleth yn cael eu hystyried yn ofalus mewn modd adeiladol, cydweithredol ac agored.*

  *Ni sefydlwyd Cytundeb Perfformiad Cynllunio mewn perthynas â'r tri datblygiad mwyaf yn ystod y ddeng mlynedd diwethaf ac fe gafodd un ei alw i mewn (Tŷ Mawr) a bu'r ddau arall, sef datblygiadau Glannau Caergybi a Land and Lakes yn gostus iawn i'n hawdurdod ac i bobl Ynys Môn. Petai Cytundeb Perfformiad Cynllunio wedi bod ar gael, mae yna siawns y byddai'r datblygwyr wedi gwrando ar yr etholwyr.*

Rwy'n gofyn i unrhyw ddatblygwyr lofnodi Cytundeb Perfformiad Cynllunio a bod y Cytundeb hwn ar gael i etholwyr Ynys Môn a'u bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n cael ei gytuno. Byddai hyn yn unol arfer mewn Awdurdodau Lleol eraill.

Eiliodd y Cynghorydd Shaun Redmond y cynnig.

Dywedodd y Cynghorydd Redmond ei bod yn hanfodol sefydlu cytundebau Perfformiad Cynllunio pan gaiff datblygiadau mawr eu cynnig mewn cymunedau lleol. Nododd fod rhaid i gymunedau lleol gael gwybod am y broses gyda datblygiadau mawr er mwyn lleddfu unrhyw bryderon ynglŷn ag effaith datblygiad o'r fath.

Ymatebodd yr Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd trwy ddweud fod y Siarter Cytundeb Perfformiad Cynllunio (CPC) wedi'i ddiweddaru yn 2014 ac mae'r Siarter yn datgan bod CPC yn gytundeb gwirfoddol rhwng datblygwyr prosiectau datblygu mawr a'r Cyngor. Cynhelir trafodaethau gyda'r datblygwyr cyn iddynt gyflwyno cais cynllunio i'r Awdurdod Cynllunio ond nid yw'r Cyngor yn gallu gorfodi datblygwyr i ymrwymo i CPC. Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at y prosiect Land and Lakes a dywedodd na sefydlwyd cytundeb CPC ond roedd y datblygwyr wedi cytuno i dalu costau cyfreithiol y Cyngor ac i lofnodi cytundeb A106. Mewn perthynas â Glannau Caergybi, roedd trafodaethau ynglŷn â'r datblygiad wedi digwydd yng nghyswllt y CPC ond cafodd y cais cynllunio ei gyflwyno cyn oedd y Siarter mewn lle.

Dywedodd y Cynghorydd Robert Ll Jones yr hoffai weld cofnodion manwl yn cael eu cadw yn ystod y drafodaeth ar CPC gyda datblygwyr er mwyn i'r cyhoedd allu cael mynediad at y trafodaethau a gynhaliwyd. Nododd fod cytundeb CPC wedi'i sefydlu mewn perthynas â'r prosiect Wylfa Newydd lle cafwyd cofnod o pa daliadau a wnaed a chyfraniad o £6.8m o'r prosiect. Mynegodd y Cynghorydd Jones, heb CPC wedi'i lofnodi, nid oes cofnod o'r ffioedd a chostau y mae'r awdurdod hwn wedi gorfod eu talu.

Adroddodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd y caiff ffi ei chodi am bob cais cynllunio a gyflwynir i'r Cyngor sy'n galluogi'r capasiti i brosesu'r cais. O ran datblygiadau mwy o faint, rhoddir y CPC mewn lle er budd yr awdurdod cynllunio a'r datblygwr, i sicrhau bod y capasiti ar gael i ddelio gyda datblygiadau mawr, cymhleth. Nododd mewn perthynas â'r prosiect Wylfa Newydd nad oedd yr awdurdod cynllunio lleol wedi derbyn ffi gynllunio gan na fyddai'r Awdurdod Lleol wedi gwneud penderfyniad ynglŷn â'r cais hwnnw. Felly, yr unig gyfrwng ariannu oedd ar gael i'r awdurdod lleol er mwyn sicrhau'r capasiti i ddelio â datblygiad mor fawr a chymhleth oedd trwy CPC. Dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ymhellach fod pob awdurdod lleol yn adrodd i Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys nifer o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar berfformiad ynghyd â manylion am yr incwm o unrhyw broses gynllunio statudol.

Dywedodd Cadeirydd y Cyngor yr ymddengys mai proses wirfoddol yw i ddatblygwyr gytuno i fynd i gytundeb CPC, ac na all awdurdodau cynllunio lleol orfodi'r broses.

Ymatebodd y Cynghorydd Robert Ll Jones ei fod yn ymwybodol mai proses wirfoddol oedd CPC ond dymunai gael dogfennaeth fod ar gael ynglŷn â pham roedd datblygwr wedi penderfynu peidio mynd i gytundeb CPC a bod costau sy'n gysylltiedig â datblygiad o'r fath yn cael eu cofnodi.

**Yn y bleidlais ddilynol PENDERFYNWYD peidio cefnogi'r cynigiad.**

- Cyflwynwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol gan y Cynghorydd Robert Ll Jones:-

  *Yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf, mae mwy a mwy o gapeli ac eglwysi wedi cau ar Ynys Môn gyda hynny'n golygu colli llefydd cyfarfod cymunedol sydd wedi gwasanaethu ein trigolion am dros gant a hanner o flynyddoedd. Roedd ym mhob pentref ar Ynys Môn un neu ragor o addoldai a llawer iawn mwy yn ein trefni.*

  A fedr yr Adran Gynllunio, drwy eu Swyddog Treftadaeth, edrych ar beth sydd wedi digwydd i'r llefydd cyfarfod hyn a pha gofnodiadau sy'n cael eu cadw i ddiogelu hanes yr adeiladau pwysig hyn fel rhan o'n hanes dros yr 150 mlynedd diwethaf. A fyddai modd dod ag adroddiad llawn yn ôl i'r Cyngor. Mae gan nifer o'r capeli a'r eglwysi hyn goflechi marmor a chofnodiadau eraill o'r dynion a'r merched ifanc a fu farw yn y ddau ryfel byd – beth sy'n digwydd i'r rhain ac a fyddai modd eu cofnodi.

Eiliodd y Cynghorydd Peter Rogers y cynnig.

Dywedodd y Cynghorydd Rogers ei bod yn bwysig diogelu cofnodion hanesyddol o fewn yr eglwysi a'r capeli.

Ymatebodd yr Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ei bod yn ddyletswydd ar Awdurdod Lleol i gofnodi cofnodion hanesyddol o dan y ddeddfwriaeth 1979 neu 1990 o fewn adeiladau cofrestredig. Fodd bynnag, nid oes gan y mwyafrif o asedau hanesyddol o fewn capeli ac eglwysi warchodaeth statudol. Er yn rhannu'r pryderon pan fydd capeli ac eglwysi a llefydd addoli hanesyddol yn gorfod cau, nid oes gan yr awdurdod yr adnodd i gadw cofnodion o'r fath. Fodd bynnag, wrth brosesu ceisiadau cynllunio i drawsnewid capeli ac eglwysi mae'r Awdurdod Cynllunio yn gwneud cais i'r datblygwr gadw cofnodion o'r coflechi a'r cofnodion o fewn yr adeiladau.

Roedd y Cynghorydd Gwilym O Jones yn dymuno mynegi ei ddiolch bod y Rhybudd o Gynnig wedi'i gyflwyno i'r Cyngor iddo ei ystyried. Mynegodd fod y sefyllfa'n wahanol gyda gwahanol enwebiadau gan fod gan y Presbyteriaid gyfleuster cofnodion canolog i gadw cofnodion o'r fath tra bod rhaid i eraill ddelio gyda'r sefyllfa yn lleol. Nododd y dylai'r cymunedau lleol a Chynghorau Cymuned allu hwyluso'r gwaith o gadw cofnodion o goflechi a chofrestri pan fydd capel neu eglwys yn cau.

Dywedodd y Cynghorydd Ieuan Williams, er ei fod yn derbyn bod angen cofnodi cofnodion hanesyddol mewn adeiladu addoli hanesyddol, ystyriai mai mater i'r eglwysi neu'r capeli oedd gwneud yn siŵr bod cofnodion o'r fath yn cael eu cadw.

**Yn y bleidlais ddilynol PENDERFYNWYD peidio cefnogi'r cynnig.**

## 6. CYFLWYNO DEISEBAU

Dywedodd y Cadeirydd fod deiseb wedi dod i law gan y Cynghorydd Kenneth P Hughes gyda 131 o lofnodion arni, yn gwrthwynebu'r estyniad i'r traffig ar yr A5025 ac i'r cynnydd yn y traffig drwy bentref f Llanfachraeth cyn bydd y lôn osgoi yn cael ei hadeiladu.

Dywedodd y Cynghorydd K P Hughes fod yna bryderon mawr wedi bod ym mhentref Llanfachraeth ynglŷn â'r cynnydd yn y traffig oherwydd prosiect Wylfa Newydd. Diolchodd i Gadeirydd y Cyngor am gwrdd â chynrychiolwyr o ardal Llanfachraeth ac am dderbyn y ddeiseb. Fodd bynnag, dywedodd oherwydd ar ansicrwydd ynglŷn â phrosiect Wylfa Newydd, efallai na fyddai'r cynnydd mewn traffig trwy bentref Llanfachraeth yn digwydd.

## 7. CYLLIDEB 2019/20 A'R STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOL

Cyflwynodd yr Aelod Portffolio Cyllid gynigion y Pwyllgor Gwaith ar gyfer cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2019/20, y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys a gosod y Dreth Gyngor – eitemau 7(a) i (ch) yn y Rhaglen. Dywedodd mai'r gyllideb hon fu'r gyllideb fwyaf heriol i'r Cyngor orfod ei chyflwyno. Dechreuwyd y broses gyllideb gychwynnol ym mis Mehefin 2018 a chafodd adolygiadau unigol eu cynnal o'r holl wasanaethau o fewn y Cyngor. Fe heriwyd y gwasanaethau i adnabod gwerth £5m o arbedion yn unol â'r Cynllun Ariannol Tymor Canol. Cynhaliwyd nifer o weithdai yn ystod mis Hydref gyda'r gwasanaethau'n cyflwyno eu cynigion arbedion i'w hystyried, a gwahoddwyd holl Aelodau'r Cyngor i fynychu. Roedd yr holl gynigion arbedion a gyflwynwyd yn dod i gyfanswm o £3.747m. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus o 15 Tachwedd i 31 Rhagfyr, 2018 gan ganolbwyntio ar y 15 o brif gynigion arbedion. Dywedodd yr Aelod ei fod yn gwerthfawrogi'r ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ac mai'r ymgynghoriad ar y broses o osod y gyllideb sydd wedi derbyn y nifer uchaf o ymatebion erioed gan y Cyngor. Nododd fod y Cyngor wedi cynnal 6 chyfarfod gyda gwahanol grwpiau a budd-ddeiliaid i drafod yr arbedion arfaethedig a chael syniad o'u barn. Y neges gref o'r cyfarfodydd hyn oedd fod angen gwarchod cyllidebau addysg er mwyn cynnig yr addysg orau bosib mewn ysgolion. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 4 Chwefror, 2019 ac fe adroddodd y Cadeirydd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Chwefror, 2019.

Nododd hefyd pe na bai'r Cyngor yn gosod cyllideb ddarbodus yn y cyfarfod heddiw, yna mae'n bosib y gallai'r Cyngor wynebu problemau ariannol sylweddol fel yr adroddwyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 18 Chwefror, 2019. Mae'n rhaid i'r Cyngor osod cyllideb sy'n cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor, ac yn bwysicaf oll, sy'n gwarchod y

gwasanaethau y mae'r bobl fwyaf bregus yn ddibynnol arnynt sef y gwasanaethau oedolion, plant ac addysg. Mae'r sefyllfa ariannol enbyd y mae awdurdodau llywodraeth leol ar draws y DU yn ei hwynebu yn ganlyniad i bolisïau llymder Llywodraeth y DU. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi torri'r ffigyrau setliad i lywodraeth leol; mae awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru a Phowys wedi gweld gostyngiad o dros £2.3m yn y gyllideb gan Lywodraeth Cymru tra bod awdurdodau lleol De Cymru wedi gweld cynnydd o £30m yn eu setliad llywodraeth lleol. Nododd hefyd fod cynnydd mewn dyfarniadau tâl staff a phensiynau athrawon a'r cynnydd ym mhraesept yr Awdurdod Tân wedi rhoi pwysau ar y gyllideb. Dywedodd yr Aelod Portffolio nad oes gan yr awdurdod gyllideb o fewn ei gronfeydd wrth gefn i gau'r bwlch yn y diffyg ariannol y mae'r Cyngor yn ei wynebu. Nododd fod y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 wedi adrodd yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 18 Chwefror fod lefel y cronfeydd cyffredinol wedi cyrraedd pwynt tyngedfennol ac na ddylid gadael iddynt ostwng ddim pellach. Dywedodd ymhellach fod yr Archwilydd Cyffredinol yn ei lythyr dyddiedig 5 Chwefror, 2019 i'r Cyngor hwn wedi amlinellu nad yw'n gynaliadwy i ddibynnu ar gronfeydd wrth gefn i gefnogi costau cynyddol y gwasanaethau. O ganlyniad, argymhelliad y Pwyllgor Gwaith i'r Cyngor llawn oedd cynyddu'r Dreth Gyngor 9.5% a fydd yn galluogi'r awdurdod i leihau'r toriadau ariannol i'r gwasanaethau addysg o £1.7m i £626k. Hefyd, os derbynnir cyllid ariannol gan Lywodraeth y DU tuag at ariannu'r cynnydd yn y cyfraniad i bensiynau athrawon (mae'r awdurdod wedi cyllidebu ar gyfer hyn eisoes yn y gyllideb) bydd hanner y swm a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio i ostwng y lleihad i gyllidebau ysgolion ymhellach.

Mynegodd yr Aelod Portffolio Cyllid y bydd cynnydd o 9.5% yn y Dreth Gyngor yn anodd i drigolion Ynys Môn ond dyma'r opsiwn darbodus sydd ar gael yn yr amgylchiadau anodd hyn. Golyga hyn y bydd y Dreth Gyngor gyfartalog i bob cartref yn cynyddu £2 yr wythnos er mwyn gwarchod y gwasanaethau pwysicaf h.y. y gwasanaethau plant, oedolion ac addysg. Fodd bynnag, yn dilyn y cynnydd hwn bydd y Cyngor yn parhau i fod â'r gyfradd treth gyngor isaf ond un yng ngogledd Cymru.

(d) Diwygio'r Gyllideb

Derbyniwyd y gwelliant canlynol i'r Gyllideb gan Grŵp Annibynwyr Môn, ar ôl derbyn rhybudd o hynny o dan Baragraff 4.3.2.2.11 y Cyfansoddiad fel a ganlyn:-

*'Hoffai Grŵp Annibynwyr Môn gynnig cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-2020.*

*Gwneir hyn drwy:-*

- beidio â llenwi swydd wag y Prif Weithredwr Cynorthwyol – arbediad o £100,000;
- gostwng nifer yr Aelodau sydd ar y Pwyllgor Gwaith o 9 i 7 – arbediad o £26,464;
- gohirio adeiladu'r safle i Sipsiwn a Theithwyr yn Star – arbediad o £33,600 yn y Taliadau Cyllido Cyfalaf;

- gostwng y gyllideb ar gyfer y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o ganlyniad i osod Treth Gyngor is na'r un a gynigiwyd gan y Pwyllgor Gwaith – arbediad o £225,000;
- cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor. Byddai hyn yn golygu bod y dreth ar gyfer Band D yn £1,197.18 – cynnydd blynyddol o £56.97;
- cynyddu'r premiwm ar Dai Gwag i 35% yn hytrach na'r 100% a gynigiwyd gan y Pwyllgor Gwaith;
- byddai'r gostyngiad yn y Dreth Gyngor a'r Premiwm ar Gartrefi Gwag yn golygu lleihad o £1,950,449 yn yr arian a geir drwy'r Dreth Gyngor a byddai modd cyllido hynny drwy ostwng gwariant o £385,449 (gweler uchod) trwy ddefnyddio £1m o'r arian wrth gefn sydd wedi'i glustnodi a thrwy ddefnyddio £565,000 o'r balansau cyffredinol;
- os bydd cyllid ychwanegol yn cael ei ryddhau ar gyfer pensiwn, bydd yn cael ei drosglwyddo'n ôl i'r balansau cyffredinol.'

Dywedodd y Cynghorydd Robert Ll Jones, Aelod Portffolio Cysgodol ar gyfer Cyllid, fod y Blaid sydd mewn Grym yn dymuno codi'r Dreth Gyngor yn uwch nag y mae'r Cyngor hwn wedi'i wynebu erioed. Byddai'r gwelliant i'r gyllideb a gynigir gan yr Wrthblaid yn cynnig cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor yn hytrach na'r 9.5% a gynigiwyd gan y Blaid mewn Grym. Dywedodd fod y cyfraddau llog yn isel a dylid cadw unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor o dan y gyfradd chwyddiant. Pwysodd ar y Cyngor i wrthod y gyllideb oedd gerbron y Cyngor llawn.

Eiliodd y Cynghorydd Bryan Owen y gwelliant.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ymateb i'r gwelliant gerbron y Cyngor llawn a gofynnodd a oedd yn cydymffurfio â'r Ddeddf ofynnol wrth osod cyllideb y Dreth Gyngor.

Cyfeiriodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol bod y Cyngor yn sicrhau ei fod yn cynhyrchu cyllideb sy'n ymateb i'r galw a chostau yn y gwasanaethau am y flwyddyn i ddod. Nododd fod y gwelliant a gyflwynwyd gan yr Wrth-blaid yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Dywedodd ymhellach, fel Swyddog Adran 151 fod ganddo ddyletswydd o dan Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003 i wneud asesiad o'r gyllideb ac i adrodd ar gadernid amcangyfrifon y gyllideb a pha mor ddigonol yw'r arian wrth gefn a gynigir. Mae'r asesiad o'r argymhelliad gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 18 Chwefror, 2019 wedi'i gynnwys yn Rhan 6 yr adroddiad sydd gerbron y Cyngor llawn. Mae'r cynnig gan yr Wrthblaid yn lleihau'r gwariant £385k sy'n cyfateb i 0.28% o'r gwariant net. Nid yw'r newid hwn mewn gwariant yn sylweddol ac nid yw'n newid barn y Swyddog Adran 151 ynghylch cadernid y gyllideb a gynigiwyd gan yr Wrthblaid. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Adran 151 wneud asesiad o'r cronfeydd cyffredinol, ac mae hwn wedi'i gynnwys yn Rhan 8 yr adroddiad. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth, yn ei farn broffesiynol ef, fod cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor yn rhy isel ac y dylai'r isafswm balansau fod yn £6.7m. Ar 31 Mawrth, 2019 roedd y balansau cyffredinol yn sefyll ar tua £4.6m sydd dros £2m yn is na'r isafswm sydd wedi'i gyfrifo. Dywedodd y Swyddog ei fod yn derbyn, yn y sefyllfa

ariannol bresennol, nad yw'n bosib cyllidebu ar gyfer unrhyw warged yn y gyllideb er mwyn dod â'r cronfeydd cyffredinol yn ôl i'r lefel ofynnol ac y bydd yn cymryd tua 3 i 5 mlynedd i ddod â'r cronfeydd wrth gefn yn ôl i'r lefel ddisgwyliedig. Mae'r gwelliant i'r gyllideb a gyflwynwyd yn peri lefel o risg i'r cronfeydd cyffredinol a nododd ei fod wedi cael trafodaethau gyda'r Wrthblaid, ac wedi hynny cylchredwyd e-bost ymysg yr Wrthblaid yn amlinellu'r risgiau wrth defnyddio'r cronfeydd cyffredinol; darllenwyd yr e-bost allan i'r Cyngor llawn.

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor i'r gwelliant i'r gyllideb gan yr Wrthblaid mewn perthynas â pheidio llenwi swydd wag y Prif Weithredwr Cynorthwyol – gan arbed £100,000. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd trwy'r Pwyllgor Penodi ynglŷn â swydd wag y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes). Lleihau nifer yr Aelodau ar y Pwyllgor Gwaith o 9 i 7 – gan arbed £26,464. Dywedodd iddi wneud penderfyniad i gynyddu aelodaeth y Pwyllgor Gwaith; mae profiad eang ymysg yr aelodau ac maent o gefndiroedd a phrofiadau gwahanol. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn parhau i ymdrechu i sicrhau cyfleoedd cyflogaeth ar yr ynys. Gohirio adeiladu'r Safle i Sipsiwn a Theithwyr yn Star – gan arbed £33,600 mewn Taliadau Cyllido Cyfalaf. Mae canfod safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr yn ddyletswydd statudol yn Neddf Tai Cymru 2014.

Fe gyfeiriodd Aelod at y cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wynebu o ran ei gyfraniad at bensiynau athrawon, sy'n dod i gyfanswm o £800k. Dywedodd os yw Llywodraeth y DU am gyfrannu tuag at y cynnydd yng nghyfraniad pensiynau athrawon yn Lloegr yna dylai Llywodraeth Cymru roi cyllid i awdurdodau lleol allu ariannu'r cynnydd. Dywedodd ymhellach y dymunai weld plant yr Ynys yn cael yr addysg orau bosib a dywedodd ei fod yn cefnogi argymhelliad y Pwyllgor Gwaith i leihau'r toriadau ariannol i'r gwasanaethau addysg o £1.7m i £626k.

Amlinellodd yr Wrthblaid y materion canlynol mewn perthynas â gosod y gyllideb am 2019/20:-

- Bydd 9.5% yn cael effaith ddifrifol ar drigolion yr Ynys, gyda phobl eisoes yn wynebu cynnydd yn eu biliau ynni;
- Bydd y golled cyflogaeth yn ddiweddar ar yr Ynys yn cael effaith ddifrifol ar y rheini sydd wedi eu heffeithio;
- Mae £9m wedi'i neilltuo o fewn y cronfeydd sydd wedi'u clustnodi – h.y. £620k sydd heb ei ddefnyddio mewn prosiectau TG a dros £1.25m o fewn y cronfeydd yswiriant;
- Dylid rhoi blaenoriaeth i ohirio adeiladu'r safle i Sipsiwn a Theithwyr pan ddaw cyllid ar gael;
- Mae'r blaid sydd mewn grym wedi crybwyll efallai y byddai'r Dreth Gyngor yn cynyddu ar yr un lefel y flwyddyn nesaf hefyd;
- Dylid ailystyried y cynnydd o 100% ar dai gwag gan y bydd hyn yn cael effaith ar gymunedau lleol;
- Cyfeiriwyd at y ffaith fod y gyllideb addysg dros £48m a bod y cyfraniad a dderbynnir gan LlC yn £52m. Petai addysg wedi derbyn y cyfraniad gan LlC yn ei gyfanrwydd ni fyddai angen diogelu cyllideb y gwasanaeth;

- Mae gorwariant wedi parhau yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac y llynedd cafodd 1% o'r cyllid Addysg ei drosglwyddo i gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Dylai'r Cyngor gymryd mantais o gynigion gan gwmnïau llwyddiannus o'r sector preifat ar yr Ynys sydd wedi cynnig eu gwasanaethau i fynychu sesiynau briffio i roi cefnogaeth ac arweiniad;
- Mae angen rheolaeth well a phrydlon o'r modd y caiff asedau'r Cyngor eu gwerthu.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y cyfeiriad a wnaed gan yr Wrthblaid at y cronfeydd sydd wedi'u clustnodi a dywedodd bod rhan o'r arian sydd yn y cronfeydd hyn tuag at gefnogi pobl fregus h.y. mae £100k ar gyfer Cefnogi Pobl yn y cronfeydd sydd wedi'u clustnodi (cefnogaeth yng nghyswllt trais domestig sydd ar gynnydd yn y rhanbarth) – mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi mynegi bod angen i awdurdodau lleol gynyddu adnoddau er mwyn trechu trais domestig, sy'n amcan rhanbarthol; a 100k yn y cronfeydd wedi'u clustnodi ar gyfer y gyllideb Gorfforaethol Pobl Fregus.

Dywedodd yr Arweinydd fod nifer o'r gwasanaethau yn y Cyngor yn wynebu galw cynyddol ar adeg pan fo llai o adnoddau, a neb yn fwy na'r Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gofalu am y bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas.

Yn dilyn trafodaethau pellach, cytunwyd i gynnal pleidlais ar y gwelliant a gynigiwyd i'r gyllideb gan yr Wrthblaid.

Yn unol â pharagraff 4.1.18.4 yn y Cyfansoddiad, gofynnodd yr Wrthblaid am bleidlais gofnodedig ar y gwelliant a gynigiwyd. Nid oedd digon o aelodau wedi gofyn hyn er mwyn cyrraedd y nifer gofynnol i gael pleidlais gofnodedig.

Yn y bleidlais ddilynol, **PENDERFYNWYD peidio cefnogi'r gwelliant i'r gyllideb.**

Dymunai'r Cynghorydd A M Jones iddo gael ei gofnodi bod yr Wrthblaid wedi cynnig bod y Dreth Gyngor yn cael ei chynyddu 5%.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod angen dwyn pwysau ar Lywodraeth Cymru a'r Llywodraeth Ganolog am setliad tecach i lywodraeth leol. Cynigiodd y gyllideb i'r Cyngor a'r argymhellion oedd wedi eu cynnwys yn (a) a (ch) yr adroddiadau. Eiliodd yr Arweinydd y cynnig.

Yn y bleidlais ddilynol, **PENDERFYNWYD :-**

- **Derbyn y cynigion cyllidebol a'r Strategaeth Rheoli Trysorlys fel y'u cyflwynwyd ar gyfer 2019/20;**

- **Derbyn y penderfyniad drafft mewn perthynas â'r Dreth Gyngor fel yr ymddengys yn (ch) yn y Rhaglen:-**

1. **(a)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, i fabwysiadu'r Cynllun Ariannol Tymor Canol yn Adran 11 Cynllun Ariannol Tymor Canol ac Adran 9 y Gyllideb 2019/20, fel Strategaeth Cyllideb oddi mewn i ystyr a roddir yn y Cyfansoddiad, ac i gadarnhau y daw'n rhan o'r fframwaith cyllidebol gyda'r eithriad o'r ffigyrau a ddisgrifir fel rhai cyfredol.

   **(b)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, i fabwysiadu cyllideb refeniw 2019/20 fel y gwelir honno yn Atodiad 4 Cynllun Ariannol Tymor Canol a'r Gyllideb 2019/20.

   **(c)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, i fabwysiadu cyllideb cyfalaf fel y gwelir hwnnw yn yr adroddiad Cyllideb Cyfalaf 2019/20.

   **(ch)** Dirprwyo i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) y pŵer i wneud addasiadau rhwng penawdau yn Atodiad 4 Cynllun Ariannol Tymor Canol a'r Gyllideb 2019/20 er mwyn rhoi effaith i benderfyniadau'r Cyngor.

   **(d)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, ym mlwyddyn ariannol 2019/20, y pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng penawdau fel a ganlyn:-

   **(i)** pwerau dilyffethair i wario pob pennawd cyllidebol unigol yn Atodiad 4 Cynllun Ariannol Tymor Canol a'r Gyllideb 2019/20 yn erbyn pob gwasanaeth unigol, ar y gwasanaeth perthnasol;

   **(ii)** pwerau i gymeradwyo'r defnydd o'r arian wrth gefn clustnodedig a rhai gwasanaeth i gyllido cynigion gwariant unwaith-ac-am-byth sy'n cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cyngor a gwella gwasanaethau;

   **(iii)** pwerau i drosglwyddo o'r ffynonellau incwm newydd neu uwch.

**(dd)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2019/20 ac ar gyngor y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau), y pŵer i ryddhau hyd at £500k o falansau cyffredinol i ddelio gyda blaenoriaethau yn codi yn ystod y flwyddyn.

**(e)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, mewn perthynas â'r cyfnod hyd at 31 Mawrth 2020, y pwerau a ganlyn:-

   **(i)** pwerau i wneud ymrwymiadau newydd o gyllidebau refeniw y dyfodol hyd at y symiau a nodir ar gyfer blaenoriaethau newydd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol;

   **(ii)** y pwerau a'r ddyletswydd i baratoi cynlluniau i gyflawni arbedion cyllidebol refeniw fel yr awgrymir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol;

   **(iii)** pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng prosiectau cyfalaf yn yr adroddiad Cyllideb Cyfalaf 2019/20 ac ymrwymo adnoddau yn y blynyddoedd dilynol gan gydymffurfio gyda'r fframwaith cyllidebol.

**(f)** Pennu a chymeradwyo'r dangosyddion pwyllog a rhai'r trysorlys sy'n amcangyfrifon a therfynau am 2019/20 ymlaen fel sy'n ymddangos yn yr adroddiad Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2019/20.

**(ff)** Cymeradwyo'r Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am 2019/20.

**(g)** Cadarnhau y bydd eitemau 1(b) i (ff) yn dod yn rhan o'r fframwaith cyllidebol.

2. **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2019/20 benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 1998, bod y Cyngor Sir yn pennu lefel y disgownt sy'n gymwys i'r Dosbarth penodedig A a Dosbarth penodedig B o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998, fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Dosbarth Penodedig A | Dim Disgownt |
| Dosbarth Penodedig B | Dim Disgownt |

3. **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2019/20, benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2007 bod y Cyngor Sir yn pennu lefel disgownt sy'n gymwys i Ddosbarth penodedig C o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004, fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Dosbarth Penodedig C | Dim Disgownt |

4. **PENDERFYNWYD** datgymhwyso unrhyw ddisgownt(au) a ganiatawyd i anheddau gwag tymor hir ac anheddau a feddiannir yn achlysurol (a elwir fel arfer yn ail gartrefi) ac i amrywio penderfyniad y Cyngor llawn a wnaed ar 28 Chwefror 2018 a gwneud cais am y flwyddyn ariannol 2019/20 swm uwch o'r Ddreth Gyngor (a elwir yn bremiwm y Dreth Cyngor) o 100% o gyfradd safonol y Dreth Gyngor ar gyfer anheddau gwag hirdymor ac ar gyfer anheddau a feddiannir o bryd i'w gilydd (a elwir fel arfer yn ail gartrefi) i gymhwyso swm uwch o Dreth Gyngor (a elwir yn bremiwm y Dreth Gyngor) o 35% o dan Adrannau 12A a 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 fel y'i mewnosodwyd gan Adran 139 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

5. Nodi bod y Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 1996 wedi penderfynu na fydd yn trin unrhyw gostau yr aiff y Cyngor iddynt mewn rhan o'i ardal nac wrth gyfarfod unrhyw ardoll neu ardoll arbennig fel costau arbennig a bod y penderfyniadau i barhau mewn grym hyd oni fyddant yn cael ei diddymu'n benodol.

6. Y dylid nodi bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 26 Tachwedd 2018 wedi cymeradwyo’r symiau a glandrwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn fel sail y Dreth Gyngor ar gyfer 2019/20 a nodi ymhellach bod y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018 wedi cymeradwyo y bydd y Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor yn lleol yn parhau fel y mae am 2019/20. Nodwyd hefyd fod y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2018 wedi mabwysiadu a chymeradwyo Polisi Dewisol Dreth Gyngor lleol dan Adran 13A Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

7. Yn ei gyfarfod ar 26 Tachwedd 2018, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith, yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor)(Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y’i diwygiwyd gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) a’r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau)(Cymru)(Diwygiad) 2004, a’r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor)(Cymru)(Diwygiad) 2016, gymeradwyo’r symiau a glandrwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn fel ei sail dreth ac ar gyfer rhannau o’r ardal, am y flwyddyn 2019/20, fel a ganlyn:-

**a)** 31,571.46 yw'r swm a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith fel sail y dreth gyngor Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn.

**b)** Y rhannau o ardal y Cyngor, sef y symiau a glandrwyd gan y Pwyllgor Gwaith fel y sail ar gyfer dreth gyngor Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal lle mae un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol, yw fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Amlwch | 1,506.32 |
| Biwmares | 1,095.94 |
| Caergybi | 3,927.52 |
| Llangefni | 1,965.35 |
| Porthaethwy | 1,443.42 |
| Llanddanielfab | 379.48 |
| Llanddona | 400.39 |
| Cwm Cadnant | 1,171.95 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 1,323.32 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 693.04 |
| Bodorgan | 459.96 |
| Llangoed | 663.77 |
| Llangristiolus a Cerrig Ceinwen | 632.10 |
| Llanidan | 421.79 |
| Rhosyr | 1,027.19 |
| Penmynydd | 246.31 |
| Pentraeth | 571.10 |
| Moelfre | 631.10 |
| Llanbadrig | 696.84 |
| Llanddyfnan | 508.21 |
| Llaneilian | 579.31 |
| Llannerch-y-medd | 532.02 |
| Llaneugrad | 185.47 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 1,871.09 |
| Cylch y Garn | 403.68 |
| Mechell | 565.96 |
| Rhos-y-bol | 484.57 |
| Aberffraw | 302.95 |
| Bodedern | 430.87 |

| | |
|---|---|
| Bodffordd | 414.40 |
| Trearddur | 1,303.70 |
| Tref Alaw | 266.72 |
| Llanfachraeth | 231.49 |
| Llanfaelog | 1,298.09 |
| Llanfaethlu | 293.54 |
| Llanfair-yn-Neubwll | 565.06 |
| Valley | 993.83 |
| Bryngwran | 365.99 |
| Rhoscolyn | 360.99 |
| Trewalchmai | 356.63 |

**8.** Bod y symiau a ganlyn bellach yn cael eu pennu gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2019/20, yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:-

**a)** £193,484,077 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2) (a) i (d) y Ddeddf.

**b)** £56,832,650 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3) (a) a (c) y Ddeddf.

**c)** £136,651,427 sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 8(a) uchod a chyfanswm 8(b) uchod, a bennwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) y Ddeddf, yn gyllideb angenrheidiol ar gyfer y flwyddyn.

**ch)** £95,791,012 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i Gronfa'r Cyngor gyda golwg ar drethi annomestig a ail-ddosberthir, grant cynnal refeniw a grant arbennig, gan dynnu unrhyw swm a bennwyd yn unol ag Adran 33(3) y Ddeddf.

**d)** £1,294.22 sef y swm yn 8(c) uchod llai'r swm yn 8(ch) uchod, gan rannu'r cyfan â'r swm a nodir yn 7(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf, sef swm sylfaenol y dreth gyngor am y flwyddyn.

**dd)** £1,441,310 sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) y Ddeddf.

**e)** £1,248.57 sef y swm yn 8(d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 8(dd) uchod â'r swm yn 7(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf, sef swn sylfaenol y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'r ardal lle na fo unrhyw eitem arbennig yn berthnasol.

**f)** **Rhan o Ardal y Cyngor**

| Rhan o Ardal y Cyngor | | D |
|---|---|---|
| Amlwch | £ | 1,314.09 |
| Biwmares | £ | 1,275.48 |
| Caergybi | £ | 1,378.80 |
| Llangefni | £ | 1,328.49 |
| Porthaethwy | £ | 1,315.71 |
| Llanddanielfab | £ | 1,272.24 |
| Llanddona | £ | 1,264.14 |
| Cwm Cadnant | £ | 1,275.39 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 1,283.31 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 1,274.49 |
| Bodorgan | £ | 1,273.50 |
| Llangoed | £ | 1,265.31 |
| Llangristiolus a Cherrig Ceinwen | £ | 1,261.17 |
| Llanidan | £ | 1,272.24 |
| Rhosyr | £ | 1,274.22 |
| Penmynydd | £ | 1,275.93 |
| Pentraeth | £ | 1,274.76 |
| Moelfre | £ | 1,266.75 |
| Llanbadrig | £ | 1,287.27 |
| Llanddyfnan | £ | 1,266.21 |
| Llaneilian | £ | 1,270.53 |
| Llannerch-y-medd | £ | 1,279.53 |
| Llaneugrad | £ | 1,270.08 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 1,276.29 |
| Cylch y Garn | £ | 1,264.86 |
| Mechell | £ | 1,264.86 |
| Rhos-y-bol | £ | 1,264.05 |
| Aberffraw | £ | 1,273.32 |
| Bodedern | £ | 1,271.70 |
| Bodffordd | £ | 1,273.77 |
| Trearddur | £ | 1,275.39 |
| Tref Alaw | £ | 1,273.86 |
| Llanfachraeth | £ | 1,283.40 |
| Llanfaelog | £ | 1,278.18 |
| Llanfaethlu | £ | 1,268.10 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 1,274.22 |
| Y Fali | £ | 1,281.06 |
| Bryngwran | £ | 1,276.38 |
| Rhoscolyn | £ | 1,259.64 |
| Trewalchmai | £ | 1,272.33 |

sef y symiau a geir trwy ychwanegu at y swm a geir yn 8(e) uchod, symiau'r eitem neu'r eitemau arbennig sy'n berthnasol i anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 8(b) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, sef symiau sylfaenol y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

## Valuation Bands

| ff) Rhan o Ardal y Cyngor | | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amlwch | £ | 876.06 | 1,022.07 | 1,168.08 | 1,314.09 | 1,606.11 | 1,898.13 | 2,190.15 | 2,628.18 | 3,066.21 |
| Beaumaris | £ | 850.32 | 992.04 | 1,133.76 | 1,275.48 | 1,558.92 | 1,842.36 | 2,125.80 | 2,550.96 | 2,976.12 |
| Holyhead | £ | 919.20 | 1,072.40 | 1,225.60 | 1,378.80 | 1,685.20 | 1,991.60 | 2,298.00 | 2,757.60 | 3,217.20 |
| Llangefni | £ | 885.66 | 1,033.27 | 1,180.88 | 1,328.49 | 1,623.71 | 1,918.93 | 2,214.15 | 2,656.98 | 3,099.81 |
| Menai Bridge | £ | 877.14 | 1,023.33 | 1,169.52 | 1,315.71 | 1,608.09 | 1,900.47 | 2,192.85 | 2,631.42 | 3,069.99 |
| Llanddaniel-fab | £ | 848.16 | 989.52 | 1,130.88 | 1,272.24 | 1,554.96 | 1,837.68 | 2,120.40 | 2,544.48 | 2,968.56 |
| Llanddona | £ | 842.76 | 983.22 | 1,123.68 | 1,264.14 | 1,545.06 | 1,825.98 | 2,106.90 | 2,528.28 | 2,949.66 |
| Cwm Cadnant | £ | 850.26 | 991.97 | 1,133.68 | 1,275.39 | 1,558.81 | 1,842.23 | 2,125.65 | 2,550.78 | 2,975.91 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 855.54 | 998.13 | 1,140.72 | 1,283.31 | 1,568.49 | 1,853.67 | 2,138.85 | 2,566.62 | 2,994.39 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 849.66 | 991.27 | 1,132.88 | 1,274.49 | 1,557.71 | 1,840.93 | 2,124.15 | 2,548.98 | 2,973.81 |
| Bodorgan | £ | 849.00 | 990.50 | 1,132.00 | 1,273.50 | 1,556.50 | 1,839.50 | 2,122.50 | 2,547.00 | 2,971.50 |
| Llangoed | £ | 843.54 | 984.13 | 1,124.72 | 1,265.31 | 1,546.49 | 1,827.67 | 2,108.85 | 2,530.62 | 2,952.39 |
| Llangristiolus a Cerrig Ceinwen | £ | 840.78 | 980.91 | 1,121.04 | 1,261.17 | 1,541.43 | 1,821.69 | 2,101.95 | 2,522.34 | 2,942.73 |
| Llanidan | £ | 848.16 | 989.52 | 1,130.88 | 1,272.24 | 1,554.96 | 1,837.68 | 2,120.40 | 2,544.48 | 2,968.56 |
| Rhosyr | £ | 849.48 | 991.06 | 1,132.64 | 1,274.22 | 1,557.38 | 1,840.54 | 2,123.70 | 2,548.44 | 2,973.18 |
| Penmynydd | £ | 850.62 | 992.39 | 1,134.16 | 1,275.93 | 1,559.47 | 1,843.01 | 2,126.55 | 2,551.86 | 2,977.17 |
| Pentraeth | £ | 849.84 | 991.48 | 1,133.12 | 1,274.76 | 1,558.04 | 1,841.32 | 2,124.60 | 2,549.52 | 2,974.44 |
| Moelfre | £ | 844.50 | 985.25 | 1,126.00 | 1,266.75 | 1,548.25 | 1,829.75 | 2,111.25 | 2,533.50 | 2,955.75 |
| Llanbadrig | £ | 858.18 | 1,001.21 | 1,144.24 | 1,287.27 | 1,573.33 | 1,859.39 | 2,145.45 | 2,574.54 | 3,003.63 |
| Llanddyfnan | £ | 844.14 | 984.83 | 1,125.52 | 1,266.21 | 1,547.59 | 1,828.97 | 2,110.35 | 2,532.42 | 2,954.49 |
| Llaneilian | £ | 847.02 | 988.19 | 1,129.36 | 1,270.53 | 1,552.87 | 1,835.21 | 2,117.55 | 2,541.06 | 2,964.57 |
| Llanerch-y-medd | £ | 853.02 | 995.19 | 1,137.36 | 1,279.53 | 1,563.87 | 1,848.21 | 2,132.55 | 2,559.06 | 2,985.57 |
| Llaneugrad | £ | 846.72 | 987.84 | 1,128.96 | 1,270.08 | 1,552.32 | 1,834.56 | 2,116.80 | 2,540.16 | 2,963.52 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 850.86 | 992.67 | 1,134.48 | 1,276.29 | 1,559.91 | 1,843.53 | 2,127.15 | 2,552.58 | 2,978.01 |
| Cylch y Garn | £ | 843.24 | 983.78 | 1,124.32 | 1,264.86 | 1,545.94 | 1,827.02 | 2,108.10 | 2,529.72 | 2,951.34 |
| Mechell | £ | 843.24 | 983.78 | 1,124.32 | 1,264.86 | 1,545.94 | 1,827.02 | 2,108.10 | 2,529.72 | 2,951.34 |
| Rhos-y-bol | £ | 842.70 | 983.15 | 1,123.60 | 1,264.05 | 1,544.95 | 1,825.85 | 2,106.75 | 2,528.10 | 2,949.45 |
| Aberffraw | £ | 848.88 | 990.36 | 1,131.84 | 1,273.32 | 1,556.28 | 1,839.24 | 2,122.20 | 2,546.64 | 2,971.08 |
| Bodedern | £ | 847.80 | 989.10 | 1,130.40 | 1,271.70 | 1,554.30 | 1,836.90 | 2,119.50 | 2,543.40 | 2,967.30 |
| Bodffordd | £ | 849.18 | 990.71 | 1,132.24 | 1,273.77 | 1,556.83 | 1,839.89 | 2,122.95 | 2,547.54 | 2,972.13 |
| Trearddur | £ | 850.26 | 991.97 | 1,133.68 | 1,275.39 | 1,558.81 | 1,842.23 | 2,125.65 | 2,550.78 | 2,975.91 |
| Tref Alaw | £ | 849.24 | 990.78 | 1,132.32 | 1,273.86 | 1,556.94 | 1,840.02 | 2,123.10 | 2,547.72 | 2,972.34 |
| Llanfachraeth | £ | 855.60 | 998.20 | 1,140.80 | 1,283.40 | 1,568.60 | 1,853.80 | 2,139.00 | 2,566.80 | 2,994.60 |
| Llanfaelog | £ | 852.12 | 994.14 | 1,136.16 | 1,278.18 | 1,562.22 | 1,846.26 | 2,130.30 | 2,556.36 | 2,982.42 |
| Llanfaethlu | £ | 845.40 | 986.30 | 1,127.20 | 1,268.10 | 1,549.90 | 1,831.70 | 2,113.50 | 2,536.20 | 2,958.90 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 849.48 | 991.06 | 1,132.64 | 1,274.22 | 1,557.38 | 1,840.54 | 2,123.70 | 2,548.44 | 2,973.18 |
| Valley | £ | 854.04 | 996.38 | 1,138.72 | 1,281.06 | 1,565.74 | 1,850.42 | 2,135.10 | 2,562.12 | 2,989.14 |
| Bryngwran | £ | 850.92 | 992.74 | 1,134.56 | 1,276.38 | 1,560.02 | 1,843.66 | 2,127.30 | 2,552.76 | 2,978.22 |
| Rhoscolyn | £ | 839.76 | 979.72 | 1,119.68 | 1,259.64 | 1,539.56 | 1,819.48 | 2,099.40 | 2,519.28 | 2,939.16 |
| Trewalchmai | £ | 848.22 | 989.59 | 1,130.96 | 1,272.33 | 1,555.07 | 1,837.81 | 2,120.55 | 2,544.66 | 2,968.77 |

sef  y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 8(e) a 8(f) uchod a'r rhif sydd, yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5(1) y Ddeddf, yn berthnasol i anheddau a restrir mewn band prisiau arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisiau D, a bennir gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn gyda golwg ar y categorïau o anheddau a restrir yn y gwahanol fandiau prisiau.

**9.** Y dylid nodi, ar gyfer y flwyddyn 2019/20, fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir isod:-

| **Awdurdod Praeseptio** | | **Bandiau Prisiau** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd | £ | 185.40 | 216.30 | 247.20 | 278.10 | 339.90 | 401.70 | 463.50 | 556.20 | 648.90 |

**10.** Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn 8(ff) a 9 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn yn pennu'r symiau a ganlyn ar gyfer y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn 2018/19 ar gyfer pob categori o anheddau a ddangosir isod:-

**Bandiau Prisiau**

| f) Rhan o Ardal y Cyngor | | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amlwch | £ | 1,061.46 | 1,238.37 | 1,415.28 | 1,592.19 | 1,946.01 | 2,299.83 | 2,653.65 | 3,184.38 | 3,715.11 |
| Beaumaris | £ | 1,035.72 | 1,208.34 | 1,380.96 | 1,553.58 | 1,898.82 | 2,244.06 | 2,589.30 | 3,107.16 | 3,625.02 |
| Holyhead | £ | 1,104.60 | 1,288.70 | 1,472.80 | 1,656.90 | 2,025.10 | 2,393.30 | 2,761.50 | 3,313.80 | 3,866.10 |
| Llangefni | £ | 1,071.06 | 1,249.57 | 1,428.08 | 1,606.59 | 1,963.61 | 2,320.63 | 2,677.65 | 3,213.18 | 3,748.71 |
| Menai Bridge | £ | 1,062.54 | 1,239.63 | 1,416.72 | 1,593.81 | 1,947.99 | 2,302.17 | 2,656.35 | 3,187.62 | 3,718.89 |
| Llanddaniel-fab | £ | 1,033.56 | 1,205.82 | 1,378.08 | 1,550.34 | 1,894.86 | 2,239.38 | 2,583.90 | 3,100.68 | 3,617.46 |
| Llanddona | £ | 1,028.16 | 1,199.52 | 1,370.88 | 1,542.24 | 1,884.96 | 2,227.68 | 2,570.40 | 3,084.48 | 3,598.56 |
| Cwm Cadnant | £ | 1,035.66 | 1,208.27 | 1,380.88 | 1,553.49 | 1,898.71 | 2,243.93 | 2,589.15 | 3,106.98 | 3,624.81 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 1,040.94 | 1,214.43 | 1,387.92 | 1,561.41 | 1,908.39 | 2,255.37 | 2,602.35 | 3,122.82 | 3,643.29 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 1,035.06 | 1,207.57 | 1,380.08 | 1,552.59 | 1,897.61 | 2,242.63 | 2,587.65 | 3,105.18 | 3,622.71 |
| Bodorgan | £ | 1,034.40 | 1,206.80 | 1,379.20 | 1,551.60 | 1,896.40 | 2,241.20 | 2,586.00 | 3,103.20 | 3,620.40 |
| Llangoed | £ | 1,028.94 | 1,200.43 | 1,371.92 | 1,543.41 | 1,886.39 | 2,229.37 | 2,572.35 | 3,086.82 | 3,601.29 |
| Llangristiolus & Cerrig Ceinwen | £ | 1,026.18 | 1,197.21 | 1,368.24 | 1,539.27 | 1,881.33 | 2,223.39 | 2,565.45 | 3,078.54 | 3,591.63 |
| Llanidan | £ | 1,033.56 | 1,205.82 | 1,378.08 | 1,550.34 | 1,894.86 | 2,239.38 | 2,583.90 | 3,100.68 | 3,617.46 |
| Rhosyr | £ | 1,034.88 | 1,207.36 | 1,379.84 | 1,552.32 | 1,897.28 | 2,242.24 | 2,587.20 | 3,104.64 | 3,622.08 |
| Penmynydd | £ | 1,036.02 | 1,208.69 | 1,381.36 | 1,554.03 | 1,899.37 | 2,244.71 | 2,590.05 | 3,108.06 | 3,626.07 |
| Pentraeth | £ | 1,035.24 | 1,207.78 | 1,380.32 | 1,552.86 | 1,897.94 | 2,243.02 | 2,588.10 | 3,105.72 | 3,623.34 |
| Moelfre | £ | 1,029.90 | 1,201.55 | 1,373.20 | 1,544.85 | 1,888.15 | 2,231.45 | 2,574.75 | 3,089.70 | 3,604.65 |
| Llanbadrig | £ | 1,043.58 | 1,217.51 | 1,391.44 | 1,565.37 | 1,913.23 | 2,261.09 | 2,608.95 | 3,130.74 | 3,652.53 |
| Llanddyfnan | £ | 1,029.54 | 1,201.13 | 1,372.72 | 1,544.31 | 1,887.49 | 2,230.67 | 2,573.85 | 3,088.62 | 3,603.39 |
| Llaneilian | £ | 1,032.42 | 1,204.49 | 1,376.56 | 1,548.63 | 1,892.77 | 2,236.91 | 2,581.05 | 3,097.26 | 3,613.47 |
| Llanerch-y-medd | £ | 1,038.42 | 1,211.49 | 1,384.56 | 1,557.63 | 1,903.77 | 2,249.91 | 2,596.05 | 3,115.26 | 3,634.47 |
| Llaneugrad | £ | 1,032.12 | 1,204.14 | 1,376.16 | 1,548.18 | 1,892.22 | 2,236.26 | 2,580.30 | 3,096.36 | 3,612.42 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 1,036.26 | 1,208.97 | 1,381.68 | 1,554.39 | 1,899.81 | 2,245.23 | 2,590.65 | 3,108.78 | 3,626.91 |
| Cylch y Garn | £ | 1,028.64 | 1,200.08 | 1,371.52 | 1,542.96 | 1,885.84 | 2,228.72 | 2,571.60 | 3,085.92 | 3,600.24 |
| Mechell | £ | 1,028.64 | 1,200.08 | 1,371.52 | 1,542.96 | 1,885.84 | 2,228.72 | 2,571.60 | 3,085.92 | 3,600.24 |
| Rhos-y-bol | £ | 1,028.10 | 1,199.45 | 1,370.80 | 1,542.15 | 1,884.85 | 2,227.55 | 2,570.25 | 3,084.30 | 3,598.35 |
| Aberffraw | £ | 1,034.28 | 1,206.66 | 1,379.04 | 1,551.42 | 1,896.18 | 2,240.94 | 2,585.70 | 3,102.84 | 3,619.98 |
| Bodedern | £ | 1,033.20 | 1,205.40 | 1,377.60 | 1,549.80 | 1,894.20 | 2,238.60 | 2,583.00 | 3,099.60 | 3,616.20 |
| Bodffordd | £ | 1,034.58 | 1,207.01 | 1,379.44 | 1,551.87 | 1,896.73 | 2,241.59 | 2,586.45 | 3,103.74 | 3,621.03 |
| Trearddur | £ | 1,035.66 | 1,208.27 | 1,380.88 | 1,553.49 | 1,898.71 | 2,243.93 | 2,589.15 | 3,106.98 | 3,624.81 |
| Tref Alaw | £ | 1,034.64 | 1,207.08 | 1,379.52 | 1,551.96 | 1,896.84 | 2,241.72 | 2,586.60 | 3,103.92 | 3,621.24 |
| Llanfachraeth | £ | 1,041.00 | 1,214.50 | 1,388.00 | 1,561.50 | 1,908.50 | 2,255.50 | 2,602.50 | 3,123.00 | 3,643.50 |
| Llanfaelog | £ | 1,037.52 | 1,210.44 | 1,383.36 | 1,556.28 | 1,902.12 | 2,247.96 | 2,593.80 | 3,112.56 | 3,631.32 |
| Llanfaethlu | £ | 1,030.80 | 1,202.60 | 1,374.40 | 1,546.20 | 1,889.80 | 2,233.40 | 2,577.00 | 3,092.40 | 3,607.80 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 1,034.88 | 1,207.36 | 1,379.84 | 1,552.32 | 1,897.28 | 2,242.24 | 2,587.20 | 3,104.64 | 3,622.08 |
| Valley | £ | 1,039.44 | 1,212.68 | 1,385.92 | 1,559.16 | 1,905.64 | 2,252.12 | 2,598.60 | 3,118.32 | 3,638.04 |
| Bryngwran | £ | 1,036.32 | 1,209.04 | 1,381.76 | 1,554.48 | 1,899.92 | 2,245.36 | 2,590.80 | 3,108.96 | 3,627.12 |
| Rhoscolyn | £ | 1,025.16 | 1,196.02 | 1,366.88 | 1,537.74 | 1,879.46 | 2,221.18 | 2,562.90 | 3,075.48 | 3,588.06 |
| Trewalchmai | £ | 1,033.62 | 1,205.89 | 1,378.16 | 1,550.43 | 1,894.97 | 2,239.51 | 2,584.05 | 3,100.86 | 3,617.67 |

***Amlygodd y Cadeirydd ar y pwynt hwn fod y Pwyllgor wedi bod yn rhedeg am dair awr bellach, ac o dan ddarpariaeth paragraff 4.1.10 Cyfansoddiad y Cyngor, roedd rhaid cael penderfyniad gan fwyafrif yr Aelodau o'r Pwyllgor oedd yn bresennol i barhau gyda'r cyfarfod. Penderfynwyd y dylai'r cyfarfod barhau.***

## 8. ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN – RHEOLI TRYSORLYS 2018/19

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn ymgorffori adolygiad o'r sefyllfa canol blwyddyn yng nghyswllt y gweithgaredd rheoli trysorlys, er mwyn i'r Cyngor ei dderbyn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr Adroddiad Adolygiad Canol Blwyddyn ar Reoli Trysorlys 2018/19.**

**9. NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD: 4.5 RHEOLAU GWEITHDREFN SGRIWTINI - 4.5.4 CYNRYCHIOLWYR ADDYSG**

Cyflwynodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol i'r Cyngor adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro oedd yn cynnwys newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor:-**

- **yn cytuno i dynnu'r gofyniad i gael 'un cynrychiolydd o gredoau neu enwadau eraill' ar Bwyllgor Sgriwtini pan fydd yn delio â materion Addysg (h.y. pan fydd yn cyfarfod fel Pwyllgor Sgriwtini Awdurdod Addysg Lleol) fel sydd wedi'i gynnwys ar hyn o bryd ym mharagraff 4.5.4.4 y Cyfansoddiad (fel a ddangosir yn ATODIAD 1), fel bod paragraff 4.5.4 yn darllen fel yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn ATODIAD 2 yr adroddiad;**
- **yn awdurdodi Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro y Cyngor i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r ffaith fod y gofyniad a nodir uchod wedi'i dynnu.**

**10. DATGANIAD POLISI TÂL 2019**

Cyflwynodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol adroddiad y Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol a Thrawsnewid mewn perthynas â'r uchod, i'r Cyngor.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol, o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 bod rhaid i awdurdodau gynhyrchu a chyhoeddi polisi tâl ar bob agwedd o Dâl Prif Swyddogion.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2019.**

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| CYFARFOD: | CYNGOR SIR |
| DYDDIAD: | 14 MAI 2019 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | Adroddiad Blynyddol Arweinydd y Cyngor |
| ADRODDIAD GAN: | Arweinydd y Cyngor |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | Adrodd ar waith yn ystod 2018/19 |

**Rhagair**

Dyma fy ail adroddiad blynyddol fel Arweinydd y Cyngor. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cael ei gyflwyno ar yr un fformat â llynedd a hynny er mwyn sicrhau cysondeb ac er mwyn adrodd ar gynnydd yn erbyn Maniffesto y Glymblaid.

Dyma oedd yn Maniffesto y Grŵp 2017 –

Yn etholiad 2013, addewid ymgeiswyr Plaid Cymru i bobl Môn oedd eu bod am 'Adfer Enw Da Môn'. Mae Cynghorwyr Plaid Cymru a'r Cynghorwyr Annibynnol wedi cydweithio yn effeithiol dros y pedair blynedd ddiwethaf ac am adeiladu ar y llwyddiant yma.

Mae aeddfedrwydd gwleidyddol wedi datblygu dros y 4 mlynedd ddiwethaf ac mae'n darparu sylfaen gadarn i Gyngor Ynys Môn wrth i ni gychwyn ar y cyfnod nesaf. Mae'r aelodau sy'n dod at ei gilydd wedi profi bod y gallu ganddynt i roi sefydlogrwydd gwleidyddol sydd yn hanfodol er mwyn llywodraethu yn effeithiol.

Beth ydym wedi ei wneud?

Rydym wedi parhau i weithio yn yr un modd â'r Cyngor blaenorol gan gadw pob protocol yr un fath er mwyn sicrhau cyfle teg i bob cynghorydd.

Mae datblygiad Wylfa Newydd ag agweddau positif i'n hieuenctid a dyfodol teuluoedd Ynys Môn, gyda hyd at 800 o swyddi parhaol. Ond nid ydym yn derbyn y datblygiad hwn ar unrhyw gost. Rydym am amddiffyn buddiannau Ynys Môn a sicrhau bod unrhyw sgil effeithiau ar ein cymunedau o ganlyniad i'r datblygiad yn cael eu lliniaru gan y datblygwyr. Mae cymunedau cryf a llewyrchus yn nod gennym.

Beth ydym wedi ei wneud?

Mae newyddion diweddar ynghylch gohiriad proisect Wylfa Newydd wedi amlygu pwysigrwydd y datblygiad. Er y newyddion hyn, rydym wedi parhau i weithio er lles Ynys Môn gan gymryd rhan yn y broses cgnllunio a chyflwyno tystiolaeth i warchod buddiannau'r Ynys gyda'r cytundeb 106 yn dystiolaeth o'n cyflawniad o ran lliniaru. Rydym yn parhau i bwyso ar y llywodraethau yng Nghaerddydd a Llundain i wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau datblygiad Wylfa Newydd.

Mae’r gwaith Cynllunio Lle wedi symud ymlaen gryn dipyn mewn cydweithrediad â Medrwn Môn. Mae’r ardaloedd cychwynnol wedi dechrau ar y gwaith o adnabod eu blaenoriaethau er mwyn creu cymunedau cryf a llewyrchus. Rwyf yn ddiolchgar iawn i’r ardaloedd am eu cefnogaeth.

Rydym yn wynebu toriadau sylweddol i gyllideb yr awdurdod ac mae cynnal gwasanaethau am fod yn heriol. Byddwn yn gyrru'r agenda trawsnewid yn ei blaen er mwyn amddiffyn ein gwasanaethau rheng flaen.

Beth ydym wedi ei wneud?

Rydym wedi cytuno ar gyllideb 19/20, ond mae’n bwysig nodi nad oedd hon yn broses hawdd gan fod y pwysau ariannol ar y Cyngor yn fwy heriol nag erioed gyda Gwasanaethau’r Cymdeithasol ac Addysg yn gorwario eto eleni.

Mae trawsnewid gwasanaethau wedi parhau yn flaenoriaeth ac mae’n bosib bellach i drigolion Ynys Môn wneud mwy o ddefnydd o’r we wrth ddelio gyda’r Cyngor e.e. talu biliau, cysylltu gydag adrannau unigol.

**Addysg**

Rwy’n siŵr i chi gofio ein bod fel Clymblaid yn llwyr gredu bod pob plentyn a pherson ifanc yn Ynys Môn yn haeddu'r cyfle gorau i gyrraedd eu potensial llawn -

*Rydym eisiau parhau i fuddsoddi mewn ysgolion newydd er mwyn sicrhau'r cyfleusterau gorau i addysgu ein plant.

Beth ydym wedi ei wneud?

Agorwyd Ysgol Santes Dwynwen sydd yn ddatblygiad cyffrous i’r ardal. Rydym wedi cychwyn y drafodaeth ar ddyfodol addysg ôl-16. Rydym wedi diweddaru’r Strategaeth Moderneiddio Addysg sydd yn cyd-fynd â dyhead y glymblaid i hyrwyddo moderneiddio er lles addysg plant Ynys Môn ac er mwyn rhoi cyfle cyfartal i bawb.

*Rydym am gefnogi’n Athrawon a'n Prifathrawon er mwyn sicrhau'r safonau gorau i blant Môn.

Beth ydym wedi ei wneud?

Rydym yn cydweithio gyda GwE, Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau eraill er mwyn sicrhau’r cyfleoedd gorau i’n Hathrawon a’n Prifathrawon. Eleni, cafwyd adroddiadau da gan Estyn ar ein hysgolion ac nid oes yr un ysgol ‘goch’ ym Môn.

*Rydym eisiau cydweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod ein pobl ifanc yn meithrin sgiliau gwaith hanfodol.

Beth ydym wedi ei wneud?

Rydym wedi parhau i gydweithio’n effeithiol gyda’n partneriaid. Mae’r Deilydd Portffolio wedi ymrwymo yn llwyr i sicrhau bod gan Ynys Môn lais cryf mewn unrhyw drafodaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol gyda’r holl bartneriaethau. Rydym

wedi cefnogi cynlluniau Grŵp Llandrillo Menai i ddatblygu adnoddau STEM a Sgiliau ar y safle yn Llangefni.

**Gofal**

Mae Gofal Cymdeithasol o dan straen barhaol yn ein cymunedau. Rydym o'r farn bod angen cydweithio a chryfhau agweddau o'r gwaith er mwyn ymateb i'r galw -

* Cydweithio â'r Gwasanaeth Iechyd mewn ffyrdd adeiladol i sicrhau bod cyfle gan bob unigolyn i fyw bywyd annibynnol yn eu cymunedau.

Beth ydym wedi ei wneud?

Rydym bellach wedi cychwyn gyda'r cytundeb Gofal Cartref sydd yn cael effaith bositif o ran cael unigolion adra o'r ysbyty. Mae'r swyddogion clystyrau wedi cychwyn ar eu gwaith yma ym Môn - swyddi ar y cyd yw'r rhain hwng y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor er mwyn hybu annibyniaeth yn y gymuned. Rydym wedi cydweithio yn rhanbarthol ar gynlluniau Cymru Iachach er mwyn cael adnodd ychwanegol i Fôn.

* Cryfhau gwasanaeth cymorth i deuluoedd sydd ei angen.

Beth ydym wedi ei wneud?

Rydym wedi derbyn adroddiad cadarnhaol gan Arolygiaeth Gofal Cymru [CIW] sydd yn dyst i welliant sylweddol yn y Gwasanaeth Plant. Rydym o'r farn bod y Gwasanaeth mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau cyfredol.

Mae Teulu Môn wedi ei adnabod yn genedlaethol fel arfer da i wasanaethu teuluoedd. Rydym wedi sicrhau arian Teuluoedd Gwydn yn barhaol gan fod y gefnogaeth hon wedi darparu amodau da i sicrhau y gall teuluoedd lwyddo ac er mwyn atal plant rhag dod i mewn i ofal.

Mae nifer o Hybiau newydd wedi cychwyn yn y gymuned er mwyn ymateb i'r anghenion lleol.

* Cydweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau cartrefi addas i'n hoedolion hŷn.

Beth ydym wedi ei wneud?

Rydym wedi agor Hafan Cefni yn Llangefni sydd wedi rhoi cyfle i bobl gael byw yn annibynnol gyda chefnogaeth a chyfleusterau sydd yn cyfoethogi eu bywydau. Mae'r Adran Tai a'r Gwasanaeth Oedolion wedi cydweithio ar gynllun Maes William Williams yn Amlwch i greu cyfleuster cymunedol er mwyn darparu hyb ar gyfer oedolion yn yr ardal.

* Sicrhau cefnogaeth i ofalwyr sydd yn gofalu am deulu neu

ffrindiau Beth ydym wedi ei wneud?

Parhau i gydweithio yn agos iawn gyda'n partneriaid i sicrhau'r gefnogaeth angenrheidiol i'n gofalwyr drwy Bartneriaeth Môn a Gwynedd. Rydym hefyd

yn manteisio ar gynlluniau Rhanbarthol drwy’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sydd yn cefnogi gofalwyr. Rydym wedi derbyn mwy o geisiadau am daliadau uniongyrchol er mwyn rhoi hyblygrwydd i deuluoedd gael gofal annibynnol. Rydym yn annog gofalwyr i ofyn am gefnogaeth.

**Tai**

Mae’r grŵp yn credu bod gan bawb yr hawl i gartref addas -

* Parhau i ymateb i'r angen am dai, trwy adeiladu ein tai cymdeithasol ein hunain a chynyddu’r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy i'n pobl ifanc.

Beth ydym wedi ei wneud?

Bellach rydym wedi cychwyn datblygu tai Cyngor yng Nghaergybi a Moelfre. Mae gennym gynlluniau ar gyfer nifer o ardaloedd eraill ym Môn. Rydym wedi prynu nifer o dai yn ôl i berchnogaeth y Cyngor.

Cafwyd adroddiad cadarnhaol gan Swyddfa Archwilio Cymru am y gwasanaeth.

* Sicrhau bod tai gwag yn dod yn ôl i ddefnydd er mwyn ymateb i'r angen am dai.

Beth ydym wedi ei wneud?

Rydym wedi cydweithio gyda pherchnogion tai gwag er mwyn eu gwneud yn gartrefi unwaith yn rhagor. Bydd y gwaith yma’n parhau.

* Sicrhau cefnogaeth i brynwyr cyntaf drwy ddefnyddio premiwm y dreth

gyngor.

Beth ydym wedi ei wneud?

Rydym wedi rhoi mwy o arian yn y cynllun er mwyn rhoi cyfle i fwy o bobl ifanc yma ym Môn. Mae gennym dystiolaeth o’r effaith bositif y mae’r cynllun yma wedi ei gael ar bobl ifanc i sefydlu eu cartref cyntaf.

**Yr Economi/Gwaith**

Mae economi a gwaith yn hanfodol er mwyn cadw ein hieuenctid yn Ynys Môn. Rydym yn credu y gallwn wneud hynny drwy -

* Sicrhau budd i fusnesau lleol yn sgil unrhyw brosiect mawr.

Beth ydym wedi ei wneud?

Rydym wedi parhau i bwysleisio pwysigrwydd busnesau lleol ym mhob trafodaeth yr ydym wedi ei chael gyda chwmnïau mawr ac mewn trafodaethau economaidd rhanbarthol.

* Cefnogi busnesau lleol i allu ceisio am gytundebau'r Cyngor.

Beth ydym wedi ei wneud?

Rydym wedi sicrhau cytundebau i gwmnïau lleol dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi cynnal digwyddiadau cyfarfod y prynwr er mwyn rhoi cyfle i gefnogi busnesau lleol i weithio gyda'r Cyngor.

* Hyrwyddo a chreu cyfleoedd i bobl ifanc gyda phrentisiaethau.

Beth ydym wedi ei wneud?

Cafodd nifer o bobl ifanc y cyfle i weithio i'r Cyngor dros yr haf diwethaf fel rhan o'r cynllun Denu Talent gyda rhai o'r rhain yn mynd ymlaen i weithio i'r Cyngor. Rydym wedi cefnogi i'r cynllun hwn barhau y flwyddyn nesaf.

**Gwarchod yr amgylchedd**

Mae Ynys Môn yn unigryw oherwydd yr amgylchedd naturiol sydd o'i chwmpas. Rydym am -

* Barhau i frwydro yn erbyn y peilonau.

Beth ydym wedi ei wneud?

Rydym wedi parhau i fynegi barn gadarn y Cyngor drwy gyflwyno dadleuon cryf yn erbyn peilonau, cael trafodaethau mewnol ac allanol a chefnogi grwpiau lleol yn eu brwydr yn erbyn y peilonau.

* Amddiffyn amgylchedd naturiol Môn, sydd mor allweddol i'r sector ywristiaeth.

Beth ydym wedi ei wneud?

Rydym wedi creu canllawiau cynllunio atodol er mwyn sicrhau'r gorau i anghenion Ynys Môn. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei fonitro yn flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'n cymuned. Rydym wedi llwyddo i ariannu gwaith amgylcheddol Craig y Don yn Amlwch. Mae'r gwaith yng Nghemaes o ran ansawdd y dŵr môr wedi bod yn llwyddiannus eleni sydd yn newyddion da i'r ardal. Cydweithio gyda CNC i wella'n prosesau amddiffyn rhag llifogydd.

* Sicrhau ein bod yn cyrraedd targedau ailgylchu.

Beth ydym wedi ei wneud?

Eleni, Ynys Môn oedd yr awdurdod gorau yng Nghymru gyda 72% o'n gwastraff yn cael ei ailgylchu.

**I Gloi**

Dwi eisiau diolch i'r holl bartneriaid sydd wedi cydweithio gyda'r Cyngor eleni er mwyn sicrhau'r gorau i bobl Ynys Môn. Diolch i'r staff am wasanaethu pobl Ynys

Môn a hefyd diolch i fy nghyd-gynghorwyr am eu cefnogaeth ac ymrwymiad i sicrhau bod Cyngor Môn yn llwyddo.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **14 MAI 2019** |
| **PWNC:** | **STRATEGAETH GYFALAF A RHAGLEN GYFALAF 2019/20 i 2021/22** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES – PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES/CLAIRE KLIMASZEWSKI**<br>**2601/1865**<br>**rmjfi@ynysmon.gov.uk/clkfi@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A - Argymhellion a rhesymau**

Mae'r Côd Darbodus diwygiedig gan CIPFA, Medi 2017 wedi cyflwyno'r gofyniad bod rhaid i bob awdurdod gynhyrchu strategaeth gyfalaf. Mae'n rhaid i'r strategaeth hon osod allan y cyd-destun tymor hir lle caiff penderfyniadau ar wariant a buddsoddiadau cyfalaf eu gwneud. Diben y gofyniad hwn yw sicrhau bod awdurdodau yn gwneud penderfyniadau cyfalaf a buddsoddiadau yn unol ag amcanion y gwasanaethau a'u bod yn rhoi ystyriaeth wirioneddol i stiwardiaeth, gwerth am arian, doethineb ariannol, cynaladwyedd a fforddiadwyedd.

Mae'r Awdurdod mewn sefyllfa dda o ran hyn gan fod y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ers 2016/17, wedi cynhyrchu Strategaeth Gorfforaethol gadarn i arwain y Rhaglen Gyfalaf. Mae'r strategaeth hon wedi cael ei hymestyn i gynnwys y gofynion newydd a gyflwynir gan y côd (y rhai nad oedd yn eu hymgorffori eisoes).

**Argymhellion**

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn argymell y canlynol i'r Cyngor llawn :-

- Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2019/20 – 2021/22;

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

D/B

**C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r cyfrifoldeb am benderfynu ar strategaeth cyllideb y Cyngor wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - Ydi'r penderfyniad hwn yn unol â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - Ydi'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

D/B

| **DD - Pwy wnaethoch chi ymgynghori â nhw?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Sylwadau wedi eu cynnwys yn adroddiad Cyllideb Cyfalaf 2019/20 a dderbyniwyd gan y Cyngor llawn ar 27 Chwefror 2019 |
| **2** | **Cyllid / Adran 151 (mandadol)** | D/B – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)** | I'w gadarnhau |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |
| **F -** | **Atodiadau:** | |

Atodiad 1 – Strategaeth Gyfalaf 2019/20 to 2021/22
Atodiad 2 – Crynodeb o’r Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig Ddrafft 2019/20 i 2021/22

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19, y Pwyllgor Gwaith, Chwefror 2018
Cynllun Ariannol Tymor Canol 2019/20 i 2021/22, y Pwyllgor Gwaith, Chwefror 2018
Adroddiad ar y Raglen Gyfalaf Ddrafft 2019/20, y Pwyllgor Gwaith, 12 Tachwedd 2018
Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2019/20, y Pwyllgor Gwaith, Chwefror 2019
Adroddiad ar Raglen Gyfalaf 2019/20, y Pwyllgor Gwaith, 18 Chwefror 2019

**ATODIAD 1**

# Strategaeth Gyfalaf 2019/20 i 2021/22








# Cyngor Sir Ynys Môn
# Strategaeth Gyfalaf 2019/20 i 2021/22

## 1. Cyflwyniad

**1.1.** Mae Rhan 1, Adran 3 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn bod yr Awdurdod yn penderfynu ac yn parhau i adolygu faint y gall fforddio ei fenthyca. Caiff y Ddeddf ei chefnogi gan y Fframwaith Darbodus ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf awdurdodau lleol a Chôd Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Côd). Cafodd Côd Darbodus CIPFA ei ddiwygio yn 2017/18. Roedd y Côd diwygiedig yn cyflwyno gofyniad newydd bod rhaid i bob awdurdod gynhyrchu strategaeth gyfalaf, sy'n gosod allan y cyd-destun tymor hir lle caiff penderfyniadau ar wariant cyfalaf a buddsoddiadau eu gwneud. Mae'n rhaid i awdurdodau roi ystyriaeth ddyledus i risgiau ac enillion ac effaith hynny ar gyflawni deilliannau blaenoriaeth. Roedd CIPFA hefyd wedi diwygio'r Cod Ymarfer ar Reoli Trysorlys ar yr un pryd. Mae'r Strategaeth Gyfalaf hon ar gyfer 2019/20 yn cwrdd â gofynion Cod Darbodus CIPFA 2017, yn cyd-fynd â Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor 2019/20 ac mae'n cymryd i ystyriaeth Gôd Rheoli Trysorlys CIPFA 2017.

**1.2.** Diben y strategaeth hon yw sefydlu'r amcanion, egwyddorion a'r fframwaith llywodraethu i sicrhau bod yr Awdurdod yn gwneud penderfyniadau ar wariant a buddsoddiad cyfalaf yn unol ag amcanion y gwasanaeth. Mae Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn 2017/22 yn amlinellu blaenoriaethau ac amcanion allweddol y Cyngor am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2022. Egwyddor hanfodol yn y Strategaeth yw canolbwyntio buddsoddiadau cyfalaf ar brosiectau sy'n helpu'r Cyngor i gwrdd â'r amcanion allweddol a ganlyn yn Nghynllun y Cyngor neu'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol:-

**Amcan 1:** Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir.

**Amcan 2:** Cefnogi oedolion bregus a'u teuluoedd i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib.

**Amcan 3:** Gweithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau i sicrhau y gallant ymdopi'n effeithiol gyda newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol.

**1.3** Mae'r strategaeth hon hefyd yn adnabod y gwariant cyfalaf posib yn y dyfodol, yn asesu'r effaith ar yr elfen cyllido cyfalaf o'r cyfrif refeniw ac yn pennu'r cyllid sydd ar gael i gyllido cynlluniau cyfalaf newydd am y cyfnod 2019/20 i 2021/22. Mae hefyd yn sefydlu egwyddorion tymor hir i gefnogi cynllunio cyfalaf ymhell i'r dyfodol. Mae trefn lywodraethu'r strategaeth hon yn dilyn yr un broses â'r prosesau gosod refeniw a'r gyllideb a bydd yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith, a fydd yn gwneud argymhellion i'r Cyngor Llawn ar gyfer ei chymeradwyo.

## 2. Amcanion ac Egwyddorion y Strategaeth Gyfalaf

**2.1** Mae gan y Strategaeth Gyfalaf nifer o amcanion allweddol i sicrhau bod gwariant cyfalaf yn cael ei dargedu at gwrdd â blaenoriaethau allweddol y Cyngor, gan hefyd roi ystyriaeth i stiwardiaeth, gwerth am arian, doethineb ariannol, cynaladwyedd a fforddiadwyedd.

**2.1.1** Mae Cynllun y Cyngor 2017/22 yn gosod allan blaenoriaethau ac amcanion allweddol y Cyngor hyd at 31 Mawrth 2022 a dylid canolbwyntio adnoddau ar gyflawni'r amcanion hyn. Bydd y strategaeth gyfalaf hon yn gymorth i sicrhau y bydd y rhaglen gyfalaf yn canolbwyntio gwariant cyfalaf ar brosiectau sy'n cyfrannu fwyaf at yr amcanion allweddol yng Nghynllun y Cyngor 2017/22.

**2.1.2** Bob blwyddyn bydd gwariant cyfalaf yn cael ei ddyrannu i sicrhau buddsoddiad mewn asedau presennol.

**2.1.3** Bydd y Cyngor yn gwneud y mwyaf o gyllid cyfalaf allanol pan fo hynny'n bosib ac yn fforddiadwy.

**2.1.4** Bydd cyllido cyfalaf hefyd yn cael ei flaenoriaethu ar asedau sydd eu hangen i helpu'r Cyngor gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

**2.1.5** Mae'r Cyngor yn dal i fod yn ymroddedig i'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif a bydd yn parhau i wneud defnydd llawn o'r cyllid allanol sydd ar gael trwy'r Rhaglen.

**2.2** Bydd yr egwyddorion a ganlyn yn helpu i gefnogi bod yr amcanion allweddol uchod yn cael eu cyflawni:-

**2.2.1** Bod y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn cael ei hystyried ar wahân i weddill rhaglen gyfalaf gyffredinol y Cyngor. Mae'r rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn ymroddiad sylweddol tymor hir i adeiladu a/neu adnewyddu ysgolion fel bod ysgolion Môn yn addas i bara i'r dyfodol a chwrdd â gofynion yr 21ain Ganrif. Mae'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn cynorthwyo'r agenda moderneiddio ysgolion ac yn cefnogi amcan allweddol y Cyngor i sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir. Mae'r egwyddor hon hefyd yn cwrdd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i sicrhau bod lleoliadau addysgol yn addas yn y tymor hir. Bydd elfen o'r gwariant ar y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn cael ei gyllido o'r derbyniadau cyfalaf a geir o werthu ysgolion gwag, a bydd gweddill y balans yn cael ei gyllido o fenthyca digefnogaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod y grant cyffredinol cyfalaf a'r benthyca â chefnogaeth ar gael i gyllido buddsoddiadau mewn asedau presennol a newydd sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion yng Nghynllun y Cyngor 2017/22 ac yn sicrhau bod asedau presennol y Cyngor yn cael eu cynnal a'u cadw.

**2.2.2** Bod swm yn cael ei ddyrannu yn y rhaglen gyfalaf bob blwyddyn i gyllido gwelliannau mawr i, neu i amnewid, offer TG presennol, cerbydau ac adeiladau'r Cyngor. Mae gwneud gwaith cynnal a chadw parhaus ar asedau presennol ac amnewid hen asedau yn lleihau costau refeniw i'r Cyngor.

**2.2.3** Bod swm yn cael ei ddyrannu yn y rhaglen gyfalaf i gwrdd â gofyniad statudol y Cyngor i gynnig grantiau cyfleusterau i'r anabl. Mae hyn yn helpu i gyflawni cyfrifoldebau statudol ac yn cefnogi amcan allweddol y Cyngor i gefnogi oedolion bregus a'u teuluoedd i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib.

**2.2.4** Bod lefel o waith gwelliannau ffyrdd yn cael ei gyllido o'r rhaglen gyfalaf bob blwyddyn. Bydd y swm a ddyrennir yn ddibynnol ar y cyllid sydd ei angen i gyflawni unrhyw warantau gwerth isafswm contractau, lefel y cyllid sydd ar gael ac asesiad o gyflwr ffyrdd yr Awdurdod. Bydd gwelliannau i'r ffyrdd yn helpu'r Cyngor i sicrhau bod y rhwydwaith priffyrdd yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Mae hefyd yn tanategu holl flaenoriaethau allweddol y Cyngor oherwydd natur wledig Ynys Môn a phwysigrwydd y rhwydwaith priffyrdd i sawl agwedd o waith y Cyngor.

**2.2.5** Bydd prosiectau sydd angen lefel o gyllid cyfatebol er mwyn gallu cael cyllid grant, yn cael eu hasesu fesul pob achos unigol gan y Swyddog Adran 151 a bydd wedyn yn gwneud argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith. Bydd y penderfyniad i ymrwymo cyllid ai peidio yn ddibynnol ar y prosiect, sut mae'n ffitio i flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, unrhyw oblygiadau refeniw sy'n parhau a'r gymhareb o gyllid y Cyngor i'r cyllid grant.

**2.2.6** Bydd prosiectau a gyllidir o fenthyca digefnogaeth, ac eithrio prosiectau'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, ond yn cael eu cyflawni os yw'r gostyngiad mewn costau refeniw neu'r incwm uwch a gynhyrchir yn ddigon i gwrdd â'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol a grëir. Dylai unrhyw asedau a gyllidir trwy fenthyca digefnogaeth fod yn greiddiol i gyflawni blaenoriaethau allweddol y Cyngor.

## 3. Sut mae'r Strategaeth yn ffitio gyda dogfennau eraill

### 3.1 Cynllun y Cyngor 2017/22

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n amlinellu'r hyn mae'r Cyngor yn gobeithio ei gyflawni yn ystod y cyfnod 2017/22. Mae'r blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor wedi'u crynhoi uchod yn 1.2. Amcan allweddol yn y Strategaeth Gyfalaf hon yw sicrhau bod y cyllid cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor yn cael ei wario ar brosiectau sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau, gan gynnwys cynnal a chadw, amnewid a/neu uwchraddio asedau presennol. Mae sawl dogfen strategol allweddol arall sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor. Mae'r rhain yn llywio sut mae'r Awdurdod yn gweithio ar agweddau penodol sy'n effeithio ar y Cyngor.

### 3.2 Y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT)

Mae cyswllt agos iawn rhwng y Strategaeth Gyfalaf hon a'r DSRhT a chaiff y ddwy ddogfen eu hadolygu'n flynyddol. Bydd y Strategaeth Gyfalaf yn diffinio sut mae'r Cyngor yn gwario ei gyllid cyfalaf ac mae'r DSRhT yn gosod allan sut y caiff hyn ei gyllido a'i effaith ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor. Mae benthyca yn rhan allweddol o'r strategaeth cyllido. Mae'r DSRhT hefyd yn rhoi manylion am sut yr ymgymerir â'r benthyca a sut y caiff ei reoli.

### 3.3 Y Cynllun Ariannol Tymor Canol

**3.3.1** Y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC) yw'r rhan hanfodol o gynllunio ariannol sy'n amcangyfrif gofynion refeniw y Cyngor dros y tair blynedd nesaf a sut caiff hyn ei gydbwyso yn erbyn y cyllid sydd ar gael. Bydd gwariant cyfalaf yn effeithio ar y gyllideb refeniw trwy'r Darpariaeth Refeniw Isaf a'r llog sy'n daladwy ar fenthyca. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn gymorth i hysbysu'r Cynllun Ariannol Tymor Canol.

**3.3.2** Mae monitro'r gyllideb ac adolygu'r CATC yn rheolaidd yn helpu i fonitro effaith perfformiad ariannol a materion ariannol ar sut ydym yn cyflawni Cynllun y Cyngor. Yn gysylltiedig â'r monitro ariannol hefyd mae monitro perfformiad a risgiau corfforaethol a gwasanaeth – caiff rhai o'r risgiau hyn yn cael eu hadnabod fel risgiau ariannol. Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor a'r Strategaeth Rheoli Risg yn pennu sut caiff perfformiad a risg eu rheoli.

**3.3.3** Mae'r diagram isod yn crynhoi'r cysylltiad rhwng y strategaethau hyn a sut cânt eu harwain gan Gynllun y Cyngor yn y pen draw.

# Cynllun y Cyngor 2017/22

**Mae’r strategaethau a’r cynlluniau allweddol isod yn bwysig ac yn gysylltiedig â’i gilydd, i helpu i adnabod lefel fforddiadwy o refeniw a’r adnoddau cyfalaf sydd eu hangen i gyflawni’r blaenoriaethau allweddol yng Nghynllun y Cyngor 2017/22. Mae’r rhain hefyd yn darparu fframwaith ar gyfer rheolaeth ariannol gadarn o adnoddau’r Cyngor.**

## Y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC)

Caiff hwn ei adolygu'n rheolaidd i helpu i sefydlu'r adnodd tebygol fydd ei angen am y tair blynedd nesaf a sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydbwyso'r gofyn am adnoddau. Mae hyn yn cynnwys effaith materion refeniw a chyfalaf ar Gronfa'r Cyngor.

## Strategaeth Gyfalaf

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn nodi'r blaenoriaethau allweddol o ran sut dylid gwario gwariant cyfalaf i helpu i gyflawni Cynllun y Cyngor 2017/22. Mae'n cydnabod bod gwariant cyfalaf yn arwain at gostau refeniw cyllido cyfalaf a bod rhaid cadw'r rhain yn fforddiadwy. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn effeithio ar ac yn cael ei heffeithio gan y CATC, Y DSRhT, y Gyllideb Refeniw Flynyddol a'r Rhaglen Gyfalaf Flynyddol.

## Strategaeth Rheoli Trysorlys (SRhT)

Mae hwn yn gosod y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf a'r Datagniad Polisi Rheoli Trysorlys am y flwyddyn. Mae'r rhain yn darparu'r fframwaith a'r rheolaethau sydd eu hangen i sicrhau bod digon o arian parod i dalu cyflenwyr am gostau refeniw a chyfalaf, bod arian dros ben yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel a'i fod yn hygyrch ac nad yw benthyca i gyllido gwariant cyfalaf yn mynd tu hwnt i lefel fforddiadwy.

## Mae’r Gyllideb Refeniw Flynyddol

yn cael ei chefnogi gan y CATC, y Strategaeth Gyfalaf a’r SRhT.
– Bob blwyddyn caiff y costau refeniw cyllido cyfalaf eu hadolygu a’u diwygio fel rhan o’r gwaith o osod y gyllideb refeniw. Weithiau caiff cyfraniadau refeniw eu defnyddio i gyllido costau cyfalaf.

## Y Rhaglen Gyfalaf flynyddol

– Mae’r lefel o wariant a benthyca cyfalaf yn effeithio ar y gyllideb refeniw oherwydd costau cyllido cyfalaf ac unrhyw gostau refeniw parhaus megis cynnal a chadw.

# 4. Y Strategaeth Gorfforaethol a'r Broses Rhaglen Gyfalaf

## 4.1 Datblygu'r Strategaeth Gyfalaf

Caiff y Strategaeth Gyfalaf ei hadolygu bob blwyddyn gan gymryd i ystyriaeth Gynllun diweddaraf y Cyngor, y Cynllun Ariannol Tymor Canol a'r pwysau cyllidebol a ddisgwylir a'r Cynllun Rheoli Trysorlys. Mae hefyd yn ystyried rhaglen gyfalaf y flwyddyn flaenorol a lefel y cronfeydd wrth gefn a'r gyllideb refeniw. Mae'r strategaeth gyfalaf wedyn yn amlinellu'r amcanion a'r egwyddorion allweddol sydd wedyn yn helpu i ddatblygu'r Rhaglen Gyfalaf flynyddol bob blwyddyn.

## 4.2 Datblygu'r Rhaglen Gyfalaf Flynyddol

### 4.2.1 Y Broses Bidio a Sgorio


Wrth benderfynu pa brosiectau sy'n cael eu cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf, mae'n rhaid i fidiau fod yn fforddiadwy ac mae'n rhaid iddynt hefyd helpu i gyflawni'r blaenoriaethau allweddol yng Nghynllun y Cyngor a chwrdd ag amcanion ac egwyddorion y Strategaeth Gyfalaf. Bob blwyddyn, gofynnir i'r Gwasanaethau gyflwyno arfarniadau/bidiau cyfalaf newydd a diweddaru gwybodaeth ar gyfer prosiectau sy'n parhau. Dylai'r arfarniadau ddangos sut mae pob prosiect yn bodloni'r meini prawf (a welir isod) a dylent gynnwys yr holl effeithiau refeniw parhaus fydd yn deillio o'r prosiect e.e. costau cynnal a chadw. Mae sgorio arfarniadau/bidiau cyfalaf newydd yn helpu i gyflwyno elfen o wrthrychedd ac yn sicrhau bod y prosiectau'n berthnasol i'r amcanion allweddol yng Nghynllun y Cyngor a'r Strategaeth hon. Y maen prawf pwysicaf yw pa mor agos y bydd prosiect yn cyfrannu at gyflawni Cynllun y Cyngor, sy'n egluro'r pwysau uwch a roddir i'r maen prawf hwn. Y Gwasanaeth Cyfrifeg sy'n gwneud y sgorio cychwynnol. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedyn yn ystyried ac yn cadarnhau'r sgorau, fel rhan o ddrafftio'r rhaglen gyfalaf flynyddol.

| **Meini Prawf** | **Sgôr** |
|---|---|
| Pa mor agos y bydd y prosiect yn cyfrannu at flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol | 20 |
| Mae'r prosiect yn denu cyllid allanol sylweddol | 10 |
| Bydd y prosiect yn arwain at arbedion refeniw | 10 |
| Bydd y prosiect yn helpu i liniaru Risg Corfforaethol | 10 |
| **Cyfanswm sgôr uchaf** | **50** |

Mae'r strategaeth hefyd yn dyrannu cyllid at gynnal a chadw ac uwchraddio asedau presennol. Mae Rheolwyr Asedau yn penderfynu beth yw eu hangen am gyllid a chaiff hyn ei gydbwyso yn erbyn y cyllid sydd ar gael er mwyn dyrannu cyllid i bob prif grŵp asedau (adeiladau, cerbydau, TG, ffyrdd).

### 4.2.2 Amserlen

Mae’r broses o gymeradwyo’r Strategaeth Gyfalaf yn dilyn yr amserlen ar gyfer gosod y gyllideb refeniw a datblygu’r Rhaglen Gyfalaf. Mae’r amserlen ar gyfer datblygu’r Rhaglen Gyfalaf wedi’i chrynhoi isod:-




### 4.3.3 Awdurdodi

Mae’r cyfrifoldeb am gadarnhau’r Rhaglen Gyfalaf bob blwyddyn yn eistedd gyda’r Cyngor llawn yn seiliedig ar yr argymhelliad a wneir gan y Pwyllgor Gwaith. Mewn achosion eithriadol, bydd prosiectau cyfalaf newydd sy’n codi yn ystod y flwyddyn yn cael eu hystyried gan aelodau fel rhan o’r adroddiadau chwarterol i’r Pwyllgor Gwaith. Mae prosiectau yn ystod y flwyddyn yn debygol o gael eu cymeradwyo os ydynt yn cael eu cyllido’n sylweddol o grantiau neu gyfraniadau allanol, neu os ydynt mewn ymateb i argyfwng e.e. tirlithriad, neu os yw prosiect a gymeradwywyd yn y rhaglen yn cael ei ganslo a bod cyllid ar gael. Mae gofyn cael arfarniad cyfalaf ar gyfer prosiectau sy’n codi yn ystod y flwyddyn a bydd angen i’r prosiectau helpu’r Awdurdod i gyflawni ei amcanion allweddol.

# 5. Y Cyd-destun Ariannol Cyfredol

## 5.1 Cyfyngiadau Refeniw a'r Angen i Wneud Arbedion

**5.1.1** Roedd y CATC cychwynnol ar gyfer 2019/20 i 2021/22 wedi adnabod y byddai angen £10m o arbedion refeniw dros y cyfnod 3 blynedd, ar ôl caniatáu am gynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor ym mhob un o'r tair blynedd. Ar gyfer 2019/20, tybiwyd y byddai'r cyllid gan Lywodraeth Cymru yn gostwng 1% ac, ar ôl cymryd i ystyriaeth beth fydd effaith dyfarniadau tâl, cynnydd mewn cyfraniadau pensiwn a chwyddiant cyffredinol mewn prisiau, y byddai angen gwerth £5m o arbedion refeniw.

**5.1.2** Er bod y setliad terfynol ond wedi arwain at ostyngiad o 0.3% yn y cyllid gan Lywodraeth Cymru, roedd hefyd angen mynd i'r afael â'r gorwariant o £2m a ragwelwyd yn y Gwasanaethau Plant, £1m yn y Gwasanaethau Oedolion a £750k yn Addysg. Cafodd arbedion refeniw o £3.7m eu hadnabod ac effaith net yr holl ffactorau hyn oedd yr angen i gynyddu'r Dreth Gyngor dros 7% er mwyn gosod cyllideb gytbwys yn 2019/20. Amcangyfrifir y byddwn dal angen arbedion o thua £1.5m yn 2020/21 a 2021/22.

**5.1.3** Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd cyllido'r rhaglen gyfalaf yn cael effaith sylweddol ar y gyllideb refeniw ac mae'r Strategaeth Gyfalaf yn cymryd fforddiadwyedd i ystyriaeth, fel y caiff ei llunio, ac mae'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys yn sicrhau bod y Cyngor yn cadw costau benthyca cyn ised â phosib trwy wneud y defnydd gorau o falansau arian parod y Cyngor ei hun i gyllido gwariant cyfalaf.

## 5.2 Cyllido gwaith Moderneiddio Ysgolion

**5.2.1** Mae'r Cyngor ar hyn o bryd ran o'r ffordd trwy raglen uchelgeisiol i foderneiddio ysgolion trwy'r rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif, gyda Band A yn dod i ben yn 2019 a Band B yn rhedeg tan 2026. Bydd y rhaglen, os yw'n cyflawni pob un o'i amcanion a gynlluniwyd, yn cymryd dros 10 mlynedd i'w chwblhau ar gyfanswm gost cyfalaf bosib o £120m.

**5.2.2** Mae pedwar cam i'r rhaglen, ac fe'u gelwir yn Band A, B, C a Ch. Mae dwy ysgol wedi'u cwblhau, sef Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd y Llan, ac mae trydedd ysgol, sef Ysgol Santes Dwynwen bron wedi'i chwblhau. Mae gwaith adnewyddu'n mynd rhagddo yn Ysgol Parc y Bont a Brynsiencyn. Gyda'r ymgynghoriad a datblygiad ardal Llangefni dal yn mynd rhagddynt, gall unrhyw waith y penderfynir arno lithro o Fand A i Fand B a gallai hynny beri canlyniadau ariannol pellach.

**5.2.3** Mae ymgynghoriad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar yr ysgol gynradd newydd ar gyfer Llangefni. Bydd y gwaith paratoadol ar gyfer yr estyniad arfaethedig i Ysgol Y Graig a gynlluniwyd ar gyfer Band A yn cael ei wneud yn 2018/19. Fodd bynnag, mae'r prif waith o adeiladu'r estyniad bellach wedi llithro i Band B o'r rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif.

**5.2.4** Mae Band A y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn cael ei gyllido drwy 50% cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a 50% trwy fenthyca digefnogaeth. Mae'r cyllid 50% gan Lywodraeth Cymru yn rhannol trwy gyllid grant (67% o'r 50%) ac yn rhannol trwy fenthyca â chefnogaeth (33% o'r 50%). Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bod y gyfradd ymyrraeth ar gyfer Band B wedi cynyddu i 65% ond ni wyddwn ar hyn o bryd sut bydd hyn wedi'i ddyrannu rhwng cyllid grant a benthyca â chefnogaeth.

**5.2.5** Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno model cyd-fuddsoddi ar gyfer Band B (MIM), lle mae cost cyfalaf y prosiect yn cael ei gyllido gan y sector preifat a bod y Cyngor wedyn yn talu ffi rhent i'r buddsoddwr am gyfnod penodedig (25 mlynedd yw'r disgwyl). Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad tuag at y ffi rhent bob blwyddyn (disgwylir y bydd yn 70% o leiaf).

**5.2.6** Cafodd Rhaglen Amlinellol Strategol y Cyngor ar gyfer Band B ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf (fe'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 17 Gorffennaf 2017). Mae Tabl 1 isod yn crynhoi y matricsau diweddaraf ar gyfer Band A a B. Mae hyn yn berthnasol i'r cyfnod 2019/20 i 2025/26.

**Tabl 1**
**Y Cyllid Amcangyfrifiedig ar gyfer Gweddill Band A â Phrosiectau Arfaethedig Band B**

| Band | Rhanbarth | Benthyca Digefnogaeth (net o'r derbyniad cyfalaf) £'m | Benthyca â chefnogaeth £'m | Grant LlC £'m | Cyfanswm £'m |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Ysgol Y Llannau | 0.04 | 0.00 | 0.00 | 0.04 |
| A | Ysgol Santes Dwynwen | 0.08 | 0.00 | 0.00 | 0.08 |
| A | Ysgol Bro Llangefni | 4.28 | 1.29 | 2.60 | 8.17 |
| | **CYFANSWM BAND A** | **4.40** | **1.29** | **2.60** | **8.29** |
| B | Ysgol y Graig a Talwrn | 1.73 | 1.93 | 1.93 | 5.59 |
| B | Ysgol Syr Thomas Jones ac ysgolion cynradd cysylltiedig | 4.94 | 4.58 | 4.58 | 14.1 |
| B | Ysgolion Cynradd Lligwy | 2.36 | 2.19 | 2.19 | 6.73 |
| B | Ysgolion Cynradd Seiriol | 0.92 | 0.85 | 0.85 | 2.63 |
| B | Uned ôl-16 | 6.49 | 6.02 | 6.02 | 18.53 |
| B | Gogledd-orllewin Ynys Môn | 1.57 | 1.20 | 1.73 | 4.50 |
| | **CYFANSWM BAND B** | **18.01** | **16.77** | **17.30** | **52.08** |

**5.2.7** O gofio lefel y benthyca sydd ei angen, mae'n annhebygol y caiff cronfeydd arian parod y Cyngor ei hun (benthyca mewnol) eu defnyddio i unrhyw raddau helaeth. Felly, tybir y byddai'r holl fenthyca â chefnogaeth a benthyca digefnogaeth yn cael ei wneud trwy fenthyciadau PWLB newydd dros gyfnod o amser sydd yr un fath ag oes ddisgwyliedig yr ased (50 mlynedd).

**5.2.8** Fel yr eglurir ym mharagraff 4.1, bydd unrhyw fenthyca ychwanegol (â chefnogaeth a digefnogaeth) yn cynyddu Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor, a bydd hynny'n ei dro yn cynyddu'r tâl DRI blynyddol a godir ar y cyfrif refeniw, gan arwain at daliadau llog blynyddol ychwanegol.

**5.2.9** Byddai'r benthyca digefnogaeth ychwanegol ar gyfer Band B (yn seiliedig ar gyfnod ad-dalu o 50 mlynedd a llog blynyddol o 2.73%) yn arwain at daliadau cyllido cyfalaf ychwanegol o £1.230m y flwyddyn i'r gyllideb refeniw (£0.710m o log yn daladwy a £0.520m DRI) unwaith bydd y Rhaglen wedi'i chwblhau'n llwyr. Yn ymarferol, byddai'r costau hyn yn dod i mewn yn raddol wrth i bob prosiect gychwyn ac unwaith y byddem yn cymryd y benthyciadau allan i wneud y gwaith. Byddai'r tâl DRI yn cael ei godi unwaith daw'r ysgolion yn weithredol. Mae'r cyflwyniad Band B wedi adnabod y gallai'r gwaith cyfalaf arfaethedig arwain at arbedion net, a'r rhagolwg presennol ar gyfer yr arbedion net hynny yw £500k ar gyfer y gyllideb Ysgolion. Mae hyn yn gadael diffyg net o £730k y flwyddyn y byddai'n rhaid i'r Cyngor ei gyllido.

**5.2.10** Dylid nodi y byddai cyflawni'r prosiectau Band B yn cael gwared ar yr angen i wneud gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni yn y gwahanol ysgolion. Ar gyfer yr ysgolion hynny a fyddai'n cau neu'n cael eu haddasu o dan y cynigion Band B, mae'r gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni dros amser yn dod i gyfanswm o tua £5.5m. Hyd yma, nid yw'r Rhaglen Gyfalaf wedi adnabod cyllid i wneud yr hen waith cynnal a chadw yma.

**5.2.11** Byddai costau refeniw a chyfalaf pellach yn ymddangos wrth gyflawni gwaith Band C a Band D. Byddai angen i unrhyw ymroddiad i'r camau hyn o'r rhaglen fod yn realistig ac yn fforddiadwy.

### 5.3 Cronfeydd wrth gefn

**5.3.1** Mae'r Cyngor wedi dyrannu peth cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf o'i gronfeydd wrth gefn, y dyraniad mwyaf diweddar oedd £1m o gronfeydd wrth gefn cyffredinol i gyllido gwelliannau i brosesau busnes a oedd yn cynnwys prosiectau cyfalaf. Fodd bynnag, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae lefel balansau cyffredinol y Cyngor wedi gostwng islaw'r isafswm a argymhellir ac, o'r herwydd, mae'r sgôp i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf yn amhosib am y dyfodol rhagweladwy.

### 5.4 Yr Angen i Greu Arbedion Refeniw o Wariant Cyfalaf

**5.4.1** Un rhan o strategaeth arbedion cyllideb refeniw'r Cyngor fu defnyddio gwariant cyfalaf fel modd o leihau costau refeniw. Mae enghreifftiau o hyn wedi cynnwys buddsoddi mewn cynllun arbed ynni mewn adeiladau cyhoeddus a goleuadau stryd, buddsoddi mewn technoleg i leihau costau gweinyddol, buddsoddi mewn cyfleusterau hamdden i gynhyrchu incwm ychwanegol a'r rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif. Bydd y strategaeth hon yn parhau a bydd prosiectau'n cael eu blaenoriaethu os byddant yn dod ag arian sylweddol yn ôl i'r Cyngor mewn cyfnod byr o amser.

## 6. Cyllid

**6.1** Ffynonellau Cyllid – mae'r Rhaglen Gyfalaf yn cael ei gyllido o'r ffynonellau a ganlyn:-

- **Grant Cyfalaf Cyffredinol** – Mae hwn yn swm o arian sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r setliad blynyddol. Mae'r Cyngor yn rhydd i ddefnyddio'r grant cyfalaf ar unrhyw brosiect cyfalaf y mae'n dymuno.
- **Benthyca â Chefnogaeth** – Bydd y Cyngor yn benthyca gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) i gyllido'r gwariant. Mae'r costau refeniw sy'n codi o'r benthyciadau (Costau Llog ac Darpariaeth Refeniw Isaf) yn cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru trwy'r setliad refeniw blynyddol, sy'n egluro'r term "Benthyca â Chefnogaeth".
- **Benthyca Digymorth** – Eto, mae'r Cyngor yn benthyca'r arian gan PWLB ond mae gofyn iddo ariannu'r costau refeniw o'i adnoddau ei hun. Mae prosiectau a ariennir trwy gyfrwng benthyca digymorth yn dueddol o fod yn brosiectau sy'n cyflawni arbedion refeniw, a'r arbedion hyn sy'n cael eu defnyddio i gwrdd â'r costau refeniw ychwanegol sy'n codi o'r benthyciad.
- **Grantiau Cyfalaf Penodol** – Bydd y Cyngor yn derbyn grantiau cyfalaf sy'n cyllido cost prosiect yn llawn neu'n rhannol. Fel arfer daw grantiau cyfalaf hefo cyfyngiadau ynghylch y gwariant – beth ellir gwario'r arian arno ac erbyn pryd y mae'n rhaid gwario'r arian.
- **Cyfraniad Refeniw** – Gall gwasanaethau wneud cyfraniad o'u cyllidebau refeniw i gyllido prosiectau. Mae'r cyfraniadau hyn yn dueddol o fod ar ffurf cyllid cyfatebol i brosiect sy'n cael ei gyllido'n bennaf o grant cyfalaf penodol.
- **Derbyniadau Cyfalaf** – Gellir defnyddio'r cyllid a gynhyrchir o werthu asedau i gyfrannu at gyllido'r rhaglen gyfalaf. Fel arfer caiff cyllid fel hyn ei gynhyrchu o werthu asedau dros ben (tir neu adeiladau gan amlaf).
- **Cronfeydd Wrth Gefn** – Gellir defnyddio arian sy'n cael ei ddal mewn cronfa wrth gefn, e.e. derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio, i gefnogi'r rhaglen gyfalaf.

**6.2** Fel yr eglurir yn y paragraff uchod, caiff y rhaglen gyfalaf ei gyllidou o sawl ffynhonnell wahanol sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol y Cyngor mewn gwahanol ffyrdd:-

- Nid yw cyllid a dderbynnir ar ffurf grantiau (cyffredinol neu benodol) yn cael unrhyw effaith ar sefyllfa ariannol hirdymor y Cyngor gan fod unrhyw grant a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio i gyllido'r gwariant cyfalaf. Efallai y ceir gwahaniaethau o ran amseriad sy'n golygu weithiau nad yw grantiau'n cael eu defnyddio mewn un flwyddyn ac y cânt eu cario o un flwyddyn i'r nesaf trwy fantolen y Cyngor.
- Mae derbyniadau cyfalaf yn golygu bod asedau dros ben yn cael eu trosglwyddo'n arian parod, sy'n ei dro yn arwain at greu ased newydd. Eto, ychydig iawn o effaith hirdymor a gaiff y math hwn o gyllido ar sefyllfa ariannol y Cyngor ond fe ddaw adeg pan fyddwn wedi cael gwared ar yr holl asedau dros ben a bydd lefel y cyllid sydd ar gael trwy dderbyniadau cyfalaf yn gostwng.
- Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn defnyddio'r arian dros ben ar y cyfrif CRT (yr hyn sy'n weddill o incwm rhent ar ôl gwariant) i gyllido gwariant cyfalaf. Caiff hyn ei adlewyrchu yng nghynllun busnes y CRT ac nid yw'n effeithio ar Gronfa'r Cyngor.
- Bydd y defnydd o gyllid refeniw yn gostwng gwerth yr arian sy'n cael ei ddal yn y cronfeydd wrth gefn neu'r swm sy'n cael ei drosglwyddo i falansau cyffredinol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn h.y. mae'n trosi arian dros ben yn ased newydd.
- Mae benthyca â chefnogaeth a benthyca digefnogaeth yn effeithio ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf (CCC) y Cyngor ac yn ei dro, caiff hyn effaith ar y gyllideb Refeniw gan y bydd taliadau llog blynyddol a'r Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) yn uwch.

**6.2.1** Er bod y Cyfrif Refeniw Tai yn gweithredu ar wahân i Gronfa'r Cyngor, nid yw'r Cyngor yn benthyca ar wahân ar gyfer gwariant o Gronfa'r Cyngor a'r CRT, mae'r holl fenthyca yn cael ei gyfuno a chaiff y costau eu dyrannu i'r ddwy gronfa yn seiliedig ar lefel y gwariant a gyllidwyd o fenthyciadau ar gyfer y ddwy gronfa. Rydym yn adolygu'r dull dyrannu costau yn barhaus i sicrhau ei fod yn dal i fod y dull mwyaf teg.

**6.3 Cyfyngiadau Cyllido dros y Tair Blynedd nesaf**

**6.3.1** Mae'r cyd-destun ariannol anodd y mae'r Cyngor yn parhau i weithredu ynddo yn cael ei drafod yn adran 5 ac mae'n amlygu bod yna gyfyngiadau ar sut mae'r Cyngor yn ariannu gwariant cyfalaf. Un o'r prif flaenoriaethau i'r Cyngor yw lleihau gwariant refeniw er mwyn cael cyllideb gytbwys, gan hefyd leihau'r gostyngiad i gyllidebau gwasanaethau cymaint ag sy'n bosib. Mae'n rhesymol i'r Cyngor geisio cadw'r cynnydd sydd ei angen i'r gyllideb cyllido cyfalaf gyn ised â phosib. Bydd rhaid darparu cyllid cyfalaf ychwanegol ond dylid cadw hyn ar lefel sy'n cael ei gyllido trwy'r setliad (grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth) fel bod y cynnydd yn y costau cyllido cyfalaf yn cael ei gyllido trwy dderbyniadau cyfalaf ac unrhyw grantiau penodol sydd ar gael.

**6.3.2** Ni ddylid ond defnyddio benthyca digefnogaeth (tu allan i'r rhaglen Ysgolion 21$^{ain}$ Ganrif) lle mae modd gostwng cyllideb y gwasanaeth perthnasol o swm sy'n uwch na'r DRI a'r costau llog.

**6.3.3** Mae wedi bod yn bolisi gan Llywodraeth Cymru dros nifer o flynyddoedd i gynnal lefel y grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth ar tua'r un lefel â'r blynyddoedd cynt, gyda chyllid cyfalaf ychwanegol yn cael ei gyfeirio i ysgolion, gwelliannau ffyrdd ac ati.

**6.3.4** Fel landlord stoc tai, bydd y Cyngor hefyd yn derbyn lwfans atgyweirio sylweddol ar ôl cyflwyno a chael cymeradwyaeth i'r cynllun busnes 30 mlynedd ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai. Mae gwariant cyfalaf ar y CRT yn cael ei ategu gan ddefnyddio arian wrth gefn y CRT a thrwy gyfrwng y pwerau benthyca y gall y CRT eu defnyddio.

**6.3.5.** Bydd grantiau penodol sydd wedi cael eu cymeradwyo, sy'n debygol o gael eu cymeradwyo neu sy'n deillio o fidiau llwyddiannus, hefyd ar gael i gyllido cynlluniau cyfalaf. Mewn rhai achosion, efallai y bydd rhaid i'r Cyngor gyfrannu swm o'i gyllid cyfalaf ei hun fel cyllid cyfatebol fel y gall sicrhau'r cyllid grant. Mae'r grantiau a'r cyfraniadau sydd ar hyn o bryd wedi'u hadnabod fel ffynonellau cyllid ar gyfer 2019/20 i'w gweld yn y rhestr isod. Mae'n dangos y bydd Ynys Môn yn elwa o welliannau/asedau newydd a fydd yn costio oddeutu £21.3m lle mae 44% (£9.4m) o'r costau'n cael eu cyllido trwy grant neu gyfraniad allanol. Mae hwn yn gyfraniad sylweddol o du allan i'r Cyngor er lles yr Ynys.

**Tabl 2 –**
**Prosiectau cyfalaf sy'n cael eu cyllido'n llawn neu'n rhannol gan grantiau a chyfraniadau (ac eithrio Ysgolion 21ain Ganrif)**

| Prosiect Cyfalaf | Amcangyfrif o'r costau 2019/20 £000 | Cyllid Allanol £000 | Canran a gyllidir yn allanol £000 |
|---|---|---|---|
| Porth Ymwelwyr Caergybi | 1,000 | 950 | 95% |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 3,200 | 3,165 | 99% |
| Isadeiledd Strategol Llangefni | 200 | 165 | 83% |
| Lliniaru Llifogydd Biwmares | 900 | 765 | 85% |
| Adnewyddu Neuadd y Farchnad, Caergybi | 350 | 250 | 71% |
| Gwelliannau priffyrdd | 1,359 | 580 | 43% |
| Gwaith Draenio, Prosiect 1 | 200 | 170 | 85% |
| Gwaith Draenio, Prosiect 2 | 166 | 141 | 85% |
| Amddiffynfa Llifogydd Traeth Coch | 850 | 638 | 75% |
| Adnewyddiadau CRT a Chynyddu'r Stoc Tai | 13,110 | 2,660 | 20% |
| **Cyfanswm** | **21,335** | **9,484** | **44%** |

**6.3.6** Mae lefel y derbyniadau cyfalaf yn ddibynnol ar pa asedau ddaw ar gael i'w gwerthu. Mae'r cyllid a dderbynnir o werthu rhai asedau yn gysylltiedig â phrosiectau sydd eisoes wedi cychwyn e.e. mae gwerthu hen safleoedd ysgol yn gysylltiedig â'r rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif. O ganlyniad, nid oes modd i'r holl dderbyniadau cyfalaf a dderbynnir yn 2019/20 gael eu dyrannu i gyllido prosiectau cyfalaf newydd. Ar wahân i'r safleoedd ysgolion sy'n weddill, ni ragwelir y bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf sylweddol ar gael i gyllido gwariant cyfalaf o 2019/20 ymlaen.

**6.3.7** Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'n rhaid i unrhyw fenthyca digefnogaeth gynhyrchu incwm ychwanegol / arbedion gwariant refeniw er mwyn cyllido'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol (DRI a thaliadau llog) a godir ar y cyfrif refeniw. Bydd unrhyw gynlluniau arfaethedig a gaiff eu cyllido trwy fenthyca digefnogaeth yn cael eu hasesu fesul cynllun unigol.

**6.3.8** Yn ychwanegol at y ffynonellau cyllid a nodir uchod, mae'r Cyngor yn dal cronfa cyllido cyfalaf wrth gefn, sy'n cynnwys cyfraniadau refeniw nad ydynt wedi cael eu defnyddio eto. Mae'r balans cyfredol yn £1.162m. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o hwn yn cael ei ddefnyddio i gyllido rhaglen 2018/19.

**6.3.9** Mae derbyniadau cyfalaf sydd heb eu dyrannu yn cael eu dal mewn cronfa wrth gefn. Roedd balans y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2018 yn £320k. Bydd y derbyniadau hyn yn cael eu defnyddio fel ffynhonnell gyllido ar gyfer rhaglen 2018/19, neu byddant yn helpu i gyllido gwariant sydd wedi llithro yn 2019/20.

**6.3.10** Yn gryno, dylai'r cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf newydd yn 2019/20 fod wedi'i gyfyngu i lefel y grant cyfalaf cyffredinol (£2.065m), benthyca â chefnogaeth (£2.181m) ac unrhyw dderbyniadau cyfalaf heb eu dyrannu a gynhyrchir yn y flwyddyn. Byddai cyfanswm y gyllideb sydd ar gael oddeutu £4.246m, heb gynnwys grantiau, cyllid Ysgolion 21ain Ganrif a chyllid y CRT. Bydd yr egwyddor hon yn cael ei chymhwyso yn y tymor canol a'r tymor hir i sicrhau bod y rhaglen gyfalaf yn fforddiadwy yn enwedig yng nghyd-destun toriadau cyllid sy'n parhau.

### 6.4 Proffil Cyllido Amcangyfrifiedig 2019/20 i 2021/22

**6.4.1** Mae'r cyllid allanol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod 2019/20 i 2021/22 i'w weld yn Nhabl 3 isod. Dylid nodi y bydd y Cyngor hefyd yn derbyn nifer o fân grantiau cyfalaf.

**Tabl 3**
**Amcangyfrif o'r Cyllid Cyfalaf gan Lywodraeth Cymru 2019/20 – 2021/22**

| | 2019/20 £'m | 2020/21 £'m | 2021/22 £'m |
|---|---|---|---|
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 2.065 | 1.818 | 1.818 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 2.181 | 2.181 | 2.181 |
| Grant Adnewyddu Priffyrdd Cyhoeddus | 0.580 | 0.580 | 0.580 |
| Lwfans Gwaith Atgyweirio Mawr | 2.660 | 2.660 | 2.660 |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf Llywodraeth Cymru** | **7.486** | **7.239** | **7.239** |

**6.4.2** Mae sgôp i gyllido prosiectau newydd yn 2019/20 trwy'r cyllid a dderbynnir fel rhan o setliad ariannol Llywodraeth Cymru. Mae'r cynnydd sylweddol diweddaraf yn y Grant Cyfalaf Cyffredinol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2018/19 i 2020/21 yn newyddion positif a bydd yn helpu'r Cyngor i gyllido prosiectau cyfalaf ychwanegol sy'n flaenoriaeth. Mae benthyca digefnogaeth yn bosib ond oni bai bod y prosiectau yn creu arbedion refeniw, yna bydd y tâl DRI a'r costau llog ychwanegol yn cynyddu'r gyllideb refeniw a bydd hynny'n gorfod cael ei gyllido trwy gynyddu'r Dreth Gyngor neu trwy wneud arbedion refeniw yn rhywle arall. Felly, gall y Cyngor sicrhau bod y costau cyllido cyfalaf yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy trwy gyfyngu'r gwariant cyfalaf a gyllidir trwy fenthyca digefnogaeth i'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif a phrosiectau cyfalaf sy'n arwain at arbedion refeniw sy'n uwch na'r costau DRI a llog fydd yn daladwy yn sgil y cyllido cyfalaf. Mae'r Adroddiad ar Raglen Gyfalaf Ddrafft 2019/20 a grynhoir isod yn cynnig rhaglen fforddiadwy gyda defnydd cyfyngedig o fenthyca digefnogaeth.

## 7. Y Strategaeth arfaethedig ar gyfer 2019/20 i 2021/22

### 7.1. Cefndir – Cyfalaf

**7.1.1** Gwariant cyfalaf yw gwariant i brynu neu greu asedau newydd neu i adnewyddu asedau presennol pan fo oes yr ased yn fwy nag un flwyddyn ariannol. Gall yr asedau fod yn rhai ffisegol (adeiladau, cerbydau ac isadeiledd) neu anniriaethol (trwyddedau meddalwedd). Bydd asedau anghyfredol sy'n £10k neu fwy yn cael eu hystyried fel gwariant cyfalaf. £10k yw'r lefel de minimis a argymhellir gan y Cyngor i fod yn gymwys fel rhan o'r rhaglen gyfalaf. Mae hwn yn lefel de minimis diwygiedig o'r de minimis cyfredol o £30k. Bydd gostwng y lefel hwn o £30k yn dod â'r lefel de minimis ar wariant cyfalaf yn gyfartal â'r de minimis o £10k ar dderbyniadau cyfalaf. Mae hefyd yn lefel mwy priodol i faint yr Awdurdod. Bydd asedau anghyfredol sy'n llai na £10k yn cael eu codi i refeniw yn y rhan fwyaf o achosion. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i hepgor y de minimis os yw hynny'n briodol.

## 7.2 Ymrwymiadau Posib ar gyfer 2019/20 i 2021/22

**7.2.1** Fel rhan o'r broses cynllunio cyfalaf, adnabyddir ymrwymiadau i'r dyfodol ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol hefyd, serch hyn nid oes gwarant y bydd y cyllid yn cael ei ryddhau ar gyfer y prosiect penodol oni bai ei fod yn angenrheidiol i gwblhau'r ased yn ffisegol. Mae Atodiad A, Tabl 1 yn dangos bod yna werth £31.1m o brosiectau sy'n cwrdd â blaenoriaethau ac egwyddorion allweddol y Strategaeth Gyfalaf hon. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau ymrwymedig sy'n parhau, prosiectau a gyllidir drwy grant, Ysgolion 21ain Ganrif a buddsoddi yn asedau presennol y Cyngor er mwyn cynyddu oes yr asedau hyn i'r dyfodol. Mae'r tabl yn dangos mai dim ond y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif fydd angen peth cyllid o fenthyca digefnogaeth ar gyfer Cronfa'r Cyngor. Mae'r CRT yn bwriadu benthyca £1m o gyllid benthyca digefnogaeth ond bydd y CRT yn cyllido'r costau o ad-dalu'r benthyciad fel y daw'n ddyledus a'r holl gostau refeniw cyllido cyfalaf sy'n codi o'r benthyciad.

**7.2.2** Mae Tabl B, Atodiad 1 yn dangos dau gynnig buddsoddi-i-arbed a fyddai'n costio £400k ac a fyddai'n arwain at arbedion refeniw blynyddol o £49k y flwyddyn. Byddai'n cymryd 8 mlynedd i dalu'n ôl am y ddau brosiect arfaethedig. Gellid cyllido'r prosiectau hyn trwy fenthyca â chefnogaeth. Mae dadansoddiad o'r costau cyllido cyfalaf yn amlygu y byddai'r arbedion o'r prosiectau yn uwch na'r costau cyllido cyfalaf. Mae dadansoddiad o'r Gwerth Presennol Net (NPV) sy'n cymryd i ystyriaeth werth amser y cyllid yn amlygu byddai NPV positif ar gyfer y prosiectau yn cael eu cyflawni ym mlwyddyn 12. Ystyrir bod prosiectau sydd ag NPV positif yn brosiectau hyfyw. Byddai'r ddau brosiect yma yn cyfrannu at amcan 3 yng Nghynllun y Cyngor 2017/22 oherwydd manteision amgylcheddol.

**7.2.3** Mae Tabl C, Atodiad 1 yn crynhoi'r cynigion a gyflwynwyd ar gyfer prosiectau newydd 2019/20. Tra bod digon o gyllid ar gyfer yr holl brosiectau hyn heb yr angen am fenthyca digefnogaeth ychwanegol, mae pob un wedi'i sgorio'n wrthrychol gan y panel swyddogion yn enwedig yng nghyswllt eu cyfraniad at Gynllun y Cyngor 2017/22. Mae adroddiad y Rhaglen Gyfalaf 2019/20 yn rhoi manylion ynghylch y dull sgorio ar gyfer y prosiectau hyn yn Atodiad 3. Gallai Aelodau dderbyn pob un neu ddim ond rhai o'r rhain pan fyddant yn ystyried Rhaglen Gyfalaf 2019/20, ond dylid tynnu sylw at y ffaith efallai nad yw prosiect sy'n sgorio'n isel yn cyd-fynd o ddifri â Chynllun y Cyngor 2017/22.

**7.2.4** Mae'r tabl isod yn crynhoi'r rhaglen gyfalaf arfaethedig am y cyfnod 2019/20 i 2021/22 yn ôl eu categori, er enghraifft, cynllun ymrwymedig sy'n parhau.

**Tabl 4**
**Crynodeb o Gynlluniau Cyfalaf (gweler Atodiad 1 am fanylion prosiectau unigol)**

| Cynlluniau Cyfalaf | Gwariant | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 £000 | 2020/21 £000 | 2021/22 £000 | Cyfanswm £000 |
| Cynlluniau Ymrwymedig a Ddygwyd Ymlaen | 6,429 | 6,016 | - | **12,445** |
| Buddsoddi mewn Asedau Presennol | 3,898 | 3,539 | 3,539 | **10,976** |
| Prosiectau Ysgolion 21ain Ganrif | 4,809 | 10,256 | 16,668 | **31,733** |
| Cynlluniau posib newydd 2019/20 | 1,746 | 360 | 200 | **2,306** |
| Prosiectau Buddsoddi-i-arbed | 400 | 250 | 200 | **850** |
| Prosiectau'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 13,110 | 18,431 | 19,744 | **51,285** |
| | **30,392** | **38,852** | **40,351** | **109,595** |

**7.2.5** Mae'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y cynlluniau cyfalaf uchod wedi'i grynhoi isod yn Nhabl 5. Mae hyn yn dangos, ar gyfer 2019/20 y byddai modd cyllido'r holl brosiectau heb yr angen am fenthyca digymorth sylweddol. Yr unig fenthyca digefnogaeth fyddai ei angen ar gyfer 2019/20 fyddai tuag at siâr y Cyngor o brosiectau'r Ysgolion 21ain Ganrif. Mae'r tabl yn dangos y bydd yna fylchau cyllido yn 2020/21 a 2021/22. Efallai y bydd angen benthyca digefnogaeth ar gyfer hyn os nad oes digon o dderbyniadau cyfalaf neu gyllid arall ar gael. Nid yw'r tabl yn cynnwys rhagolygon ar gyfer derbyniadau cyfalaf gan nad yw'r wybodaeth hon ar gael. Fodd bynnag, os bydd y Cyngor yn gwerthu unrhyw asedau, bydd hynny'n lleihau'r angen i fenthyca. Mae asedau'r Cyngor sydd ar gael i'w gwerthu yn gostwng oherwydd y nifer o asedau'r Cyngor a werthwyd yn y blynyddoedd cynt. Dylid nodi y byddai unrhyw ysgolion sy'n cau ac sy'n cael eu gwerthu yn cael eu defnyddio tuag at y Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif.

**Tabl 5**
**Cyllid i'r Rhaglen Gyfalaf 2019/20 i 2021/22**

| **Ffynhonnell Gyllid** | **Blwyddyn Ariannol** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2019/20 £000** | **2020/21 £000** | **2021/22 £000** | **Cyfanswm £000** |
| Cyllid a Ddygwyd Ymlaen 2018/19 ar gyfer Prosiectau sydd wedi Llithro | 1,099 | - | - | **1,254** |
| Grantiau a Chyfraniadau Allanol | 12,251 | 10,503 | 8,090 | **30,844** |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 1,172 | 1,821 | 1,334 | **4,482** |
| Derbyniadau Cyfalaf – heb gynnwys Ysgolion | - | - | - | **-** |
| Derbyniadau Cyfalaf – Ysgolion | - | - | - | **-** |
| Benthyca â Chefnogaeth | 2,181 | 2,112 | 2,112 | **6,250** |
| Benthyca â Chefnogaeth, Ysgolion 21ain Ganrif | 1,640 | 1,858 | 5,430 | **8,928** |
| Benthyca Digefnogaeth, Ysgolion 21ain Ganrif | 402 | 6,589 | 5,970 | **12,961** |
| Benthyca Digymorth – CRT | 1,000 | 6,300 | 6,450 | **13,750** |
| Cronfa wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf a Chronfa wrth gefn Cyfalaf | - | - | - | **-** |
| Refeniw – Cronfa'r Cyngor | - | - | - | **-** |
| Refeniw – CRT | 9,450 | 9,471 | 10,634 | **29,555** |
| Cyllid wedi'i ailddyrannu o brosiectau gohiriedig | 1,197 | - | - | |
| Grant Cyfalaf heb ei Ddyrannu | - | 198 | 331 | **529** |
| | **30,392** | **38,852** | **40,351** | **10,333** |
| **Grant Cyfalaf Cyffredinol sydd heb ei Ddyrannu** | **893** | **(198)** | **(331)** | **364** |

## 7.3 Cynlluniau Gwariant Cyfalaf yn y Tymor Hwy

**7.3.1** Mae'r rhaglen gyfalaf ddrafft uchod yn rhoi rhagolygon tymor-canol sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Ariannol Tymor Canol a Chynllun y Cyngor 2017/22 a'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys. Mae'r strategaeth gyfalaf hon hefyd yn cyfathrebu'r bwriadau tymor hir mewn perthynas â'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif sy'n cael ei hamlinellu'n drylwyr uchod a disgwylir iddi barhau tu hwnt i 2021/22. Amcangyfrifir y bydd y gwariant ar Fand B yn unig yn £52m rhwng 2019/20 a 2025/26 a bydd 35% o hwn yn cael ei gyllido gan y Cyngor, yn bennaf trwy fenthyca digefnogaeth. Wrth i bob cynllun ym Mand B gael ei ddatblygu, byddwn yn asesu'r effaith ariannol ond derbynnir hefyd y bydd rhaid i rai prosiectau fwrw ymlaen er mwyn cwrdd â blaenoriaethau cyffredinol y Cyngor, ac y bydd rhaid i'r costau refeniw ychwanegol gael eu cyllido o arbedion refeniw neu o gynnydd yn y Dreth Gyngor. Petai'r Cyngor yn canfod bod problemau fforddiadwyedd wrth iddo weithio trwy Fand B o'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif, yna bydd y prosiectau sydd wedi'u cynnwys ym Mand B yn cael eu hadolygu.

**7.3.2** Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynllunio cam C a D o'r rhaglen, fodd bynnag, byddai'r rhain ond yn digwydd os ydynt yn fforddiadwy.

**7.3.3** Dylai'r holl egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn adran 2 hefyd gael eu defnyddio hefyd fel y sail ar gyfer gwariant cyfalaf tymor hwy oni bai y bydd Cynllun y Cyngor 2023/28 wedi newid yn sylweddol. Dylai unrhyw brosiectau nad ydynt yn ymwneud ag ysgolion, er enghraifft, adnewyddu asedau presennol, gael eu cyllido trwy grant neu fenthyca â chefnogaeth i'r dyfodol, os bydd y ffrydiau cyllid hynny'n parhau i fod ar gael yn y tymor hir.

**7.4 Strategaeth Buddsoddiadau nad yw'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys**

**7.4.1** Mae'r Strategaeth Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys wedi'i chynnwys yn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) a gaiff ei drafod isod. Yn ogystal, mae gan y Cyngor nifer o fuddsoddiadau nad ydynt yn ymwneud â rheoli'r trysorlys, sef yr eiddo mae'r Cyngor wedi buddsoddi ynddynt sy'n creu incwm rhent iddo. Mae'r rhain yn helpu i ddarparu ffrwd refeniw hirdymor i'r Cyngor. Ar 31 Mawrth 2018 roedd y portffolio eiddo buddsoddi yn cynnwys 74 o eiddo, gyda gwerth o £5.791m. Mae'r rhain yn cynnwys eiddo manwerthu, unedau swyddfa ac unedau masnachol. Yn 2017/18, casglwyd £331k o incwm rhent o eiddo buddsoddi. Cafodd £164k ei wario ar waith cynnal a chadw ac ati, a arweiniodd at incwm gweithredol net o £167k o incwm rhent. O ran y cynlluniau i'r dyfodol ar gyfer yr eiddo buddsoddi, byddwn yn parhau i'w cynnal i safonau cyfreithiol. Yn ogystal, mae safle unedau diwydiannol newydd yn cael ei adeiladu yn Llangefni a allai fod yn weithredol yn 2019/20. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ar adeiladu Unedau Diwydiannol ym Mhenrhos, Caergybi. Mae'n debyg y daw'r unedau hyn yn weithredol naill ai yn ail hanner 2019/20 neu'n fuan yn 2020/21.

**7.4.2** Mae gan Awdurdodau Lleol y pŵer i brynu neu ddatblygu eiddo fel buddsoddiadau er mwyn gwella gweithgarwch economaidd yn ardal y Cyngor neu fel modd o gynhyrchu incwm ychwanegol i'r Cyngor. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r pwerau hyn yn ehangach na'r cynlluniau a nodir uchod, ond mae'r defnydd o'r pwerau hyn dal yn opsiwn ac mae'r Strategaeth yn caniatáu i'r Cyngor fynd i wariant ar eiddo buddsoddi er mwyn cwrdd ag amcanion allweddol y Cyngor neu er mwyn cymryd mantais o unrhyw gyllid allanol sylweddol a ddaw ar gael.

## 8. Benthyca a Rheoli'r Trysorlys

**8.1** Mae'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) ac Arferion Rheoli Trysorlys (ARhT) yn darparu'r fframwaith i sicrhau bod digon o arian parod i dalu cyflenwyr, sicrhau bod unrhyw arian dros ben yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel a bod y benthyca i gyllido rhaglen gyfalaf 2019/20 i 2021/22 yn fforddiadwy. Bydd y DSRhT yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Chwefror 2019.

**8.2** Mae Atodiad 11 yn DSRhT 2018/19 i 2020/21, yn darparu'r dangosyddion darbodus a thrysorlys ar gyfer y cyfnod 2016/17 i 2020/21 sy'n gymorth i benderfynu a yw cynlluniau benthyca yn fforddiadwy ai peidio.

**8.3** Mesur o fforddiadwyedd yw'r gymhareb costau cyllido i'r ffrydiau refeniw net. Mae'r gymhareb amcangyfrifiedig o gostau cyllido i'r ffrydiau refeniw net am y ddwy flynedd cyn y strategaeth hon a thrwy gydol oes y strategaeth i'w gweld isod:-

| | |
|---|---|
| 2017/18 (Gwirioneddol): | 7.98% |
| 2018/19 (Amcangyfrif) | 6.37% |
| 2019/20 (Rhagamcan) | 6.51% |
| 2020/21 (Rhagamcan) | 6.65% |
| 2021/22 (Rhagamcan) | 7.03% |

Yn seiliedig ar yr uchod mae'r rhaglen gyfalaf arfaethedig yn parhau i fod yn fforddiadwy yn nhermau goblygiadau refeniw.

Yn 2018/19, fe wnaeth y Cyngor addasu ei bolisi Isafswm Darpariaeth Refeniw Isaf ac roedd modd iddo ôl-ddyddio'r newidiadau. Diben addasu'r polisi oedd sicrhau bod darpariaeth ddarbodus yn cael ei rhoi yn erbyn y cyfrif refeniw bob blwyddyn. Fodd bynnag, canlyniad o'r newid hwn oedd i ni ganfod gor-ddarpariaeth yn y blynyddoedd cynt ac, felly, bydd modd defnyddio'r or-ddarpariaeth hon yn y dyfodol i sicrhau bod y costau cyllido blynyddol yn aros yn fforddiadwy. Bydd y Swyddog Adran 151 yn cymryd hyn i ystyriaeth wrth benderfynu ar y tâl DRI blynyddol.

**8.4** Mesur pwysig arall yw nad yw lefel y benthyca allanol yn mynd yn uwch na'r ffin weithredol ar gyfer benthyca. Mae'r rhaid i'r ffin weithredol ganiatáu i'r Cyngor allu benthyca mewn sefyllfaoedd o argyfwng gan gynnwys methiant i gael mynediad at adneuon banc, problemau llif arian yn codi o fethiant i gasglu incwm, gwariant argyfwng yn dilyn digwyddiad annisgwyl neu'r angen i gymryd mantais o gostau benthyca rhatach ar adegau pan fo cyfraddau llog yn codi. Mae'r ffin weithredol bresennol wedi'i gosod ar £25m uwchlaw'r gofyniad cyllido cyfalaf (GCC).

**8.5** Nod y Strategaeth Rheoli Trysorlys yw defnyddio balansau arian parod mewnol y Cyngor, lle bynnag y bo hynny'n bosib, yn lle benthyca allanol. Wrth bennu lefel y benthyca mewnol, mae'n rhaid cynnal balansau arian parod digonol er mwyn cwrdd ag anghenion arian parod dyddiol y Cyngor h.y. talu staff, cyflenwyr ac ati.

**8.6** Mae Tabl 6 isod yn crynhoi lefel y benthyca allanol o gymharu â'r ffin weithredol ac mae'n dangos lefel y benthyca mewnol y bydd y Cyngor yn ei ddefnyddio i gyllido'r rhaglen gyfalaf.

**Tabl 6**
**Rhagolygon Benthyca ar gyfer 2017/18 i 2021/22**

| **Benthyca – Rhagolwg** | **2017/18 Gwir £000** | **2018/19 Rhagolwg £000** | **2019/20 Amcangyfrif £000** | **2020/21 Amcangyfrif £000** | **2021/22 Amcangyfrif £000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffin Weithredol Benthyca Cyffredinol | 164,000 | 164,000 | 173,000 | 187,000 | 203,000 |
| Benthyca Allanol – Gwirioneddol a Rhagolwg | 117,029 | 122,812 | 124,996 | 137,339 | 157,459 |
| Gwahaniaeth rhwng y Terfyn Awdurdodedig a'r Gwir/Rhagolwg o Fenthyca Allanol (*headroom*) | 51,971 | 54,188 | 53,004 | 54,661 | 50,541 |
| Benthyca Mewnol (defnyddio balansau arian parod) | 19,837 | 18,379 | 20,105 | 21,129 | 17,362 |
| **Cyfanswm Benthyca Mewnol ac Allanol** | **138,866** | **141,191** | **145,101** | **158,468** | **174,821** |

## 9. Risgiau Posib sy'n codi o'r Strategaeth Gyfalaf

**9.1.** Mae'r arbedion blynyddol sylweddol sydd eu hangen dros y tair blynedd nesaf yn peri risg i'r Cyngor, ac mae hyn yn cynnwys y rhaglen gyfalaf. Os yw'r targed arbedion yn anodd i'w gyrraedd, mae'n bosib y bydd hyn yn arwain at adolygu'r rhaglen gyfalaf er mwyn sicrhau ein bod yn lleihau costau cyllido cyfalaf sy'n effeithio ar refeniw.

**9.2.** Mae Strategaeth Gyfalaf y Cyngor yn seiliedig ar lefel dybiedig o gyllid gan Lywodraeth Cymru a thrwy grantiau allanol. Gan gofio'r ansicrwydd sy'n parhau ynghylch cyllidebau a'r newidiadau i gyllid grant, a dderbynnir oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd, mae risg na fydd y lefel dybiedig hon o gyllid grant yn cael ei dderbyn fel mae wedi'i osod allan yn y strategaeth. Os bydd unrhyw newidiadau i'r cyllid a gawn, bydd rhaid ailasesu'r strategaeth gyfalaf a'r rhaglen gyfalaf flynyddol.

**9.3.** Mae’r Cyngor wedi defnyddio benthyca mewnol am sawl blwyddyn i gyllido gwariant cyfalaf. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar falensau arian parod ac mae’n annhebygol y gall y Cyngor gynnal benthyca mewnol yn y tymor canol. Bydd rhaid amnewid benthyca mewnol, ar ryw bwynt, am fenthyca allanol, a bydd hynny’n ei dro yn cynyddu’r costau cyllido cyfalaf a godir yn erbyn y cyfrif refeniw. Mae’n bosib y byddai cynyddu’r costau hyn yn yr hinsawdd ariannol bresennol yn effeithio ar fforddiadwyedd a chapasiti’r Cyngor i gyllido prosiectau cyfalaf newydd trwy fenthyca allanol ychwanegol.

**9.4.** Mae’r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd gallu cynnal a chadw asedau presennol y Cyngor. Mae risg nad yw’r rhaglen amnewid yn ddigonol a bod safonau’r asedau yn disgyn i’r fath raddau fel bod angen lefel uwch o fuddsoddiad er mwyn cynnal gwasanaethau. Mae’n bosib na fydd y buddsoddiad ychwanegol hwn yn fforddiadwy neu y bydd gofyn tynnu prosiectau newydd eraill o’r raglen.

**9.5.** Mae’r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn rhaglen mor anferth ac uchelgeisiol fel bod risg na fydd y Cyngor yn gallu fforddio Band C a D. Bydd angen i ni gadw golwg barhaus ar Fand B y rhaglen er mwyn sicrhau bod y costau’n cael eu cadw o fewn y cyllidebau a osodwyd yn yr achosion busnes.

**9.6.** Mae benthyca allanol yn arwain at gost llog uchel bob blwyddyn. Mae’r mwyafrif o fenthyciadau’r Cyngor yn rhai sefydlog ac ni chânt eu heffeithio gan unrhyw godiadau yn y gyfradd llog. Fodd bynnag, gallai unrhyw gynnydd mawr mewn cyfraddau llog effeithio ar ba mor fforddiadwy yw prosiectau’r dyfodol sy’n cael eu cyllido o fenthyciadau. Mae’r Strategaeth Rheoli Trysorlys yn amlinellu camau sy’n lliniaru’r risg hwn i ryw raddau.

## 10. Gwybodaeth a Sgiliau

**10.1** Mae gan y tîm cyfrifo Adnoddau chwech o gyfrifyddion cymwys yn cynnwys y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) Swyddog Adran 151 sy’n edrych ar ôl y rhaglen gyfalaf a’r swyddogaeth rheoli trysorlys. Mae gennym hefyd dechnegydd cyfrifeg cymwys sydd â phrofiad helaeth mewn rheoli cyfalaf a thrysorlys. Mae’r tîm yn mynychu cyrsiau CIPFA ar reoli cyfalaf a thrysorlys ac mae ganddynt wybodaeth gadarn am y maes cyfrifeg hynod o arbenigol hwn. Mae yna hefyd dîm o swyddogion proffesiynol o fewn gwasanaethau megis penseiri, rheolwyr prosiect, peirianwyr sy’n cefnogi’r Cyngor gyda chyflawni’r Rhaglen Gyfalaf. Mae’r Cyngor hefyd yn comisiynu cyngor arbenigol gan Link Asset ac ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys. Mae’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar reoli cyfalaf a thrysorlys ac mae’r Aelodau’n cael cynnig hyfforddiant ar reoli trysorlys. Mae’r trefniadau llywodraethu wedi eu hamlinellu yn y Cyfansoddiad a’r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys.

**Atodiad 1**

**Tabl A – <u>Rhaglen Gyfalaf Ddrafft Arfaethedig 2019/20 cyn ystyried prosiectau cyfalaf newydd</u>**

| **Cynllun** | **Cyllideb 2019/20 £'m** | **Grantiau Allanol £'m** | **Cyllid y Cyngor £'m** |
|---|---|---|---|
| Porth Ymwelwyr Ynys Gybi | 1.000 | 0.950 | 0.050 |
| Isadeiledd Strategol Caergybi a Llangefni | 3.400 | 3.330 | 0.070 |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd | 0.900 | 0.765 | 0.135 |
| Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr | 0.779 | 0.000 | 0.779 |
| Neuadd y Farchnad Caergybi | 0.350 | 0.250 | 0.100 |
| Ysgol Santes Dwynwen | 0.085 | 0.000 | 0.085 |
| Ysgol Rhyd y Llan | 0.037 | 0.000 | 0.037 |
| Estyniad Ysgol Y Graig | 0.666 | 0.313 | 0.353 |
| Ysgol Bro Llangefni | 3.521 | 2.324 | 1.197 |
| Ysgol Biwmares, Llandegfan a Llangoed | 0.400 | 0.130 | 0.270 |
| Ysgol Syr Thomas Jones ac ysgolion cynradd gerllaw | 0.100 | 0.000 | 0.100 |
| Grant Cyfleusterau Anabl | 0.750 | 0.000 | 0.750 |
| Mynediad i'r Anabl – Adeiladau Addysg | 0.300 | 0.000 | 0.300 |
| Cerbydau Newydd | 0.150 | 0.000 | 0.150 |
| Isadeiledd TG | 0.439 | 0.000 | 0.439 |
| Adnewyddu Ysgolion | 0.500 | 0.000 | 0.500 |
| Gwaith Adnewyddu nad yw'n ymwneud ag Ysgolion | 0.400 | 0.000 | 0.400 |
| Ail-wynebu Priffyrdd | 1.359 | 0.580 | 0.779 |
| Gwariant Cyfalaf / Datblygiadau Newydd CRT | 13.110 | 2.660 | 10.450 |
| **CYFANSWM RHAGLEN GYFALAF** | **28.246** | **11.302** | **16.944** |
| | | | |
| **Cyllidir gan:** | | | |
| Grantiau Allanol | 10.722 | 10.722 | |
| Cyllid a Ddygwyd Ymlaen o 2018/19 | 1.099 | | 1.099 |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 1.327 | | 1.327 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 2.026 | | 2.026 |
| Grant Adnewyddu Priffyrdd | 0.580 | 0.580 | |
| Derbyniadau Cyfalaf | - | | - |
| Benthyca Digefnogaeth, Ysgolion 21ain Ganrif | 0.402 | | 0.402 |
| Benthyca â Chefnogaeth, Ysgolion 21ain Ganrif | 1.640 | | 1.640 |
| Benthyca Digefnogaeth, CRT | 1.000 | | 1.000 |
| Refeniw / Arian Wrth Gefn CRT | 9.450 | | 9.450 |
| **CYFANSWM CYLLID** | **28.246** | **11.302** | **16.944** |

**Tabl B – Cynlluniau Cyfalaf Newydd Arfaethedig a Chynlluniau Buddsoddi i Arbed 2019/20**

| Cynllun | Cyllideb 2019/20<br><br>£'m | Grantiau Allanol<br><br>£'m | Cyllid y Cyngor wedi'i ail-ddyrannu £'m |
|---|---|---|---|
| Uwchraddio Peiriannau Talu ac Arddangos mewn Meysydd Parcio | 0.030 | 0.000 | 0.030 |
| Adnewyddu Plas Mona | 0.035 | 0.000 | 0.035 |
| Adnewyddu Plas Crigyll | 0.085 | 0.000 | 0.085 |
| Uwchraddio Offer Ystafelloedd Cyfarfod | 0.025 | 0.000 | 0.025 |
| Diogelwch Ysgolion | 0.200 | 0.000 | 0.200 |
| Cyllid os ceir cynnig hwyr gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â Gwaith Draenio | 0.200 | 0.170 | 0.030 |
| Cyswllt Ynys Môn (AC) i'r cyfnod pontio PSBA | 0.060 | 0.000 | 0.060 |
| Astudiaethau Draenio a Gwaith Dylunio | 0.166 | 0.141 | 0.025 |
| Amddiffynfa Llifogydd yn Nhraeth Coch | 0.850 | 0.638 | 0.212 |
| Datblygu Economaidd – I geisio Cyllid Cyfatebol | 0.095 | 0.000 | 0.095 |
| Buddsoddi i Arbed – Effeithlonrwydd Ynni mewn Adeiladau Corfforaethol | 0.250 | 0.000 | 0.250 |
| Buddsoddi i Arbed – Prynu cerbydau newydd | 0.150 | 0.000 | 0.150 |
| **CYFANSWM RHAGLEN GYFALAF** | **2.146** | **0.949** | **1.197** |
| | | | |
| **Cyllidirr gan:** | | | |
| Grantiau Allanol | 0.949 | | |
| Cyllid sydd wedi'i Ail-ddyrannu | 1.197 | | |
| **CYFANSWM CYLLID** | **2.146** | | |

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 14 Mai 2019 |
| **TEITL:** | Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Safonau |
| **ADRODDIAD GAN:** | Michael Wilson, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ac Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Adrodd ar Weithgareddau'r Pwyllgor Safonau yn 2018/19 a gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Rhaglen y Pwyllgor ar gyfer 2019/20 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro (est 2568) |

**Rhagarweiniad**

1. Mae'r Pwyllgor Safonau yn bwyllgor statudol ac arno 9 aelod (2 gynghorydd sir, 5 aelod annibynnol a 2 aelod cyngor cymuned).

2. Daw tymor pedwar aelod annibynnol, gan gynnwys y Cadeirydd, i ben ar 19 Rhagfyr 2019. Mae proses agored a chystadleuol er mwyn llenwi'r swyddi gwag hyn wrthi'n cael ei chynnal ar hyn o bryd. Mae'r broses yn cael ei chynnal gan Banel Dethol y Pwyllgor Safonau. Bydd tymor y pumed aelod (a benodwyd yn 2017) yn dod i ben ar 11.12.2025.

3. Penodwyd dau gynrychiolydd o'r Cynghorau Tref a Chymuned yn ystod 2017. Bydd eu penodiadau yn parhau am y cyfnod hyd at yr etholiad llywodraeth leol nesaf neu hyd at gyfnod pan nad yw'r aelodau a benodwyd yn aelodau mwyach o gyngor cymuned, p'un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

4. Ailbenodir y ddau aelod o'r Cyngor Sir yn flynyddol gan y Cyngor.

5. Mae gan y Pwyllgor Safonau y rolau a'r swyddogaethau canlynol (ymhlith eraill) mewn perthynas â aelodau'r Cyngor Sir ac aelodau'r cynghorau tref/cymuned: -

   (a) hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau;
   (b) cynorthwyo aelodau i lynu wrth eu Cod Ymddygiad
   (c) cynghori, hyfforddi, neu drefnu i hyfforddi aelodau;
   (ch) ystyried ceisiadau am ganiatadau arbennig;
   (d) ymdrin ag unrhyw atgyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), neu Banel Dyfarnu Cymru (sef y Pwyllgor Safonau cenedlaethol i bob pwrpas).

**Cefndir**

6. Yn ei gyfarfod ar 15 Mai 2018, penderfynodd y Cyngor Sir gymeradwyo Rhaglen y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2018/2019. Roedd y Rhaglen wreiddiol yn nodi'r meysydd gwaith

arfaethedig, yr amserlen a’r adnoddau ar eu cyfer. Atgynhyrchir y ddogfen hon yn **ATODIAD A** yr Adroddiad hwn ac fe'i diweddarwyd i gynnwys y gwaith sydd wedi'i gyflawni ers hynny yn erbyn yr amcanion a osodwyd yn wreiddiol.

7. Mae **ATODIAD B** yr Adroddiad hwn yn cynnwys Rhaglen y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2019/2020, a gyflwynir ar gyfer cymeradwyaeth y Cyngor.

**<u>Sylwadau'r Cadeirydd</u>**

8. Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei gyfraniadau ymroddedig trwy gydol y flwyddyn, i gydnabod cefnogaeth a chyngor y swyddogion sy'n cynorthwyo'r Pwyllgor, a diolch i aelodau'r Cyngor Sir am eu parodrwydd i ymgysylltu â gwaith y Pwyllgor.

### 8.1 Atgyfeiriadau Cod Ymddygiad / Cwynion

Yn 2016, roedd y Pwyllgor yn falch o fedru dweud wrth y Cyngor: "ei fod wedi treulio llai o amser yn cynnal gwrandawiadau, neu’n mynychu cyfarfodydd / cyfryngu yn deillio o achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad." Dyma’r trydydd tro i’r Pwyllgor gofnodi fod y duedd gyffredinol hon yn parhau.

Mae'r Pwyllgor Safonau yn derbyn adroddiadau bob chwarter ac yn ei gyfarfodydd arferol sy'n darparu gwybodaeth ystadegol am nifer a statws cwynion mewn perthynas â’r Cod Ymddygiad a gyflwynwyd i’r OGCC yn erbyn (a) aelodau CSYM ac (b) aelodau'r cynghorau tref a chymuned. Yn yr adroddiadau ar gyfer Ebrill 2018 – Mawrth 2019, mae tri chwyn wedi eu cyflwyno i’r OGCC ynghylch aelodau o’r cynghorau tref a chymuned; mae pob un wedi eu gwrthod. Gwnaed un gŵyn i’r OGCC yn erbyn aelod o CSYM ond mae’r OGCC wedi penderfynu peidio ymchwilio. Ni chyfeiriwyd unrhyw gŵyn gan OGCC i’r Pwyllgor Safonau.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i gredu bod hunan-reoleiddio’n gweithio a bod adrodd i OGCC ar ychydig o gwynion, pan fo hynny'n angenrheidiol ac yn briodol, yn arwydd o fudiad sy'n gwerthfawrogi'r gwahaniaeth rhwng y taro a’r gwrthdaro mewn gwleidyddiaeth a materion a allai fod yn fwy difrifol ac sydd efallai angen ymchwiliad annibynnol iddynt. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod nifer a lefel y cwynion i OGCC yn arwydd o iechyd corfforaethol da.

Atgoffir aelodau fod Protocol Datrysiad Lleol, sy’n broses wirfoddol ac anffurfiol, ar gael pan fo anghydfod rhwng aelodau; gallai gynorthwyo er mwyn datrys anghydfodau yn gynt ac yn fwy effeithiol na chwyn i OGCC. Er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o’r broses, mae aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau wedi derbyn hyfforddiant mewn cyfryngu. Ni fydd cosb yn cael ei gosod o dan y broses; mae canlyniad llwyddiannus yn ddibynnol ar gytundeb a chydweithrediad y partïon sydd ynghlwm efo’r broses.

Mae OGCC wedi ei gwneud yn glir yn flaenorol, er nad oes gofyniad statudol, disgwylir i gynghorau tref a chymuned gymryd camau rhesymol er mwyn datrys materion mewnol gan ddefnyddio eu trefniadau datrysiadau lleol eu hunain. Mae’r Pwyllgor Safonau yn llwyr gefnogi’r ymagwedd yma, lle bo’n briodol, ac roedd hwn yn un adran â ystyriwyd gan y Pwyllgor Safonau yn ystod ei adolygiad yn y cynghorau tref a chymuned (gwelir 8.5 isod).

### 8.2 Cyfarfodydd

Mae'r Pwyllgor yn parhau i gyfarfod yn ffurfiol ddwywaith y flwyddyn. Dyma'r ail flwyddyn o dan y trefniant yma ac mae'r amlder hwn yn parhau i weithio'n dda ac mae'r rhaglenni yn y ddau gyfarfod ffurfiol a gynhelir bob blwyddyn yn parhau i fod yn briodol.

Wrth gwrs, gellir galw cyfarfodydd arbennig i sicrhau cydymffurfiaeth gydag unrhyw rwymedigaethau statudol a gellir parhau i gynnal cyfarfodydd anffurfiol yn unol â gofynion busnes. Yn wir, mae hyn wedi digwydd gyda cyfarfodydd anffurfiol, sesiynau hyfforddiant a 5 cyfarfod o'r Panel Caniatâd Arbennig yn ystod y flwyddyn (gwelir 8.3 isod).

### 8.3 Caniatâd Arbennig

Gall y Pwyllgor Safonau ryddhau caniatadau arbennig, mewn rhai amgylchiadau a ddiffinnir gan statud, lle na fyddai'r aelod fel arall yn gallu cymryd rhan mewn trafodaeth neu benderfyniad oherwydd diddordeb personol (rhagfarnus) sylweddol. Efallai y bydd y Pwyllgor Safonau mewn sefyllfa ar adegau i oresgyn y diddordeb rhagfarnus hwnnw os bodlonir rhai amodau. Mae'r Rheoliadau ar Ganiatâd Arbennig yn berthnasol i aelodau'r Cyngor Sir ac aelodau'r cynghorau tref a chymuned.

Yn 2018/2019, rhoddodd y Pwyllgor Safonau 18 caniatâd arbennig. Mae 7 wedi eu rhoi yn dilyn ceisiadau gan aelodau'r Cyngor Sir ac 11 yn dilyn ceisiadau gan aelodau o'r cynghorau tref a chymuned.

Mae'r Pwyllgor Safonau'n credu fod y cynnydd yn dangos fod aelodau'r Cyngor Sir, clercod ac aelodau'r cynghorau tref a chymuned yn gyfarwydd â'r posibilrwydd o dderbyn caniatâd arbennig erbyn hyn ac yn hyderus i wneud y cais perthnasol pan fo'r angen. Mae'n debygol fod hyn yn dilyn y Pwyllgor Safonau yn cylchredeg Nodyn Briffio ar Ganiatâd Arbennig yn 2017 gyda'i gynnwys yn cael ei ail-adrodd mewn Hyfforddiant ym mis Mai 2017. Mae'r Pwyllgor Safonau'n falch o nodi'r datblygiad positif yma oherwydd ei fod yn ffordd o ganiatáu aelodau gymryd rhan mor lawn â phosib o fewn y broses ddemocrataidd yr etholwyd nhw iddi tra'n sicrhau fod y cyhoedd yn hyderus yng ngwrthrychedd y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar eu rhan.

Cynghorir aelodau'r Cyngor Sir ac aelodau'r cynghorau tref a chymuned i ystyried a allai cais am ganiatâd arbennig fod yn briodol iddyn nhw dan rai amgylchiadau ac fe'i hanogir i gysylltu efo'r Swyddog Monitro am gyngor.

### 8.4 Datblygiad Personol

Mae'r Pwyllgor Safonau yn argymell i'r holl aelodau eu bod yn parhau i ymgysylltu â'r Rhaglen Hyfforddi a Datblygu a gynigir gan y Cyngor Sir a'u bod yn cymryd rhan yn eu Hadolygiadau Datblygiad Personol gyda'u Harweinyddion Grwpiau. Mae'r gofyn i adnewyddu a diweddaru sgiliau a gwybodaeth yr un mor berthnasol i aelodau hirdymor ag ydyw ar gyfer aelodau sydd wedi eu hethol yn fwy diweddar.

**8.5 Cofrestrau Diddordebau**

Y llynedd adroddwyd bod y Pwyllgor Safonau wedi cynnal adolygiad o'r tair cofrestr o ddiddordebau gan aelodau'r Cyngor Sir.

Eleni, fel yn 2016/2017, dychwelodd y Pwyllgor Safonau i'r Cynghorau Tref a Chymuned er mwyn cynnal adolygiad o sampl o'r cofrestrau sengl o ddiddordebau aelodau a gedwir ganddynt. Cyhoeddwyd adroddiad yn manylu ar gasgliadau cyffredinol yr adolygiad ar 16 Ebrill 2019 ac mae copi wedi ei gynnwys yn **ATODIAD C**.

Bydd nifer o aelodau'r Cyngor Sir yn eistedd ar y cynghorau tref a chymuned hefyd neu'n gweithredu fel "cyswllt" rhwng y Cyngor Sir a'u cynghorau tref a chymuned a gofynnir iddynt hyrwyddo ac annog argymhellion **ATODIAD C** gyda'u cydweithwyr sy'n aelodau o'r cynghorau tref a chymuned.

Yn 2019/2020, bwriad y Pwyllgor Safonau fydd adolygu'r dair cofrestr o ddiddordebau sy'n cael eu cwblhau gan aelodau'r Cyngor Sir unwaith eto, gyda'r bwriad o gysylltu ag aelodau unigol os bydd angen trafod neu gadarnhau unrhyw fater. Yn dilyn hyn, fe gyhoeddir cyngor cyffredinol neu argymhellion (os bydd unrhyw beth yn codi). Bwriedir cwblhau'r dasg hon cyn Medi 2019 fel y bydd yn un o swyddogaethau olaf y Pwyllgor Safonau presennol cyn i'r pedwar aelod annibynnol newydd gael eu penodi gan y Cyngor Sir yn Rhagfyr 2019.

**8.6 Cynhadledd Safonau Cymru**

Mynychais, gyda Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau, Gynhadledd Safonau Cymru yn Aberystwyth ym Medi 2018. Cynhadledd oedd hon ar gyfer cynrychiolwyr o'r 22 Awdurdod Lleol, awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a'r Awdurdodau Tân ac Achub. Roedd hwn yn ddiwrnod addysgiadol gyda chyflwyniadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Llywydd Panel Dyfarnu Cymru. Fe wnaethom roi cyflwyniad ar gynnwys y Gynhadledd i aelodau eraill y Pwyllgor Safonau mewn cyfarfod anffurfiol a drefnwyd ar 30.10.2018.

**8.7 Ymadawiad y Cadeirydd**

Dyma fy adroddiad olaf yn fy rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Safonau oherwydd mae fy nghyfnod i, a thri aelod annibynnol arall, yn dod i ben ar 19.12.2019. Mae Panel Dethol y Pwyllgor Safonau yn cynnal ymarferiad recriwtio er mwyn llenwi'r swyddi rhain ar hyn o bryd (gwelir paragraff 2 uchod). Dymunaf yn dda i'r aelodau newydd.

Pan apwyntiwyd fi, ynghyd â phedwar aelod annibynnol arall (bron i wyth mlynedd yn ôl), fe wnaethom gytuno fel Pwyllgor i fod yn rhagweithiol ac adeiladol wrth gefnogi aelodau i gynnal safon uchel o ymddygiad yn CSYM. Hoffwn ddiolch i aelodau CSYM am eich cefnogaeth er mwyn sicrhau fod y Pwyllgor Safonau wedi gwireddu'r amcan yma. Wrth adael y rôl hon fel Cadeirydd, gobeithiaf y bydd y Pwyllgor Safonau yn parhau gyda'i waith

rhagweithiol fel sydd wedi ei gynnal yn ystod yr 8 mlynedd diwethaf. Mae hyn yn cyd-fynd â'r gofynion statudol a hefyd yn bodloni disgwyliadau'r rheoleiddwyr a Llywodraeth Cymru. Gellir mesur llwyddiant yr ymagwedd yma yn y lleihad yn nifer y cwynion tra'n sicrhau gall y cyhoedd fod yn hyderus yn ymddygiad eu haelodau etholedig.

Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau sydd wedi bod yn gefnogol ac wedi cyfrannu at waith y Pwyllgor Safonau dros yr 8 mlynedd diwethaf. Hoffwn ddiolch i fy Is-Gadeirydd, Mr Islwyn Jones, a hefyd Mrs Dilys Shaw a Ms Denise Harris-Edwards. Mae gan y Pwyllgor Safonau ddau aelod o'r Cynghorau Tref a Chymuned hefyd; cafodd Mr Iorwerth Roberts a Mr Keith Roberts eu hapwyntio yn 2017 a hoffwn ddiolch iddynt a'u rhagflaenyddion (Mr John Roberts a Mr John Chorlton) am eu cyfraniadau mewn materion yn ymwneud efo Cynghorau Tref a Chymuned. Mae penodiadau'r Cynghorwyr Sir Trefor Lloyd Hughes a Dafydd Rhys Thomas hefyd wedi cynorthwyo'r Pwyllgor gyda eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o faterion yn ymwneud efo'r Cyngor Sir, a diolchaf iddynt am eu cymorth.

Yn olaf, hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i aelodau etholedig y Cyngor Sir am eu cefnogaeth i'r Pwyllgor Safonau, ac yn arbennig i mi fel Cadeirydd, ers 8 mlynedd (bron iawn!). Dymunaf yn dda i chi a'r Cyngor ar gyfer y dyfodol.

**ARGYMHELLIAD: -**

1. Nodi'r Rhaglen a gyflawnwyd gan y Pwyllgor Safonau rhwng Ebrill 2018 a mis Mai 2019 fel y'i gwelir yn **ATODIAD A.**

2. Cymeradwyo Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2019/2020 fel y'i hamlinellir yn **ATODIAD B.**

**ATODIAD A**

**RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU – MAI 2018 I EBRILL 2019**

| | | AMSERLEN | ADNODDAU | STATWS AR DDIWEDD Y FLWYDDYN |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Cynnal gwrandawiadau i achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad yn dilyn eu cyfeirio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) | • Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | • Swyddog Monitro | • Dim atgyfeiriadau |
| 2. | Cynnal gwrandawiadau i geisiadau am Ganiatâd Arbennig | • Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | • Swyddog Monitro | • Cais am ganiatâd arbennig gan 3 aelod o gyngor tref/cymuned gyda'r gwrandawiad yn cael ei gynnal ar 29.06.2018. Rhoddwyd caniatâd arbennig i'r tri cynghorydd yn unol â'r amodau sydd wedi eu nodi yn y cofnodion. Derbyniodd ddau ganiatâd arbennig wedi ei gyfyngu a derbyniodd un ganiatâd arbennig llawn. Gwelir linc ar gyfer y cais/gwrandawiad yma.<br>• Cais am ganiatâd arbennig gan aelod o'r Cyngor Sir gyda'r gwrandawiad yn cael ei gynnal ar 28.01.2019. Rhoddwyd caniatâd arbennig i'r aelod yn unol â'r amodau sydd wedi eu nodi yn y cofnodion. Gwelir linc ar gyfer y cais/gwrandawiad yma.<br>• Cafodd Gwrandawiad ar gyfer Caniatâd Arbennig ar 11.02.2019 ei ganslo. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | • Cais am ganiatâd arbennig gan 8 aelod o gyngor tref/cymuned gyda'r gwrandawiad yn cael ei gynnal ar 07.03.2019. Rhoddwyd caniatâd arbennig i'r wyth cynghorydd yn unol â'r amodau sydd wedi eu nodi yn y cofnodion. Gwelir linc ar gyfer y cais/gwrandawiad yma.<br>• Cais am ganiatâd arbennig gan 5 aelod o'r Cyngor Sir gyda'r gwrandawiad yn cael ei gynnal ar 22.03.2019. Rhoddwyd caniatâd arbennig i'r pum aelod yn unol â'r amodau sydd wedi eu nodi yn y cofnodion. Gwelir linc ar gyfer y cais/gwrandawiad yma.<br>• Cais am ganiatâd arbennig gan aelod o'r Cyngor Sir gyda'r gwrandawiad yn cael ei gynnal ar 29.03.2019. Rhoddwyd caniatâd arbennig wedi ei gyfyngu i'r aelod yn unol â'r amodau sydd wedi eu nodi yn y cofnodion. Gwelir linc ar gyfer y cais/gwrandawiad yma. |
| 3. | Ymgymryd â rôl ymgynghorol mewn cysylltiad â materion sy'n codi dan Brotocol Datrysiad Lleol y Cyngor | • Fel a phryd y derbynnir cais | • Swyddog Monitro | • Mae Cadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi cyfarfod efo 4 aelod yn ystod y flwyddyn er mwyn cynnal Datrysiadau Lleol. Roedd rhain yn faterion oedd yn ymwneud efo materion yn y cynghorau tref/cymuned.<br>• Mae Cadeirydd y Pwyllgor Safonau hefyd wedi cyfarfod efo 10 aelod unigol o'r Cyngor Sir / eu Harweinwyr Grŵp ynghylch materion Cod Ymddygiad sydd wedi codi yn ystod y |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | flwyddyn. |
| 4. | Goruchwylio hyfforddiant a datblygiad ar y Cod Ymddygiad i Aelodau yn unol â pharagraff 2.6 y Côd. | • Yn barod ar gyfer Mai 2019 | • Swyddog Monitro | CYNGHORAU TREF A CHYMUNED:-<br>• Rhannwyd Nodyn Briffio ar Ddiddordebau Personol ar gyfer aelodau'r cynghorau tref a chymuned ar 16.04.2019<br>• Cynhaliwyd adolygiad o Gofrestr Diddordeb mewn sampl o'r cynghorau tref a chymuned yn Rhagfyr 2018/Ionawr a Chwefror 2019.<br>• Canllaw ar Gyfryngau Cymdeithasol wedi ei rannu ar 21.08.2018.<br><br>AELODAU'R CYNGOR SIR:-<br>• Rhaglen wedi ei chyflwyno / datblygiadau wedi eu trafod gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Safonau ym Medi 2018 a Mawrth 2019.<br>• Mae'r rhaglen Hyfforddiant wedi ei chyhoeddi i aelodau.<br>• Siartr Datblygu Aelodau – mae'r Cyngor wedi gwneud cais am ei adnewyddu.<br>• Nodyn Briffio ar Roddion a Lletygarwch wedi ei rannu efo aelodau ar 18.04.2019.<br>• Nodyn Briffio ar Hawliau Aelodau fel Unigolion wedi ei rannu efo aelodau ar 26.04.2019. |
| 5. | Adolygu sampl o'r Cofrestrau o Ddiddordebau'r Aelodau fel y cânt eu cadw gan y cynghorau tref a | • Erbyn diwedd Ebrill 2019 | • Swyddog Monitro | • Cynhaliwyd adolygiad yn Rhagfyr 2018 / Ionawr a Chwefror 2019 gan ddefnyddio'r Nodyn Methodoleg |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | chymuned gan roddi unrhyw gyngor a chanllawiau angenrheidiol wedi hynny. | | | • Anfonwyd llythyrau unigol at bob cyngor tref/cymuned adolygwyd ar 11.03.2019<br>• Anfonwyd llythyr efo canfyddiadau cyffredinol i'r holl gynghorau tref a chymuned ar 16.04.2019 (**ATODIAD C**) |
| 6. | Cyflawni rôl yr ymgynghorai mewn perthynas ag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad sy'n berthnasol i rôl y Pwyllgor Safonau yn enwedig lle gallai newidiadau arfaethedig o'r fath ragfarnu mewn modd anghymesur, hawliau neu ddiddordebau unrhyw grŵp lleiafrifol. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro | • Dim cyfeiriadau |
| 7. | Cyflawni rôl yr ymgynghorai mewn perthynas ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol/polisi arfaethedig sy'n berthnasol i faes cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro | • Bydd Panel Dethol y Pwyllgor Safonau yn penodi pedwar aelod annibynnol newydd ar y Pwyllgor Safonau – gwelir 15 isod<br>• Cod Ymddygiad diwygiedig – mabwysiadu gan y cynghorau tref a chymuned<br>• Adolygiad o gydymffurfiaeth cynghorau tref a chymuned â'r gofyn statudol i gael Gwefan yn cynnwys gwybodaeth berthnasol arni *<br>• Adolygiad o gydymffurfiaeth cynghorau tref a chymuned â'r gofyn i fabwysiadu Protocol Datrysiad Lleol (ddim yn orfodol) *<br>• Adolygiad i weld a yw cynghorau tref a chymuned yn cynnwys trefniadau ar gyfer hyfforddiant clerc ac aelodau * |



CC-019486-MY(500364)

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | • Adolygodd y Pwyllgor Safonau Adroddiadau Blynyddol aelodau'r Cyngor Sir a chysylltu yn uniongyrchol efo aelodau, fel bo'n briodol, er mwyn annog aelodau i'w cwblhau.<br><br>* Fel rhan o adolygiad parhaus y Pwyllgor Safonau o drefniadau llywodraethu corfforaethol yn y cynghorau tref a chymuned o ran eu bod yn dod o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau. |
| 8. | Gwneud unrhyw argymhellion i'r Cyngor ar gyfer gwella'r meysydd gwaith hynny sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Safonau. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro | • Protocol Datrysiad Lleol – cytunodd y Cyngor i'r Protocol diwygiedig ar 15.05.2018. Mynychodd aelodau'r Pwyllgor Safonau hyfforddiant ar Gyfryngu. |
| 9. | Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor yn amlinellu gwaith y pwyllgor yn ystod y flwyddyn flaenorol. | • Mai 2019 | • Cadeirydd | • 14.05.2019 |
| 10. | Sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau'r Pwyllgor Safonau'n cael eu datblygu a'u diweddaru drwy: | • Parhaus | • Swyddog Monitro | • Cynhaliodd cynrychiolwyr y cynghorau tref a chymuned ar y Pwyllgor Safonau adolygiad o gofrestrau diddordeb aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau ym Mehefin 2018. Anfonwyd llythyrau cynghori unigol at bob aelod o'r Pwyllgor Safonau ar 12.07.2018.<br>• Cynhyrchwyd Nodyn Cyngor Methodoleg ar gyfer cynnal adolygiadau o Gofrestrau Diddordeb Aelodau a chafodd ei rannu ag Arweinyddion y Grwpiau. (Fe'i |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | rhannwyd efo aelodau ar 01.05.2019).<br>• Cynhyrchwyd Nodyn Cyngor Methodoleg ar gyfer cynnal adolygiadau yn y cynghorau tref a chymuned |
| | - Adolygu'n rheolaidd achosion y penderfynwyd arnynt gan:<br>○ awdurdodau perthnasol eraill<br>○ Panel Dyfarnu Cymru | • Cyfarfodydd arferol y Pwyllgor | • Swyddog Monitro | • Anfonwyd i'r Pwyllgor Safonau ar 12.09.2018 a 13.03.2019<br>• Cyhoeddwyd i aelodau'r Cyngor Sir ar 16.04.2019<br>• Cyhoeddwyd i'r cynghorau tref a chymuned ar 26.04.2019<br>• Canllaw Cosbau Newydd Panel Dyfarnu Cymru wedi ei rannu efo aelodau'r Pwyllgor Safonau ar 4.10.2018. Gwelir linc i'r adroddiad yma. |
| | - Cymryd rhan a gwneud cyfraniad yn Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru | • Dwywaith y flwyddyn | • Swyddog Monitro | • 29.06.2018 – cynhaliwyd cyfarfod y Fforwm gan Gyngor Sir Gwynedd. Mynychodd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd. Gwelir linc i'r adroddiad.<br>• Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal gan Gyngor Sir y Fflint ar 24.06.2019. Bydd OGCC yn mynychu. |
| | - Cymryd rhan a gwneud cyfraniad yng Nghynhadledd Pwyllgorau Safonau Cymru Gyfan | • 14.09.2018 | • Swyddog Monitro | • Mynychodd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau a'r Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) Gynhadledd yn Aberystwyth ar 14.09.2018. Adroddwyd ynghylch y mater yma i'r Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | anffurfiol ar 30.10.2018. |
| | - I'w adolygu dan gynllun adolygu perfformiad yn debyg i hwnnw a ddefnyddir gan yr aelodau etholedig | • Unwaith pob dwy flynedd – bydd angen gwneud hyn yn 2020 | • Swyddog Monitro | • Nid oes proses ADP yn berthnasol ar gyfer aelodau cyfetholedig y Pwyllgor Safonau. Bydd y broses ADP nesaf yn 2020 pan fydd cyfnod pedwar o aelodau annibynnol wedi dechrau<br>• Oherwydd cyfyngiadau yn y broses electronig, fel yn achos yr holl aelodau etholedig, mae aelodau'r Pwyllgor Safonau wedi cael eu cynghori i sicrhau eu bod yn diweddaru eu cofnod hyfforddiant eu hunain. |
| 11. | Monitro cynnydd o ran cwynion am Aelodau a gafodd eu cyflwyno i OGCC a dadansoddi'n flynyddol y wybodaeth ynglŷn â'r cwynion sy'n berthnasol i'r Cyngor Sir a'r cynghorau tref a chymuned er mwyn nodi unrhyw dueddiadau neu faterion sy'n peri pryder neu sy'n dangos bod angen hyfforddiant. | • Yn chwarterol | • Swyddog Monitro | • Adroddiad i'r Pwyllgor Safonau ar 12.09.2018 a 13.03.2019<br>• Bydd tabl cwynion yn cael ei ddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor Safonau yn chwarterol yn Ebrill (Ionawr-Mawrth), Gorffennaf (Ebrill-Mehefin), Hydref (Gorffennaf-Medi) ac Ionawr (Hydref-Rhagfyr). Mae'n nodi'r cwynion sydd wedi eu derbyn a'r datblygiad sydd wedi ei wneud ynghylch y cwynion hynny sy'n cael eu hymchwilio gan OGCC mewn perthynas â (a) aelodau'r Cyngor Sir a (b) aelodau'r cynghorau tref a chymuned.<br>• Adroddwyd i'r Pwyllgor Safonau ar adroddiad gan OGCC a chrynodeb o Lawlyfr y Cwynion Cod Ymyddygiad sydd wedi eu derbyn gan OGCC ar gyfer Ionawr a Mai 2018 ar 12.09.2018. Rhannwyd yr adroddiad efo aelodau'r Cyngor Sir ar 16.04.2019 a'r cynghorau tref a chymuned ar 26.04.2019. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | • Adroddwyd i'r Pwyllgor Safonau ar adroddiad gan OGCC a chrynodeb o Lawlyfr y Cwynion Cod Ymyddygiad sydd wedi eu derbyn gan OGCC ar gyfer Gorffennaf a Hydref 2018 ar 13.03.2019. Rhannwyd yr adroddiad efo aelodau'r Cyngor Sir ar 16.04.2019 a'r cynghorau tref a chymuned ar 26.04.2019. |
| 12. | Cynnal cyswllt gydag Arweinyddion Grwpiau er mwyn trafod materion sydd o bryder/diddordeb cyffredin. | • Fel a phryd y bydd angen | • Y Cadeirydd | • 17.01.2019<br>• 21.03.2019 |
| 13. | Adroddiad ar ddangosyddion perfformiad chwarterol fel mater o drefn:<br>• Y berthynas rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol<br>• Effeithiolrwydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor<br>• Safonau ymddygiad Aelodau | • Yn chwarterol | • Swyddog Monitro | • Adroddir yn chwarterol |
| 14. | Adolygu'r system fel y gall aelodau ddarparu adborth o'r Cyrff Allanol y maent wedi cael eu penodi arnynt a'r cymorth sydd eu hangen arnynt gan y Cyngor i fedru gwneud hyn. Ystyried y wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd mewn perthynas â'r Cyrff Allanol hyn, e.e. Rhaglenni a Chofnodion y cyfarfodydd hynny. | • Erbyn diwedd Ebrill 2019 | • Swyddog Monitro | • Derbyniodd y Pwyllgor Safonau adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ar 12.09.2018.<br>• Mae cysylltiadau rŵan rhwng tudalen bywgraffiad pob aelod ar wefan y Cyngor a'r Corff Allanol mae o/hi wedi eu penodi arno gan y Cyngor.<br>• Roedd hwn hefyd yn un o'r ystyriaethau o ran cynnwys Adroddiadau Blynyddol aelodau. |
| 15. | Cychwyn y broses o recriwtio 4 o aelodau annibynnol newydd i'r | • Y broses i ddechrau erbyn | • Swyddog Monitro | • Cyfarfu Panel Dethol y Pwyllgor Safonau ar 11.04.2019 er mwyn cadarnhau'r |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Pwyllgor Safonau i gymryd lle aelodau'r pwyllgor y daw eu tymor i ben yn Rhagfyr 2019. Y nod fyddai i'r aelodau hynny fynychu'r cyfarfod ffurfiol diwethaf o'r Pwyllgor Safonau a gynhelir yn ystod tymor yr aelodau cyfredol ym mis Medi 2019. | diwedd Ebrill 2019 | | hysbyseb ar gyfer y pedair swydd wag ar gyfer aelodau annibynnol ar y Pwyllgor Safonau.<br>• Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ydi 17.05.2019<br>• Bydd Panel Dethol y Pwyllgor Safonau yn cyfarfod yn fuan ar ôl y dyddiad cau yma er mwyn llunio rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer eu cyfweld ym Mehefin / Gorffennaf 2019. |

**ATODIAD B**

## RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU – MAI 2019 I EBRILL 2020

| | | AMSERLEN | ADNODDAU | STATWS AR DDIWEDD Y FLWYDDYN |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Cynnal gwrandawiadau i achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad yn dilyn eu cyfeirio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) | • Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | • Swyddog Monitro | |
| 2. | Cynnal gwrandawiadau i geisiadau am Ganiatâd Arbennig | • Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | • Swyddog Monitro | |
| 3. | Cyflawni swyddogaeth ymgynghorol mewn perthynas â materion sy'n codi dan Brotocol Datrysiad Lleol y Cyngor | • Fel a phryd y derbynnir cais | • Swyddog Monitro | |
| 4. | Goruchwylio hyfforddiant a datblygiad ar y Côd Ymddygiad i Aelodau yn unol â pharagraff 2.6 y Cod. | • Yn barhaus | • Swyddog Monitro | |
| 5. | Adolygu sampl o'r Cofrestrau o Ddiddordebau'r Aelodau fel y cânt eu cadw gan y cynghorau tref a chymuned gan roi unrhyw gyngor a chanllawiau angenrheidiol wedi hynny. | • Erbyn diwedd Ebrill 2019 | • Swyddog Monitro | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 6. | Cyflawni rôl yr ymgynghorai mewn perthynas ag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad sy'n berthnasol i rôl y Pwyllgor Safonau yn enwedig lle gallai newidiadau arfaethedig o'r fath ragfarnu mewn modd anghymesur, hawliau neu ddiddordebau unrhyw grŵp lleiafrifol. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro | |
| 7. | Cyflawni rôl yr ymgynghorai mewn perthynas ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol/polisi arfaethedig sy'n berthnasol i faes cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro | |
| 8. | Gwneud unrhyw argymhellion i'r Cyngor ar gyfer gwella'r meysydd gwaith hynny sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Safonau. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro | |
| 9. | Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor yn amlinellu gwaith y pwyllgor yn ystod y flwyddyn flaenorol. | • Mai 2020 | • Cadeirydd | |
| 10. | I Gadeirydd ac aelodau eraill y Pwyllgor Safonau i fynychu unrhyw gyfarfodydd o'r Cyngor Sir neu ei Bwyllgorau. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro | |
| 11. | Sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau'r Pwyllgor Safonau'n cael eu datblygu a'u diweddaru drwy: | | • Swyddog Monitro | |
| | - Adolygu'n rheolaidd achosion y penderfynwyd arnynt gan:<br>○ awdurdodau perthnasol | • Cyfarfodydd arferol y Pwyllgor | • Swyddog Monitro | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | eraill<br>○ Panel Dyfarnu Cymru | | | |
| | - Cymryd rhan a gwneud cyfraniad yn Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru | • Dwywaith y flwyddyn | • Swyddog Monitro | |
| | - Cymryd rhan a gwneud cyfraniad yng Nghynhadledd Pwyllgorau Safonau Cymru Gyfan | • Un bob 2 flynedd – cynhaliwyd y diwethaf ar 14.09.2018, felly bydd yn nesaf yn 2020 | • Swyddog Monitro | |
| | - I'w adolygu dan gynllun adolygu perfformiad yn debyg i hwnnw a ddefnyddir gan aelodau'r Cyngor Sir | • Unwaith pob dwy flynedd – bydd angen gwneud hyn yn 2020 | • Swyddog Monitro | |
| 12. | Monitro cynnydd o ran cwynion ynghylch aelodau a gafodd eu cyflwyno i OGCC a dadansoddi'n flynyddol y wybodaeth ynglŷn â'r cwynion sy'n berthnasol i'r Cyngor Sir a'r cynghorau tref a chymuned er mwyn nodi unrhyw dueddiadau neu faterion sy'n peri pryder neu sy'n dangos fod angen hyfforddiant. | • Yn chwarterol | • Swyddog Monitro | |
| 13. | Cynnal cyswllt gydag Arweinyddion Grwpiau er mwyn trafod materion sydd o bryder/diddordeb cyffredin. | • Fel a phryd y bydd angen | • Y Cadeirydd | |
| 14. | Adroddiad ar ddangosyddion perfformiad chwarterol ar gyfer y | • Cyn Ebrill 2020 | • Swyddog Monitro | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Pwyllgor Safonau ac adrodd yn ôl fel mater o drefn | • Yn chwarterol | | |
| 15. | Gwneud gwaith ar gyfer hyfforddi ac anwytho'r 4 aelod annibynnol newydd ar y Pwyllgor Safonau, unwaith y byddant wedi eu penodi. Y bwriad fyddai i'r aelodau newydd hynny fynychu cyfarfod ffurfiol olaf y Pwyllgor Safonau cyfredol ym Medi 2019. | • Pedair swydd wag i'w llenwi erbyn 19 Rhagfyr 2019 pan fydd cyfnod pedwar o'r pum aelod cyfredol yn dod i ben. | • Swyddog Monitro | |

**From:** Lynn Ball
**To:** Aberffraw; Amlwch; Beaumaris; Bodedern; Bodffordd a Llanfachraeth; Bodorgan Cwm Cadnant Llanfihangelesceifiog; Bryngwran; Cylch-y-Garn Community Council; Holyhead Town Council; Llanbadrig; Llanddaniel Fab; Llanddona a Llangoed; Llanddyfnan; Llaneilian; Llanerchymedd; Llanfaelog; Llanfaethlu; Llanfair ME; Llanfair yn Neubwll; Llanfairpwll; Llangefni; Llangefni ; Llanidan; Mechell; Menai Bridge; Moelfre; Penmynydd a Star; Pentraeth; Rhosybol; Rhosyr; Trearddur; Tref Alaw; Trewalchmai; Valley
**Subject:** Adolygiad y Pwyllgor Safonau - swyddogol / Review by Standards Committee - official
**Date:** 16 April 2019 15:52:14
**Attachments:** 495650 - Adroddiad - Adolygiad Cofrestrau.pdf
495651 - Report - Review of Registers.pdf

---

Annwyl Glercod,

Yn ei gyfarfod ar 12 Medi 2018, penderfynodd y Pwyllgor Safonau gynnal adolygiad o gofrestrau diddordeb yr aelodau mewn sampl o'r Cynghorau Tref a Chymuned, er mwyn gwirio cydymffurfiaeth gyda'r Cod Ymddygiad. Penderfynwyd y byddai adroddiad cyffredinol yn cael ei gylchredeg i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned a fyddai'n manylu ar y canfyddiadau a wnaed yn ystod yr ymarferiad hwn. Ymgais oedd y broses hon i geisio cynorthwyo'r Cynghorau Tref a Chymuned drwy rannu arfer dda ac amlygu materion cyffredin y mae angen eu gwella.

Mae'r adolygiad bellach wedi dod i ben ac mae'r Pwyllgor Safonau wedi paratoi'r **adroddiad atodol**. Nodwch, os gwelwch yn dda, mai arolwg cyffredinol a geir yma; ni chaiff unrhyw Gyngor ei enwi.

Allwch chi sicrhau fod yr adroddiad yma'n cael ei rannu efo'ch aelodau drwy ei gynnwys fel eitem ar y Rhaglen nesaf sydd ar gael gan y Cyngor, os gwelwch yn dda? Gofynnwn i chi hefyd anfon copi o Gofnodion y cyfarfod perthnasol, sy'n cadarnhau fod yr adroddiad wedi ei drafod, i mwjcs@ynysmon.gov.uk .Gofynnwn am eich ymatebion, yn ogystal â chopi o'r Cofnodion, erbyn **diwedd mis Gorffennaf 2019** os gwelwch yn dda. Bydd y mater yn cael ei drafod yng nghyfarfod ffurfiol nesaf y Pwyllgor Safonau ym mis Medi 2019, a bydd yr adroddiad yn cynnwys tabl fydd yn nodi pa Gynghorau Tref a Chymuned sydd wedi / ddim wedi ymateb.

Gobeithiwn y bydd yr adroddiad atodol o gymorth i'ch aelodau o ran eu hymrwymiadau dan y Cod Ymddygiad.

Cofion,

Michael Wilson
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau

---

Dear Clerks,

At its meeting on 12 September 2018, the Standards Committee decided to conduct a review of the register of members' interests in a sample of the Town and Community

Councils, to ensure compliance with the Code of Conduct. It was decided that a general report would be distributed to all Town and Community Councils detailing the findings made following that exercise. This process was an attempt to assist all Town and Community Councils by way of sharing good practice and identifying matters which commonly need to be addressed.

The review has now been concluded and the Standards Committee has compiled the **attached report**. Please note that this is a general overview of the findings made; no individual Council is identified.

Please can you ensure that this report is shared with all members of your Council by including it as an item on the next available Council Agenda. We also ask that you please forward a copy of the Minutes of the relevant meeting, which confirm the report has been discussed, to mwjcs@ynysmon.gov.uk . We would ask for your responses, together with the copy Minutes, by the **end of July 2019** please. This matter will be discussed at the next formal meeting of the Standards Committee in September 2019, and the report will include a matrix detailing which Town and Community Councils have / have not responded.

We trust the attached report assists your members in relation to their obligations under the Code of Conduct.

Regards,

Michael Wilson
Chairman of the Standards Committee

CC-019486-MY/495597

**Adroddiad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn ar Gofrestrau Diddordebau Aelodau y Cynghorau Tref a Chymuned**

**Dyddiad paratoi'r adroddiad – Chwefror 2019**

## A) CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Mae'r Pwyllgor Safonau yn ymrwymedig i gynorthwyo aelodau Cynghorau Tref a Chymuned mewn perthynas â'u cyfrifoldebau o dan y Cod Ymddygiad.

Fel rhan o'i raglen waith ar gyfer 2018-19, penderfynodd y Pwyllgor Safonau gynnal adolygiad o Gofrestrau Diddordebau aelodau mewn sampl o'r Cynghorau Tref a Chymuned, er mwyn asesu a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad. Penderfynwyd y byddai adroddiad cyffredinol yn cael ei ddosbarthu i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned yn rhoi manylion am ganlyniad yr ymarfer hwnnw.

Mae'r adolygiad bellach wedi'i gwblhau ac mae'r Pwyllgor Safonau wedi llunio'r adroddiad cyffredinol hwn, sydd wedi ei ddosbarthu i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned. Nid oes yr un Cyngor yn cael ei enwi yn yr adroddiad hwn; anfonwyd llythyr personol at bob Cyngor a fu'n rhan o'r adolygiad, yn rhoi cyngor penodol. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys trosolwg cyffredinol o'r canfyddiadau a'r argymhellion.

## B) SYLWADAU CYFFREDINOL

Yn gyntaf oll, hoffai'r Pwyllgor Safonau ddiolch i'r clercod, a'r aelodau, yn y Cynghorau Tref a Chymuned a adolygwyd am eu hamser a'u croeso. Ystyrir bod yr adolygiadau wedi bod yn ymarfer buddiol; yn gyffredinol roedd y Pwyllgor Safonau yn fodlon â'r canfyddiadau, gan iddo weld sawl enghraifft o arferion da. Fodd bynnag, nodwyd meysydd cyffredin a oedd yn achosi pryder hefyd ac mae'r rhain angen sylw. Mae'r Adroddiad hwn yn anelu at gynnwys y ddwy elfen hon, fel ei fod yn arweiniad defnyddiol i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned ar yr hyn sydd angen ei wneud.

## C) DOGFENNAU / GWAITH PAPUR A ADOLYGWYD

Ym mhob Cyngor Tref / Cymuned a adolygwyd gofynnwyd i gael gweld y dogfennau canlynol, a oedd yn dyddio'n ôl i fis Mai 2017 (h.y. dyddiad yr etholiad diwethaf):

- Cofrestr o Ddiddordebau Personol;
- Ffurflenni Datganiadau o Ddiddordeb a wnaed yng nghyfarfodydd y Cyngor;
- Rhaglen a Chofnodion ar gyfer y Cyngor a'i Is-bwyllgorau;
- Rhestr o enwau'r holl aelodau (a manylion unrhyw sedd wag) a chopi o'r ffurflen derbyn swydd gan bob aelod cyfredol, gan gynnwys yr ymgymeriad statudol i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad;
- Y Cod Ymddygiad y mae'r Cyngor wedi'i fabwysiadu;
- Y Protocol Datrys Anghydfodau Lleol y mae'r Cyngor wedi'i fabwysiadu (os o gwbl);
- Cofnod o hyfforddiant aelodau a'r clerc.

Gofynnwyd am wybodaeth ynglŷn â'r canlynol hefyd:

- cyfeiriad gwefan y Cyngor, ac
- a oedd caniatâd arbennig yn ddilys ar gyfer unrhyw un o Aelodau'r Cyngor.

## CH) CANFYDDIADAU

1) Daeth y Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016 i rym ar 1af Ebrill 2016. Mae'n golygu bod Cod Ymddygiad diwygiedig wedi'i greu, ac mae'n ofynnol i bob Cyngor Tref a Chymuned fabwysiadu'r Cod diwygiedig hwn. Ar ôl ei fabwysiadu, mae'n rhaid cyhoeddi hysbyseb mewn un neu ragor o bapurau newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal leol ac anfon copi o'r Cod at Ombwdsmon Gwasanaethau

Cyhoeddus Cymru. Mae copi pellach o'r Cod Ymddygiad statudol wedi ei amgáu yn **Atodiad 1** er hwylustod.

Mae'r Pwyllgor Safonau wedi anfon gohebiaeth ar y mater hwn at yr holl Gynghorau Tref a Chymuned ers mis Mai 2016.

Roedd y Pwyllgor Safonau'n falch o nodi bod yr holl Gynghorau Tref a Chymuned a adolygwyd wedi mabwysiadu'r Cod.

Gofynnir i bob Cyngor sicrhau eu bod yn dwyn sylw eu haelodau at y Cod diweddaraf **(Atodiad 1)** a'u bod yn ei fabwysiadu os nad ydynt wedi gwneud hynny yn barod.

2) Ar ddechrau pob cyfnod yn y swydd, mae'n ofynnol i bob aelod lofnodi ymrwymiad newydd i lynu wrth y Cod. Disgwyliwyd felly y byddai yna ffurflen ar gyfer pob Cynghorydd yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2017, p'un a oedd yr aelod wedi'i ailethol ai peidio ac, yn wir, p'un a gynhaliwyd etholiad ai peidio ar gyfer y Cyngor Tref / Cymuned hwnnw.

Mae hyn yn rhywbeth a gafodd ei wneud yn yr holl Gynghorau Tref a Chymuned a adolygwyd. Yn wahanol i'r adolygiad yn 2016, roedd y Pwyllgor Safonau yn falch fod yr ymrwymiad yn cael ei lofnodi ym mhresenoldeb tyst (manylir ar statws y tyst yn adran 83 (3) Deddf Llywodraeth Leol 1972); [y clerc yw'r tyst fel arfer, yn rhinwedd ei swydd fel swyddog priodol y Cyngor, ac mae'r drefn hon yn cydymffurfio].

3) Mae'r Pwyllgor Safonau yn pryderu, mewn rhai Cynghorau Tref a Chymuned, nad yw aelodau'n deall y gofyniad i ddatgan diddordebau personol a / neu ddiddordebau sy'n rhagfarnu pan fyddant yn codi. Mae'r gwendid hwn, ynghyd â diffyg unrhyw gofnod o hyfforddiant (a drafodir yn 8 isod) yn arwain y Pwyllgor Safonau i gredu fod yna ddiffyg dealltwriaeth ymysg rhai aelodau. Gall fod yn werth atgoffa aelodau o'r hyn a ganlyn:-

- Diddordeb personol yw un o'r rheini sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr benodol yn y Cod Ymddygiad;
- Diddordeb sy'n rhagfarnu yw diddordeb personol y byddai arsylwr gwrthrychol yn ystyried sydd mor arwyddocaol nes ei fod yn debygol o effeithio'n andwyol ar allu aelod i wneud penderfyniad er budd y cyhoedd;
- Mae'r gwahaniaeth rhyngddynt yn bwysig oherwydd bod gan aelodau hawl i gymryd rhan pan fydd ganddynt ddiddordeb personol, ond nid pan fydd ganddynt ddiddordeb personol sydd hefyd yn un sy'n rhagfarnu. Os yw'r diddordeb yn un sy'n rhagfarnu, mae'n rhaid i aelodau hefyd adael y cyfarfod tra bod yr eitem yn cael ei thrafod.

Dylai Aelodau sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau o dan y Cod Ymddygiad, ac os nad ydynt, dylent drefnu hyfforddiant priodol drwy eu clercod. Mae Nodyn Briffio ar ddatgan diddordebau personol a diddordebau sy'n rhagfarnu gan Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned ynghlwm yn **Atodiad 2** i chi ei rannu gyda'ch Aelodau.
Os oes ganddynt unrhyw gwestiynau penodol, dylent fod yn ceisio cyngor gan eu clerc neu gysylltu â'r Swyddog Monitro yng Nghyngor Sir Ynys Môn ar lbxcs@ynysmon.gov.uk

4) Ers mis Mai 2015, mae'n ofyniad statudol i Gynghorau Tref a Chymuned fod â gwefan ac i gyhoeddi gwybodaeth benodol arni. Cyhoeddwyd Canllawiau Statudol i gynorthwyo Cynghorau i gyflawni'r ddyletswydd hon ac mae copi pellach o'r Canllawiau hyn ar gael yn **Atodiad 3.**

Mae'r Pwyllgor Safonau yn croesawu'r gwaith a wnaed mewn perthynas â chreu gwefannau, ond mae'n siomedig mewn perthynas â faint o wybodaeth a gyhoeddir ar rai o'r gwefannau a sefydlwyd. Atgoffir Cynghorau o'r gofynion sylfaenol a nodir yn **Atodiad 3**.

5) Un o'r dogfennau y mae'n rhaid eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor yw'r Gofrestr o Ddiddordebau. Nid oes fformat penodol ar gyfer y Gofrestr hon, ond roedd gan y rhan

fwyaf o'r Cynghorau Tref a Chymuned a adolygwyd Gofrestrau a oedd yn cynnwys y Cofnodion ar gyfer y cyfarfod perthnasol (yn cadarnhau'r datganiad o ddiddordeb a wnaed ar lafar) a'r ffurflenni Datgan Diddordeb a gwblhawyd gan bob aelod yn dilyn datganiad llafar o ddiddordebau personol a/neu ddiddordebau sy'n rhagfarnu am y tro cyntaf yn ystod y cyfarfod. Mae hwn yn fformat boddhaol.

Nodwyd bod nifer o Gynghorau Tref a Chymuned yn mynd tu hwnt i'r gofyniad yn y Cod i gadarnhau datganiad llafar pan wneir ef am y tro cyntaf trwy gadarnhau pob datganiad llafar gyda chadarnhad ysgrifenedig (o ganlyniad, gellid cael sawl ffurflen ddatganiad gan yr un aelod mewn perthynas â'r un mater mewn sawl cyfarfod gwahanol). Ymddengys fod hyn yn arfer dda ac yn fformat haws i'r cyhoedd allu gweld y ffurflenni. Serch hyn, nid yw'n ofyniad o dan y Cod Ymddygiad.

Nid oedd unrhyw enghreifftiau o gadarnhad ysgrifenedig gan Aelodau fod manylion y diddordebau hynny sydd wedi'u datgan yn eu Cofrestr wedi newid. Atgoffir Aelodau o'u dyletswydd i gadarnhau unrhyw newidiadau i ddiddordebau personol/diddordebau sy'n rhagfarnu ac sydd wedi'u cofrestru o fewn 28 diwrnod i pryd digwyddodd y newid.

Atgoffir aelodau hefyd y bydd diddordeb personol/diddordeb sy'n rhagfarnu ond yn cael ei weld fel un a ddatgelwyd yn flaenorol os yw hysbysiad ysgrifenedig wedi'i ddarparu ers y dyddiad diwethaf pan gafodd yr unigolyn ei ethol, ei benodi neu ei enwebu fel aelod o'r Cyngor Tref/Cymuned. Dylai aelodau gadw hyn mewn cof yn enwedig yn wyneb yr etholiadau a gynhaliwyd ym mis Mai 2017 – os cafodd datganiad ei wneud a'i gofrestru cyn hynny, ni allai'r Aelod ddibynnu ar y cofrestriad hwnnw gan fod etholiad wedi digwydd ers hynny ac felly byddai angen i'r Aelod gadarnhau datganiad llafar yn ysgrifenedig eto fel ei fod yn ddilys ar gyfer y Tymor hwn.

Mae angen i Gynghorau Tref a Chymuned sicrhau bod y Gofrestr ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd ar bob adeg resymol, ac ar wefan y Cyngor Tref neu Gymuned. Roedd yn ymddangos o'r adolygiad fod y Cofrestrau papur yn cael eu cadw'n dda ar y cyfan ond mae angen gwneud gwaith i sicrhau eu bod ar gael ar-lein cyn gynted ag y bo modd. Roedd hyn yn bryder a nodwyd yn ystod Adolygiad 2016, ac mae dal yn bryder heddiw.

6) Nid oes un fformat penodol ar gyfer y Ffurflen Datgan Diddordeb i'w defnyddio er mwyn cadarnhau datganiad o ddiddordeb personol a/neu ddiddordeb sy'n rhagfarnu a wnaed ar lafar mewn cyfarfod. Roedd y rhan fwyaf o'r 'Ffurflenni Datganiad' a adolygwyd gan y Pwyllgor Safonau yn foddhaol o ran y wybodaeth sydd ei hangen. Fodd bynnag, er hwylustod, mae'r un a ddefnyddir gan CSYM ynghlwm yn **Atodiad 4;** gellir ei newid a'i haddasu yn ôl yr angen ar gyfer eich Cyngor Cymuned chi.

Er bod y ffurflenni eu hunain yn cydymffurfio o ran y wybodaeth sydd ei hangen, roedd yn amlwg nad oedd rhai aelodau bob amser yn llenwi'r ffurflenni yn llawn ac yn gywir. Cyfrifoldeb pob aelod unigol yw hyn; mae methiant i ddarparu cadarnhad ysgrifenedig llawn o ddatganiad llafar a wnaed mewn cyfarfod am y tro cyntaf yn golygu nad yw'r aelod yn cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad. Atgoffir aelodau i ateb yr holl gwestiynau perthnasol yn llawn ar y Ffurflen Ddatganiad.

7) Nid oes fformat penodol ar gyfer Rhaglenni a Chofnodion; fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Safonau yn ystyried ei bod yn arfer da cynnwys 'Datganiadau o Ddiddordeb' fel eitem sefydlog ar Raglen pob un o gyfarfodydd y Cyngor, a hynny fel ffordd o atgoffa aelodau. Teimlwyd yn gyffredinol y dylid cynnwys mwy o wybodaeth yn y Cofnodion o dan yr eitem 'Datganiadau o Ddiddordeb' h.y. (a) enw'r aelod sy'n gwneud y datganiad llafar, (b) yr eitem y mae'r datganiad yn ymwneud â hi, a (c ) a oedd y datganiad a wnaed yn ddiddordeb personol ynteu'n ddiddordeb sy'n rhagfarnu. Ar ben hynny, o dan yr eitem o fusnes ei hun, byddai'n arfer da i'r Cofnodion gadarnhau (a) a wnaed datganiad o ddiddordeb, a chan bwy, (b) a yw'r diddordeb yn un personol ynteu'n un sy'n rhagfarnu, (c) manylion y diddordeb personol / diddordeb sy'n rhagfarnu, a (ch) yn achos diddordeb sy'n

rhagfarnu, cadarnhad bod yr aelod wedi gadael yr ystafell gyfarfod. Mae cynnwys gwybodaeth o'r fath yn gymorth i gwrdd â'r gofyniad i gadw Cofrestr o Ddiddordebau sy'n gofrestr ystyrlon, ond mae hefyd yn cynorthwyo'r cyhoedd o ran sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn dryloyw ac er budd y cyhoedd. Efallai y byddai'n arfer da hefyd, pan fo datganiad llafar yn ymwneud â diddordeb y mae'r Aelod wedi'i gofrestru'n barod (h.y. wedi'i ddatgan ar lafar am y tro cyntaf ac wedi wedi'i gadarnhau yn ysgrifenedig), i'r Cofnodion gadarnhau'r manylion ynghylch pryd cafodd y diddordeb ei gofrestru gan yr Aelod – byddai hyn yn sicrhau tryloywder ar gyfer y cyhoedd pe byddent yn cwestiynu hynny.

8) O'r Cynghorau a adolygwyd, roedd gan bob un Gofnod Hyfforddiant ond serch hynny, roedd hi'n amlwg fod aelodau'n gyndyn o fynychu hyfforddiant (am amryw o resymau). Nid oes unrhyw ofyniad statudol i gadw Cofnod Hyfforddiant, ond mae'r Pwyllgor Safonau yn ystyried ei fod yn arfer da. Bydd mynychu hyfforddiant yn cynorthwyo aelodau gyda materion fel y rheini a nodir yn 3 uchod (materion personol/sy'n rhagfarnu). Ymddengys fod y clercod yn rhoi gwybod i aelodau am hyfforddiant gan Un Llais Cymru, ond mae'r aelodau'n methu/yn anfodlon mynychu'r hyfforddiant. Byddai'r Pwyllgor Safonau yn annog Cynghorau Tref/Cymuned i ystyried anghenion hyfforddiant yr aelodau a'r staff ac i fod â chynllun hyfforddiant mewn lle, a gweithredu'r cynllun hwnnw. Byddai'n ddoeth sicrhau bod y cynllun hyfforddiant yn cael ei adolygu, bob chwe mis efallai, i sicrhau ei fod yn cael ei ddilyn.

9) Roedd yn amlwg o'r adolygiad y glynir wrth y gofynion yn fwy effeithiol pan fo perthynas o gyd-barch rhwng y clerc a'r aelodau. Atgoffir aelodau mai'r clercod yw'r swyddogion priodol o fewn y Cynghorau Tref/Cymuned ac y dylai'r aelodau roi sylw dyledus i'r cyngor a roddir gan y clerc. Bydd clerc sydd wedi ei hyfforddi'n briodol ac sydd â'r adnoddau priodol yn medru cynorthwyo'r Cyngor yn ei gyfanrwydd, a bydd mewn sefyllfa well i gynghori aelodau, y tu mewn a'r tu allan i gyfarfodydd. I'r perwyl hwn, atgoffir Cynghorau y gellid cynnwys elfen ar gyfer hyfforddiant (i Glercod ac Aelodau) pan fydd y Cyngor yn gosod ei braesept. Roedd gan y Cynghorau a adolygwyd fel rhan o'r ymarfer hwn gyllideb hyfforddiant ar gael ond ymddengys nad oedd y gyllideb honno'n cael ei defnyddio; byddai'r Pwyllgor Safonau yn annog Cynghorau Tref/Cymuned i wneud defnydd o'r arian sydd ar gael ar gyfer unrhyw anghenion hyfforddiant a nodwyd.

10) Deallir bod y mwyafrif o Gynghorau Tref/Cymuned yn aelodau o Un Llais Cymru. Efallai y byddai'n ddoeth i rai Cynghorau ofyn i Un Llais Cymru am gefnogaeth mewn perthynas â (a) y polisïau/rheolau sefydlog nad yw rhai Cynghorau Tref/Cymuned wedi eu mabwysiadu hyd yma, (b) hyfforddiant ar gyfer clercod ac aelodau (ar y cyd â Chynghorau Tref/Cymuned eraill yn yr ardal leol efallai?) fel bo'r gofyn a (c) datblygu / cynnal / y wybodaeth a gynhwysir ar y gwefannau.

11) O'r pum Cyngor Tref/Cymuned a adolygwyd, roedd dau wedi mabwysiadu'r model Protocol Datrys Anghydfodau Lleol sydd wedi'i baratoi gan Un Llais Cymru. Mae'r Pwyllgor Safonau yn croesawu'r ffaith fod Cynghorau Tref/Cymuned yn mabwysiadu'r fath Brotocol, gan ei fod yn arfer da, ond nid yn fandadol serch hynny. Roedd y Pwyllgor Safonau hefyd yn croesawu'r ffaith nad oedd yr un o'r Cynghorau Tref/Cymuned sydd wedi mabwysiadu'r Protocol wedi cael rheswm i'w ddefnyddio ers ei fabwysiadu.

12) Nid oes llawer o aelodau Cynghorau Tref/Cymuned i weld yn ymgeisio am ganiatadau arbennig. Mae caniatadau arbennig ar gael i Aelodau pan fo ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu, ond, oherwydd un o'r seiliau statudol, dylai'r aelod allu cymryd rhan yn y drafodaeth, er gwaetha'r diddordeb sy'n rhagfarnu (e.e. oherwydd arbenigedd yr Aelod, neu pan fo gan fwy na hanner aelodau'r Cyngor Tref/Cymuned ddiddordeb sy'n rhagfarnu ayyb).

## D) CASGLIAD / ARGYMHELLION

Yn gyffredinol, roedd y Pwyllgor Safonau yn fodlon gyda'r canfyddiadau a nodwyd amryw o arferion da:

1) cofnodion sy'n dangos bod aelodau yn llofnodi ymgymeriad i lynu wrth y Cod Ymddygiad ar ddechrau pob tymor newydd yn y swydd;

2) cadw'r Gofrestr bapur o Ddiddordebau'r Aelodau;

3) y 'Ffurflenni Datganiad' a ddefnyddir ar gyfer datgan diddordebau personol / diddordebau sy'n rhagfarnu mewn cyfarfodydd ffurfiol.

Fodd bynnag, nodwyd rhai meysydd i'w gwella:

1) mae angen mynd i'r afael â diffyg dealltwriaeth ymddangosiadol rhai aelodau ynghylch y gwahaniaeth rhwng diddordebau personol a/neu ddiddordebau sy'n rhagfarnu;

2) methu â chwblhau'r 'Ffurflenni Datganiad' yn llawn;

3) diffyg gwybodaeth ar wefannau (yn cynnwys cyhoeddi'r Gofrestr o Ddiddordebau Aelodau);

4) mynychu Hyfforddiant, a chofnodi'r Hyfforddiant gan Aelodau a swyddogion;

5) cynnwys manylion am ddiddordebau a ddatganwyd ar Raglenni/Cofnodion pob cyfarfod o'r Cyngor.

**Gofynnir i Glercod ddod â chynnwys yr adroddiad hwn i sylw eu holl aelodau drwy ei gynnwys fel eitem ar Raglen cyfarfod nesaf eu Cyngor ac i anfon copi o Gofnodion y cyfarfod hwnnw i'r Pwyllgor Safonau erbyn diwedd Gorffennaf 2019.**

Os bydd gan aelodau neu glercod unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r adroddiad hwn, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda Swyddog Monitro Cyngor Sir Ynys Môn (Lynn Ball, 01248 752586/lbxcs@ynysmon.gov.uk )

Michael Wilson
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 788 (Cy.82)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Sefydlodd Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("y Ddeddf") fframwaith moesegol newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae adran 50(2) o'r Ddeddf yn darparu y caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") drwy orchymyn ddyroddi cod enghreifftiol o ran yr ymddygiad y disgwylir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau perthnasol yng Nghymru ei arddel. Trosglwyddir y swyddogaeth hon oddi wrth y Cynulliad i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Awdurdodau perthnasol yng Nghymru at ddibenion y Gorchymyn hwn yw cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Nid yw awdurdodau heddlu'n awdurdodau perthnasol at ddibenion y Gorchymyn hwn.

Mae'n rhaid i god ymddygiad a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 50(2) o'r Ddeddf fod yn gyson â'r egwyddorion a bennir yn unol ag adran 49(2) o'r Ddeddf a geir ar hyn o bryd yng Ngorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001. Mae adran 50(3) o'r Ddeddf yn rhoi'r hawl i Weinidogion Cymru i ddiwygio cod enghreifftiol sydd wedi ei ddyroddi.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2001 ac offerynnau statudol blaenorol sy'n diwygio ac yn dyroddi cod enghreifftiol diwygiedig yn unol ag adran 50(2) a (3) o'r Ddeddf. Mae'r

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 788 (W.82)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Local Authorities (Model Code of Conduct) (Wales) Order 2008

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

Part III of the Local Government Act 2000 ("the Act") established a new ethical framework for local government in Wales.

Section 50(2) of the Act provides that the National Assembly for Wales ("the Assembly") may by order issue a model code as regards the conduct which is expected of members and co-opted members of relevant authorities in Wales. This function of the Assembly is transferred to the Welsh Ministers by paragraph 30 of schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.

Relevant authorities in Wales for the purposes of this Order are county councils, county borough councils, community councils, fire and rescue authorities and National Park authorities. Police authorities are not relevant authorities for the purposes of this Order.

A code of conduct issued by the Welsh Ministers under section 50(2) of the Act must be consistent with the principles specified pursuant to section 49(2) of the Act currently set out in the Conduct of Members (Principles) (Wales) Order 2001. Section 50(3) of the Act entitles the Welsh Ministers to revise a model code which has been issued.

This Order revokes the Conduct of Members (Model Code of Conduct) (Wales) Order 2001 and previous amending statutory instruments and issues a revised model code in pursuance of section 50(2) and (3) of the Act. This Order also continues the disapplication of

Gorchymyn hwn hefyd yn parhau datgymhwysiad darpariaethau statudol sy'n ymwneud â Chod Cenedlaethol Ymddygiad Llywodraeth Leol yng Nghymru (ymhlith eraill).

Mae'r cod enghreifftiol diwygiedig yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Mae Rhan 1 o'r cod enghreifftiol yn ymwneud â dehongli.

Mae Rhan 2 o'r cod enghreifftiol yn darparu ar gyfer darpariaethau cyffredinol y cod enghreifftiol.

Mae Rhan 3 o'r cod enghreifftiol yn ymwneud â buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu ac â datgelu'r cyfryw fuddiannau gan aelodau ac aelodau cyfetholedig ac â chyfrannu gan aelodau ac aelodau cyfetholedig mewn cysylltiad â'r cyfryw fuddiannau.

Mae Rhan 4 o'r cod enghreifftiol yn ymwneud â'r gofrestr fuddiannau, ac â chofrestru rhoddion a lletygarwch.

statutory provisions relating to (among others) the National Code of Local Government Conduct in Wales.

The revised model code is in the Schedule to this Order.

Part 1 of the model code deals with interpretation.

Part 2 of the model code provides for the general provisions of the model code.

Part 3 of the model code concerns personal interests and prejudicial interests and disclosure of and participation by members and co-opted members in respect of such interests.

Part 4 of the model code concerns the register of interests, registration of gifts and hospitality.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2008 Rhif 788 (Cy.82)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Mawrth 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *25 Mawrth 2008* |
| *Yn dod i rym* | *18 Ebrill 2008* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 50(2), 50(3), 50(4), 50(4E), 81(2), 81(3) a 105 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**) ac a freiniwyd(**2**) bellach ynddynt hwy, ac ar ôl gwneud y cyfryw ymgynghoriad ag sy'n ofynnol yn rhinwedd adran 50(5) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru, a hwythau'n fodlon bod y cod ymddygiad enghreifftiol a ddyroddir o dan adran 50(2) yn gyson â'r egwyddorion a bennir yng Ngorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001(**3**) a wnaed yn unol ag adran 49(2), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008 a daw i rym ar 18 Ebrill 2008.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i bob awdurdod perthnasol yng Nghymru.

(**1**) 2000 p.22. Diwygir adran 50 gan adran 183 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p.28).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 50, 81 a 105 i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 2001/2276 (Cy.166) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/2929 (Cy.214).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2008 No. 788 (W.82)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Local Authorities (Model Code of Conduct) (Wales) Order 2008

| | |
|---|---|
| *Made* | *20 March 2008* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *25 March 2008* |
| *Coming into force* | *18 April 2008* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by sections 50(2), 50(3), 50(4), 50(4E), 81(2), 81(3) and 105 of the Local Government Act 2000(**1**) and now vested(**2**) in them, having carried out such consultation as is required by virtue of section 50(5) of that Act and being satisfied that the model code of conduct being issued under section 50(2) is consistent with the principles specified in the Conduct of Members (Principles) (Wales) Order 2001(**3**) made pursuant to section 49(2), make the following Order:

**Title, commencement and application**

**1.**—(1) The title of this Order is the Local Authorities (Model Code of Conduct) (Wales) Order 2008 and it comes into force on 18 April 2008.

(2) This Order applies to each relevant authority in Wales.

(**1**) 2000 c.22. Section 50 is amended by section 183 of the Local Government and Public Involvement in Health Act 2007 (c.28).

(**2**) The functions of the National Assembly for Wales under sections 50, 81 and 105 were transferred to the Welsh Ministers under paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(**3**) S.I. 2001/2276 (W.166) as amended by S.I. 2005/2929 (W.214).

**Dehongli**

**2**. Yn y Gorchymyn hwn —

mae i "aelod" ("*member*") yr ystyr a geir yn Rhan 1 o'r cod enghreifftiol yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

mae i "aelod cyfetholedig" ("*co-opted member*") yr ystyr a geir yn Rhan 1 o'r cod enghreifftiol yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

mae i "awdurdod perthnasol" ("*relevant authority*") yr ystyr a geir yn Rhan 1 o'r cod enghreifftiol yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn; ac

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000.

**Cod Ymddygiad Enghreifftiol**

**3**.—(1) Ceir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn god enghreifftiol o ran yr ymddygiad y disgwylir i aelodau o awdurdod perthnasol ei arddel.

(2) At ddibenion adran 50(4) o'r Ddeddf, mae darpariaethau'r cod enghreifftiol i'w hystyried yn rhai gorfodol.

**Darpariaethau i'w datgymhwyso**

**4**.—(1) Os bydd awdurdod perthnasol yn gyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned, neu'n awdurdod tân ac achub sydd wedi mabwysiadu cod ymddygiad neu os bydd y cyfryw god yn gymwys iddo, datgymhwysir y canlynol o ran yr awdurdod hwnnw, os ydynt yn gymwys i'r awdurdod perthnasol—

(a) adrannau 94 i 98 a 105 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**); a

(b) unrhyw reoliadau a wnaed neu god a ddyroddwyd o dan adrannau 19 a 31 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**2**).

(2) Os bydd awdurdod perthnasol yn awdurdod Parc Cenedlaethol sydd wedi mabwysiadu cod ymddygiad neu os bydd y cyfryw god yn gymwys iddo, datgymhwysir y canlynol o ran yr awdurdod hwnnw, os yw'n gymwys i'r awdurdod perthnasol —

(a) paragraffau 9 a 10 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**3**); a

(b) unrhyw reoliadau a wnaed neu god a ddyroddwyd o dan adrannau 19 a 31 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

(3) Bydd adran 16(1) o Ddeddf Dehongli 1978(**4**) yn gymwys i ddatgymhwysiad o dan baragraff (1) neu baragraff (2) uchod fel pe bai'n ddiddymiad, gan Ddeddf, o ddeddfiad.

---

(**1**) 1972 p.70.

(**2**) 1989 p.42.

(**3**) 1995 p.25.

(**4**) 1978 p.30.

**Interpretation**

**2**. In this Order —

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Local Government Act 2000;

"co-opted member" ("*aelod cyfetholedig*") has the meaning set out in Part 1 of the model code in the Schedule to this Order;

"member" ("*aelod*") has the meaning set out in Part 1 of the model code in the Schedule to this Order; and

"relevant authority" ("*awdurdod perthnasol*") has the meaning set out in Part 1 of the model code in the Schedule to this Order.

**Model Code of Conduct**

**3**.—(1) A model code as regards the conduct which is expected of members of a relevant authority is set out in the Schedule to this Order.

(2) For the purposes of section 50(4) of the Act, the provisions of the model code are to be regarded as mandatory.

**Provisions to be disapplied**

**4**.—(1) Where a relevant authority which is a county, county borough or community council or fire and rescue authority has adopted a code of conduct or such a code applies to it, the following will, where applicable to the relevant authority, be disapplied as respects that authority —

(a) sections 94 to 98 and 105 of the Local Government Act 1972(**1**); and

(b) any regulations made or code issued under sections 19 and 31 of the Local Government and Housing Act 1989(**2**).

(2) Where a relevant authority which is a National Park authority has adopted a code of conduct or such a code applies to it, the following will, where applicable to the relevant authority, be disapplied as respects that authority —

(a) paragraphs 9 and 10 of Schedule 7 to the Environment Act 1995(**3**); and

(b) any regulations made or code issued under sections 19 and 31 of the Local Government and Housing Act 1989.

(3) Section 16(1) of the Interpretation Act 1978(**4**) will apply to a disapplication under paragraph (1) or (2) above as if it were a repeal, by an Act, of an enactment.

---

(**1**) 1972 c.70.

(**2**) 1989 c.42.

(**3**) 1995 c.25.

(**4**) 1978 c.30.

**Dirymu**

5. Dirymir y gorchmynion canlynol:

(a) Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2001(**1**);

(b) Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Diwygio) (Cymru) 2004(**2**); ac

(c) Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2004(**3**).

**Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion**

6. Mae'r gorchmynion y cyfeirir atynt yn erthygl 5 yn parhau i fod yn effeithiol at ddibenion y canlynol ac at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r canlynol —

(a) ymchwilio i unrhyw honiad ysgrifenedig o dan Ran 3 o'r Ddeddf, pan fo'r honiad hwnnw'n ymwneud ag ymddygiad a ddigwyddodd cyn y dyddiad pryd, yn unol ag adran 51 o'r Ddeddf(**4**)—

(i) y bydd yr awdurdod perthnasol yn mabwysiadu cod ymddygiad sy'n ymgorffori darpariaethau gorfodol y cod ymddygiad enghreifftiol yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn lle ei god ymddygiad presennol;

(ii) y bydd yr awdurdod perthnasol yn diwygio'i god ymddygiad presennol i ymgorffori darpariaethau gorfodol y cod ymddygiad enghreifftiol a geir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn; neu

(iii) y bydd darpariaethau gorfodol y cod ymddygiad enghreifftiol a geir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn gymwys i aelodau neu aelodau cyfetholedig o'r awdurdod perthnasol o dan adran 51(5)(b) o'r Ddeddf honno;

(b) dyfarnu (neu benderfynu) ar fater a godir mewn honiad o'r fath; ac

(c) apêl yn erbyn penderfyniad pwyllgor safonau, tribiwnlys achos interim neu dribiwnlys achos mewn perthynas â honiad o'r fath.

(**1**) O.S. 2001/2289 (Cy. 177) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2004/163 (Cy. 18); O.S. 2004/1510 (Cy.159); O.S. 2005/2929 (Cy. 214); ac O.S. 2006/362 (Cy. 48).

(**2**) O.S. 2004/163 (Cy.18).

(**3**) O.S. 2004/1510 (Cy.159).

(**4**) Diwygir adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 gan adran 35 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 a pharagraffau 1 a 3 o Atodlen 4 iddi a chan adran 183 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007.

**Revocation**

5. The following orders are revoked:

(a) the Conduct of Members (Model Code of Conduct) (Wales) Order 2001(**1**);

(b) the Conduct of Members (Model Code of Conduct) (Amendment) (Wales) Order 2004(**2**); and

(c) the Conduct of Members (Model Code of Conduct) (Wales) (Amendment) (No. 2) Order 2004(**3**).

**Transitional Provisions and Savings**

6. The orders referred to in article 5 continue to have effect for the purposes of and for purposes connected with —

(a) the investigation of any written allegation under Part 3 of the Act, where that allegation relates to conduct that occurred before the date when, pursuant to section 51 of the Act(**4**)—

(i) the relevant authority adopts a code of conduct incorporating the mandatory provisions of the model code of conduct in the Schedule to this Order in place of its existing code of conduct;

(ii) the relevant authority revises its existing code of conduct to incorporate the mandatory provisions of the model code of conduct in the Schedule to this Order; or

(iii) the mandatory provisions of the model code of conduct in the Schedule to this Order apply to members or co-opted members of the relevant authority under section 51(5)(b) of that Act;

(b) the adjudication (or determination) of a matter raised in such an allegation; and

(c) an appeal against the decision of a standards committee, an interim case tribunal or case tribunal in relation to such an allegation.

(**1**) S.I. 2001/2289 (W.177) as amended by S.I. 2004/163 (W.18); S.I. 2004/1510 (W.159); S.I. 2005/2929 (W.214); and S.I. 2006/362 (W.48).

(**2**) S.I. 2004/163 (W.18).

(**3**) S.I. 2004/1510 (W.159).

(**4**) Section 51 of the Local Government Act 2000 is amended by section 35 and paragraphs 1 and 3 of Schedule 4 to the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005 and by section 183 of the Local Government and Public Involvement in Health Act 2007.

*Brian Gibbons*

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

20 Mawrth 2008

Minister for Social Justice and Local Government, one of the Welsh Ministers

20 March 2008

YR ATODLEN

## Y COD YMDDYGIAD ENGHREIFFTIOL

### RHAN 1

### DEHONGLI

**1.**—(1) Yn y cod hwn —

mae "aelod" ("*member*") yn cynnwys aelod cyfetholedig onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall;

ystyr "aelod cyfetholedig" ("*co-opted member*"), mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yw person nad yw'n aelod o'r awdurdod ond—

(a) sy'n aelod o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor i'r awdurdod, neu

(b) sy'n aelod o unrhyw gyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor i'r awdurdod, ac sy'n cynrychioli'r awdurdod arno,

ac sydd â'r hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu mewn unrhyw gyfarfod o'r pwyllgor neu o'r is-bwyllgor hwnnw;

ystyr "eich awdurdod" ("*your authority*") yw'r awdurdod perthnasol yr ydych chi'n aelod neu'n aelod cyfetholedig ohono;

ystyr "awdurdod perthnasol" ("*relevant authority*") yw—

(a) cyngor sir,

(b) cyngor bwrdeistref sirol,

(c) cyngor cymuned,

(ch) awdurdod tân ac achub a gyfansoddwyd drwy gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(**1**) neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo,

(d) awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**2**);

ystyr "cyfarfod" ("*meeting*") yw unrhyw gyfarfod —

(a) o'r awdurdod perthnasol,

(b) o unrhyw weithrediaeth neu fwrdd i'r awdurdod perthnasol,

(c) o unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor i'r awdurdod perthnasol neu unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor o'r fath i unrhyw weithrediaeth neu fwrdd i'r awdurdod, neu

(ch) y mae aelodau neu swyddogion yr awdurdod perthnasol yn bresennol ynddo ac eithrio cyfarfod grŵp gwleidyddol a gyfansoddwyd yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990(**3**),

ac mae'n cynnwys amgylchiadau pan fo aelod o weithrediaeth neu fwrdd neu swyddog sy'n gweithredu ar ei ben ei hun yn arfer un o swyddogaethau awdurdod; ac

ystyr "chi" ("*you*") yw chi fel aelod neu aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol.

Mewn perthynas â chyngor-cymuned, mae cyfeiriadau at swyddog monitro awdurdod a phwyllgor safonau awdurdod i'w darllen, yn y drefn honno, fel cyfeiriadau at swyddog monitro ac at bwyllgor safonau'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol y mae ganddo swyddogaethau mewn perthynas â'r cyngor cymuned y mae'n gyfrifol amdano o dan adran 56(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

(**1**) 2004 p.21.

(**2**) 1995 p.25.

(**3**) O.S. 1990/1553 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1991/1389; O.S. 1993/1339; O.S. 1998/1918; ac O.S. 1999/500.

## RHAN 2

DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

**2.**—(1)Ac eithrio pan fo paragraff 3(a) yn gymwys, rhaid i chi gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn —

(a) pa bryd bynnag y byddwch yn cynnal busnes eich awdurdod, neu'n bresennol mewn un o gyfarfodydd eich awdurdod;

(b) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu yn rôl aelod y cawsoch eich ethol neu eich penodi iddi;

(c) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu fel un o gynrychiolwyr eich awdurdod; neu

(ch) ar bob adeg ac mewn unrhyw gapasiti, mewn cysylltiad ag ymddygiad a nodir ym mharagraffau 6(1)(a) a 7.

(2) Dylech ddarllen y cod hwn ar y cyd â'r egwyddorion cyffredinol a ragnodir o dan adran 49(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 o ran Cymru.

**3**. Os byddwch wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i wasanaethu —

(a) ar awdurdod perthnasol arall, neu ar unrhyw gorff arall, sy'n cynnwys awdurdod heddlu neu Fwrdd Iechyd Lleol rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw, gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw; neu

(b) ar unrhyw gorff arall nad oes ganddo god sy'n ymwneud ag ymddygiad ei aelodau, rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran y corff arall hwnnw, gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn, ac eithrio pan yw'n gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithlon eraill y gall y corff hwnnw fod yn ddarostyngedig iddynt neu i'r graddau y mae'n gwrthdaro â'r cyfryw rwymedigaethau.

**4**. Rhaid i chi —

(a) cyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd;

(b) dangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt;

(c) peidio ag ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson; a

(ch) peidio â gwneud dim sy'n cyfaddawdu, neu sy'n debygol o gyfaddawdu, didueddrwydd y sawl sy'n gweithio i'ch cyngor neu ar ei ran.

**5**. Rhaid i chi —

(a) peidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heb gydsyniad datganedig person a awdurdodwyd i roi cydsyniad o'r fath, neu onid yw'r gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny;

(b) peidio â rhwystro unrhyw berson rhag gweld gwybodaeth y mae gan y person hwnnw hawl i'w gweld yn ôl y gyfraith.

**6.**—(1)Rhaid i chi —

(a) peidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod;

(b) adrodd, p'un ai drwy weithdrefn adrodd gyfrinachol eich awdurdod neu'n uniongyrchol i'r awdurdod priodol, ar unrhyw ymddygiad gan aelod arall neu gan unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran ac y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn golygu neu'n debygol o olygu ymddygiad troseddol (nad yw at ddibenion y paragraff hwn yn cynnwys tramgwyddau neu ymddygiad y gellir ei gosbi drwy gosb benodedig);

(c) adrodd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac i swyddog monitro eich awdurdod ar unrhyw ymddygiad gan aelod arall y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn groes i'r cod ymddygiad hwn;

(ch) peidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wacsaw yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran.

(2) Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais gan swyddog monitro eich awdurdod, neu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mewn cysylltiad ag ymchwiliad a wneir yn unol â'u gwahanol bwerau statudol.

**7**. Rhaid i chi —

(a) yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall;

(b) peidio â defnyddio adnoddau eich awdurdod, neu awdurdodi eraill i'w defnyddio—

(i) yn annoeth;

(ii) yn groes i ofynion eich awdurdod;

(iii) yn anghyfreithlon;

(iv) ac eithrio mewn dull a fwriedir i hwyluso neu i ffafrio cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu'r swydd yr ydych wedi eich ethol neu eich penodi iddo neu iddi;

(v) yn amhriodol at ddibenion gwleidyddol; neu

(vi) yn amhriodol at ddibenion preifat.

**8**. Rhaid i chi —

(a) pan fyddwch yn cyfrannu mewn cyfarfodydd neu'n gwneud penderfyniadau ynghylch busnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, wneud hynny ar sail rhinweddau'r amgylchiadau o dan sylw ac er budd y cyhoedd gan roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a ddarperir gan swyddogion eich awdurdod, ac yn benodol gan —

(i) pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod;

(ii) prif swyddog cyllid yr awdurdod;

(iii) swyddog monitro'r awdurdod;

(iv) prif swyddog cyfreithiol yr awdurdod (y dylid ymgynghori ag ef pan fo unrhyw amheuaeth ynghylch pŵer yr awdurdod i weithredu, ynghylch a yw'r cam a arfaethir yn dod o fewn y fframwaith polisi y cytunwyd arno gan yr awdurdod neu os gallai canlyniadau cyfreithiol gweithredu neu fethu â gweithredu gan yr awdurdod gael ôl-effeithiau pwysig);

(b) rhoi rhesymau dros bob penderfyniad yn unol ag unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion rhesymol ychwanegol a osodir gan eich awdurdod.

**9**. Rhaid i chi —

(a) parchu'r gyfraith a rheolau eich awdurdod sy'n llywodraethu hawlio treuliau a lwfansau mewn cysylltiad â'ch dyletswyddau fel aelod;

(b) osgoi derbyn rhoddion oddi wrth neb, na lletygarwch (ac eithrio lletygarwch swyddogol, megis derbyniad dinesig neu weithio dros ginio, a awdurdodir yn briodol gan eich awdurdod) na buddiannau materol neu wasanaethau i chi eich hun neu i unrhyw berson os byddai gwneud hynny'n eich rhoi o dan rwymedigaeth amhriodol, neu os gallai'n rhesymol ymddangos fel pe bai'n gwneud hynny.

## RHAN 3

## BUDDIANNAU

### Buddiannau Personol

**10**.—(1) Ym mhob mater rhaid i chi ystyried a oes gennych fuddiant personol, ac a yw'r cod ymddygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddatgelu'r buddiant hwnnw.

(2) Rhaid i chi ystyried bod gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef —

(a) os yw'n gysylltiedig â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio arnynt —

(i) unrhyw gyflogaeth yr ydych yn ymgymryd â hi neu fusnes yr ydych yn ei redeg;

(ii) unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, unrhyw ffyrm yr ydych yn bartner ynddi neu unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl;

(iii) unrhyw berson, ac eithrio eich awdurdod, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn cysylltiad â'ch ethol neu mewn cysylltiad ag unrhyw dreuliau a dynnwyd gennych wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau fel

aelod;

(iv) unrhyw gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sydd gan y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw;

(v) unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith neu weithfeydd a wnaed rhyngoch chi, rhwng ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, neu rhwng cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu rhwng corff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod a'ch awdurdod;

(vi) unrhyw dir y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod;

(vii) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord arno ac y mae ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu gorff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod yn denant arno;

(viii) unrhyw gorff yr ydych wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(ix) unrhyw —

(aa) awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;

(bb) cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen, neu gorff arall a chanddo ddibenion elusennol;

(cc) corff y mae dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus ymhlith ei brif ddibenion;

(chch) undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu

(dd) clwb preifat neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu o fewn ardal eich awdurdod,

yr ydych yn aelod ohono neu ohoni neu mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo neu ynddi;

(x) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 o ddiwrnodau neu fwy;

(b) pe byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd ganfod bod gwrthdaro rhwng eich rôl o ran gwneud penderfyniad, ar y busnes hwnnw, ar ran eich awdurdod yn gyfan a'ch rôl o ran cynrychioli buddiannau etholwyr yn eich ward neu eich dosbarth etholiadol; neu

(c) pe byddai'n rhesymol ystyried penderfyniad arno yn benderfyniad a fyddai'n effeithio —

(i) ar eich llesiant neu eich sefyllfa ariannol, neu lesiant neu sefyllfa ariannol person yr ydych yn byw gydag ef, neu unrhyw berson y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef;

(ii) ar unrhyw gyflogaeth yr ymgymerir â hi neu fusnes a redir gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i);

(iii) ar unrhyw berson sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi'r cyfryw bersonau ag a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i), unrhyw ffyrm y mae'r cyfryw bersonau'n bartneriaid ynddi, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwyr arno;

(iv) ar unrhyw gorff corfforaethol y mae gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £5,000; neu

(v) ar unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau 10(2)(a)(ix)(aa) i (dd) y mae personau a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo,

a hynny i raddau mwy—

(aa) yn achos awdurdod â dosbarthiadau etholiadol neu wardiau, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn y dosbarth etholiadol neu'r ward, yn ôl y digwydd, y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt; neu

(bb) ym mhob achos arall, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, o bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn ardal yr awdurdod.

### Datgelu Buddiannau Personol

**11.**—(1) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid i chi ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn i'r cyfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau'r ystyriaeth, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg.

(2) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn gwneud —

(a) cynrychioliadau ysgrifenedig (p'un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod ynghylch y busnes hwnnw, dylech gynnwys

manylion am y buddiant hwnnw yn y gyfathrebiaeth ysgrifenedig; neu

(b) cynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod dylech ddatgelu'r buddiant ar ddechrau'r cyfryw gynrychioliadau, neu pan ddaw'n amlwg i chi fod gennych fuddiant o'r fath, a chadarnhau'r cynrychioliad a'r buddiant yn ysgrifenedig o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y cynrychioliad.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff 14(1)(b) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch wedi gwneud penderfyniad wrth arfer un o swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd, rhaid i chi mewn perthynas â'r busnes hwnnw sicrhau bod unrhyw ddatganiad ysgrifenedig ynghylch y penderfyniad hwnnw'n cofnodi bodolaeth a natur eich buddiant.

(4) Rhaid i chi, mewn cysylltiad â buddiant personol nas datgelwyd eisoes, cyn cyfarfod neu'n syth ar ôl diwedd cyfarfod pan ddatgelir y buddiant yn unol ag is-baragraff 11(1), roi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod yn unol ag unrhyw ofynion a nodir gan swyddog monitro eich awdurdod o bryd i'w gilydd ond, rhaid cynnwys o leiaf—

(a) manylion am y buddiant personol;

(b) manylion am y busnes y mae'r buddiant personol yn gysylltiedig ag ef; ac

(c) eich llofnod.

(5) Pan fydd eich swyddog monitro wedi cytuno bod yr wybodaeth sy'n ymwneud â'ch buddiant personol yn wybodaeth sensitif, yn unol â pharagraff 16(1), mae eich rhwymedigaethau o dan y paragraff 11 hwn i ddatgelu'r cyfryw wybodaeth, p'un ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, i'w disodli gan rwymedigaeth i ddatgelu bodolaeth buddiant personol ac i gadarnhau bod eich swyddog monitro wedi cytuno bod y cyfryw fuddiant personol o natur gwybodaeth sensitif.

(6) At ddibenion is-baragraff (4), dim ond os bod hysbysiad ysgrifenedig wedi ei ddarparu yn unol â'r cod hwn ers y dyddiad diwethaf pryd yr etholwyd chi, y penodwyd chi neu yr enwebwyd chi'n aelod o'ch awdurdod y bernir bod buddiant personol wedi ei ddatgelu eisoes.

(7) At ddibenion is-baragraff (3), os na ddarperir hysbysiad ysgrifenedig yn unol â'r paragraff hwnnw bernir na fyddwch wedi datgan buddiant personol yn unol â'r cod hwn.

**Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

**12.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu yn y busnes hwnnw os bydd y buddiant yn un y bydd yn rhesymol i aelod o'r cyhoedd sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol fod o'r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch buddiant cyhoeddus.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), nid ystyrir bod gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes os bydd y busnes hwnnw—

(a) yn gysylltiedig—

(i) ag awdurdod perthnasol arall yr ydych hefyd yn aelod ohono;

(ii) ag awdurdod cyhoeddus arall neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus lle yr ydych mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol;

(iii) â chorff yr ydych wedi cael eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(iv) â'ch rôl fel llywodraethwr ysgol (os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod) oni bai bod y busnes yn benodol gysylltiedig â'r ysgol yr ydych yn un o'i llywodraethwyr;

(v) â'ch rôl fel aelod o Fwrdd Iechyd Lleol os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(b) yn gysylltiedig:

(i) â swyddogaethau tai eich awdurdod os oes gennych denantiaeth neu les gyda'ch awdurdod, ar yr amod nad oes arnoch i'ch awdurdod ôl-ddyledion rhent o fwy na deufis, ac ar yr amod nad yw'r swyddogaethau hynny'n ymwneud yn arbennig â'ch tenantiaeth neu â'ch les;

(ii) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â phrydau ysgol, cludiant a threuliau teithio, os ydych chi'n warchodwr, yn rhiant, yn fam-gu neu'n nain neu'n dad-cu neu'n daid, neu os oes gennych gyfrifoldeb rhiant (fel y'i diffinnir yn adran 3 o Ddeddf Plant 1989) dros blentyn sy'n cael addysg lawnamser, onid yw'r busnes yn benodol gysylltiedig â'r ysgol y mae'r plentyn hwnnw'n ei mynychu;

(iii) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â thâl salwch statudol o dan Ran XI o Ddeddf

Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992, os ydych yn cael, neu os oes gennych hawl i gael, taliad o'r fath gan eich awdurdod;

(iv) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â lwfans neu daliad a wneir o dan adrannau 22(5), 24(4) a 173 i 176 o Deddf Llywodraeth Leol 1972, lwfans neu bensiwn o dan adran 18 o Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 neu lwfans neu daliad o dan adran 100 o Deddf Llywodraeth Leol 2000;

(c) yn gysylltiedig â'ch rôl fel cynghorydd cymunedol mewn perthynas â grant, benthyciad neu fath arall ar gymorth ariannol a wnaed gan eich cyngor cymuned i gyrff cymunedol neu wirfoddol hyd at uchafswm o £500.

(3) Nid yw'r esemptiadau yn is-baragraff (2)(a) yn gymwys os yw'r busnes yn gysylltiedig â dyfarnu ar unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad.

**Pwyllgorau Trosolygu a Chraffu**

**13**. Bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes sydd gerbron un o bwyllgorau trosolygu a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath )—

(a) os bydd y busnes hwnnw'n gysylltiedig â phenderfyniad a wnaed (p'un a gafodd ei weithredu ai peidio) neu gam a gymerwyd gan weithrediaeth, bwrdd, neu un arall o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cyd-bwyllgorau neu o gyd-is-bwyllgorau eich awdurdod; a

(b) os oeddech chi, ar yr adeg pan wnaed y penderfyniad neu pan gymerwyd y cam, yn aelod o'r weithrediaeth, y bwrdd, y pwyllgor, yr is-bwyllgor, y cyd-bwyllgor neu'r cyd-is-bwyllgor a grybwyllir yn is-baragraff (a) a'ch bod chi'n bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu pan gymerwyd y cam hwnnw.

**Cyfrannu mewn Perthynas â Datgelu Buddiannau**

**14**.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2), (3) a (4), os bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef rhaid i chi, oni roddwyd i chi ollyngiad gan bwyllgor safonau eich awdurdod —

(a) ymadael â'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod i ystyried y busnes yn cael ei gynnal—

(i) pan fo is-baragraff (2) yn gymwys, yn syth ar ôl i'r cyfnod ar gyfer gwneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy'n ymwneud â'r busnes ddod i ben a beth bynnag cyn i ystyriaeth bellach o'r busnes ddechrau, p'un a ganiateir i'r cyhoedd aros yn bresennol ar gyfer y cyfryw ystyriaeth ai peidio; neu

(ii) mewn unrhyw achos arall, pa bryd bynnag y daw i'r amlwg bod y busnes hwnnw'n cael ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw;

(b) peidio ag arfer swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd mewn perthynas â'r busnes hwnnw;

(c) peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw;

(ch) peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau ysgrifenedig (p'un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) mewn perthynas â'r busnes hwnnw; a

(d) peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) mewn cysylltiad â'r busnes hwnnw neu rhaid i chi roi'r gorau ar unwaith i wneud y cyfryw gynrychioliadau llafar pan ddaw'r buddiant sy'n rhagfarnu i'r amlwg.

(2) Os oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef cewch fod yn bresennol mewn cyfarfod ond dim ond er mwyn gwneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy'n ymwneud â'r busnes, ar yr amod y caniateir hefyd i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod i'r un diben, p'un ai o dan hawl statudol neu fel arall.

(3) Nid yw is-baragraff (1) yn eich rhwystro rhag bod yn bresennol a chyfrannu mewn cyfarfod —

(a) os gofynnir i chi fod yn bresennol mewn cyfarfod pwyllgor trosolwg neu graffu, gan y cyfryw bwyllgor ac yntau'n arfer ei bwerau statudol; neu

(b) os oes gennych y fantais o fod gollyngiad wedi ei roi i chi ar yr amod—

(i) eich bod yn datgan yn y cyfarfod eich bod yn dibynnu ar y gollyngiad; a

(ii) eich bod, cyn y cyfarfod neu'n syth ar ôl i'r cyfarfod orffen, yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod a bod hwnnw'n cynnwys —

(aa) manylion y buddiant sy'n rhagfarnu;

(bb) manylion y busnes y mae'r buddiant sy'n rhagfarnu'n gysylltiedig ag ef;

(cc) manylion y gollyngiad a'r dyddiad pryd y'i rhoddwyd; a

(chch) eich llofnod.

(4) Os bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu a'ch bod yn gwneud cynrychioliadau ysgrifenedig neu lafar i'ch awdurdod gan ddibynnu ar ollyngiad, rhaid i chi ddarparu manylion am y gollyngiad o fewn unrhyw gynrychioliad ysgrifenedig neu lafar o'r fath ac, yn yr achos olaf hwn, rhaid i chi ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer eich awdurdod o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y cynrychioliad.

## RHAN 4

## COFRESTR BUDDIANNAU AELODAU

### Cofrestru Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill ac Aelodaeth o Gyrff a Safleoedd Rheoli

**15.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl—

(a) i god ymddygiad eich awdurdod gael ei fabwysiadu neu i ddarpariaethau gorfodol y cod enghreifftiol hwn gael eu cymhwyso i'ch awdurdod; neu

(b) i chi gael eich ethol neu eich penodi i swydd (os digwydd hynny'n ddiweddarach),

gofrestru eich buddiannau ariannol a'ch buddiannau eraill, os ydynt yn dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a) yng nghofrestr eich awdurdod a gedwir o dan adran 81(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod.

(2) Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw fuddiant personol newydd neu o newid i unrhyw fuddiant personol a gofrestrwyd o dan is-baragraff (1), gofrestru'r buddiant personol newydd hwnnw neu'r newid drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod.

(3) Nid yw is-baragraffau (1) a (2) yn gymwys i wybodaeth sensitif a benderfynir yn unol â pharagraff 16(1).

(4) Ni fydd is-baragraff (1) yn gymwys os ydych yn aelod o awdurdod perthnasol sy'n gyngor cymuned pan fyddwch yn gweithredu yn eich capasiti fel aelod o awdurdod o'r fath.

### Gwybodaeth sensitif

**16.**—(1) Os byddwch yn ystyried bod yr wybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw un neu rai o'ch buddiannau personol yn wybodaeth sensitif, a bod swyddog monitro eich awdurdod yn cytuno, nid oes angen i chi gynnwys yr wybodaeth honno pan fyddwch yn cofrestru'r buddiant hwnnw, neu, yn ôl y digwydd, newid i'r buddiant o dan baragraff 15.

(2) Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi ddod yn ymwybodol o unrhyw newid yn eich amgylchiadau sy'n golygu nad yw gwybodaeth sydd wedi ei heithrio o dan is-baragraff (1) mwyach yn wybodaeth sensitif, hysbysu swyddog monitro eich awdurdod gan ofyn am i'r wybodaeth gael ei chynnwys yng nghofrestr buddiannau aelodau eich awdurdod.

(3) Yn y cod hwn, ystyr "gwybodaeth sensitif" ("*sensitive information*") yw gwybodaeth y mae ei rhoi ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn creu, neu'n debygol o greu, risg ddifrifol y gallech chi neu berson sy'n byw gyda chi fod yn destun trais neu fygythion.

### Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch

**17.** Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi gael unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais faterol, sy'n fwy na gwerth a bennir mewn penderfyniad gan eich awdurdod, ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod yn nodi bodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu'r fantais faterol honno.

SCHEDULE

## THE MODEL CODE OF CONDUCT

### PART 1

### INTERPRETATION

**1.**—(1) In this code —

"co-opted member" ("*aelod cyfetholedig*"), in relation to a relevant authority, means a person who is not a member of the authority but who —

(a) is a member of any committee or sub-committee of the authority, or

(b) is a member of, and represents the authority on, any joint committee or joint sub-committee of the authority,

and who is entitled to vote on any question which falls to be decided at any meeting of that committee or sub-committee;

"meeting" ("*cyfarfod*") means any meeting —

(a) of the relevant authority,

(b) of any executive or board of the relevant authority,

(c) of any committee, sub-committee, joint committee or joint sub-committee of the relevant authority or of any such committee, sub-committee, joint committee or joint sub-committee of any executive or board of the authority, or

(d) where members or officers of the relevant authority are present other than a meeting of a political group constituted in accordance with regulation 8 of the Local Government (Committees and Political Groups) Regulations 1990(**1**),

and includes circumstances in which a member of an executive or board or an officer acting alone exercises a function of an authority;

"member" ("*aelod*") includes, unless the context requires otherwise, a co-opted member;

"relevant authority" ("*awdurdod perthnasol*") means—

(a) a county council,

(b) a county borough council,

(c) a community council,

(d) a fire and rescue authority constituted by a scheme under section 2 of the Fire and Rescue Services Act 2004(**2**) or a scheme to which section 4 of that Act applies,

(e) a National Park authority established under section 63 of the Environment Act 1995(**3**);

"you" ("*chi*") means you as a member or co-opted member of a relevant authority; and

"your authority" ("*eich awdurdod*") means the relevant authority of which you are a member or co-opted member.

(2) In relation to a community council, references to an authority's monitoring officer and an authority's standards committee are to be read, respectively, as references to the monitoring officer and the standards committee of the county or county borough council which has functions in relation to the community council for which it is responsible under section 56(2) of the Local Government Act 2000.

(**1**) S.I. 1990/1553 as amended by S.I. 1991/1389; S.I. 1993/1339; S.I. 1998/1918; and S.I. 1999/500.

(**2**) 2004 c.21.

(**3**) 1995 c.25.

## PART 2

GENERAL PROVISIONS

**2.**—(1) Save where paragraph 3(a) applies, you must observe this code of conduct —

(a) whenever you conduct the business, or are present at a meeting, of your authority;

(b) whenever you act, claim to act or give the impression you are acting in the role of member to which you were elected or appointed;

(c) whenever you act, claim to act or give the impression you are acting as a representative of your authority; or

(d) at all times and in any capacity, in respect of conduct identified in paragraphs 6(1)(a) and 7.

(2) You should read this code together with the general principles prescribed under section 49(2) of the Local Government Act 2000 in relation to Wales.

**3.** Where you are elected, appointed or nominated by your authority to serve —

(a) on another relevant authority, or any other body, which includes a police authority or Local Health Board you must, when acting for that other authority or body, comply with the code of conduct of that other authority or body; or

(b) on any other body which does not have a code relating to the conduct of its members, you must, when acting for that other body, comply with this code of conduct, except and insofar as it conflicts with any other lawful obligations to which that other body may be subject.

**4.** You must —

(a) carry out your duties and responsibilities with due regard to the principle that there should be equality of opportunity for all people, regardless of their gender, race, disability, sexual orientation, age or religion;

(b) show respect and consideration for others;

(c) not use bullying behaviour or harass any person; and

(d) not do anything which compromises, or which is likely to compromise, the impartiality of those who work for, or on behalf of, your authority.

**5.** You must not —

(a) disclose confidential information or information which should reasonably be regarded as being of a confidential nature, without the express consent of a person authorised to give such consent, or unless required by law to do so;

(b) prevent any person from gaining access to information to which that person is entitled by law.

**6.**—(1) You must —

(a) not conduct yourself in a manner which could reasonably be regarded as bringing your office or authority into disrepute;

(b) report, whether through your authority's confidential reporting procedure or direct to the proper authority, any conduct by another member or anyone who works for, or on behalf of, your authority which you reasonably believe involves or is likely to involve criminal behaviour (which for the purposes of this paragraph does not include offences or behaviour capable of punishment by way of a fixed penalty);

(c) report to the Public Services Ombudsman for Wales and to your authority's monitoring officer any conduct by another member which you reasonably believe breaches this code of conduct;

(d) not make vexatious, malicious or frivolous complaints against other members or anyone who works for, or on behalf of, your authority.

(2) You must comply with any request of your authority's monitoring officer, or the Public Services Ombudsman for Wales, in connection with an investigation conducted in accordance with their respective statutory powers.

**7.** You must not —

(a) in your official capacity or otherwise, use or attempt to use your position improperly to confer on or secure for yourself, or any other person, an advantage or create or avoid for yourself, or any other person, a disadvantage;

(b) use, or authorise others to use, the resources of your authority —

(i) imprudently;

(ii) in breach of your authority's requirements;

(iii) unlawfully;

(iv) other than in a manner which is calculated to facilitate, or to be conducive to, the discharge of the functions of the authority or of the office to which you have been elected or appointed;

(v) improperly for political purposes; or

(vi) improperly for private purposes.

**8**. You must —

(a) when participating in meetings or reaching decisions regarding the business of your authority, do so on the basis of the merits of the circumstances involved and in the public interest having regard to any relevant advice provided by your authority's officers, in particular by —

(i) the authority's head of paid service;

(ii) the authority's chief finance officer;

(iii) the authority's monitoring officer;

(iv) the authority's chief legal officer (who should be consulted when there is any doubt as to the authority's power to act, as to whether the action proposed lies within the policy framework agreed by the authority or where the legal consequences of action or failure to act by the authority might have important repercussions);

(b) give reasons for all decisions in accordance with any statutory requirements and any reasonable additional requirements imposed by your authority.

**9**. You must —

(a) observe the law and your authority's rules governing the claiming of expenses and allowances in connection with your duties as a member;

(b) avoid accepting from anyone gifts, hospitality (other than official hospitality, such as a civic reception or a working lunch duly authorised by your authority), material benefits or services for yourself or any person which might place you, or reasonably appear to place you, under an improper obligation.

## PART 3

## INTERESTS

### Personal Interests

**10**.—(1) You must in all matters consider whether you have a personal interest, and whether this code of conduct requires you to disclose that interest.

(2) You must regard yourself as having a personal interest in any business of your authority if —

(a) it relates to, or is likely to affect —

(i) any employment or business carried on by you;

(ii) any person who employs or has appointed you, any firm in which you are a partner or any company for which you are a remunerated director;

(iii) any person, other than your authority, who has made a payment to you in respect of your election or any expenses incurred by you in carrying out your duties as a member;

(iv) any corporate body which has a place of business or land in your authority's area, and in which you have a beneficial interest in a class of securities of that body that exceeds the nominal value of £25,000 or one hundredth of the total issued share capital of that body;

(v) any contract for goods, services or works made between your authority and you or a firm in which you are a partner, a company of which you are a remunerated director, or a body of the description specified in sub-paragraph (iv) above;

(vi) any land in which you have a beneficial interest and which is in the area of your authority;

(vii) any land where the landlord is your authority and the tenant is a firm in which you are a partner, a company of which you are a remunerated director, or a body of the description specified in sub-paragraph (iv) above;

(viii) any body to which you have been elected, appointed or nominated by your authority;

(ix) any —

(aa) public authority or body exercising functions of a public nature;

(bb) company, industrial and provident society, charity, or body directed to charitable purposes;

(cc) body whose principal purposes include the influence of public opinion or policy;

(dd) trade union or professional association; or

(ee) private club, society or association operating within your authority's area,

in which you have membership or hold a position of general control or management;

(x) any land in your authority's area in which you have a licence (alone or jointly with others) to occupy for 28 days or longer;

(b) a member of the public might reasonably perceive a conflict between your role in taking a decision, upon that business, on behalf of your authority as a whole and your role in representing the interests of constituents in your ward or electoral division; or

(c) a decision upon it might reasonably be regarded as affecting —

(i) your well-being or financial position, or that of a person with whom you live, or any person with whom you have a close personal association;

(ii) any employment or business carried on by persons as described in 10(2)(c)(i);

(iii) any person who employs or has appointed such persons described in 10(2)(c)(i), any firm in which they are a partner, or any company of which they are directors;

(iv) any corporate body in which persons as described in 10(2)(c)(i) have a beneficial interest in a class of securities exceeding the nominal value of £5,000; or

(v) any body listed in paragraphs 10(2)(a)(ix)(aa) to (ee) in which persons described in 10(2)(c)(i) hold a position of general control or management,

to a greater extent than the majority of—

(aa) in the case of an authority with electoral divisions or wards, other council tax payers, rate payers or inhabitants of the electoral division or ward, as the case may be, affected by the decision; or

(bb) in all other cases, other council tax payers, ratepayers or inhabitants of the authority's area.

**Disclosure of Personal Interests**

**11**.—(1) Where you have a personal interest in any business of your authority and you attend a meeting at which that business is considered, you must disclose orally to that meeting the existence and nature of that interest before or at the commencement of that consideration, or when the interest becomes apparent.

(2) Where you have a personal interest in any business of your authority and you make —

(a) written representations (whether by letter, facsimile or some other form of electronic communication) to a member or officer of your authority regarding that business, you should include details of that interest in the written communication; or

(b) oral representations (whether in person or some form of electronic communication) to a member or officer of your authority you should disclose the interest at the commencement of such representations, or when it becomes apparent to you that you have such an interest, and confirm the representation and interest in writing within 14 days of the representation.

(3) Subject to paragraph 14(1)(b) below, where you have a personal interest in any business of your authority and you have made a decision in exercising a function of an executive or board, you must in relation to that business ensure that any written statement of that decision records the existence and nature of your interest.

(4) You must, in respect of a personal interest not previously disclosed, before or immediately after the close of a meeting where the disclosure is made pursuant to sub-paragraph 11(1), give written notification to your authority in accordance with any requirements identified by your authority's monitoring officer from time to

time but, as a minimum containing —

(a) details of the personal interest;

(b) details of the business to which the personal interest relates; and

(c) your signature.

(5) Where you have agreement from your monitoring officer that the information relating to your personal interest is sensitive information, pursuant to paragraph 16(1), your obligations under this paragraph 11 to disclose such information, whether orally or in writing, are to be replaced with an obligation to disclose the existence of a personal interest and to confirm that your monitoring officer has agreed that the nature of such personal interest is sensitive information.

(6) For the purposes of sub-paragraph (4), a personal interest will only be deemed to have been previously disclosed if written notification has been provided in accordance with this code since the last date on which you were elected, appointed or nominated as a member of your authority.

(7) For the purposes of sub-paragraph (3), where no written notice is provided in accordance with that paragraph you will be deemed as not to have declared a personal interest in accordance with this code.

**Prejudicial Interests**

**12.**—(1) Subject to sub-paragraph (2) below, where you have a personal interest in any business of your authority you also have a prejudicial interest in that business if the interest is one which a member of the public with knowledge of the relevant facts would reasonably regard as so significant that it is likely to prejudice your judgement of the public interest.

(2) Subject to sub-paragraph (3), you will not be regarded as having a prejudicial interest in any business where that business—

(a) relates to —

(i) another relevant authority of which you are also a member;

(ii) another public authority or body exercising functions of a public nature in which you hold a position of general control or management;

(iii) a body to which you have been elected, appointed or nominated by your authority;

(iv) your role as a school governor (where not appointed or nominated by your authority) unless it relates particularly to the school of which you are a governor;

(v) your role as a member of a Local Health Board where you have not been appointed or nominated by your authority;

(b) relates to —

(i) the housing functions of your authority where you hold a tenancy or lease with your authority, provided that you do not have arrears of rent with your authority of more than two months, and provided that those functions do not relate particularly to your tenancy or lease;

(ii) the functions of your authority in respect of school meals, transport and travelling expenses, where you are a guardian, parent, grandparent or have parental responsibility (as defined in section 3 of the Children Act 1989) of a child in full time education, unless it relates particularly to the school which that child attends;

(iii) the functions of your authority in respect of statutory sick pay under Part XI of the Social Security Contributions and Benefits Act 1992, where you are in receipt of, or are entitled to the receipt of such pay from your authority;

(iv) the functions of your authority in respect of an allowance or payment made under sections 22(5), 24(4) and 173 to 176 of the Local Government Act 1972, an allowance or pension under section 18 of the Local Government and Housing Act 1989 or an allowance or payment under section 100 of the Local Government Act 2000;

(c) your role as a community councillor in relation to a grant, loan or other form of financial assistance made by your community council to community or voluntary organisations up to a maximum of £500.

(3) The exemptions in subparagraph (2)(a) do not apply where the business relates to the determination of any approval, consent, licence, permission or registration.

### Overview and Scrutiny Committees

**13**. You also have a prejudicial interest in any business before an overview and scrutiny committee of your authority (or of a sub-committee of such a committee) where—

(a) that business relates to a decision made (whether implemented or not) or action taken by your authority's executive, board or another of your authority's committees, sub-committees, joint committees or joint sub-committees; and

(b) at the time the decision was made or action was taken, you were a member of the executive, board, committee, sub-committee, joint-committee or joint sub-committee mentioned in sub-paragraph (a) and you were present when that decision was made or action was taken.

### Participation in Relation to Disclosed Interests

**14**.—(1) Subject to sub-paragraphs (2), (3) and (4), where you have a prejudicial interest in any business of your authority you must, unless you have obtained a dispensation from your authority's standards committee —

(a) withdraw from the room, chamber or place where a meeting considering the business is being held—

(i) where sub-paragraph (2) applies, immediately after the period for making representations, answering questions or giving evidence relating to the business has ended and in any event before further consideration of the business begins, whether or not the public are allowed to remain in attendance for such consideration; or

(ii) in any other case, whenever it becomes apparent that that business is being considered at that meeting;

(b) not exercise executive or board functions in relation to that business;

(c) not seek to influence a decision about that business;

(d) not make any written representations (whether by letter, facsimile or some other form of electronic communication) in relation to that business; and

(e) not make any oral representations (whether in person or some form of electronic communication) in respect of that business or immediately cease to make such oral representations when the prejudicial interest becomes apparent.

(2) Where you have a prejudicial interest in any business of your authority you may attend a meeting but only for the purpose of making representations, answering questions or giving evidence relating to the business, provided that the public are also allowed to attend the meeting for the same purpose, whether under a statutory right or otherwise.

(3) Sub-paragraph (1) does not prevent you attending and participating in a meeting if —

(a) you are required to attend a meeting of an overview or scrutiny committee, by such committee exercising its statutory powers; or

(b) you have the benefit of a dispensation provided that you —

(i) state at the meeting that you are relying on the dispensation; and

(ii) before or immediately after the close of the meeting give written notification to your authority containing —

(aa) details of the prejudicial interest;

(bb) details of the business to which the prejudicial interest relates;

(cc) details of, and the date on which, the dispensation was granted; and

(dd) your signature.

(4) Where you have a prejudicial interest and are making written or oral representations to your authority in reliance upon a dispensation, you must provide details of the dispensation within any such written or oral representation and, in the latter case, provide written notification to your authority within 14 days of making the representation.

## PART 4

THE REGISTER OF MEMBERS' INTERESTS

### Registration of Financial and Other Interests and Memberships and Management Positions

**15.**—(1) Subject to sub-paragraph (3), you must, within 28 days of—

(a) your authority's code of conduct being adopted or the mandatory provisions of this model code being applied to your authority; or

(b) your election or appointment to office (if that is later),

register your financial interests and other interests, where they fall within a category mentioned in paragraph 10(2)(a) in your authority's register maintained under section 81(1) of the Local Government Act 2000 by providing written notification to your authority's monitoring officer.

(2) You must, within 28 days of becoming aware of any new personal interest or change to any personal interest registered under sub-paragraph (1), register that new personal interest or change by providing written notification to your authority's monitoring officer.

(3) Sub-paragraphs (1) and (2) do not apply to sensitive information determined in accordance with paragraph 16(1).

(4) Sub-paragraph (1) will not apply if you are a member of a relevant authority which is a community council when you act in your capacity as a member of such an authority.

### Sensitive information

**16.**—(1) Where you consider that the information relating to any of your personal interests is sensitive information, and your authority's monitoring officer agrees, you need not include that information when registering that interest, or, as the case may be, a change to the interest under paragraph 15.

(2) You must, within 28 days of becoming aware of any change of circumstances which means that information excluded under sub-paragraph (1) is no longer sensitive information, notify your authority's monitoring officer asking that the information be included in your authority's register of members' interests.

(3) In this code, "sensitive information" ("*gwybodaeth sensitif*") means information whose availability for inspection by the public creates, or is likely to create, a serious risk that you or a person who lives with you may be subjected to violence or intimidation.

### Registration of Gifts and Hospitality

**17.** You must, within 28 days of receiving any gift, hospitality, material benefit or advantage above a value specified in a resolution of your authority, provide written notification to your authority's monitoring officer of the existence and nature of that gift, hospitality, material benefit or advantage.

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.50**

W284/04/08 ON

**NODYN BRIFFIO AR GYFER CYNGHORWYR TREF A CHYMUNED**
**Datgan Diddordebau Personol a Diddordebau sy'n Rhagfarnu gan Aelodau**

Atodiadau:
Atodiad 1: Cod Ymddygiad Enghreifftiol
Atodiad 2: Canllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Atodiad 3: Ffurflen Ddatganiad mewn Cyfarfodydd CSYM
Atodiad 4: Cyngor a gylchredwyd gan Un Llais Cymru ym mis Awst 2015

## A. Cefndir

Daeth Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016 i rym ar 1af Ebrill 2016. Crëwyd Cod Ymddygiad diwygiedig ar yr adeg honno ynghyd â'r gofyniad i bob Cyngor Tref a Chymuned fabwysiadu'r Cod newydd. Mae copi o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol ynghlwm yn **Atodiad 1**. Dylai Cynghorwyr sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan eu Cyngor Tref neu Gymuned eu hunain.

Mae gofynion mewn perthynas â datgelu diddordebau personol a diddordebau sy'n rhagfarnu yn y Cod Ymddygiad Enghreifftiol. Nod y Nodyn Briffio hwn yw crynhoi'r gofynion hynny cyn belled ag y maent yn effeithio ar Gynghorwyr Tref a Chymuned.

## B. Pa bryd y mae'r Cod yn berthnasol?

Mae'r Cod Ymddygiad yn berthnasol
- pryd bynnag y bydd aelod yn gweithredu yn ei gapasiti swyddogol, gan gynnwys pryd bynnag y mae aelodau'n ymgymryd â busnes ar ran y cyngor neu'n gweithredu, yn honni eu bod yn gweithredu, neu'n rhoi'r argraff eu bod yn gweithredu yn eu capasiti swyddogol fel aelod o neu fel cynrychiolydd o Gyngor Tref/Cymuned; neu
- ar unrhyw adeg, os yw aelodau'n ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ei ystyried yn ymddygiad sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu'r cyngor neu os ydynt yn ceisio defnyddio eu swydd i gael mantais neu i osgoi anfantais iddyn nhw eu hunain neu unrhyw berson arall neu os ydynt yn camddefnyddio adnoddau'r awdurdod.

Mae'r penawdau cyffredinol o dan y Cod yn cynnwys:
- Cydraddoldeb
- Trin eraill gyda pharch ac ystyriaeth
- Bwlio ac aflonyddu
- Peryglu didueddrwydd swyddogion yr awdurdod
- Datgelu gwybodaeth gyfrinachol
- Atal mynediad at wybodaeth
- Dwyn anfri
- Adrodd am ddigwyddiadau o dorri'r Cod
- Cwynion blinderus

- Cydweithredu ag ymchwiliadau
- Defnyddio eich swydd yn amhriodol
- Adnoddau'r awdurdod
- Defnyddio adnoddau at ddibenion priodol yn unig
- Dod i benderfyniadau'n wrthrychol
- Ystyried y cyngor a roddir i chi a rhoi rhesymau
- Treuliau
- Rhoddion a lletygarwch

Am ragor o wybodaeth ar yr elfennau hyn o'r Cod, cynghorir aelodau i ddarllen y Cod Ymddygiad yn **Atodiad 1** a Chanllawiau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar "Y Cod ymddygiad i aelodau Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru" (dyddiedig Gorffennaf 2016) yn **Atodiad 2**. Petai gan yr aelodau unrhyw ymholiadau, dylent eu codi gyda eu Clercod yn y lle cyntaf.

Nid yw'r nodyn briffio hwn ond yn ystyried y gofynion mewn perthynas â datgan diddordebau personol a diddordebau sy'n rhagfarnu – sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 3 a 4 y Cod (paragraffau 10 – 17).

## DIDDORDEBAU PERSONOL

**Beth yw diddordebau personol?**

Mae diddordeb personol yn bodoli os oes gan Aelod, neu gyswllt personol agos* ag Aelod, gysylltiad â'r mater sy'n cael ei drafod.

Mae angen i Aelodau ofyn iddyn nhw eu hunain, mewn perthynas â'r holl fusnes maent yn ymgymryd ag ef fel Cynghorwyr Tref/Cymuned:

A. A yw'r mater yn ymwneud â, neu'n debygol o effeithio ar, unrhyw un o'r materion a restrir ym mharagraff 10(2)(a) y Cod Ymddygiad

NEU

B. Allai penderfyniad ar y mater sy'n cael ei drafod gael ei ystyried yn rhesymol fel un sy'n effeithio – i raddau mwy helaeth nag ar bobl eraill yn ardal y Dref/Cymuned, y materion a restrir ym mharagraff 10(2)(c):

Os mai 'ydi' yw'r ateb i unrhyw un o'r categorïau yn A neu B uchod, yna mae diddordeb personol yn bodoli.

*** Pwy sy'n gysylltiad personol agos?**

Nid oes diffiniad ond mae'r Ombwdsmon yn cynnig y cyngor / enghraifft ganlynol a allai gynorthwyo i ddeall y gwahaniaeth:

> Os ydych chi'n aelod o'r un clwb golff â rhywun, nid yw hynny'n golygu bod gennych gysylltiad personol agos â nhw, ond os yw'r unigolyn hwnnw yn bartner golff rheolaidd i chi, mae gennych gysylltiad personol agos â nhw.

**DATGAN DIDDORDEBAU PERSONOL**

(1) DATGANIADAU MEWN CYFARFODYDD:-

Mae'n rhaid i aelod ddatgan eu diddordeb ar lafar bob tro mae'n berthnasol i drafodaeth, hyd yn oed os yw'r diddordeb yn un sydd wedi'i ddatgan o'r blaen mewn cyfarfodydd cynharach. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol waeth a yw'r cyfarfod yn ffurfiol neu'n anffurfiol.

Mewn cyfarfodydd ffurfiol, os yw Aelod yn datgan diddordeb personol **am y tro cyntaf**, mae'n rhaid i'r Aelod hefyd roi cadarnhad ysgrifenedig o'r diddordeb i'r Clerc cyn diwedd y cyfarfod.
Mae'n rhaid i'r cadarnhad ysgrifenedig gynnwys y canlynol, o leiaf:-

- Manylion am y diddordeb personol*/diddordeb sy'n rhagfarnu**;
- Manylion am yr eitem fusnes y mae'r diddordeb yn ymwneud â hi;
- Llofnod yr Aelod.

**Clercod**: Er hwylustod, argymhellir bod dogfen safonol yn cael ei defnyddio ar gyfer y cofrestriad hwn. Mae copi o'r Ffurflen Datganiad mewn Cyfarfodydd a ddefnyddir gan CSYM ynghlwm yn **Atodiad 3**.

Mae'n rhaid i Aelod ddatgan unrhyw ddiddordeb personol perthnasol mewn unrhyw sylwadau ysgrifenedig y byddant yn eu gwneud y tu allan i gyfarfodydd.

Os bydd Aelod yn gwneud sylwadau ar lafar y tu allan i bwyllgor ffurfiol, mae hefyd angen iddynt ddatgan y diddordeb ar lafar a'i gadarnhau'n ysgrifenedig i'r Clerc o fewn 14 diwrnod i'r cyfarfod.

**Clercod**: Gweler yr adran ar y "Gofrestr o Ddiddordebau" am ragor o wybodaeth ar sut y dylid cadw'r datganiadau ysgrifenedig a gofynion pellach.

(2) RHODDION A LLETYGARWCH

Os bydd Aelod yn derbyn rhodd neu letygarwch yn ei rôl fel Aelod, mae'n rhaid iddo ef/hi ddatgan y rhodd / lletygarwch hwnnw o fewn 28 diwrnod o'i dderbyn; cyhyd â bod y gwerth/gwerth a amcangyfrifir yn uwch na'r gwerth y manylwyd arno mewn penderfyniad gan eich Cyngor Tref/Cymuned.

Argymhellir hefyd y dylid datgan rhodd/lletygarwch a gofrestrwyd os yw'n berthnasol i fater sy'n cael ei drafod mewn cyfarfod. Gallai fod yn ddiddordeb personol o dan ddarpariaeth y Cod.

## DIDDORDEBAU SY'N RHAGFARNU

### Beth yw diddordeb sy'n rhagfarnu?

Bob tro y bydd Aelod yn penderfynu bod ganddynt ddiddordeb personol yn y mater dan sylw, mae'n rhaid iddynt hefyd weithredu'r prawf isod:

**A fyddai aelod o'r cyhoedd, a oedd yn gwybod y ffeithiau perthnasol, yn meddwl yn rhesymol bod y diddordeb personol mor arwyddocaol fel y byddai'n debygol o effeithio'n andwyol ar allu'r Aelod i roi barn ar y mater er lles y cyhoedd.**

Os mai “na” yw’r ateb, yna dim ond diddordeb personol sydd gan yr Aelod a chaiff gymryd rhan lawn yn y drafodaeth/bleidlais; ar yr amod ei fod wedi datgan y diddordeb personol. Mae hyn yn golygu nad yw’r diddordeb mor arwyddocaol nes ei fod yn eithrio’r aelod ond mae ei ddatgan yn gwarchod unplygrwydd y penderfyniad drwy sicrhau tryloywder.

Fodd bynnag os mai’r ateb i’r cwestiwn (mewn teip tywyll uchod) yw “byddai”, mae angen i’r Aelod ystyried a yw’r mater yn dod o dan unrhyw un o’r eitemau eithriedig a restrir ym mharagraff 12(2)(b) y Cod Ymddygiad.

- Os yw un o’r eithriadau’n berthnasol, nid ystyrir bod gan yr Aelod ddiddordeb sy’n rhagfarnu. Bydd yr angen i ddatgan diddordeb personol yn parhau i fod yn berthnasol ac fe ddylai’r Aelod nodi pa eithriad maent yn dibynnu arno.
- Os nad yw’r un eithriad yn berthnasol, mae gan yr Aelod ddiddordeb personol a diddordeb sy’n rhagfarnu ac ni ddylai gymryd rhan.

## DATGAN DIDDORDEBAU SY’N RHAGFARNU

CYFARFODYDD:-

Mae’n rhaid i Aelod ddatgelu, pob tro y caiff y mater ei drafod, fod ganddo/ganddi ddiddordeb sy’n rhagfarnu, hyd yn oed os yw’r diddordeb yn un sydd wedi’i ddatgan o’r blaen mewn cyfarfodydd cynharach.

Os yw aelodau o’r cyhoedd yn cael mynychu’r un cyfarfod i wneud sylwadau ar lafar, gall yr Aelod wneud sylwadau ysgrifenedig neu lafar, ond mae’n rhaid i’r Aelod adael y cyfarfod wedyn cyn y cynhelir unrhyw drafodaeth; hyd yn oed os yw aelodau’r cyhoedd yn cael aros.

Os nad yw’n gyfarfod cyhoeddus, ar ôl datgelu’r diddordeb sy’n rhagfarnu, mae’n rhaid i’r Aelod adael yr ystafell tra bydd y mater yn cael ei drafod. Nid yw aros yn yr ystafell, na symud i ran arall o’r ystafell, yn opsiwn a byddai hynny’n torri’r cod.

***Enghraifft:-***
Gwelwyd fod aelod o Gyngor Cymuned wedi torri’r Cod am fethu â datgan diddordeb personol a diddordeb sy’n rhagfarnu mewn cyfarfod a oedd yn ystyried cais am fferm wynt ar dir cyfagos i fferm yr oedd hi’n gyd-berchennog arni. Roedd Cytundeb Opsiwn yn bodoli ar gyfer datblygu ffordd i’r fferm wynt ar draws tir yr Aelod; nid oedd wedi’i ddatgan ar y Gofrestr Gyffredinol (fe ddylai fod wedi) ac ni chafodd ei ddatgelu gan yr Aelod yn y cyfarfod. Arhosodd yr Aelod yn y cyfarfod (er i Aelod arall ddatgan diddordeb a gadael yr ystafell), ac fe gymerodd ran yn y bleidlais (gan atal ei phleidlais). Cafodd yr Aelod ei gwahardd am 3 mis. *[Cyngor Cymuned Llanfihangel ar Arth – APW/002/2014-015/CT]*

Mewn cyfarfodydd ffurfiol, os yw Aelod yn datgan diddordeb sy’n rhagfarnu **am y tro cyntaf**, mae’n rhaid i’r Aelod hefyd roi cadarnhad ysgrifenedig o’r diddordeb i’r Clerc cyn diwedd y cyfarfod.

Mae’n rhaid i’r cadarnhad ysgrifenedig gynnwys y canlynol, o leiaf:-

- Manylion am y diddordeb personol*/diddordeb sy’n rhagfarnu**;
- Manylion am yr eitem fusnes y mae’r diddordeb yn ymwneud â hi;
- Llofnod yr Aelod;
- Cadarnhad ei fod ef / hi wedi gadael yr ystafell gyfarfod ac na wnaeth gymryd rhan yn y mater.

**<u>Clercod</u>**: Er hwylustod, argymhellir bod dogfen safonol yn cael ei defnyddio ar gyfer y cofrestriad hwn. Mae copi o'r Ffurflen Datganiad mewn Cyfarfodydd a ddefnyddir gan CSYM ynghlwm yn **Atodiad 3**.

**<u>Clercod</u>**: Gweler yr adran ar y "Gofrestr o Ddiddordebau" am ragor o wybodaeth ar sut y dylid cadw'r datganiadau ysgrifenedig a gofynion pellach

<u>SYLWADAU YSGRIFENEDIG A LLAFAR:-</u>

Ni ddylai Aelodau geisio dylanwadu'r busnes y mae ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu ynddo ac ni ddylent fod yn rhan o unrhyw drafodaethau ar y mater, oni bai bod y Pwyllgor Safonau wedi rhoddi caniatâd arbennig.

**<u>COFRESTR O DDIDDORDEBAU:</u>**

Nid oes unrhyw ofyniad i Aelodau Cynghorau Tref/Cymuned gwblhau cofrestr sefydlog o ddiddordebau h.y. cyn-gofrestru cyflogaeth/busnes/daliadau tir/aelodaeth o gyrff allanol ac ati. Dyletswydd yr Aelodau Tref/Cymuned yw datgan diddordeb "yn y fan a'r lle" os a phryd mae'n codi mewn cyfarfod. [Mae hyn yn wahanol i'r gofyniad ar gyfer Cynghorwyr Sir. Mae rhai Cynghorau Tref/Cymuned wedi gofyn i'w haelodau ddarparu gwybodaeth o'r fath; gellir annog aelodau i wneud hyn ond ni ellir eu gorfodi.]

Mae gofyn i Aelodau Tref/Cymuned gofrestru diddordebau personol / diddordebau sy'n rhagfarnu yng Nghofrestr y Cyngor Tref/Cymuned "fel a phryd" maent yn codi trwy roi <u>hysbysiad ysgrifenedig</u> i'r Clerc **ar yr achlysur cyntaf** pan wneir y <u>datganiad llafar.</u>

Mae **Atodiad 4** yn cynnwys darn o gyngor a gylchredwyd gan Un Llais Cymru mewn perthynas â diddordebau personol a diddordebau sy'n rhagfarnu, ac yn arbennig, y gofynion o ran cyn-gofrestru diddordebau.

Bydd diddordeb personol/diddordeb sy'n rhagfarnu ond yn cael ei weld fel un a ddatgelwyd yn flaenorol os yw hysbysiad ysgrifenedig wedi'i ddarparu ers y dyddiad diwethaf pan gafodd yr unigolyn ei ethol, ei benodi neu ei enwebu fel aelod o'r Cyngor Tref/Cymuned.

- Er enghraifft – Gan gofio'r etholiadau ym mis Mai 2017, petai mater wedi cael ei drafod ym mis Ionawr 2017 a bod Cynghorydd wedi gwneud datganiad llafar mewn cyfarfod ac wedi cadarnhau'r datganiad hwnnw yn ysgrifenedig ar y pryd, petai'r mater yn codi ei ben eto ym mis Awst 2018, byddai angen i'r Cynghorydd ddatgan ar lafar A chofrestru ei ddiddordeb eto (gan iddo wneud y datganiad blaenorol cyn yr etholiad).

Os bydd unrhyw newidiadau i ddiddordebau personol/diddordebau sy'n rhagfarnu sydd wedi'u cofrestru, mae'n rhaid eu cadarnhau'n ysgrifenedig o fewn 28 diwrnod i pryd digwyddodd y newid.

- Er enghraifft, os oedd aelod wedi datgan diddordeb sy'n rhagfarnu o'r blaen oherwydd bod cais am ganiatâd cynllunio ar yr eiddo drws nesaf iddo yn cael ei drafod, petai'r aelod yn gwerthu ac yn symud allan o'r tŷ hwnnw, dylai'r aelod roi gwybod yn ysgrifenedig i'r Clerc ei fod wedi gwerthu a symud tŷ ac felly nad yw'r diddordeb a gofrestrwyd o'r blaen yn berthnasol mwyach.

Mae'r gofyniad i ddatgan y diddordeb personol/diddordeb sy'n rhagfarnu, darparu'r cadarnhad ysgrifenedig er mwyn "cofrestru" y diddordeb, ac i ddarparu cadarnhad ysgrifenedig o unrhyw newid yn y diddordebau cofrestredig hynny, yn gyfrifoldeb i'r

aelod. Mae’r gofyniad i gadw a chyhoeddi’r Gofrestr o Ddiddordebau yn gyfrifoldeb i’r Clerc, fel y swyddog priodol ar gyfer y Cyngor Tref/Cymuned.

Nid oes fformat rhagnodedig ar gyfer y Gofrestr, ond mae defnyddio ffurflen safonol ar gyfer pob cofrestriad o ddiddordeb personol/diddordeb sy’n rhagfarnu a’u casglu ynghyd mewn ffeil unigol, yn nhrefn enwau’r Aelodau, yn ddigonol. Mae’r ffurflenni unigol hyn wedyn, gyda’i gilydd, yn ffurfio’r Gofrestr o Ddiddordebau a ddatganwyd gan Aelodau’r Cyngor Tref/Cymuned. Os yw Aelod heb wneud unrhyw ddatganiad, ni fydd ganddo/ganddi unrhyw gofnodion/ffurflenni yn y Gofrestr.

Mae’n rhaid i Glercod sicrhau, mewn perthynas â’r Gofrestr:

- ei bod ar gael i’w harchwilio gan y cyhoedd ar bob adeg resymol, ac yn electronig ar wefan y Cyngor.
- bod unrhyw ddatganiadau newydd yn cael eu hychwanegu at y Gofrestr cyn gynted ag sy’n rhesymol ymarferol ar ôl pob cyfarfod
- y caiff ei diweddaru gydag unrhyw hysbysiadau ysgrifenedig a dderbyniwyd gan Aelodau yn rhoi manylion y diddordeb cofrestredig nad yw’n berthnasol mwyach.

Mae’n rhaid i Glercod hefyd gofnodi datganiadau llafar a wneir mewn cyfarfodydd yn y cofnodion, a sicrhau bod y cofnodion hynny’n cael eu cyhoeddi, unwaith y maent wedi’u cymeradwyo. Efallai y byddai’n arfer da cynnwys cyfeirnod (o fewn y datganiad o ddiddordeb a nodwyd yn y cofnodion) i’r dyddiad pan gafodd y diddordeb, sy’n cael ei ddatgan ar lafar, ei gofrestru yn y Gofrestr o Ddiddordebau, er hwylustod i’r cyhoedd.

Mae sawl Cyngor Tref/Cymuned lle mae’r Aelodau yn dilyn arferiad o gadarnhau pob datganiad llafar o ddiddordebau personol neu sy’n rhagfarnu trwy gadarnhad ysgrifenedig, yn unol ag arferion y Cyngor. Yn yr amgylchiadau hynny, mae’r Gofrestr wedi’i ffurfio o’r holl ffurflenni datganiad, a gaiff eu cadw yn nhrefn eu dyddiad fel arfer. Mae’r arferiad hwn yn mynd tu hwnt i ofynion y Cod ond mae’n sicrhau tryloywder a chysondeb rhwng gwybodaeth am ddatganiadau mewn Cofnodion a’r datganiadau sydd yn y Gofrestr. Fel gyda chyn-gofrestru rhai diddordebau penodol, gellir annog aelodau i wneud hyn ond ni ellir eu gorfodi.

Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn
Mawrth 2019

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2008 Rhif 788 (Cy.82)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

# Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Sefydlodd Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("y Ddeddf") fframwaith moesegol newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae adran 50(2) o'r Ddeddf yn darparu y caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") drwy orchymyn ddyroddi cod enghreifftiol o ran yr ymddygiad y disgwylir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau perthnasol yng Nghymru ei arddel. Trosglwyddir y swyddogaeth hon oddi wrth y Cynulliad i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Awdurdodau perthnasol yng Nghymru at ddibenion y Gorchymyn hwn yw cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Nid yw awdurdodau heddlu'n awdurdodau perthnasol at ddibenion y Gorchymyn hwn.

Mae'n rhaid i god ymddygiad a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 50(2) o'r Ddeddf fod yn gyson â'r egwyddorion a bennir yn unol ag adran 49(2) o'r Ddeddf a geir ar hyn o bryd yng Ngorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001. Mae adran 50(3) o'r Ddeddf yn rhoi'r hawl i Weinidogion Cymru i ddiwygio cod enghreifftiol sydd wedi ei ddyroddi.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2001 ac offerynnau statudol blaenorol sy'n diwygio ac yn dyroddi cod enghreifftiol diwygiedig yn unol ag adran 50(2) a (3) o'r Ddeddf. Mae'r

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2008 No. 788 (W.82)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

# The Local Authorities (Model Code of Conduct) (Wales) Order 2008

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

Part III of the Local Government Act 2000 ("the Act") established a new ethical framework for local government in Wales.

Section 50(2) of the Act provides that the National Assembly for Wales ("the Assembly") may by order issue a model code as regards the conduct which is expected of members and co-opted members of relevant authorities in Wales. This function of the Assembly is transferred to the Welsh Ministers by paragraph 30 of schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.

Relevant authorities in Wales for the purposes of this Order are county councils, county borough councils, community councils, fire and rescue authorities and National Park authorities. Police authorities are not relevant authorities for the purposes of this Order.

A code of conduct issued by the Welsh Ministers under section 50(2) of the Act must be consistent with the principles specified pursuant to section 49(2) of the Act currently set out in the Conduct of Members (Principles) (Wales) Order 2001. Section 50(3) of the Act entitles the Welsh Ministers to revise a model code which has been issued.

This Order revokes the Conduct of Members (Model Code of Conduct) (Wales) Order 2001 and previous amending statutory instruments and issues a revised model code in pursuance of section 50(2) and (3) of the Act. This Order also continues the disapplication of

Gorchymyn hwn hefyd yn parhau datgymhwysiad darpariaethau statudol sy'n ymwneud â Chod Cenedlaethol Ymddygiad Llywodraeth Leol yng Nghymru (ymhlith eraill).

Mae'r cod enghreifftiol diwygiedig yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Mae Rhan 1 o'r cod enghreifftiol yn ymwneud â dehongli.

Mae Rhan 2 o'r cod enghreifftiol yn darparu ar gyfer darpariaethau cyffredinol y cod enghreifftiol.

Mae Rhan 3 o'r cod enghreifftiol yn ymwneud â buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu ac â datgelu'r cyfryw fuddiannau gan aelodau ac aelodau cyfetholedig ac â chyfrannu gan aelodau ac aelodau cyfetholedig mewn cysylltiad â'r cyfryw fuddiannau.

Mae Rhan 4 o'r cod enghreifftiol yn ymwneud â'r gofrestr fuddiannau, ac â chofrestru rhoddion a lletygarwch.

statutory provisions relating to (among others) the National Code of Local Government Conduct in Wales.

The revised model code is in the Schedule to this Order.

Part 1 of the model code deals with interpretation.

Part 2 of the model code provides for the general provisions of the model code.

Part 3 of the model code concerns personal interests and prejudicial interests and disclosure of and participation by members and co-opted members in respect of such interests.

Part 4 of the model code concerns the register of interests, registration of gifts and hospitality.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2008 Rhif 788 (Cy.82)

## LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

# Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Mawrth 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *25 Mawrth 2008* |
| *Yn dod i rym* | *18 Ebrill 2008* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 50(2), 50(3), 50(4), 50(4E), 81(2), 81(3) a 105 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**) ac a freiniwyd(**2**) bellach ynddynt hwy, ac ar ôl gwneud y cyfryw ymgynghoriad ag sy'n ofynnol yn rhinwedd adran 50(5) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru, a hwythau'n fodlon bod y cod ymddygiad enghreifftiol a ddyroddir o dan adran 50(2) yn gyson â'r egwyddorion a bennir yng Ngorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001(**3**) a wnaed yn unol ag adran 49(2), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008 a daw i rym ar 18 Ebrill 2008.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i bob awdurdod perthnasol yng Nghymru.

(**1**) 2000 p.22. Diwygir adran 50 gan adran 183 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p.28).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 50, 81 a 105 i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 2001/2276 (Cy.166) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/2929 (Cy.214).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2008 No. 788 (W.82)

## LOCAL GOVERNMENT, WALES

# The Local Authorities (Model Code of Conduct) (Wales) Order 2008

| | |
|---|---|
| *Made* | *20 March 2008* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *25 March 2008* |
| *Coming into force* | *18 April 2008* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by sections 50(2), 50(3), 50(4), 50(4E), 81(2), 81(3) and 105 of the Local Government Act 2000(**1**) and now vested(**2**) in them, having carried out such consultation as is required by virtue of section 50(5) of that Act and being satisfied that the model code of conduct being issued under section 50(2) is consistent with the principles specified in the Conduct of Members (Principles) (Wales) Order 2001(**3**) made pursuant to section 49(2), make the following Order:

**Title, commencement and application**

**1.**—(1) The title of this Order is the Local Authorities (Model Code of Conduct) (Wales) Order 2008 and it comes into force on 18 April 2008.

(2) This Order applies to each relevant authority in Wales.

(**1**) 2000 c.22. Section 50 is amended by section 183 of the Local Government and Public Involvement in Health Act 2007 (c.28).

(**2**) The functions of the National Assembly for Wales under sections 50, 81 and 105 were transferred to the Welsh Ministers under paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(**3**) S.I. 2001/2276 (W.166) as amended by S.I. 2005/2929 (W.214).

**Dehongli**

**2**. Yn y Gorchymyn hwn —

mae i "aelod" ("*member*") yr ystyr a geir yn Rhan 1 o'r cod enghreifftiol yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

mae i "aelod cyfetholedig" ("*co-opted member*") yr ystyr a geir yn Rhan 1 o'r cod enghreifftiol yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

mae i "awdurdod perthnasol" ("*relevant authority*") yr ystyr a geir yn Rhan 1 o'r cod enghreifftiol yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn; ac

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000.

**Cod Ymddygiad Enghreifftiol**

**3**.—(1) Ceir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn god enghreifftiol o ran yr ymddygiad y disgwylir i aelodau o awdurdod perthnasol ei arddel.

(2) At ddibenion adran 50(4) o'r Ddeddf, mae darpariaethau'r cod enghreifftiol i'w hystyried yn rhai gorfodol.

**Darpariaethau i'w datgymhwyso**

**4**.—(1) Os bydd awdurdod perthnasol yn gyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned, neu'n awdurdod tân ac achub sydd wedi mabwysiadu cod ymddygiad neu os bydd y cyfryw god yn gymwys iddo, datgymhwysir y canlynol o ran yr awdurdod hwnnw, os ydynt yn gymwys i'r awdurdod perthnasol—

(a) adrannau 94 i 98 a 105 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**); a

(b) unrhyw reoliadau a wnaed neu god a ddyroddwyd o dan adrannau 19 a 31 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**2**).

(2) Os bydd awdurdod perthnasol yn awdurdod Parc Cenedlaethol sydd wedi mabwysiadu cod ymddygiad neu os bydd y cyfryw god yn gymwys iddo, datgymhwysir y canlynol o ran yr awdurdod hwnnw, os yw'n gymwys i'r awdurdod perthnasol —

(a) paragraffau 9 a 10 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**3**); a

(b) unrhyw reoliadau a wnaed neu god a ddyroddwyd o dan adrannau 19 a 31 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

(3) Bydd adran 16(1) o Ddeddf Dehongli 1978(**4**) yn gymwys i ddatgymhwysiad o dan baragraff (1) neu baragraff (2) uchod fel pe bai'n ddiddymiad, gan Ddeddf, o ddeddfiad.

(**1**) 1972 p.70.

(**2**) 1989 p.42.

(**3**) 1995 p.25.

(**4**) 1978 p.30.

**Interpretation**

**2**. In this Order —

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Local Government Act 2000;

"co-opted member" ("*aelod cyfetholedig*") has the meaning set out in Part 1 of the model code in the Schedule to this Order;

"member" ("*aelod*") has the meaning set out in Part 1 of the model code in the Schedule to this Order; and

"relevant authority" ("*awdurdod perthnasol*") has the meaning set out in Part 1 of the model code in the Schedule to this Order.

**Model Code of Conduct**

**3**.—(1) A model code as regards the conduct which is expected of members of a relevant authority is set out in the Schedule to this Order.

(2) For the purposes of section 50(4) of the Act, the provisions of the model code are to be regarded as mandatory.

**Provisions to be disapplied**

**4**.—(1) Where a relevant authority which is a county, county borough or community council or fire and rescue authority has adopted a code of conduct or such a code applies to it, the following will, where applicable to the relevant authority, be disapplied as respects that authority —

(a) sections 94 to 98 and 105 of the Local Government Act 1972(**1**); and

(b) any regulations made or code issued under sections 19 and 31 of the Local Government and Housing Act 1989(**2**).

(2) Where a relevant authority which is a National Park authority has adopted a code of conduct or such a code applies to it, the following will, where applicable to the relevant authority, be disapplied as respects that authority —

(a) paragraphs 9 and 10 of Schedule 7 to the Environment Act 1995(**3**); and

(b) any regulations made or code issued under sections 19 and 31 of the Local Government and Housing Act 1989.

(3) Section 16(1) of the Interpretation Act 1978(**4**) will apply to a disapplication under paragraph (1) or (2) above as if it were a repeal, by an Act, of an enactment.

(**1**) 1972 c.70.

(**2**) 1989 c.42.

(**3**) 1995 c.25.

(**4**) 1978 c.30.

### Dirymu

**5**. Dirymir y gorchmynion canlynol:

(a) Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2001(**1**);

(b) Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Diwygio) (Cymru) 2004(**2**); ac

(c) Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2004(**3**).

### Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion

**6**. Mae'r gorchmynion y cyfeirir atynt yn erthygl 5 yn parhau i fod yn effeithiol at ddibenion y canlynol ac at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r canlynol —

(a) ymchwilio i unrhyw honiad ysgrifenedig o dan Ran 3 o'r Ddeddf, pan fo'r honiad hwnnw'n ymwneud ag ymddygiad a ddigwyddodd cyn y dyddiad pryd, yn unol ag adran 51 o'r Ddeddf(**4**)—

(i) y bydd yr awdurdod perthnasol yn mabwysiadu cod ymddygiad sy'n ymgorffori darpariaethau gorfodol y cod ymddygiad enghreifftiol yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn lle ei god ymddygiad presennol;

(ii) y bydd yr awdurdod perthnasol yn diwygio'i god ymddygiad presennol i ymgorffori darpariaethau gorfodol y cod ymddygiad enghreifftiol a geir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn; neu

(iii) y bydd darpariaethau gorfodol y cod ymddygiad enghreifftiol a geir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn gymwys i aelodau neu aelodau cyfetholedig o'r awdurdod perthnasol o dan adran 51(5)(b) o'r Ddeddf honno;

(b) dyfarnu (neu benderfynu) ar fater a godir mewn honiad o'r fath; ac

(c) apêl yn erbyn penderfyniad pwyllgor safonau, tribiwnlys achos interim neu dribiwnlys achos mewn perthynas â honiad o'r fath.

(**1**) O.S. 2001/2289 (Cy. 177) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2004/163 (Cy. 18); O.S. 2004/1510 (Cy.159); O.S. 2005/2929 (Cy. 214); ac O.S. 2006/362 (Cy. 48).

(**2**) O.S. 2004/163 (Cy.18).

(**3**) O.S. 2004/1510 (Cy.159).

(**4**) Diwygir adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 gan adran 35 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 a pharagraffau 1 a 3 o Atodlen 4 iddi a chan adran 183 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007.

### Revocation

**5**. The following orders are revoked:

(a) the Conduct of Members (Model Code of Conduct) (Wales) Order 2001(**1**);

(b) the Conduct of Members (Model Code of Conduct) (Amendment) (Wales) Order 2004(**2**); and

(c) the Conduct of Members (Model Code of Conduct) (Wales) (Amendment) (No. 2) Order 2004(**3**).

### Transitional Provisions and Savings

**6**. The orders referred to in article 5 continue to have effect for the purposes of and for purposes connected with —

(a) the investigation of any written allegation under Part 3 of the Act, where that allegation relates to conduct that occurred before the date when, pursuant to section 51 of the Act(**4**)—

(i) the relevant authority adopts a code of conduct incorporating the mandatory provisions of the model code of conduct in the Schedule to this Order in place of its existing code of conduct;

(ii) the relevant authority revises its existing code of conduct to incorporate the mandatory provisions of the model code of conduct in the Schedule to this Order; or

(iii) the mandatory provisions of the model code of conduct in the Schedule to this Order apply to members or co-opted members of the relevant authority under section 51(5)(b) of that Act;

(b) the adjudication (or determination) of a matter raised in such an allegation; and

(c) an appeal against the decision of a standards committee, an interim case tribunal or case tribunal in relation to such an allegation.

(**1**) S.I. 2001/2289 (W.177) as amended by S.I. 2004/163 (W.18); S.I. 2004/1510 (W.159); S.I. 2005/2929 (W.214); and S.I. 2006/362 (W.48).

(**2**) S.I. 2004/163 (W.18).

(**3**) S.I. 2004/1510 (W.159).

(**4**) Section 51 of the Local Government Act 2000 is amended by section 35 and paragraphs 1 and 3 of Schedule 4 to the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005 and by section 183 of the Local Government and Public Involvement in Health Act 2007.

*Brian Gibbons*

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

20 Mawrth 2008

Minister for Social Justice and Local Government, one of the Welsh Ministers

20 March 2008

YR ATODLEN

Y COD YMDDYGIAD ENGHREIFFTIOL

## RHAN 1

## DEHONGLI

**1.**—(1) Yn y cod hwn —

mae "aelod" ("*member*") yn cynnwys aelod cyfetholedig onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall;

ystyr "aelod cyfetholedig" ("*co-opted member*"), mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yw person nad yw'n aelod o'r awdurdod ond—

(a) sy'n aelod o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor i'r awdurdod, neu

(b) sy'n aelod o unrhyw gyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor i'r awdurdod, ac sy'n cynrychioli'r awdurdod arno,

ac sydd â'r hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu mewn unrhyw gyfarfod o'r pwyllgor neu o'r is-bwyllgor hwnnw;

ystyr "eich awdurdod" ("*your authority*") yw'r awdurdod perthnasol yr ydych chi'n aelod neu'n aelod cyfetholedig ohono;

ystyr "awdurdod perthnasol" ("*relevant authority*") yw—

(a) cyngor sir,

(b) cyngor bwrdeistref sirol,

(c) cyngor cymuned,

(ch) awdurdod tân ac achub a gyfansoddwyd drwy gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(**1**) neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo,

(d) awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**2**);

ystyr "cyfarfod" ("*meeting*") yw unrhyw gyfarfod —

(a) o'r awdurdod perthnasol,

(b) o unrhyw weithrediaeth neu fwrdd i'r awdurdod perthnasol,

(c) o unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor i'r awdurdod perthnasol neu unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor o'r fath i unrhyw weithrediaeth neu fwrdd i'r awdurdod, neu

(ch) y mae aelodau neu swyddogion yr awdurdod perthnasol yn bresennol ynddo ac eithrio cyfarfod grŵp gwleidyddol a gyfansoddwyd yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990(**3**),

ac mae'n cynnwys amgylchiadau pan fo aelod o weithrediaeth neu fwrdd neu swyddog sy'n gweithredu ar ei ben ei hun yn arfer un o swyddogaethau awdurdod; ac

ystyr "chi" ("*you*") yw chi fel aelod neu aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol.

Mewn perthynas â chyngor-cymuned, mae cyfeiriadau at swyddog monitro awdurdod a phwyllgor safonau awdurdod i'w darllen, yn y drefn honno, fel cyfeiriadau at swyddog monitro ac at bwyllgor safonau'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol y mae ganddo swyddogaethau mewn perthynas â'r cyngor cymuned y mae'n gyfrifol amdano o dan adran 56(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

(**1**) 2004 p.21.

(**2**) 1995 p.25.

(**3**) O.S. 1990/1553 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1991/1389; O.S. 1993/1339; O.S. 1998/1918; ac O.S. 1999/500.

## RHAN 2

DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

**2.**—(1)Ac eithrio pan fo paragraff 3(a) yn gymwys, rhaid i chi gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn —

(a) pa bryd bynnag y byddwch yn cynnal busnes eich awdurdod, neu'n bresennol mewn un o gyfarfodydd eich awdurdod;

(b) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu yn rôl aelod y cawsoch eich ethol neu eich penodi iddi;

(c) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu fel un o gynrychiolwyr eich awdurdod; neu

(ch) ar bob adeg ac mewn unrhyw gapasiti, mewn cysylltiad ag ymddygiad a nodir ym mharagraffau 6(1)(a) a 7.

(2) Dylech ddarllen y cod hwn ar y cyd â'r egwyddorion cyffredinol a ragnodir o dan adran 49(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 o ran Cymru.

**3**. Os byddwch wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i wasanaethu —

(a) ar awdurdod perthnasol arall, neu ar unrhyw gorff arall, sy'n cynnwys awdurdod heddlu neu Fwrdd Iechyd Lleol rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw, gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw; neu

(b) ar unrhyw gorff arall nad oes ganddo god sy'n ymwneud ag ymddygiad ei aelodau, rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran y corff arall hwnnw, gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn, ac eithrio pan yw'n gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithlon eraill y gall y corff hwnnw fod yn ddarostyngedig iddynt neu i'r graddau y mae'n gwrthdaro â'r cyfryw rwymedigaethau.

**4**. Rhaid i chi —

(a) cyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd;

(b) dangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt;

(c) peidio ag ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson; a

(ch) peidio â gwneud dim sy'n cyfaddawdu, neu sy'n debygol o gyfaddawdu, diduedddrwydd y sawl sy'n gweithio i'ch cyngor neu ar ei ran.

**5**. Rhaid i chi —

(a) peidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heb gydsyniad datganedig person a awdurdodwyd i roi cydsyniad o'r fath, neu onid yw'r gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny;

(b) peidio â rhwystro unrhyw berson rhag gweld gwybodaeth y mae gan y person hwnnw hawl i'w gweld yn ôl y gyfraith.

**6**.—(1)Rhaid i chi —

(a) peidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod;

(b) adrodd, p'un ai drwy weithdrefn adrodd gyfrinachol eich awdurdod neu'n uniongyrchol i'r awdurdod priodol, ar unrhyw ymddygiad gan aelod arall neu gan unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran ac y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn golygu neu'n debygol o olygu ymddygiad troseddol (nad yw at ddibenion y paragraff hwn yn cynnwys tramgwyddau neu ymddygiad y gellir ei gosbi drwy gosb benodedig);

(c) adrodd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac i swyddog monitro eich awdurdod ar unrhyw ymddygiad gan aelod arall y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn groes i'r cod ymddygiad hwn;

(ch) peidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wacsaw yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran.

(2) Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais gan swyddog monitro eich awdurdod, neu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mewn cysylltiad ag ymchwiliad a wneir yn unol â'u gwahanol bwerau statudol.

**7**. Rhaid i chi —

(a) yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall;

(b) peidio â defnyddio adnoddau eich awdurdod, neu awdurdodi eraill i'w defnyddio—

(i) yn annoeth;

(ii) yn groes i ofynion eich awdurdod;

(iii) yn anghyfreithlon;

(iv) ac eithrio mewn dull a fwriedir i hwyluso neu i ffafrio cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu'r swydd yr ydych wedi eich ethol neu eich penodi iddo neu iddi;

(v) yn amhriodol at ddibenion gwleidyddol; neu

(vi) yn amhriodol at ddibenion preifat.

**8**. Rhaid i chi —

(a) pan fyddwch yn cyfrannu mewn cyfarfodydd neu'n gwneud penderfyniadau ynghylch busnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, wneud hynny ar sail rhinweddau'r amgylchiadau o dan sylw ac er budd y cyhoedd gan roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a ddarperir gan swyddogion eich awdurdod, ac yn benodol gan —

(i) pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod;

(ii) prif swyddog cyllid yr awdurdod;

(iii) swyddog monitro'r awdurdod;

(iv) prif swyddog cyfreithiol yr awdurdod (y dylid ymgynghori ag ef pan fo unrhyw amheuaeth ynghylch pŵer yr awdurdod i weithredu, ynghylch a yw'r cam a arfaethir yn dod o fewn y fframwaith polisi y cytunwyd arno gan yr awdurdod neu os gallai canlyniadau cyfreithiol gweithredu neu fethu â gweithredu gan yr awdurdod gael ôl-effeithiau pwysig);

(b) rhoi rhesymau dros bob penderfyniad yn unol ag unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion rhesymol ychwanegol a osodir gan eich awdurdod.

**9**. Rhaid i chi —

(a) parchu'r gyfraith a rheolau eich awdurdod sy'n llywodraethu hawlio treuliau a lwfansau mewn cysylltiad â'ch dyletswyddau fel aelod;

(b) osgoi derbyn rhoddion oddi wrth neb, na lletygarwch (ac eithrio lletygarwch swyddogol, megis derbyniad dinesig neu weithio dros ginio, a awdurdodir yn briodol gan eich awdurdod) na buddiannau materol neu wasanaethau i chi eich hun neu i unrhyw berson os byddai gwneud hynny'n eich rhoi o dan rwymedigaeth amhriodol, neu os gallai'n rhesymol ymddangos fel pe bai'n gwneud hynny.

## RHAN 3

## BUDDIANNAU

### Buddiannau Personol

**10**.—(1) Ym mhob mater rhaid i chi ystyried a oes gennych fuddiant personol, ac a yw'r cod ymddygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddatgelu'r buddiant hwnnw.

(2) Rhaid i chi ystyried bod gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef —

(a) os yw'n gysylltiedig â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio arnynt —

(i) unrhyw gyflogaeth yr ydych yn ymgymryd â hi neu fusnes yr ydych yn ei redeg;

(ii) unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, unrhyw ffyrm yr ydych yn bartner ynddi neu unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl;

(iii) unrhyw berson, ac eithrio eich awdurdod, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn cysylltiad â'ch ethol neu mewn cysylltiad ag unrhyw dreuliau a dynnwyd gennych wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau fel

aelod;

(iv) unrhyw gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sydd gan y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw;

(v) unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith neu weithfeydd a wnaed rhyngoch chi, rhwng ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, neu rhwng cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu rhwng corff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod a'ch awdurdod;

(vi) unrhyw dir y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod;

(vii) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord arno ac y mae ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu gorff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod yn denant arno;

(viii) unrhyw gorff yr ydych wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(ix) unrhyw —

(aa) awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;

(bb) cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen, neu gorff arall a chanddo ddibenion elusennol;

(cc) corff y mae dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus ymhlith ei brif ddibenion;

(chch) undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu

(dd) clwb preifat neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu o fewn ardal eich awdurdod,

yr ydych yn aelod ohono neu ohoni neu mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo neu ynddi;

(x) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 o ddiwrnodau neu fwy;

(b) pe byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd ganfod bod gwrthdaro rhwng eich rôl o ran gwneud penderfyniad, ar y busnes hwnnw, ar ran eich awdurdod yn gyfan a'ch rôl o ran cynrychioli buddiannau etholwyr yn eich ward neu eich dosbarth etholiadol; neu

(c) pe byddai'n rhesymol ystyried penderfyniad arno yn benderfyniad a fyddai'n effeithio —

(i) ar eich llesiant neu eich sefyllfa ariannol, neu lesiant neu sefyllfa ariannol person yr ydych yn byw gydag ef, neu unrhyw berson y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef;

(ii) ar unrhyw gyflogaeth yr ymgymerir â hi neu fusnes a redir gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i);

(iii) ar unrhyw berson sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi'r cyfryw bersonau ag a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i), unrhyw ffyrm y mae'r cyfryw bersonau'n bartneriaid ynddi, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwyr arno;

(iv) ar unrhyw gorff corfforaethol y mae gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £5,000; neu

(v) ar unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau 10(2)(a)(ix)(aa) i (dd) y mae personau a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo,

a hynny i raddau mwy—

(aa) yn achos awdurdod â dosbarthiadau etholiadol neu wardiau, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn y dosbarth etholiadol neu'r ward, yn ôl y digwydd, y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt; neu

(bb) ym mhob achos arall, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, o bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn ardal yr awdurdod.

**Datgelu Buddiannau Personol**

**11.**—(1) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid i chi ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn i'r cyfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau'r ystyriaeth, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg.

(2) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn gwneud —

(a) cynrychioliadau ysgrifenedig (p'un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod ynghylch y busnes hwnnw, dylech gynnwys

manylion am y buddiant hwnnw yn y gyfathrebiaeth ysgrifenedig; neu

(b) cynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod dylech ddatgelu'r buddiant ar ddechrau'r cyfryw gynrychioliadau, neu pan ddaw'n amlwg i chi fod gennych fuddiant o'r fath, a chadarnhau'r cynrychioliad a'r buddiant yn ysgrifenedig o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y cynrychioliad.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff 14(1)(b) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch wedi gwneud penderfyniad wrth arfer un o swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd, rhaid i chi mewn perthynas â'r busnes hwnnw sicrhau bod unrhyw ddatganiad ysgrifenedig ynghylch y penderfyniad hwnnw'n cofnodi bodolaeth a natur eich buddiant.

(4) Rhaid i chi, mewn cysylltiad â buddiant personol nas datgelwyd eisoes, cyn cyfarfod neu'n syth ar ôl diwedd cyfarfod pan ddatgelir y buddiant yn unol ag is-baragraff 11(1), roi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod yn unol ag unrhyw ofynion a nodir gan swyddog monitro eich awdurdod o bryd i'w gilydd ond, rhaid cynnwys o leiaf —

(a) manylion am y buddiant personol;

(b) manylion am y busnes y mae'r buddiant personol yn gysylltiedig ag ef; ac

(c) eich llofnod.

(5) Pan fydd eich swyddog monitro wedi cytuno bod yr wybodaeth sy'n ymwneud â'ch buddiant personol yn wybodaeth sensitif, yn unol â pharagraff 16(1), mae eich rhwymedigaethau o dan y paragraff 11 hwn i ddatgelu'r cyfryw wybodaeth, p'un ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, i'w disodli gan rwymedigaeth i ddatgelu bodolaeth buddiant personol ac i gadarnhau bod eich swyddog monitro wedi cytuno bod y cyfryw fuddiant personol o natur gwybodaeth sensitif.

(6) At ddibenion is-baragraff (4), dim ond os bod hysbysiad ysgrifenedig wedi ei ddarparu yn unol â'r cod hwn ers y dyddiad diwethaf pryd yr etholwyd chi, y penodwyd chi neu yr enwebwyd chi'n aelod o'ch awdurdod y bernir bod buddiant personol wedi ei ddatgelu eisoes.

(7) At ddibenion is-baragraff (3), os na ddarperir hysbysiad ysgrifenedig yn unol â'r paragraff hwnnw bernir na fyddwch wedi datgan buddiant personol yn unol â'r cod hwn.

**Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

**12.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu yn y busnes hwnnw os bydd y buddiant yn un y bydd yn rhesymol i aelod o'r cyhoedd sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol fod o'r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch buddiant cyhoeddus.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), nid ystyrir bod gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes os bydd y busnes hwnnw—

(a) yn gysylltiedig—

(i) ag awdurdod perthnasol arall yr ydych hefyd yn aelod ohono;

(ii) ag awdurdod cyhoeddus arall neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus lle yr ydych mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol;

(iii) â chorff yr ydych wedi cael eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(iv) â'ch rôl fel llywodraethwr ysgol (os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod) oni bai bod y busnes yn benodol gysylltiedig â'r ysgol yr ydych yn un o'i llywodraethwyr;

(v) â'ch rôl fel aelod o Fwrdd Iechyd Lleol os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(b) yn gysylltiedig:

(i) â swyddogaethau tai eich awdurdod os oes gennych denantiaeth neu les gyda'ch awdurdod, ar yr amod nad oes arnoch i'ch awdurdod ôl-ddyledion rhent o fwy na deufis, ac ar yr amod nad yw'r swyddogaethau hynny'n ymwneud yn arbennig â'ch tenantiaeth neu â'ch les;

(ii) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â phrydau ysgol, cludiant a threuliau teithio, os ydych chi'n warchodwr, yn rhiant, yn fam-gu neu'n nain neu'n dad-cu neu'n daid, neu os oes gennych gyfrifoldeb rhiant (fel y'i diffinnir yn adran 3 o Ddeddf Plant 1989) dros blentyn sy'n cael addysg lawnamser, onid yw'r busnes yn benodol gysylltiedig â'r ysgol y mae'r plentyn hwnnw'n ei mynychu;

(iii) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â thâl salwch statudol o dan Ran XI o Ddeddf

Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992, os ydych yn cael, neu os oes gennych hawl i gael, taliad o'r fath gan eich awdurdod;

(iv) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â lwfans neu daliad a wneir o dan adrannau 22(5), 24(4) a 173 i 176 o Deddf Llywodraeth Leol 1972, lwfans neu bensiwn o dan adran 18 o Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 neu lwfans neu daliad o dan adran 100 o Deddf Llywodraeth Leol 2000;

(c) yn gysylltiedig â'ch rôl fel cynghorydd cymunedol mewn perthynas â grant, benthyciad neu fath arall ar gymorth ariannol a wnaed gan eich cyngor cymuned i gyrff cymunedol neu wirfoddol hyd at uchafswm o £500.

(3) Nid yw'r esemptiadau yn is-baragraff (2)(a) yn gymwys os yw'r busnes yn gysylltiedig â dyfarnu ar unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad.

**Pwyllgorau Trosolygu a Chraffu**

**13**. Bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes sydd gerbron un o bwyllgorau trosolygu a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath )—

(a) os bydd y busnes hwnnw'n gysylltiedig â phenderfyniad a wnaed (p'un a gafodd ei weithredu ai peidio) neu gam a gymerwyd gan weithrediaeth, bwrdd, neu un arall o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cyd-bwyllgorau neu o gyd-is-bwyllgorau eich awdurdod; a

(b) os oeddech chi, ar yr adeg pan wnaed y penderfyniad neu pan gymerwyd y cam, yn aelod o'r weithrediaeth, y bwrdd, y pwyllgor, yr is-bwyllgor, y cyd-bwyllgor neu'r cyd-is-bwyllgor a grybwyllir yn is-baragraff (a) a'ch bod chi'n bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu pan gymerwyd y cam hwnnw.

**Cyfrannu mewn Perthynas â Datgelu Buddiannau**

**14**.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2), (3) a (4), os bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef rhaid i chi, oni roddwyd i chi ollyngiad gan bwyllgor safonau eich awdurdod —

(a) ymadael â'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod i ystyried y busnes yn cael ei gynnal—

(i) pan fo is-baragraff (2) yn gymwys, yn syth ar ôl i'r cyfnod ar gyfer gwneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy'n ymwneud â'r busnes ddod i ben a beth bynnag cyn i ystyriaeth bellach o'r busnes ddechrau, p'un a ganiateir i'r cyhoedd aros yn bresennol ar gyfer y cyfryw ystyriaeth ai peidio; neu

(ii) mewn unrhyw achos arall, pa bryd bynnag y daw i'r amlwg bod y busnes hwnnw'n cael ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw;

(b) peidio ag arfer swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd mewn perthynas â'r busnes hwnnw;

(c) peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw;

(ch) peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau ysgrifenedig (p'un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) mewn perthynas â'r busnes hwnnw; a

(d) peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) mewn cysylltiad â'r busnes hwnnw neu rhaid i chi roi'r gorau ar unwaith i wneud y cyfryw gynrychioliadau llafar pan ddaw'r buddiant sy'n rhagfarnu i'r amlwg.

(2) Os oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef cewch fod yn bresennol mewn cyfarfod ond dim ond er mwyn gwneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy'n ymwneud â'r busnes, ar yr amod y caniateir hefyd i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod i'r un diben, p'un ai o dan hawl statudol neu fel arall.

(3) Nid yw is-baragraff (1) yn eich rhwystro rhag bod yn bresennol a chyfrannu mewn cyfarfod —

(a) os gofynnir i chi fod yn bresennol mewn cyfarfod pwyllgor trosolwg neu graffu, gan y cyfryw bwyllgor ac yntau'n arfer ei bwerau statudol; neu

(b) os oes gennych y fantais o fod gollyngiad wedi ei roi i chi ar yr amod—

(i) eich bod yn datgan yn y cyfarfod eich bod yn dibynnu ar y gollyngiad; a

(ii) eich bod, cyn y cyfarfod neu'n syth ar ôl i'r cyfarfod orffen, yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod a bod hwnnw'n cynnwys —

(aa) manylion y buddiant sy'n rhagfarnu;

(bb) manylion y busnes y mae'r buddiant sy'n rhagfarnu'n gysylltiedig ag ef;

(cc) manylion y gollyngiad a'r dyddiad pryd y'i rhoddwyd; a

(chch) eich llofnod.

(4) Os bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu a'ch bod yn gwneud cynrychioliadau ysgrifenedig neu lafar i'ch awdurdod gan ddibynnu ar ollyngiad, rhaid i chi ddarparu manylion am y gollyngiad o fewn unrhyw gynrychioliad ysgrifenedig neu lafar o'r fath ac, yn yr achos olaf hwn, rhaid i chi ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer eich awdurdod o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y cynrychioliad.

## RHAN 4

## COFRESTR BUDDIANNAU AELODAU

### Cofrestru Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill ac Aelodaeth o Gyrff a Safleoedd Rheoli

**15.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl—

(a) i god ymddygiad eich awdurdod gael ei fabwysiadu neu i ddarpariaethau gorfodol y cod enghreifftiol hwn gael eu cymhwyso i'ch awdurdod; neu

(b) i chi gael eich ethol neu eich penodi i swydd (os digwydd hynny'n ddiweddarach),

gofrestru eich buddiannau ariannol a'ch buddiannau eraill, os ydynt yn dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a) yng nghofrestr eich awdurdod a gedwir o dan adran 81(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod.

(2) Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw fuddiant personol newydd neu o newid i unrhyw fuddiant personol a gofrestrwyd o dan is-baragraff (1), gofrestru'r buddiant personol newydd hwnnw neu'r newid drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod.

(3) Nid yw is-baragraffau (1) a (2) yn gymwys i wybodaeth sensitif a benderfynir yn unol â pharagraff 16(1).

(4) Ni fydd is-baragraff (1) yn gymwys os ydych yn aelod o awdurdod perthnasol sy'n gyngor cymuned pan fyddwch yn gweithredu yn eich capasiti fel aelod o awdurdod o'r fath.

### Gwybodaeth sensitif

**16.**—(1) Os byddwch yn ystyried bod yr wybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw un neu rai o'ch buddiannau personol yn wybodaeth sensitif, a bod swyddog monitro eich awdurdod yn cytuno, nid oes angen i chi gynnwys yr wybodaeth honno pan fyddwch yn cofrestru'r buddiant hwnnw, neu, yn ôl y digwydd, newid i'r buddiant o dan baragraff 15.

(2) Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi ddod yn ymwybodol o unrhyw newid yn eich amgylchiadau sy'n golygu nad yw gwybodaeth sydd wedi ei heithrio o dan is-baragraff (1) mwyach yn wybodaeth sensitif, hysbysu swyddog monitro eich awdurdod gan ofyn am i'r wybodaeth gael ei chynnwys yng nghofrestr buddiannau aelodau eich awdurdod.

(3) Yn y cod hwn, ystyr "gwybodaeth sensitif" ("*sensitive information*") yw gwybodaeth y mae ei rhoi ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn creu, neu'n debygol o greu, risg ddifrifol y gallech chi neu berson sy'n byw gyda chi fod yn destun trais neu fygythion.

### Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch

**17.** Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi gael unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais faterol, sy'n fwy na gwerth a bennir mewn penderfyniad gan eich awdurdod, ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod yn nodi bodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu'r fantais faterol honno.

SCHEDULE

## THE MODEL CODE OF CONDUCT

### PART 1
### INTERPRETATION

**1.**—(1) In this code —

"co-opted member" ("*aelod cyfetholedig*"), in relation to a relevant authority, means a person who is not a member of the authority but who —

(a) is a member of any committee or sub-committee of the authority, or

(b) is a member of, and represents the authority on, any joint committee or joint sub-committee of the authority,

and who is entitled to vote on any question which falls to be decided at any meeting of that committee or sub-committee;

"meeting" ("*cyfarfod*") means any meeting —

(a) of the relevant authority,

(b) of any executive or board of the relevant authority,

(c) of any committee, sub-committee, joint committee or joint sub-committee of the relevant authority or of any such committee, sub-committee, joint committee or joint sub-committee of any executive or board of the authority, or

(d) where members or officers of the relevant authority are present other than a meeting of a political group constituted in accordance with regulation 8 of the Local Government (Committees and Political Groups) Regulations 1990(**1**),

and includes circumstances in which a member of an executive or board or an officer acting alone exercises a function of an authority;

"member" ("*aelod*") includes, unless the context requires otherwise, a co-opted member;

"relevant authority" ("*awdurdod perthnasol*") means—

(a) a county council,

(b) a county borough council,

(c) a community council,

(d) a fire and rescue authority constituted by a scheme under section 2 of the Fire and Rescue Services Act 2004(**2**) or a scheme to which section 4 of that Act applies,

(e) a National Park authority established under section 63 of the Environment Act 1995(**3**);

"you" ("*chi*") means you as a member or co-opted member of a relevant authority; and

"your authority" ("*eich awdurdod*") means the relevant authority of which you are a member or co-opted member.

(2) In relation to a community council, references to an authority's monitoring officer and an authority's standards committee are to be read, respectively, as references to the monitoring officer and the standards committee of the county or county borough council which has functions in relation to the community council for which it is responsible under section 56(2) of the Local Government Act 2000.

---

(**1**) S.I. 1990/1553 as amended by S.I. 1991/1389; S.I. 1993/1339; S.I. 1998/1918; and S.I. 1999/500.

(**2**) 2004 c.21.

(**3**) 1995 c.25.

## PART 2

## GENERAL PROVISIONS

**2.**—(1) Save where paragraph 3(a) applies, you must observe this code of conduct —

(a) whenever you conduct the business, or are present at a meeting, of your authority;

(b) whenever you act, claim to act or give the impression you are acting in the role of member to which you were elected or appointed;

(c) whenever you act, claim to act or give the impression you are acting as a representative of your authority; or

(d) at all times and in any capacity, in respect of conduct identified in paragraphs 6(1)(a) and 7.

(2) You should read this code together with the general principles prescribed under section 49(2) of the Local Government Act 2000 in relation to Wales.

**3.** Where you are elected, appointed or nominated by your authority to serve —

(a) on another relevant authority, or any other body, which includes a police authority or Local Health Board you must, when acting for that other authority or body, comply with the code of conduct of that other authority or body; or

(b) on any other body which does not have a code relating to the conduct of its members, you must, when acting for that other body, comply with this code of conduct, except and insofar as it conflicts with any other lawful obligations to which that other body may be subject.

**4.** You must —

(a) carry out your duties and responsibilities with due regard to the principle that there should be equality of opportunity for all people, regardless of their gender, race, disability, sexual orientation, age or religion;

(b) show respect and consideration for others;

(c) not use bullying behaviour or harass any person; and

(d) not do anything which compromises, or which is likely to compromise, the impartiality of those who work for, or on behalf of, your authority.

**5.** You must not —

(a) disclose confidential information or information which should reasonably be regarded as being of a confidential nature, without the express consent of a person authorised to give such consent, or unless required by law to do so;

(b) prevent any person from gaining access to information to which that person is entitled by law.

**6.**—(1) You must —

(a) not conduct yourself in a manner which could reasonably be regarded as bringing your office or authority into disrepute;

(b) report, whether through your authority's confidential reporting procedure or direct to the proper authority, any conduct by another member or anyone who works for, or on behalf of, your authority which you reasonably believe involves or is likely to involve criminal behaviour (which for the purposes of this paragraph does not include offences or behaviour capable of punishment by way of a fixed penalty);

(c) report to the Public Services Ombudsman for Wales and to your authority's monitoring officer any conduct by another member which you reasonably believe breaches this code of conduct;

(d) not make vexatious, malicious or frivolous complaints against other members or anyone who works for, or on behalf of, your authority.

(2) You must comply with any request of your authority's monitoring officer, or the Public Services Ombudsman for Wales, in connection with an investigation conducted in accordance with their respective statutory powers.

**7.** You must not —

(a) in your official capacity or otherwise, use or attempt to use your position improperly to confer on or secure for yourself, or any other person, an advantage or create or avoid for yourself, or any other person, a disadvantage;

(b) use, or authorise others to use, the resources of your authority —

(i) imprudently;

(ii) in breach of your authority's requirements;

(iii) unlawfully;

(iv) other than in a manner which is calculated to facilitate, or to be conducive to, the discharge of the functions of the authority or of the office to which you have been elected or appointed;

(v) improperly for political purposes; or

(vi) improperly for private purposes.

**8**. You must —

(a) when participating in meetings or reaching decisions regarding the business of your authority, do so on the basis of the merits of the circumstances involved and in the public interest having regard to any relevant advice provided by your authority's officers, in particular by —

(i) the authority's head of paid service;

(ii) the authority's chief finance officer;

(iii) the authority's monitoring officer;

(iv) the authority's chief legal officer (who should be consulted when there is any doubt as to the authority's power to act, as to whether the action proposed lies within the policy framework agreed by the authority or where the legal consequences of action or failure to act by the authority might have important repercussions);

(b) give reasons for all decisions in accordance with any statutory requirements and any reasonable additional requirements imposed by your authority.

**9**. You must —

(a) observe the law and your authority's rules governing the claiming of expenses and allowances in connection with your duties as a member;

(b) avoid accepting from anyone gifts, hospitality (other than official hospitality, such as a civic reception or a working lunch duly authorised by your authority), material benefits or services for yourself or any person which might place you, or reasonably appear to place you, under an improper obligation.

## PART 3

## INTERESTS

### Personal Interests

**10**.—(1) You must in all matters consider whether you have a personal interest, and whether this code of conduct requires you to disclose that interest.

(2) You must regard yourself as having a personal interest in any business of your authority if —

(a) it relates to, or is likely to affect —

(i) any employment or business carried on by you;

(ii) any person who employs or has appointed you, any firm in which you are a partner or any company for which you are a remunerated director;

(iii) any person, other than your authority, who has made a payment to you in respect of your election or any expenses incurred by you in carrying out your duties as a member;

(iv) any corporate body which has a place of business or land in your authority's area, and in which you have a beneficial interest in a class of securities of that body that exceeds the nominal value of £25,000 or one hundredth of the total issued share capital of that body;

(v) any contract for goods, services or works made between your authority and you or a firm in which you are a partner, a company of which you are a remunerated director, or a body of the description specified in sub-paragraph (iv) above;

(vi) any land in which you have a beneficial interest and which is in the area of your authority;

(vii) any land where the landlord is your authority and the tenant is a firm in which you are a partner, a company of which you are a remunerated director, or a body of the description specified in sub-paragraph (iv) above;

(viii) any body to which you have been elected, appointed or nominated by your authority;

(ix) any —

(aa) public authority or body exercising functions of a public nature;

(bb) company, industrial and provident society, charity, or body directed to charitable purposes;

(cc) body whose principal purposes include the influence of public opinion or policy;

(dd) trade union or professional association; or

(ee) private club, society or association operating within your authority's area,

in which you have membership or hold a position of general control or management;

(x) any land in your authority's area in which you have a licence (alone or jointly with others) to occupy for 28 days or longer;

(b) a member of the public might reasonably perceive a conflict between your role in taking a decision, upon that business, on behalf of your authority as a whole and your role in representing the interests of constituents in your ward or electoral division; or

(c) a decision upon it might reasonably be regarded as affecting —

(i) your well-being or financial position, or that of a person with whom you live, or any person with whom you have a close personal association;

(ii) any employment or business carried on by persons as described in 10(2)(c)(i);

(iii) any person who employs or has appointed such persons described in 10(2)(c)(i), any firm in which they are a partner, or any company of which they are directors;

(iv) any corporate body in which persons as described in 10(2)(c)(i) have a beneficial interest in a class of securities exceeding the nominal value of £5,000; or

(v) any body listed in paragraphs 10(2)(a)(ix)(aa) to (ee) in which persons described in 10(2)(c)(i) hold a position of general control or management,

to a greater extent than the majority of—

(aa) in the case of an authority with electoral divisions or wards, other council tax payers, rate payers or inhabitants of the electoral division or ward, as the case may be, affected by the decision; or

(bb) in all other cases, other council tax payers, ratepayers or inhabitants of the authority's area.

**Disclosure of Personal Interests**

**11**.—(1) Where you have a personal interest in any business of your authority and you attend a meeting at which that business is considered, you must disclose orally to that meeting the existence and nature of that interest before or at the commencement of that consideration, or when the interest becomes apparent.

(2) Where you have a personal interest in any business of your authority and you make —

(a) written representations (whether by letter, facsimile or some other form of electronic communication) to a member or officer of your authority regarding that business, you should include details of that interest in the written communication; or

(b) oral representations (whether in person or some form of electronic communication) to a member or officer of your authority you should disclose the interest at the commencement of such representations, or when it becomes apparent to you that you have such an interest, and confirm the representation and interest in writing within 14 days of the representation.

(3) Subject to paragraph 14(1)(b) below, where you have a personal interest in any business of your authority and you have made a decision in exercising a function of an executive or board, you must in relation to that business ensure that any written statement of that decision records the existence and nature of your interest.

(4) You must, in respect of a personal interest not previously disclosed, before or immediately after the close of a meeting where the disclosure is made pursuant to sub-paragraph 11(1), give written notification to your authority in accordance with any requirements identified by your authority's monitoring officer from time to

time but, as a minimum containing —

(a) details of the personal interest;

(b) details of the business to which the personal interest relates; and

(c) your signature.

(5) Where you have agreement from your monitoring officer that the information relating to your personal interest is sensitive information, pursuant to paragraph 16(1), your obligations under this paragraph 11 to disclose such information, whether orally or in writing, are to be replaced with an obligation to disclose the existence of a personal interest and to confirm that your monitoring officer has agreed that the nature of such personal interest is sensitive information.

(6) For the purposes of sub-paragraph (4), a personal interest will only be deemed to have been previously disclosed if written notification has been provided in accordance with this code since the last date on which you were elected, appointed or nominated as a member of your authority.

(7) For the purposes of sub-paragraph (3), where no written notice is provided in accordance with that paragraph you will be deemed as not to have declared a personal interest in accordance with this code.

### Prejudicial Interests

**12.**—(1) Subject to sub-paragraph (2) below, where you have a personal interest in any business of your authority you also have a prejudicial interest in that business if the interest is one which a member of the public with knowledge of the relevant facts would reasonably regard as so significant that it is likely to prejudice your judgement of the public interest.

(2) Subject to sub-paragraph (3), you will not be regarded as having a prejudicial interest in any business where that business—

(a) relates to —

- (i) another relevant authority of which you are also a member;
- (ii) another public authority or body exercising functions of a public nature in which you hold a position of general control or management;
- (iii) a body to which you have been elected, appointed or nominated by your authority;
- (iv) your role as a school governor (where not appointed or nominated by your authority) unless it relates particularly to the school of which you are a governor;
- (v) your role as a member of a Local Health Board where you have not been appointed or nominated by your authority;

(b) relates to —

- (i) the housing functions of your authority where you hold a tenancy or lease with your authority, provided that you do not have arrears of rent with your authority of more than two months, and provided that those functions do not relate particularly to your tenancy or lease;
- (ii) the functions of your authority in respect of school meals, transport and travelling expenses, where you are a guardian, parent, grandparent or have parental responsibility (as defined in section 3 of the Children Act 1989) of a child in full time education, unless it relates particularly to the school which that child attends;
- (iii) the functions of your authority in respect of statutory sick pay under Part XI of the Social Security Contributions and Benefits Act 1992, where you are in receipt of, or are entitled to the receipt of such pay from your authority;
- (iv) the functions of your authority in respect of an allowance or payment made under sections 22(5), 24(4) and 173 to 176 of the Local Government Act 1972, an allowance or pension under section 18 of the Local Government and Housing Act 1989 or an allowance or payment under section 100 of the Local Government Act 2000;

(c) your role as a community councillor in relation to a grant, loan or other form of financial assistance made by your community council to community or voluntary organisations up to a maximum of £500.

(3) The exemptions in subparagraph (2)(a) do not apply where the business relates to the determination of any approval, consent, licence, permission or registration.

**Overview and Scrutiny Committees**

**13**. You also have a prejudicial interest in any business before an overview and scrutiny committee of your authority (or of a sub-committee of such a committee) where—

(a) that business relates to a decision made (whether implemented or not) or action taken by your authority's executive, board or another of your authority's committees, sub-committees, joint committees or joint sub-committees; and

(b) at the time the decision was made or action was taken, you were a member of the executive, board, committee, sub-committee, joint-committee or joint sub-committee mentioned in sub-paragraph (a) and you were present when that decision was made or action was taken.

**Participation in Relation to Disclosed Interests**

**14**.—(1) Subject to sub-paragraphs (2), (3) and (4), where you have a prejudicial interest in any business of your authority you must, unless you have obtained a dispensation from your authority's standards committee —

(a) withdraw from the room, chamber or place where a meeting considering the business is being held—

(i) where sub-paragraph (2) applies, immediately after the period for making representations, answering questions or giving evidence relating to the business has ended and in any event before further consideration of the business begins, whether or not the public are allowed to remain in attendance for such consideration; or

(ii) in any other case, whenever it becomes apparent that that business is being considered at that meeting;

(b) not exercise executive or board functions in relation to that business;

(c) not seek to influence a decision about that business;

(d) not make any written representations (whether by letter, facsimile or some other form of electronic communication) in relation to that business; and

(e) not make any oral representations (whether in person or some form of electronic communication) in respect of that business or immediately cease to make such oral representations when the prejudicial interest becomes apparent.

(2) Where you have a prejudicial interest in any business of your authority you may attend a meeting but only for the purpose of making representations, answering questions or giving evidence relating to the business, provided that the public are also allowed to attend the meeting for the same purpose, whether under a statutory right or otherwise.

(3) Sub-paragraph (1) does not prevent you attending and participating in a meeting if —

(a) you are required to attend a meeting of an overview or scrutiny committee, by such committee exercising its statutory powers; or

(b) you have the benefit of a dispensation provided that you —

(i) state at the meeting that you are relying on the dispensation; and

(ii) before or immediately after the close of the meeting give written notification to your authority containing —

(aa) details of the prejudicial interest;

(bb) details of the business to which the prejudicial interest relates;

(cc) details of, and the date on which, the dispensation was granted; and

(dd) your signature.

(4) Where you have a prejudicial interest and are making written or oral representations to your authority in reliance upon a dispensation, you must provide details of the dispensation within any such written or oral representation and, in the latter case, provide written notification to your authority within 14 days of making the representation.

## PART 4

### THE REGISTER OF MEMBERS' INTERESTS

### Registration of Financial and Other Interests and Memberships and Management Positions

**15.**—(1) Subject to sub-paragraph (3), you must, within 28 days of—

(a) your authority's code of conduct being adopted or the mandatory provisions of this model code being applied to your authority; or

(b) your election or appointment to office (if that is later),

register your financial interests and other interests, where they fall within a category mentioned in paragraph 10(2)(a) in your authority's register maintained under section 81(1) of the Local Government Act 2000 by providing written notification to your authority's monitoring officer.

(2) You must, within 28 days of becoming aware of any new personal interest or change to any personal interest registered under sub-paragraph (1), register that new personal interest or change by providing written notification to your authority's monitoring officer.

(3) Sub-paragraphs (1) and (2) do not apply to sensitive information determined in accordance with paragraph 16(1).

(4) Sub-paragraph (1) will not apply if you are a member of a relevant authority which is a community council when you act in your capacity as a member of such an authority.

### Sensitive information

**16.**—(1) Where you consider that the information relating to any of your personal interests is sensitive information, and your authority's monitoring officer agrees, you need not include that information when registering that interest, or, as the case may be, a change to the interest under paragraph 15.

(2) You must, within 28 days of becoming aware of any change of circumstances which means that information excluded under sub-paragraph (1) is no longer sensitive information, notify your authority's monitoring officer asking that the information be included in your authority's register of members' interests.

(3) In this code, "sensitive information" ("*gwybodaeth sensitif*") means information whose availability for inspection by the public creates, or is likely to create, a serious risk that you or a person who lives with you may be subjected to violence or intimidation.

### Registration of Gifts and Hospitality

**17.** You must, within 28 days of receiving any gift, hospitality, material benefit or advantage above a value specified in a resolution of your authority, provide written notification to your authority's monitoring officer of the existence and nature of that gift, hospitality, material benefit or advantage.

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.50**

W284/04/08 ON

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

# Y Cod Ymddygiad

ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru

## Canllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

ar gyfer aelodau cynghorau cymuned

# Rhagair

Mae'r canllawiau diwygiedig hyn a ddarparwyd gennyf fi, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn rhoi trosolwg ar y Cod Ymddygiad Enghreifftiol ("y Cod") a gyflwynwyd yn 2008 (fel y'i diwygiwyd 1 Ebrill 2016). Eu bwriad yw'ch helpu chi fel aelod i ddeall eich rhwymedigaethau o dan y Cod. Mae'r Cod yn gymwys i holl aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parc cenedlaethol yng Nghymru. Fel aelod, mae'n ofynnol i chi ymrwymo iddo wrth ddatgan eich bod yn derbyn eich swydd. Nid yw'r Cod yn gymwys i weithredoedd awdurdodau yn eu cyfanrwydd, nac i ymddygiad eu swyddogion na'u cyflogeion. Mae cod ymddygiad ar wahân ar gyfer swyddogion awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae hon yn fersiwn ar wahân o'm hail ganllawiau fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer cynghorwyr tref a chymuned (a elwir drwy gydol y canllawiau hyn yn gynghorwyr cymuned). Mae sawl rhan o'r canllawiau hyn yn wahanol i'm canllawiau i gynghorwyr sir gan eu bod yn cydnabod y rôl wahanol y mae cynghorwyr cymuned yn ei chyflawni.

Fy amcan yn y tudalennau sy'n dilyn yw eich helpu i ddeall y Cod a'i ofynion yn gyffredinol. Mae Rhan 1 yn cynnwys cyflwyniad ac mae Rhan 2 yn amlinellu'ch dyletswyddau o dan y Cod, gan gyfeirio at baragraffau penodol lle ceir rhagor o wybodaeth. Mae Rhannau 3 a 4 yn delio â materion cyffredinol sy'n ymwneud â buddiannau, a'u nod yw egluro nifer o ddarpariaethau sydd yn Rhannau 3 a 4 o'r Cod. Gallwch gael copi o'r Cod drwy ofyn i'ch Clerc.

Bwriad y canllawiau hyn yw eich helpu i ddeall y Cod a sut i'w gymhwyso, ond ni ellir rhoi sylw i bob sefyllfa bosibl. Yn y pen draw, chi sy'n gyfrifol am gymryd cyngor penodol gan eich Clerc neu Swyddog Monitro a phenderfynu ar y cwrs gweithredu mwyaf priodol.

Rwyf wedi defnyddio enghreifftiau drwy gydol yr adroddiad i ddangos sut y mae'r canllawiau'n gweithio. Mae'r enghreifftiau hyn yn achosion gwirioneddol sydd wedi'u hystyried gan fy swyddfa, ac maent hefyd yn cynnwys penderfyniadau a wnaed gan bwyllgorau safonau lleol a Phanel Dyfarnu Cymru. Mae'n bosibl mai fy rhagflaenydd sydd wedi gwneud rhai o'r penderfyniadau hyn, ond er hwylustod, byddaf yn cyfeirio atynt drwy gydol y ddogfen fel fy mhenderfyniadau fy hun. Cyhoeddir rhagor o enghreifftiau o achosion diweddar bob chwarter yn "Coflyfr y Cod Ymddygiad" sydd ar fy ngwefan yn www.ombwdsmon-cymru.org.uk

Fel aelod, cynigir hyfforddiant i chi ar y Cod, gan eich Clerc, gan Swyddog Monitro neu gan gorff cynrychiadol. Rwy'n disgwyl i bob aelod fanteisio ar hyfforddiant o'r fath, gan gynnwys cyrsiau diweddaru, i sicrhau ei fod yn gwbl ymwybodol o'r darpariaethau yn y Cod a'r safonau y disgwylir iddynt eu harddel mewn bywyd cyhoeddus. Rwyf yn annog aelodau i ddefnyddio unrhyw drefniadau lleol sydd ar waith i ddelio â chwynion am eu cyd-aelodau.

Rwyf yn bryderus o hyd ynghylch nifer y cwynion lefel isel sy'n dod i law. Er ei bod yn ymddangos bod y cwynion hyn yn deillio o nifer bach o aelodau, yn y cyfnod anodd hwn o gyni cyhoeddus, mae'n bwysicach fyth ein bod yn defnyddio adnoddau fy swyddfa yn

effeithiol a bod unrhyw ymchwiliad a wneir yn gymesur ac yn angenrheidiol er budd y cyhoedd yn gyffredinol.

Dylem barhau i gydweithio i godi safonau a chreu diwylliant lle caiff aelodau eu parchu am fod yn anhunanol, yn wrthrychol ac yn barchus eu hymddygiad.  Os gwnawn ni hynny, gallwn feithrin ymddiriedaeth y cyhoedd yn ein sefydliadau democrataidd a hyrwyddo llywodraethu da er budd pobl ein holl gymunedau.



Nick Bennett

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Gorffenaf 2016

Dyroddwyd y canllawiau statudol hyn gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o dan Adran 68 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ar gyfer aelodau etholedig, aelodau cyfetholedig ac aelodau a benodir ar gynghorau tref a chymuned yng Nghymru.

Mae canllawiau ar wahân ar gael i aelodau sydd wedi'u ethol, eu cyfethol a'u penodi i gynghorau sir, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parc cenedlaethol yng Nghymru.

**Cydnabyddiaeth**

Mae'r canllawiau hyn yn gwneud defnydd o'r canllawiau a gafodd eu paratoi a'u dyroddi gan Standards for England ar y Cod Ymddygiad blaenorol ar gyfer Lloegr. Maent wedi cael eu helaethu a'u diwygio i gyfeirio at God Cymru a'r cyd-destun Cymreig.

Hoffwn ddiolch i adran gwasanaethau cyfreithiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am gael defnyddio ei siartiau llif ar fuddiannau.  Cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf ym mis Ebrill 2010.  Cyhoeddwyd yr argraffiad hwn Gorffenaf 2016.

# Cynnwys

| | Tudalen |
|---|---|
| **Rhan 1 – Cyflwyniad** | 6 |
| Yr Egwyddorion | 11 |
| Penderfynu pryd mae'r | 12 |
| Cod yn gymwys i chi | 12 |
| **Rhan 2 – Rhwymedigaethau cyffredinol o dan y Cod** | 14 |
| • Cydraddoldeb | 14 |
| • Trin pobl eraill gyda pharch ac ystyriaeth | 15 |
| • Bwlio ac aflonyddu | 17 |
| • Peryglu didueddrwydd swyddogion yr awdurdod | 18 |
| • Datgelu gwybodaeth gyfrinachol | 19 |
| • Atal mynediad at wybodaeth | 20 |
| • Anfri | 21 |
| • Rhoi gwybod am dorri gofynion y Cod | 22 |
| • Cwynion blinderus | 22 |
| • Cydweithredu ag ymchwiliadau | 23 |
| • Camfanteisio ar eich swydd | 24 |
| • Adnoddau'r awdurdod | 25 |
| • Defnyddio adnoddau at ddibenion priodol yn unig | 25 |
| • Gwneud penderfyniadau'n wrthrychol | 26 |
| • Ystyried cyngor a roddir i chi a rhoi rhesymau | 27 |
| • Treuliau | 27 |
| • Rhoddion a lletygarwch | 27 |
| **Rhan 3 – Buddiannau personol a rhagfarnus** | 28 |
| • Buddiannau Personol | 28 |
| • Beth i'w wneud os oes gennych fuddiant personol | 32 |
| • Buddiannau Rhagfarnus | 32 |
| • Beth i'w wneud os oes gennych fuddiant rhagfarnus | 33 |
| • Goddefebau | 35 |
| **Rhan 4 – Cofrestru Buddiannau** | 36 |
| • Rhoddion a lletygarwch | 36 |
| **Atodiad – Siart Llif Buddiannau** | 38 |

## 1. Cyflwyniad

Crëwyd fframwaith moesegol newydd i lywodraeth leol yng Nghymru drwy Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Creodd bŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddyroddi cod ymddygiad enghreifftiol a fyddai'n gymwys i aelodau ac aelodau cyfetholedig yr holl awdurdodau perthnasol yng Nghymru. Trosglwyddwyd y pŵer hwn i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn 2008, dyroddwyd y Cod Ymddygiad Enghreifftiol presennol (fel y'i diwygiwyd 1 Ebrill 2016) gan Weinidogion Cymru ac mae'n ofynnol i bob awdurdod perthnasol ei fabwysiadu.

Fe'i gwnaed yn ofynnol i awdurdodau fabwysiadu'r Cod enghreifftiol yn gyfan, ond gallent wneud ychwanegiadau i'r Cod, ar yr amod bod y rhain yn gyson â'r Cod enghreifftiol. Y bwriad wrth wneud hyn oedd rhoi sicrwydd i aelodau a'r cyhoedd o ran pa safonau a ddisgwylir. Mae'n helpu i sicrhau cysondeb rhwng awdurdodau perthnasol, gan osgoi dryswch i aelodau sydd ar fwy nag un awdurdod ac i'r cyhoedd.

Mae'n ofynnol bod pwyllgorau safonau'r prif gynghorau'n helpu aelodau ac aelodau cyfetholedig o gynghorau tref a chymuned yn eu hardal i gydymffurfio â'r Cod, ac yn trefnu i ddarparu cyngor a hyfforddiant. Rwyf yn argymell yn gryf fod pob aelod yn dilyn hyfforddiant ac yn cymryd cyngor pan gaiff ei gynnig.

Er nad yw cynghorwyr cymuned yn gweithredu ar gyrff sy'n gwneud penderfyniadau fel pwyllgorau cynllunio, bydd gofyn i chi wneud penderfyniadau ar ddyrannu arian o'ch praesept a chynnig arweiniad, drwy ddefnyddio'ch gwybodaeth leol werthfawr, i'r Cyngor Sir am effaith ceisiadau cynllunio. Felly mae'n hanfodol eich bod yn gwbl ymwybodol o'r Cod a'i oblygiadau i'ch penderfyniadau ac a ddylech chi fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniad ai peidio. Gan ystyried hyn, rwyf yn argymell bod pob cynghorydd yn cael hyfforddiant ar y Cod cyn gynted â phosibl ar ôl dechrau yn ei swydd.

Fel aelod, wrth lofnodi'r datganiad i dderbyn eich swydd, byddwch yn cadarnhau'ch ymrwymiad i gydymffurfio â'r Cod. Eich cyfrifoldeb personol chi yw sicrhau'ch bod yn deall eich rhwymedigaethau o dan y Cod ac yn gweithredu mewn ffordd sy'n dangos eich bod wedi ymrwymo i gyrraedd y safonau ymddygiad uchel a ddisgwylir gennych fel aelod. Chi sy'n gyfrifol yn y pen draw, fel aelod, am y penderfyniadau a wnewch a gellir eich dal yn atebol amdanynt. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y gallwch wneud penderfyniadau sy'n torri'r Cod neu'n mynd yn groes i gyngor dim ond am mai chi sy'n gyfrifol am y penderfyniad. Mae'r canllawiau hyn yn egluro'r cyfyngiadau y disgwylir i chi weithredu o danynt er mwyn sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd yn gallu ymddiried yn y ffordd y mae awdurdodau yng Nghymru'n gwneud eu penderfyniadau.

Fy rôl i fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw ymchwilio i gwynion bod aelodau o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi torri'r Cod. Wrth benderfynu a fyddaf yn ymchwilio i gŵyn neu a fyddaf yn parhau i ymchwilio i doriad ar ofynion y Cod, byddaf yn defnyddio prawf dau gam. Yn y cam cyntaf, byddaf yn ceisio darganfod a oes tystiolaeth uniongyrchol bod y Cod wedi'i dorri. Lefel y prawf sydd ei angen yw 'yn ôl pwysau tebygolrwydd'.

Os bodlonir y prawf am dystiolaeth, yn yr ail gam byddaf yn ystyried a oes angen ymchwilio neu gyfeirio'r gŵyn at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru er budd y cyhoedd. Mae rhai o'r ffactorau budd cyhoeddus y byddaf yn eu hystyried wedi'u dangos isod. Nid yw'r rhestr o'r ffactorau hyn yn gyflawn a bydd y pwys a roddir ar bob un ohonynt yn amrywio yn ôl y ffeithiau a'r rhinweddau ym mhob achos.

Mae'r ffactorau budd cyhoeddus yn cynnwys:

- difrifoldeb y toriad
- a oedd yr aelod wedi ceisio cael elw personol yn fwriadol iddo'i hun neu i berson arall ar draul y cyhoedd
- a yw amgylchiadau'r toriad yn golygu bod yr aelod wedi camfanteisio ar safle o ymddiriedaeth neu awdurdod ac wedi achosi niwed i berson
- a oedd y toriad wedi'i ysgogi gan unrhyw fath o wahaniaethu yn erbyn cefndir ethnig neu genedlaethol y dioddefwr, neu ei rywedd, anabledd, oed, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth ryweddol
- a oes tystiolaeth o ymddygiad tebyg blaenorol ar ran yr aelod
- a oes angen ymchwilio neu gyfeirio'r gŵyn at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru er mwyn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd mewn aelodau etholedig yng Nghymru
- a yw ymchwilio neu gyfeirio at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn ymateb cymesur, hynny yw, a yw'n debygol y byddai'r toriad yn arwain at osod sancsiwn ar yr aelod (byddaf yn ystyried y canlyniadau i achosion blaenorol a ystyriwyd gan bwyllgorau safonau ledled Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru), ac a fyddai'r defnydd o adnoddau wrth gynnal ymchwiliad neu wrandawiad gan bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn cael ei ystyried yn ormodol o'i gymharu ag unrhyw sancsiwn tebygol.

Mae gennyf ddisgresiwn sylweddol o ran a fyddaf yn cychwyn neu'n parhau ag ymchwiliad. Rwyf wedi diwygio'r prawf dau gam a fabwysiadwyd gan fy rhagflaenydd er mwyn dangos yn gliriach sut y byddaf yn arfer fy nisgresiwn fel arfer ac er mwyn sicrhau elfen o gysondeb a sicrwydd yn y penderfyniadau rwyf yn eu gwneud.

Mae crynodeb o'r broses y byddaf yn ei dilyn i ymchwilio i gwynion ar fy ngwefan yn

www.ombwdsmon-cymru.org.uk

Lle'r oedd hynny'n bosibl, rwyf wedi defnyddio enghreifftiau yn y canllawiau hyn o achosion a gyfeiriwyd ataf ac sy'n berthnasol i gynghorau cymuned. Os nad oedd hyn yn bosibl rwyf wedi rhoi enghreifftiau o sefyllfaoedd posibl sy'n dangos sut y gellid torri gofynion y Cod wrth gyflawni'ch rôl.

**Proses Ddatrys Leol**

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru wedi rhoi gweithdrefnau datrys lleol ar waith i ddelio â chwynion lefel isel sydd wedi'u gwneud gan aelod yn erbyn cyd-aelod. Mae'r trefniadau hyn yn profi'n effeithiol wrth ddatrys nifer o gwynion o'r math hwn. Rwyf o blaid ymestyn y trefniadau hyn i gynnwys cynghorau cymuned. Fel arfer, mae'r cwynion hyn yn ymwneud â honiadau o fethu â dangos parch ac ystyriaeth at eraill yn unol â pharagraff 4(b) o'r Cod neu'r ddyletswydd i beidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu ddibwys yn erbyn aelodau eraill o dan baragraff 6(1)(ch) o'r Cod. Er bod modd o hyd i aelod ddod â chŵyn ataf yn uniongyrchol am gyd-aelod, os yw'r gŵyn yn ymwneud â mater sy'n dod o dan baragraffau 4(b) a 6(1)(ch), mae'n debygol iawn y byddaf yn cyfeirio'r mater hwn yn ôl at Swyddog Monitro'r Cyngor i'w ystyried o dan y broses hon. Yn fy marn i, mae'n fwy priodol bod cwynion o'r fath yn cael eu datrys yn anffurfiol yn lleol er mwyn cyflymu'r broses gwyno a sicrhau bod fy adnoddau'n cael eu rhoi at ymchwil i gwynion difrifol.

Nod y broses ddatrys leol yw datrys materion yn gynnar fel na fydd y sefyllfa'n gwaethygu'n ddiangen gan wneud drwg, o bosibl, i gysylltiadau personol o fewn yr awdurdod ac i enw da'r awdurdod. Gall y broses arwain at ymddiheuriad gan yr aelod y gwnaed y gŵyn amdano. Fodd bynnag, os bydd aelod wedi torri protocol lleol ei awdurdod dro ar ôl tro, yna byddwn yn disgwyl i'r Swyddog Monitro gyfeirio'r mater yn ôl ataf i. Os gwelaf fod patrwm yn codi o gyflwyno cwynion tebyg i mi gan yr un aelodau, byddaf yn ei ystyried yn fater difrifol ac yn penderfynu a yw cyflwyno cwynion o'r fath yn ddi-baid yn ymddygiad y dylid ymchwilio iddo ar ei ben ei hun am ei fod o bosibl yn torri'r Cod.

Pan fyddaf wedi ymchwilio i gŵyn, efallai y byddaf yn cyfeirio'r achos at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru i wneud penderfyniad. Bydd hyn yn dibynnu ar natur ac amgylchiadau unigol yr achos honedig o dorri'r Cod. Wrth gyhoeddi fy adroddiad byddaf yn pwyso a mesur ac yn dadansoddi'r dystiolaeth sydd wedi'i chasglu, ac yn llunio fy nghasgliadau ynghylch a oes awgrym bod y Cod wedi cael ei dorri. Serch hynny, y pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn unig sydd â'r awdurdod i wneud penderfyniad.

**Pwyllgorau Safonau**

Mae pwyllgorau safonau'n cynnwys aelodau lleyg annibynnol ac aelodau etholedig yr awdurdod. Pan fyddaf yn cyfeirio achos at bwyllgor safonau, ei rôl yw penderfynu a yw aelod wedi torri'r Cod ac a ddylid gosod sancsiwn. Yn fy marn i, dylid cynnal gwrandawiadau'n gyhoeddus oni bai fod rhesymau dilys dros beidio â gwneud hynny er mwyn hyrwyddo hyder y cyhoedd yn safonau bywyd cyhoeddus. Os bydd pwyllgor safonau yn dod i'r casgliad bod aelod neu aelod cyfetholedig wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol, gall benderfynu:

- nad oes angen cymryd camau mewn perthynas â'r methiant hwnnw
- y dylid ceryddu'r aelod neu aelod cyfetholedig drwy roi cerydd cyhoeddus, neu

- y dylid atal yr aelod neu aelod cyfetholedig, neu ei atal yn rhannol, rhag bod yn aelod o'r awdurdod hwnnw am gyfnod nad yw'n fwy na chwe mis neu, os yw'n fyrrach, gweddill cyfnod yr aelod yn ei swydd.

Gall aelod ofyn am ganiatâd gan Lywydd Panel Dyfarnu Cymru i apelio iddo yn erbyn penderfyniad gan bwyllgor safonau.

**Panel Dyfarnu Cymru**

Pan fyddaf yn cyfeirio achos at Banel Dyfarnu Cymru, ei rôl ef hefyd yw penderfynu a yw aelod wedi torri'r Cod ac a ddylid gosod sancsiwn. Yn ogystal â hyn, bydd yn ystyried unrhyw apelau, os cafwyd caniatâd i'w cyflwyno, yn erbyn penderfyniad gan bwyllgor safonau. Y pwerau sydd ar gael i'r Panel wrth benderfynu bod aelod neu aelod cyfetholedig wedi methu â chydymffurfio â'r Cod yw:

- anghymhwyso'r ymatebydd rhag bod, neu rhag dod, yn aelod o'r awdurdod perthnasol cysylltiedig neu o unrhyw awdurdod perthnasol arall am gyfnod o hyd at bum mlynedd
- atal yr ymatebydd, neu ei atal yn rhannol, rhag bod yn aelod neu aelod cyfetholedig o'r awdurdod perthnasol cysylltiedig am hyd at 12 mis, neu
- beidio â chymryd camau mewn perthynas â thorri'r Cod. Mewn achosion o'r fath, gall y Panel dybio ei bod yn briodol rhybuddio'r aelod o ran ei ymddygiad yn y dyfodol. Os cofnodwyd rhybudd o'r fath, mae'n debygol o gael ei ystyried yn ystod unrhyw wrandawiad yn y dyfodol lle cafwyd eto fod yr aelod wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau'r Cod.

Lle mae pwyllgor safonau neu'r Panel wedi atal aelod neu aelod cyfetholedig, neu ei atal yn rhannol, bydd yn ofynnol o hyd fod yr aelod hwnnw'n cydymffurfio â'r Cod, yn enwedig y darpariaethau sydd ym mharagraff 6(1)(a) (dwyn anfri ar swydd aelod neu awdurdod) a pharagraff 7 (defnyddio safle aelod yn amhriodol).

**Rôl y Clerc**

Mae'r Clerc yn cael ei gyflogi gan eich Cyngor ac mae'n cyflawni nifer o dasgau gan gynnwys darparu cymorth gweinyddol i'r Cyngor, cynghori ar ddatblygu polisïau a gweithdrefnau ynghyd â chynghori'r Cyngor ar weithredu a defnyddio ei weithdrefnau. Darparu cymorth yw rôl y Clerc ac ato ef y dylech droi yn y lle cyntaf os bydd angen cyngor arnoch chi.

Mae rôl y Clerc yn gymhleth a bydd yn gallu cynghori cynghorwyr ar ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â'r Cod a rheolau sefydlog y Cyngor. Bydd y Clerc yn cydweithio'n agos â'r Cadeirydd i sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn mewn cyfarfodydd a bod yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gael i gynghorwyr er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Gall Clercod ofyn am gyngor gan Swyddog Monitro y cyngor sir perthnasol (gweler isod).

Mae'r Clerc yn cael ei gyflogi gan y Cyngor, ac nid yw'n ofynnol iddo ddilyn y Cod. Mae

unrhyw faterion sy'n ymwneud â pherfformiad y Clerc yn faterion personél, a dylid dilyn gweithdrefnau cyflogaeth priodol i ddelio â'r materion hynny.  Ni all yr Ombwdsmon ystyried cwynion sy'n ymwneud â pherfformiad y Clerc; mae hyn yn fater i'r Cyngor fel cyflogwr y Clerc.

**Rôl y Swyddog Monitro**

Mae'r Swyddog Monitro yn cael ei gyflogi gan y Cyngor Sir.  Ymhlith nifer o bethau eraill, bydd yn cynghori ac yn helpu cynghorwyr sir.  Gall Swyddogion Monitro gynnig rhywfaint o hyfforddiant i gynghorau cymuned.

Mae'r Swyddog Monitro yn cyflawni rôl bwysig yn y broses ddatrys leol a amlinellwyd uchod, a bydd hefyd yn cydweithio'n agos drwy gynghori'r Pwyllgor Safonau.  Dylech bob tro ofyn i'ch Clerc yn gyntaf am unrhyw arweiniad neu wybodaeth.  Mae'n bosibl y bydd y Swyddog Monitro yn gallu darparu gwybodaeth i chi os na fydd y Clerc ar gael.

## Yr Egwyddorion

Mae Deddf Llywodraeth Leol wedi rhoi pŵer i'r Cynulliad Cenedlaethol i ddyroddi egwyddorion y mae'n rhaid i chi roi sylw iddynt wrth ymgymryd â'ch rôl fel aelod.  Mae'r Cod wedi'i seilio ar yr egwyddorion hyn sy'n ceisio hyrwyddo'r safonau uchaf posibl.  Mae'r egwyddorion hyn yn deillio o 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a amlinellwyd yn Adroddiad Nolan "Standards of Conduct in Local Government in England, Scotland and Wales". Ychwanegwyd tair egwyddor bellach at y rhain: dyletswydd i gynnal y gyfraith, stiwardiaeth briodol dros adnoddau'r Cyngor a chydraddoldeb a pharch at eraill.

Mae aelodau a etholir i awdurdodau lleol yn rhoi'n hael o'u hamser a'u hymroddiad er budd eu cymunedau.  Mae'r egwyddorion yn gosod fframwaith ar gyfer sianelu'ch ymroddiad mewn ffordd a fydd yn adlewyrchu'n dda arnoch chi a'ch awdurdod, ac a fydd yn rhoi hyder i'ch cymunedau yn y ffordd y mae'r awdurdod yn cael ei reoli.

Pwrpas y gwahanol Adrannau o'r Cod yw'ch helpu i roi'r Egwyddorion ar waith.  Er enghraifft, mae egwyddor Anhunanoldeb yn cael ei thrafod yn Adran 7 o'r Cod – Anhunanoldeb a Stiwardiaeth.  Mae'r egwyddorion presennol wedi'u nodi mewn offeryn statudol*  ac maent wedi'u disgrifio isod.

### 1. Anhunanoldeb

Rhaid i aelodau weithredu'n llwyr er lles y cyhoedd.  Rhaid iddynt beidio byth â defnyddio eu safle fel aelodau'n amhriodol i roi mantais, neu osgoi anfantais, iddyn nhw eu hunain, neu i roi mantais neu anfantais yn amhriodol i eraill.

### 2. Gonestrwydd

Rhaid i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro mewn ffordd sy'n diogelu budd y cyhoedd.

[1] Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 SI 2001 Rhif 2276 (W.166)

**3. Uniondeb a Gwedduster**

Rhaid i aelodau beidio â'u rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle mae amheuaeth yn codi ynghylch eu huniondeb oherwydd unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau a all geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau. Rhaid i aelodau bob amser osgoi ymddygiad sy'n ymddangos felly.

**4. Dyletswydd i Gynnal y Gyfraith**

Rhaid i aelodau weithredu i gynnal y gyfraith a gweithredu bob amser yn unol â'r ymddiriedaeth y mae'r cyhoedd wedi'i rhoi iddynt.

**5. Stiwardiaeth**

Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, rhaid i aelodau sicrhau bod adnoddau eu hawdurdod yn cael eu defnyddio'n gyfreithlon a darbodus.

**6. Penderfynu'n Wrthrychol**

Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys penodi i swyddi, dyfarnu contractau, neu argymell bod unigolion yn cael gwobrau neu fuddion, rhaid i aelodau benderfynu ar sail teilyngdod. Er bod rhaid i aelodau roi sylw i gyngor proffesiynol gan swyddogion ac er ei bod yn briodol iddynt ystyried barn pobl eraill, gan gynnwys eu grwpiau gwleidyddol, eu cyfrifoldeb nhw yw penderfynu ar eu safbwynt ac, os yw'n briodol, sut y byddant yn pleidleisio ar fater penodol.

**7. Cydraddoldeb a Pharch**

Rhaid i aelodau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gan roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb, beth bynnag fo'u rhywedd, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oed neu grefydd, a dangos parch ac ystyriaeth tuag at bobl eraill.

**8. Bod yn Agored**

Rhaid i aelodau fod mor agored â phosibl ynghylch eu holl weithredoedd a gweithredoedd eu hawdurdod. Rhaid iddynt geisio sicrhau mai'r unig gyfyngu ar ddatgelu gwybodaeth fydd hynny sy'n unol â'r gyfraith.

**9. Atebolrwydd**

Mae aelodau'n atebol i'r etholwyr ac i'r cyhoedd yn gyffredinol am eu gweithredoedd ac am y ffordd y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel aelod. Rhaid iddynt fod yn barod i dderbyn unrhyw graffu ar eu gweithredoedd sy'n briodol.

**10. Arweinyddiaeth**

Rhaid i aelodau hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy arwain a gosod esiampl er mwyn hybu ymddiriedaeth y cyhoedd yn eu rôl ac yn yr awdurdod. Rhaid iddynt barchu didueddrwydd ac uniondeb swyddogion statudol yr awdurdod a'i gyflogeion eraill.

Nid yw'r egwyddorion yn rhan o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol, felly nid yw methu â chydymffurfio â'r Egwyddorion yn gyfystyr â thorri'r Cod. Er hynny, mae'n debygol y byddai

methu â chydymffurfio ag egwyddor ynghylch cydraddoldeb a pharch, er enghraifft, yn golygu bod gofynion paragraffau 4(a) a 4(b) o'r Cod wedi'u torri mewn perthynas â chyfle cyfartal a pharch.

Fodd bynnag, mae'r Egwyddorion yn cynnig sylfaen gadarn i'ch ymddygiad yn eich swydd ac rwyf yn annog aelodau i roi sylw **iddynt bob amser.**

**Ystyriwch eich ymddygiad yn eich bywyd cyhoeddus a phreifat**

**Penderfynu pa bryd y bydd y Cod yn gymwys i chi**

**Gweler paragraffau 2 a 3**

Mae gan aelodau hawl i breifatrwydd yn eu bywyd personol, ac mae nifer o'r darpariaethau yn y Cod yn gymwys i chi dim ond pan fyddwch yn cyflawni'ch rôl fel aelod neu'n cynrychioli'ch awdurdod.  Fodd bynnag, gan fod amgylchiadau lle byddai'ch ymddygiad yn eich bywyd preifat yn gallu effeithio ar uniondeb ac enw da'ch awdurdod, mae rhai darpariaethau yn y Cod a fydd yn gymwys i chi bob amser.

Wrth benderfynu a yw'r Cod yn gymwys i chi ar adeg benodol, byddaf yn rhoi sylw i'r amgylchiadau penodol ac i natur eich ymddygiad ar y pryd.

Cyn ystyried eich rhwymedigaethau o dan y Cod, dylech ystyried yn gyntaf a yw'r Cod yn gymwys ac, os yw'n gymwys, pa ddarpariaethau ynddo.

**Pryd fydd y Cod yn gymwys?**

- **Pryd bynnag rydych yn gweithredu yn rhinwedd eich swydd**, gan gynnwys pryd bynnag rydych yn cyflawni busnes eich awdurdod neu'n gweithredu, yn honni gweithredu, neu'n rhoi'r argraff o weithredu yn rhinwedd eich swydd fel aelod neu gynrychiolydd i'ch awdurdod
- **Bob amser**, os ydych yn ymddwyn mewn modd y gellid ystyried yn rhesymol ei fod yn dwyn **anfri** ar eich swydd neu'ch awdurdod neu os ydych yn defnyddio neu'n **ceisio defnyddio'ch safle i gael mantais neu osgoi anfantais** i chi'ch hun neu i unrhyw berson arall neu os ydych yn **camddefnyddio adnoddau'ch awdurdod**.

Os ydych yn gweithredu fel cynrychiolydd i'ch Cyngor ar awdurdod perthnasol arall, neu unrhyw gorff arall, rhaid i chi gydymffurfio, wrth weithredu ar ran yr awdurdod arall hwnnw, â chod ymddygiad yr awdurdod hwnnw.  Os yw'ch Cyngor wedi'ch enwebu'n ymddiriedolwr i elusen, wrth weithredu yn y swydd honno rhaid i chi wneud hynny er budd pennaf yr elusen honno, yn unol â chyfraith elusennau a'r canllawiau sydd wedi'u gosod gan y Comisiwn Elusennau (gweler ei wefan: www.charity-commission.gov.uk).

Os ydych yn gweithredu fel cynrychiolydd i'ch Cyngor ar gorff arall, er enghraifft ar bwyllgor sy'n cynnal digwyddiad penodol, sydd heb god ymddygiad sy'n ymwneud â'i aelodau, rhaid i chi gydymffurfio â Chod eich Cyngor eich hun oni bai ei fod yn gwrthdaro ag unrhyw ofynion

cyfreithiol y mae'r corff arall yn gorfod cydymffurfio â nhw.

Os byddwch yn cyfeirio atoch chi'ch hun fel cynghorydd, bydd y Cod yn gymwys i chi. Mae hyn yn gymwys i sgyrsiau, ysgrifennu, neu'ch defnydd o gyfryngau electronig. Mae nifer y cwynion yr wyf wedi'u cael ynghylch y defnydd o Facebook, blogiau a Twitter wedi cynyddu'n sylweddol. Os byddwch yn cyfeirio at eich rôl fel cynghorydd mewn unrhyw ffordd neu os yw'n glir bod eich sylwadau'n ymwneud â'ch rôl, yna bydd y Cod yn gymwys i'r sylwadau hynny. Hyd yn oed os na fyddwch yn cyfeirio at eich rôl fel cynghorydd, fe allai'ch sylwadau gael yr effaith o ddwyn anfri ar eich swydd neu awdurdod ac felly gallent dorri'r gofynion ym mharagraff 6(1)(a) o'r Cod.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi llunio canllawiau defnyddiol ar gyfryngau cymdeithasol o'r enw "Cyfryngau Cymdeithasol: Canllaw i Gynghorwyr". Mae'r canllawiau'n ceisio rhoi syniad cliriach i chi ynghylch sut y gallwch ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, y peryglon posibl a sut i'w hosgoi. Maent ar gael ar ei gwefan yn www.wlga.gov.uk neu drwy ffonio 029 2046 8600.

Os cewch eich atal o'ch swydd am unrhyw reswm, rhaid i chi barhau i gydymffurfio â'r elfennau hynny yn y Cod sy'n gymwys i chi, yn enwedig y rheini sydd ym mharagraff 2(1)(ch), tra byddwch wedi'ch atal.

**Enghraifft**

Gwnaeth Cynghorydd A sylwadau am Gynghorydd B mewn cyfarfod o bwyllgor a oedd yn trefnu parêd ar lan y môr. Roedd y parêd yn cael ei drefnu gan grŵp o wirfoddolwyr a oedd wedi gofyn i'r Cyngor Cymuned ddarparu cynrychiolwyr i'w helpu i fod yn ymwybodol o faterion cymunedol wrth drefnu'r digwyddiad. Roeddwn wedi fy modloni bod Cynghorydd A yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd yng nghyfarfod y Pwyllgor, gan mai cynrychioli'r Cyngor oedd ei rôl ar y Pwyllgor ac ni fyddai wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod oni bai am y ffaith honno. Fodd bynnag, yn yr achos hwn roeddwn wedi fy modloni nad oedd y sylwadau a wnaed gan Gynghorydd A yn ddigon difrifol i olygu, petaent yn cael eu profi, y byddent yn arwain at osod sancsiwn gan bwyllgor safonau ar yr aelod a gyhuddwyd. Felly nid oeddwn wedi ymchwilio i'r gŵyn hon.

**Enghraifft**

Yn groes i hynny, cafwyd cwyn bod Cynghorydd J wedi meddwi ac wedi ymddwyn yn amhriodol mewn parti stryd. Cadarnhawyd nad oedd yn rhaid i Gynghorydd J weithredu ar ran y Cyngor yn y parti. Felly, yn fy marn i, roedd hi yn y parti fel aelod o'r cyhoedd a chan nad oedd wedi dibynnu ar ei statws fel cynghorydd mewn unrhyw ffordd, nid oedd y Cod yn gymwys (ac eithrio paragraff 6(1)(a)). Er y gallai rhai fod o'r farn bod ei hymddygiad yn amhriodol, nid oedd yn berthnasol i'w rôl fel cynghorydd ac yn fy marn i nid oedd yn dwyn anfri ar y Cyngor felly nid oedd paragraff 6(1)(a) yn gymwys. Nid oeddwn wedi ymchwilio i'r gŵyn hon.

## 2. Rhwymedigaethau cyffredinol o dan y Cod Ymddygiad

Os byddwch yn meddwl bod y Cod yn gymwys i chi ar adeg benodol, yna rhaid i chi ystyried pa ddarpariaethau a all fod yn gymwys a'ch rhwymedigaethau o dan y Cod. Rwyf wedi cyfeirio at bob un o baragraffau'r Cod isod er mwyn rhoi arweiniad i chi ar eich rhwymedigaethau cyffredinol.

### Cydraddoldeb
### Gweler paragraff 4(a)

Rhaid i chi gyflawni'ch dyletswyddau gan roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylid cael cyfle cyfartal i bawb beth bynnag fo'u rhywedd, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oed neu grefydd. Dylech geisio osgoi gwahaniaethu bob amser. Mae pedwar prif fath o wahaniaethu:

- Gwahaniaethu uniongyrchol: trin pobl yn wahanol oherwydd eu rhywedd, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oed neu grefydd
- Gwahaniaethu anuniongyrchol: triniaeth nad yw'n ymddangos ei bod yn gwahaniaethu rhwng pobl oherwydd eu rhywedd, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oed neu grefydd, ond sy'n eu rhoi o dan anfantais anghymesur
- Aflonyddu: ymddwyn mewn ffordd nas dymunir ar sail rhywedd, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oed neu grefydd, sy'n amharu ar urddas rhywun arall neu'n creu amgylchedd gelyniaethus, diraddiol, sarhaus neu fychanol
- Erledigaeth: trin rhywun yn llai ffafriol am ei fod wedi cwyno am wahaniaethu, wedi dod ag achos ar sail gwahaniaethu, neu wedi bod yn gysylltiedig â chwyno neu ddwyn achos am wahaniaethu.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (fel y'i diwygiwyd) yn cadarnhau pwysigrwydd y rhan hon o'r Cod. Mae'n gosod dyletswyddau cadarnhaol i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu ac i hyrwyddo cydraddoldeb. O dan gyfreithiau cydraddoldeb, gall eich Cyngor fod yn atebol am unrhyw weithredu gwahaniaethol rydych yn ei gyflawni. Bydd hyn yn gymwys os byddwch yn gwneud rhywbeth yn rhinwedd eich swydd mewn modd gwahaniaethol. Rhaid i chi fod yn ofalus i beidio â gweithredu mewn ffordd a all fod yn gyfystyr ag unrhyw un o'r mathau o wahaniaethu a waharddwyd, neu wneud rhywbeth sy'n atal eich Cyngor rhag cyflawni ei ddyletswyddau cadarnhaol o dan gyfreithiau cydraddoldeb. Gall ymddygiad o'r fath beri i'ch Cyngor dorri'r gyfraith, a gallech fod yn destun cwyn am dorri gofynion y paragraff hwn yn y Cod.

Rhaid i chi gofio bob amser, gan gynnwys adegau pan fyddwch yn gweithredu'n breifat, fod rhaid peidio ag ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n dwyn anfri ar eich Cyngor. Mae'n debygol y byddai ymddwyn mewn ffordd sy'n cael ei hystyried yn groes i'r Ddeddf Cydraddoldeb wrth weithredu'n breifat yn perthyn i'r categori hwn.

Gall hawliau Erthygl 10 fod yn berthnasol i sylwadau gwleidyddol

## Trin pobl eraill gyda pharch ac ystyriaeth
## Gweler paragraff 4(b)

Rhaid i chi ddangos parch ac ystyriaeth at bobl eraill. Mae rhyddid mynegiant yn hawl sy'n berthnasol i syniadau a gwybodaeth o bob math, nid y rheini sy'n cael eu gweld yn ffafriol yn unig. Fodd bynnag, mae'n hawl y gellir cyfyngu arni o dan amgylchiadau penodol, er enghraifft, er mwyn gwarchod hawliau a buddiannau pobl eraill. Mae rhyddid mynegiant aelod yn cael ei amddiffyn ymhellach pan fydd y sylwadau o natur wleidyddol. Felly, mae beirniadu syniadau a barn gwrthwynebydd yn cael ei ystyried yn rhan o ddadl ddemocrataidd, ac nid yw'n debygol y byddai sylwadau o'r fath byth yn cael eu hystyried yn rhai sy'n torri'r Cod.

Nid sylwadau a wneir yng nghyfarfodydd y cyngor yn unig yw sylwadau "gwleidyddol". Er enghraifft, maent yn cynnwys sylwadau y gall aelodau eu gwneud yn gyffredinol am bolisïau eu Cyngor neu am eu gwrthwynebwyr gwleidyddol. Felly, os nad yw'r sylwadau'n sarhaus neu'n dramgwyddus iawn, nid yw'n debygol y byddwn yn ymchwilio i gwynion a wneir yn y cyd-destun hwn a byddwn yn dod i'r casgliad bod angen i'r aelod fod yn fwy "croendew". Mae'n bosibl hefyd y byddaf yn gwrthod ymchwilio i gŵyn lle mae'r aelod wedi codi materion "gwleidyddol" gyda swyddogion, er enghraifft, Clerc y cyngor. Fodd bynnag, ni fyddai hynny'n cynnwys bygythiadau i safle neu les swyddog. Mae cyfraith achosion diweddar wedi cadarnhau y dylai swyddogion cyngor gael eu hamddiffyn rhag sylwadau di-sail a all gael effaith niweidiol ar weinyddu da. Nodwyd ei bod yn bwysig, er lles y cyhoedd, na fydd swyddogion yn destun sylwadau di-sail sy'n tanseilio eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau neu'n tanseilio hyder y cyhoedd yn y weinyddiaeth. Wedi dweud hynny, bydd disgwyl i swyddogion mewn swyddi uwch fod yn fwy cydnerth.

Rwyf yn disgwyl i aelodau ddangos yr un cwrteisi ac ystyriaeth at gydweithwyr, gwrthwynebwyr a swyddogion ag y maent yn eu dangos i bobl eraill yn eu bywyd pob dydd. Er fy mod yn cydnabod y gall dadlau gwleidyddol fod yn danbaid ar brydiau, ni ddylid defnyddio'r hawl i ryddid mynegiant yn esgus dros ymddwyn yn wael yn gyffredinol. Bydd ymddygiad gwael o'r fath yn sicr o ddwyn anfri ar rôl aelodau yng ngolwg y cyhoedd.

Wrth ystyried cwynion o'r fath, byddaf yn ystyried amgylchiadau penodol yr achos, a oedd hawl gan yr aelod, yn fy marn i, i gwestiynu'r swyddog dan sylw, a oedd ymgais i godi ofn ar y swyddog neu ei danseilio, a chynnwys a chyd-destun yr hyn a ddywedwyd.

**Enghraifft**

Roedd tribiwnlys apêl Panel Dyfarnu Cymru yn ystyried apêl gan Gynghorydd X yn erbyn penderfyniad gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor. Roedd y Pwyllgor Safonau wedi cael bod Cynghorydd X wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth at aelod arall drwy ei wahardd rhag

anfon e-bost at y clerc a mynd ar wefan y Cyngor. Hefyd roedd Cynghorydd X wedi gwneud sylwadau mewn neges e-bost i aelodau eraill ynghylch arferion ei gyd-aelod wrth gymryd cawod. Am ei fod wedi gwneud hyn, penderfynodd y Pwyllgor Safonau fod Cynghorydd X wedi dwyn anfri ar y Cyngor.

Penderfynodd y Panel Dyfarnu fod sylwadau Cynghorydd X o natur wleidyddol ac yn cael eu hamddiffyn ymhellach gan Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Cafodd penderfyniad y Pwyllgor Safonau ei wrthdroi a chafodd y sancsiwn ei ddiddymu. Gellir gweld penderfyniad y Panel Dyfarnu yma.

**Enghraifft**

Roedd y Panel Dyfarnu wedi cadarnhau canfyddiad gan bwyllgor safonau fod cynghorydd wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth at bobl eraill drwy wneud sylwadau ar-lein am gynghorwyr eraill a'r ffordd roedd y Cyngor yn cael ei redeg. Gofynnodd yr aelod am adolygiad barnwrol o'r penderfyniad hwn. Er bod Llys wedi cael bod y sylwadau'n wawdlyd ac yn watwarus a bod eu tôn yn bychanu ei gyd-aelodau, penderfynodd y Llys fod y sylwadau'n "Fynegiant Gwleidyddol" gan fod y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â'r ffordd roedd y Cyngor yn cael ei redeg, sut roedd ei benderfyniadau'n cael eu cofnodi a chymhwysedd y cynghorwyr. Yn ôl y dyfarniad, ni roddwyd ystyriaeth i'r angen i wleidyddion fod yn fwy "croendew". Wrth ystyried rhyddid mynegiant yr aelod a'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r sylwadau yn cyfeirio at gyd-gynghorwyr, roedd y casgliad bod gofynion wedi'u torri yn yr achos hwn yn ymyrryd yn anghymesur â hawliau'r aelod o dan Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Felly cafodd penderfyniad y Pwyllgor Safonau i geryddu'r aelod ei roi o'r neilltu.

**Enghraifft**

Ysgrifennodd aelod o gyngor tref lythyr at un o Ddirprwy Weinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru am un o'r gweithwyr ("Mr Smith") a oedd yn gweithio mewn cyngor sir. Anfonwyd copi o'r llythyr i'r Cyngor hefyd. Yn y llythyr roedd yr aelod yn amau cymhwysedd a chymhelliant Mr Smith a gwnaeth nifer o sylwadau dilornus a phersonol ynghylch Mr Smith a phobl roedd yn ymwneud â nhw. Cododd fater gwrywgydiaeth a chyfeirio ato fel "anabledd anfad" a bod "gwrywgydiaeth yn ddim ond cythraul y gellir ei fwrw allan". Cyfeiriwyd yr aelod at Banel Dyfarnu Cymru.

Penderfynodd y Panel fod yr aelod wedi torri gofynion paragraff 4(b) o'r Cod gan ei fod wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth at bobl eraill. Cafodd hefyd fod y geiriau roedd wedi'u defnyddio wedi dwyn anfri ar swydd yr aelod yn groes i baragraff 6(1)(a) o'r Cod.

Cafodd yr aelod ei anghymwyso am 12 mis rhag bod, na dod, yn aelod o awdurdod lleol.

## Bwlio ac aflonyddu

## Gweler paragraff 4(c)

Rhaid i chi beidio â bwlio nac aflonyddu ar neb, gan gynnwys cynghorwyr eraill, swyddogion y cyngor (y Clerc neu Swyddog Priodol) neu aelodau o'r cyhoedd.

Ystyr aflonyddu ("harasio") yw ymddygiad sy'n cael ei ailadrodd sy'n cynhyrfu neu'n gwylltio pobl. Mae bwlio'n gallu golygu ymddygiad tramgwyddus, bygythiol, maleisus, sarhaus neu fychanol. Gall ymddygiad o'r fath ddigwydd unwaith neu gall fod yn rhan o batrwm ymddygiad sydd wedi'i gyfeirio at rywun gwannach neu rywun y mae gennych ddylanwad gwirioneddol neu ymddangosiadol drosto. Y bwriad wrth fwlio yw tanseilio unigolyn neu grŵp o unigolion; mae'n niweidio eu hyder a'u galluogrwydd a gall amharu ar eu hiechyd.

Wrth ystyried honiadau o fwlio ac aflonyddu, byddaf yn ystyried safbwynt y dioddefwr honedig, ac a oedd yr aelod drwy ei weithredoedd yn bwriadu ei fwlio. Byddaf hefyd yn ystyried a oedd gan yr unigolyn le rhesymol i gredu ei fod yn cael ei fwlio. Mae bwlio'n digwydd wyneb yn wyneb yn aml, ond mae hefyd yn digwydd fwyfwy mewn print neu drwy ddefnyddio cyfryngau electronig. Yr un yw'r safonau ymddygiad a ddisgwylir, pa un a ydych yn eich mynegi'ch hun ar lafar neu'n ysgrifenedig.

**Enghraifft**

Roedd Cynghorydd Cymuned P yn anghytuno â threfniadau'r Cyngor Sir ar gyfer gorfodi rheolau parcio yn y dref. Roedd Cynghorydd P wedi defnyddio iaith sarhaus ac amharchus ac roedd wedi ymddwyn yn fygythiol ac wedi bwlio Swyddogion Gorfodi Sifil y Cyngor bedair gwaith. Roedd hefyd wedi ceisio defnyddio ei safle fel cynghorydd yn amhriodol mewn perthynas â thramgwydd parcio. Penderfynodd y Pwyllgor Safonau fod Cynghorydd P wedi torri gofynion paragraff 4(c) o'r Cod gan ei fod wedi ymddwyn yn fygythiol tuag at gyflogeion y Cyngor Sir. Roedd y Pwyllgor Safonau hefyd wedi penderfynu bod Cynghorydd P wedi torri gofynion paragraffau 4(b), 7(a) a 6(1)(a) o'r Cod. Cafodd ei atal rhag gweithredu fel Cynghorydd am 12 mis.

Bydd angen i chi sicrhau nad yw'ch ymddygiad yn croesi'r ffin o fod yn rymus i fod yn fwlio. Ni ellir cael rheolau pendant ar gyfer pob math o amgylchiadau ond bydd lefel awdurdod y swyddog yn ffactor mewn rhai achosion. Fel y nodwyd o dan baragraff 4(b) o'r Cod, gellir cael trafod plaen rhwng y swyddogion uchaf ac aelodau a bydd y swyddogion hynny'n gallu cyfleu eu safbwynt yn rymus. Nid yw'r un peth yn wir yng nghyswllt swyddogion is ac mae angen i aelodau fod yn ymwybodol o hyn. Nid yw hyn yn golygu fy mod yn goddef bwlio uwch swyddogion, ond po fwyaf yw'r gwahaniaeth rhwng pŵer y swyddog a phŵer yr aelod, mwyaf tebygol yw hi y bydd y swyddog yn ystyried bod yr ymddygiad yn fwlio.

Yn ddiweddar, penderfynodd yr Uchel Lys fod budd cyhoeddus mewn diogelu ymddiriedaeth y cyhoedd mewn gweision cyhoeddus anetholedig, a bod angen pwyso hyn yn erbyn y budd o gael trafodaeth agored ar faterion sy'n bwysig i'r cyhoedd. Penderfynodd hefyd y dylai pob aelod ddangos yr un parch at yr ymddiriedaeth sydd rhyngddo a'r swyddogion, gan fod hyn yn hanfodol i sicrhau gweinyddu da.

Mae gan awdurdodau lleol sianeli priodol ar gyfer mynegi pryder ynghylch perfformiad swyddogion ac mae'n bwysig eich bod yn codi materion ynghylch perfformiad gwael yn y ffordd gywir ac mewn fforwm priodol. Nid yw'n dderbyniol codi materion o'r fath mewn cyfarfod lle mae pobl eraill yn bresennol, yn enwedig os ydynt o gyrff allanol neu'n aelodau o'r cyhoedd. Nid yw ychwaith yn dderbyniol gwneud hynny yn y cyfryngau, yn eich cyhoeddiadau'ch hun neu drwy ddefnyddio blog, Twitter, Facebook nac unrhyw ddulliau electronig eraill. Os yw'ch beirniadaeth yn ymosodiad personol neu'n dramgwyddus, rydych yn debygol o groesi'r terfyn o ran yr hyn sy'n ymddygiad derbyniol.

**Enghraifft**

Cafodd aelod o gyngor sir ei anghymwyso o'i swydd am 2 flynedd a 6 mis gan Banel Dyfarnu Cymru yn dilyn honiadau o fwlio, aflonyddu, amarch a dwyn anfri ar swydd yr aelod. Roedd y digwyddiadau honedig wedi para dros gyfnod o ddwy flynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd yr aelod wedi gwneud sylwadau bygythiol wrth swyddogion ar raddau is ac uwch. Er enghraifft, gwnaeth sylwadau i'r perwyl bod nifer o reolwyr y Cyngor wedi colli eu swyddi a bod mwy i fynd eto a "Fyddech chi ddim yn hoffi gweld sut un ydw i os na cha i fy ffordd ... Does dim angen i mi eich bygwth, rydych chi'n fenyw ddeallus ac rwy'n gwybod eich bod yn gwrando arnaf i".

Apeliodd yr aelod yn erbyn y penderfyniad a chyfeiriwyd y mater i'r Uchel Lys. Yno cadarnhawyd pob achos o dorri'r Cod heblaw tri. Gellir gweld y penderfyniad yma.

## Peryglu didueddrwydd swyddogion yr awdurdod

## Gweler paragraff 4(ch)

Rhaid i chi beidio â pheryglu na cheisio peryglu didueddrwydd unrhyw un sy'n gweithio i'ch Cyngor neu ar ei ran. Ni ddylech fynd at unrhyw un sy'n gweithio i'r Cyngor neu ar ei ran gyda'r bwriad o bwyso arno i gyflawni ei ddyletswyddau mewn ffordd dueddol neu bleidiol. Rhaid iddo fod yn ddiduedd ac ni ddylid ei orfodi na'i berswadio i weithredu mewn ffordd a fyddai'n tanseilio ei allu i fod yn ddiduedd. Er enghraifft, ni ddylech gael swyddogion i'ch helpu i baratoi deunydd plaid wleidyddol, na'ch helpu gyda materion sy'n ymwneud â'ch busnes preifat. Ni ddylech roi na chynnig unrhyw gymhelliant na gwobr yn gyfnewid am weithredu mewn ffordd benodol neu wneud penderfyniad penodol, na bygwth neb os nad yw'n bwriadu gweithredu mewn ffordd benodol. Os bydd aelod yn datblygu perthynas

bersonol agos â swyddog, bydd hyn yn fuddiant personol o dan y Cod a gall fod yn fuddiant rhagfarnus.

**Sefyllfa Ddamcaniaethol**

Mae'r Clerc yn gyfrifol am ddyrannu rhandiroedd o restr aros. Mae'r rhandiroedd yn boblogaidd dros ben a phur anaml y bydd rhai gwag ar gael. Dywedodd y Clerc wrth y Cyngor fod rhandir ar gael ac y byddai'n edrych ar y rhestr ac yn dyrannu'r rhandir i'r person a oedd wedi bod yn aros hiraf yn unol â gweithdrefn dyrannu rhandiroedd y Cyngor. Roedd tad Cynghorydd D wedi bod yn aros am randir am bron saith mlynedd. Aeth Cynghorydd D at y Clerc ar ôl y cyfarfod a gofyn am gael gweld y rhestr. Nododd fod un enw uwchben enw ei dad ac mai dim ond am fis yn hirach yr oedd hwnnw wedi disgwyl. Gofynnodd Cynghorydd D i'r Clerc roi'r rhandir gwag i'w dad. Dywedodd na fyddai'r person arall yn debygol o ofyn pwy oedd yn gyntaf gan fod cymaint o amser wedi mynd heibio ers i'w dad a'r person arall wneud cais a, beth bynnag, mater syml fyddai aildeipio'r rhestr. Awgrymodd Cynghorydd D y byddai, yn gyfnewid am y ffafr hon, yn annog y Cyngor i edrych yn ffafriol ar yr elusen a awgrymwyd gan y Clerc wrth ystyried ble i ddyrannu'r arian a fyddai'n cael ei godi mewn diwrnod hwyl a oedd yn cael ei gynnal y mis canlynol.

## Datgelu gwybodaeth gyfrinachol

## Gweler paragraff 5(a)

Rhaid i chi beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol na gwybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heblaw mewn un o'r amgylchiadau canlynol:

- rydych wedi cael caniatâd gan y person sydd ag awdurdod i'w roi
- mae'r gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny.

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi canllawiau defnyddiol am y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data, ac maent ar gael ar ei wefan yn www.ico.gov.uk neu drwy ffonio 0303 123 1113. Fel cynghorydd cymuned, mae'n bosibl y byddwch yn cael gweld gwybodaeth sensitif, er enghraifft gwybodaeth fasnachol. Fel cynghorydd rhaid i chi gofio hefyd eich bod mewn safle o ymddiriedaeth a'i bod yn bosibl y bydd aelodau o'r cyhoedd yn darparu gwybodaeth i chi y byddai'n rhesymol ei hystyried yn wybodaeth gyfrinachol. Dylech bob tro gadarnhau (a chael cytundeb ysgrifenedig pan fo'n bosibl) eich bod wedi cael caniatâd i ddatgelu gwybodaeth o'r fath cyn gwneud hynny. Yn gyffredinol, dylech ystyried materion a drafodir yn y rhannau cyfrinachol o gyfarfodydd (eitemau esempt) yn rhai cyfrinachol. Yn yr un modd, bydd cyngor cyfreithiol bron bob tro'n dod o dan fraint gyfreithiol ac ni ddylid ei ddatgelu.

**Enghraifft**

Cafodd Cynghorydd Cymuned S neges e-bost oddi wrth Gynghorydd arall (T) ynghylch cyflogaeth y gofalwr. Roedd y neges e-bost wedi cael ei marcio fel un gyfrinachol. Roedd Cynghorydd S wedi datgelu'r neges e-bost honno i wraig y gofalwr, ac wedyn cafodd y wybodaeth yn y negeseuon e-bost ei defnyddio yn erbyn y Cyngor mewn gwrandawiad tribiwnlys a oedd yn ymwneud â chyflogaeth y gofalwr. Roeddwn wedi dod i'r casgliad bod Cynghorydd S wedi torri gofynion paragraff 5(a) o'r Cod.

## Atal mynediad at wybodaeth

## Gweler paragraff 5(b)

Rhaid i chi beidio â rhwystro unrhyw berson rhag cael gwybodaeth y mae ganddo hawl i'w gweld yn ôl y gyfraith. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu gopïau o gofnodion, agendâu, adroddiadau a dogfennau eraill eich Cyngor y mae ganddo hawl i'w gweld. I gael gwybod mwy am y mathau o wybodaeth y mae gan y cyhoedd hawl i'w gweld, cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy fynd i www.ico.gov.uk neu drwy ffonio 0303 123 1113 neu, os oes gennych ymholiad penodol, dylech holi'r Swyddog Monitro neu'r Clerc.

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth rydych yn ei chynhyrchu yn rhinwedd eich swydd yn rhwym wrth ofynion datgelu'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a gallai fod yn ofynnol i'ch Cyngor ei rhyddhau mewn ymateb i gais. Os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth i'r Clerc ar ei gais, byddwch yn torri'r Cod.

Bydd yn rhaid i'ch Cyngor benderfynu a ddylid datgelu gwybodaeth ynteu a yw wedi'i hesemptio. Hyd yn oed os ydych yn meddwl bod y wybodaeth sydd gennych yn esempt, rhaid i chi ei darparu i'r Clerc ar ei gais er mwyn caniatáu i'r Cyngor wneud penderfyniad. Yn ogystal â bod yn groes i'r Cod, mae dinistrio gwybodaeth ar ôl cael cais Rhyddid Gwybodaeth yn drosedd.

**Enghraifft**

Roedd arweinydd cyngor sir wedi gwrthod rhoi llythyr i Swyddog Gwybodaeth y Cyngor a yrrwyd ganddo i Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Gweithrediaeth y Cyngor. Oherwydd hynny, ni allai'r Cyngor ymateb yn briodol i gais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac, o ganlyniad, cyflwynwyd cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Roedd yr aelod yn parhau i wrthod datgelu'r llythyr er iddo gael cyngor clir a diamwys gan y Swyddog Gwybodaeth. Arweiniodd hyn at ddyfarniad anffafriol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Penderfynodd y Panel Dyfarnu fod yr aelod wedi torri gofynion paragraffau 5(b) a 6(1)(a) (dwyn anfri) yng nghyswllt y mater hwn a materion cysylltiedig eraill. Erbyn i'r achos gael ei ystyried gan y Panel, roedd yr aelod wedi ymddiswyddo. Cafodd ei anghymwyso rhag dal swydd am 12 mis.

## Anfri

## Gweler paragraff 6(1)(a)

**Mae unrhyw ymddygiad sy'n annheilwng o aelod yn gallu dwyn anfri**

Rhaid i chi beidio ag ymddwyn ar unrhyw adeg mewn ffordd y byddai'n rhesymol ystyried ei bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu awdurdod. Fel aelod, bydd mwy o graffu ar eich gweithredoedd a'ch ymddygiad nag yn achos aelodau cyffredin o'r cyhoedd. Dylech gofio y bydd eich gweithredoedd yn eich bywyd cyhoeddus a phreifat yn gallu cael effaith anffafriol ar eich Cyngor.

Bydd ymddygiad anonest a thwyllodrus yn dwyn anfri ar eich Cyngor, yn yr un modd ag ymddygiad sy'n arwain at gollfarn am drosedd, yn enwedig os yw'n ymwneud ag ymddygiad anonest, bygythiol neu dreisgar, hyd yn oed os yw'r ymddygiad yn digwydd yn eich bywyd preifat. Gellir ystyried bod beirniadu'ch Cyngor yn anghywir neu'n annheg yn gyhoeddus yn dwyn anfri ar eich Cyngor. Gall negeseuon e-bost amhriodol at etholwyr neu negeseuon amhriodol ar gyfryngau cymdeithasol ddwyn anfri ar swydd yr aelod.

**Enghraifft**

Roedd cynghorydd cymuned wedi bod yn sarhaus wrth berchennog siop a dau aelod o'i staff ac wedi ceisio cael disgownt ar rywbeth yr oedd yn ei brynu'n breifat drwy ddweud ei fod yn ei brynu ar ran y Cyngor Cymuned. Pan wrthodwyd ei gais am ddisgownt, gwnaeth fygythiadau yn erbyn y busnes. Penderfynodd y Panel Dyfarnu fod yr aelod wedi dwyn anfri ar swydd yr aelod a chafodd ei atal am 9 mis.

**Enghraifft**

Roedd aelod o gyngor bwrdeistref sirol a oedd yn ysgrifennu erthygl reolaidd ar gyfer cyhoeddiad misol lleol wedi sôn yn ei erthygl am ddamwain traffig ffyrdd ddiweddar pan gafodd bachgen 10 oed ei anafu. Mam y bachgen a gafodd ei anafu a gyflwynodd y gŵyn. Ar ôl cyhoeddi'r erthygl, roedd wedi ffonio'r cynghorydd a ddywedodd hwnnw ei bod wedi bod yn sarhaus tuag ato yn ystod yr alwad. Mewn negeseuon e-bost a gafwyd wedyn rhwng y ddau dywedodd y cynghorydd wrthi ei bod wedi "methu â chymryd unrhyw gyfrifoldeb dros ei phlentyn drwy ganiatáu iddo fynd allan ar ei ben ei hun", mai ei mab "anwybodus am reolau'r ffordd fawr" oedd ar fai a dywedodd "peidiwch chi â beiddio rhoi'r bai arna i am eich diffygion chi fel rhiant".

Penderfynwyd bod yr aelod wedi torri gofynion paragraff 4(b) (parch ac ystyriaeth) a 6(1)(a) (anfri). Cyfeiriwyd y mater at Banel Dyfarnu Cymru. Er bod yr aelod wedi honni iddo ymddiheuro am ei ymddygiad, yr hyn a ddywedodd mewn gwirionedd oedd "Does gen i ddim i ymddiheuro amdano... Rwyf yn ymddiheuro os oeddwn wedi achosi gofid i chi am ryw reswm".

Penderfynodd y Panel fod yr aelod wedi torri gofynion paragraffau 4(b) (trin pobl eraill gyda pharch) a 6(1)(a) (anfri). Roedd y Panel wedi'i atal o'r blaen am 2 fis am anfon negeseuon e-bost amhriodol yn 2006. Cafodd ei atal am 12 mis yng nghyswllt yr achosion hyn.

## Rhoi gwybod am dorri gofynion y Cod
## Gweler paragraff 6(1)(c)

Os ydych yn credu'n rhesymol bod y Cod wedi cael ei dorri, rhaid i chi roi gwybod am hynny i Swyddog Monitro y prif Gyngor. Nid oes angen rhoi gwybod i mi am y mater bellach. Er mwyn credu'n rhesymol bod y Cod wedi cael ei dorri, bydd yn rhaid i chi gael tystiolaeth i gadarnhau hyn. Os nad ydych yn sicr a yw'r Cod wedi cael ei dorri ai peidio, dylech holi'r Swyddog Monitro ar y cyfle cyntaf. Os cafodd y Cod ei dorri mewn modd technegol neu fach, neu os nad oes tystiolaeth glir i'r Cod gael ei dorri, gall y Swyddog Monitro roi gwybod i chi am y trothwy rwyf yn debygol o'i osod. Yn yr achosion mwyaf difrifol, gall y Swyddog Monitro benderfynu, fel eithriad, y bydd yn cyfeirio materion ataf i'n uniongyrchol neu ar eich rhan. Yn y rhan fwyaf o achosion eraill, byddwch chi'n cael eich cynghori i wneud hynny.

Er hynny, fi sy'n gyfrifol am benderfynu a fyddaf yn ymchwilio i doriad. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch a yw'r Cod wedi'i dorri, dylid rhoi gwybod bob tro. Bydd o gymorth os gallwch nodi pa elfen o'r Cod rydych yn credu sydd wedi'i thorri.

Wrth benderfynu a fyddaf yn ymchwilio i gŵyn ynghylch torri'r Cod ai peidio, byddaf yn defnyddio'r prawf dau gam rwyf wedi'i amlinellu ar dudalennau 6 a 7 uchod. Dylech sicrhau'ch bod yn rhoi unrhyw dystiolaeth sydd gennych pan fyddwch yn cwyno, gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd, gohebiaeth, nodiadau a wnaed ar y pryd neu negeseuon e-bost. Os oes unigolion eraill sydd yn dystion i'r toriad honedig ar y Cod, dylech ddweud wrthym pwy ydynt. Mae'r pwynt olaf yn bwysig iawn oherwydd os wyf yn dibynnu ar air un person yn erbyn gair person arall, mae'n bosibl na fyddaf yn gallu dod i gasgliad sicr bod digon o dystiolaeth i gyfiawnhau ymchwilio i'r mater.
I roi gwybod am faterion o'r fath, gallwch gysylltu â'm swyddfa drwy ffonio 0845 6010987, drwy'r e-bost yn holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk neu drwy'r wefan yn http://www.ombwdsmon-cymru.org.uk Mae taflen arbennig am wneud cwynion am honiadau o dorri'r Cod ar gael ar gais neu ar y wefan.

## Cwynion blinderus
## Gweler paragraff 6(1)(ch)

Rhaid i chi beidio â chwyno yn erbyn aelodau eraill, aelodau staff neu bobl sy'n gweithio ar ran eich Cyngor os nad yw'r gŵyn yn seiliedig ar ffeithiau ac os yw wedi'i hysgogi gan falais (dymuniad i'w niweidio) neu gystadleuaeth wleidyddol. Gwaetha'r modd, cafwyd achosion lle mae aelodau wedi ceisio cyflwyno cwynion am gystadleuwyr gyda'r bwriad o'u rhoi dan anfantais, weithiau cyn etholiad, a lle nad oes tystiolaeth o dorri'r gofynion neu ddim ond tystiolaeth wan. Rwyf yn credu y dylid ystyried ymddygiad o'r fath drwy broses ddatrys leol

yr awdurdod perthnasol yn y lle cyntaf os oes un ar waith.

Os bydd manylion penodol am gwynion o'r fath yn cael eu trosglwyddo i'r wasg a'r cyfryngau lleol, gall hyn wneud niwed i ymchwiliad a gall hyn ynddo'i hun hefyd fod yn groes i'r Cod. Rhaid i chi roi gwybod i Swyddog Monitro y prif Gyngor am honiadau cadarn o dorri gofynion y Cod, nid i'r papur newydd neu orsaf radio leol. Bydd y wasg yn rhoi sylw priodol i fusnes unrhyw wrandawiadau a'u canlyniadau, ac ni ddylai aelodau sy'n gwneud honiadau greu unrhyw gyhoeddusrwydd cyn y rhain.

Ni ddylai aelodau ddefnyddio'r Cod i geisio ennill mantais yng nghyd-destun anghytundeb gwleidyddol neu breifat. Ni ddylech wneud cwynion ychwaith sydd heb ddim neu nemor ddim sylwedd (cwynion gwacsaw) sydd â'r prif amcan o wylltio'r person y maent yn cael eu gwneud yn ei erbyn. Yn y gorffennol, mae fy rhagflaenydd wedi gorfod gohebu â Chlerc cyngor ynghylch pryderon y ddwy ochr am nifer y cwynion a oedd yn dod i law mewn perthynas â'r aelodau. Fel rwyf wedi nodi eisoes, ers i mi gychwyn yn fy swydd, rwyf innau'n pryderu am nifer y cwynion lefel isel sy'n dod i law o hyd oddi wrth aelodau. Er ei bod yn ymddangos bod y cwynion hyn yn deillio o nifer bach o aelodau, gallant greu argraff negyddol o'r aelodau a'r cynghorau hynny a niweidio ffydd y cyhoedd yn ein haelodau etholedig yn gyffredinol. Os daw'n amlwg bod cwynion gan aelodau yn erbyn ei gilydd yn cael eu hailadrodd wrth fy swyddfa, byddwn yn annog y cynghorau hynny i ystyried y diwylliant sydd wedi arwain at y cwynion hyn a sut y byddai modd newid ymddygiad i osgoi cwynion o'r fath.

Os byddaf yn gweld tystiolaeth sy'n awgrymu bod cwyn wedi'i gwneud i'm swyddfa nad yw'n seiliedig ar ffeithiau a'i bod wedi'i hysgogi gan falais neu gystadleuaeth wleidyddol, byddaf yn ystyried bod hyn yn fater difrifol ac mae'n bosibl y byddaf yn ymchwilio i hyn. Mae gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wacsaw yn mynd yn groes i'r paragraff hwn ac mae'n bosibl hefyd ei fod yn mynd yn groes i'ch rhwymedigaethau eraill o dan y Cod fel y gofyniad i beidio â dwyn anfri ar eich swydd fel cynghorydd neu beidio â defnyddio'ch safle mewn modd amhriodol.

Cofiwch fod y Cod yn gymwys dim ond i'r rheini sydd wedi'u hethol, eu cyfethol neu eu penodi fel arall i gorff sy'n dod o dan y Cod. Nid yw'n gymwys i aelodau o'r cyhoedd. Er fy mod yn deall y gallech deimlo'n rhwystredig os bydd aelod o'r cyhoedd yn cwyno amdanoch droeon a'ch bod yn credu bod y cwynion hynny'n flinderus neu'n wacsaw, mae'n ofynnol i mi ystyried pob cwyn yn ôl ei rhinweddau ei hun. Fodd bynnag, mae'n debygol na fyddai cwynion o'r fath yn pasio'r prawf dau gam ac yn arwain at ymchwiliad.

### Cydweithredu ag ymchwiliadau
### Gweler paragraff 6(2)

Rhaid i chi gydweithredu ag unrhyw ymchwiliad sy'n cael ei gynnal gennyf i neu gan eich

Swyddog Monitro gan ddefnyddio ein pwerau statudol. Mae peidio â gwneud hynny'n torri gofynion y Cod. Mae hyn yn golygu y dylech ymateb yn brydlon i bob gohebiaeth a galwad ffôn, trefnu i fod ar gael ar gyfer cyfweliadau os oes angen a darparu copïau o unrhyw ddogfennau y gofynnir amdanynt. Byddai'n fuddiol pe gallech nodi unrhyw bryderon sydd gennych yn ystod yr ymchwiliad fel bod modd eu datrys yn ddi-oed. Bydd fy swyddfa a'ch Swyddog Monitro yn ystyried unrhyw bwysau brys sydd arnoch chi ac unrhyw drefniadau a wnaed o'r blaen, er enghraifft, ar gyfer gwyliau. Fodd bynnag, disgwylir i chi roi blaenoriaeth i'w hymchwiliadau, er mwyn peidio â llusgo materion yn ddiangen. Mae'r gofyniad i gydweithredu ag ymchwiliad yn gymwys pa un a ydych yn dyst neu'n destun yr ymchwiliad.

Rwyf yn gwybod am enghreifftiau lle mae aelodau sydd wedi'u cyhuddo o dorri'r Cod wedi ceisio rhoi pwysau ar yr unigolion sydd wedi gwneud y gŵyn neu ar dystion eraill. Rwyf yn ystyried bod ymddygiad o'r fath yn hollol annerbyniol. Rhaid i chi beidio â bygwth na cheisio codi ofn ar unrhyw un sydd, neu sy'n debygol o fod, yn achwynydd, yn dyst, neu'n ymwneud â gweinyddu unrhyw ymchwiliad neu achos sy'n ymwneud â methu â chydymffurfio â'r Cod. Ni waeth faint rydych yn pryderu am honiadau eich bod chi neu gynghorydd arall wedi methu â chydymffurfio â'r Cod, peth drwg bob amser yw bwlio, bygwth neu geisio codi ofn ar rywun sy'n ymwneud â'r ymchwiliad neu'r gwrandawiad. Hyd yn oed os nad ydych wedi torri'r Cod, cewch ddweud eich dweud yn ystod unrhyw wrandawiad neu ymchwiliad annibynnol, a dylech adael i'r prosesau hyn ddilyn eu cwrs naturiol.

Os byddwch yn bygwth tyst mewn ymchwiliad i'ch ymddygiad, er enghraifft, gallech fod yn destun cwyn arall am fynd yn groes i baragraff 4(c) o'r Cod ynghylch bwlio neu aflonyddu, neu baragraff 6(1)(a) ynghylch dwyn anfri ar swydd yr aelod.

## Camfanteisio ar eich swydd
## Gweler paragraff 7(a)

Rhaid i chi beidio â defnyddio na cheisio defnyddio'ch safle'n amhriodol i roi mantais neu anfantais i chi'ch hun nac i unrhyw un arall. **Mae'r paragraff hwn yn gymwys bob amser** ac nid pan ydych yn cyflawni'ch dyletswyddau fel aelod yn unig. Ni ddylech ddefnyddio na cheisio defnyddio'ch swydd gyhoeddus ychwaith er eich budd neu eich colled eich hun na budd na cholled eraill. Er enghraifft, byddai'ch ymddygiad yn amhriodol pe byddech yn ceisio hyrwyddo'ch buddiannau preifat eich hun drwy eich safle fel aelod. Mae hyn yn gymwys hefyd os ydych yn defnyddio'ch swydd i wella eich lles ar draul pobl eraill.

Os yw aelod yn berchen ar dir, neu os yw rhywun y mae ganddo gysylltiad personol agos ag ef yn berchen ar dir, rhaid iddo fod yn ofalus iawn yng nghyswllt materion sy'n ymwneud â chynllunio. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, dylech ofyn am gyngor. Mae hyn yr un mor gymwys i aelodau cynghorau cymuned pan ymgynghorir â'ch Cyngor ar faterion sy'n ymwneud â chynllunio. Yn yr un modd, er ei bod yn rhesymol disgwyl i aelodau helpu etholwyr i wneud cais i'r Cyngor, er enghraifft, ar gyfer tai, mae'n gwbl amhriodol ceisio

dylanwadu ar y penderfyniad a wneir gan y swyddogion.

Mae darpariaethau Deddf Llwgrwobrwyo 2010 yn gymwys i aelodau sy'n cyflawni eu dyletswyddau cyhoeddus. Os ceir aelod yn euog o drosedd o dan y Ddeddf hon, yna mae'n debygol y bydd hefyd wedi defnyddio ei safle'n amhriodol (yn groes i baragraff 7(a)) a dwyn anfri ar swydd yr aelod neu ar ei awdurdod gan dorri gofynion paragraffau 6(1)(a) a (b). Os caf unrhyw gŵyn sy'n ymwneud ag ymddygiad a all fod yn drosedd, yna rwyf yn debygol o gyfeirio'r mater at yr heddlu.

**Enghraifft**
Roedd Cynghorydd D yn 'gydlynydd ar y cyd' ar grŵp cymunedol. Ni ddywedodd Cynghorydd D wrth y Cyngor am ei swydd yn y grŵp hwn. Cymerodd ran yn y drafodaeth a phleidleisiodd ar y penderfyniad i negodi les newydd yng nghyswllt gweithdy a oedd yn cael ei ddefnyddio gan y grŵp cymunedol hwn. Daeth pwyllgor safonau i'r casgliad ei bod wedi defnyddio ei safle ar y Cyngor yn amhriodol gan fod y penderfyniad roedd hi wedi pleidleisio arno wedi bod o fudd i'r grŵp a'i bod yn amlwg bod ganddi fuddiant yn y grŵp hwnnw ac nad oedd wedi rhoi gwybod am hynny i'r Cyngor. Penderfynwyd ei bod wedi torri gofynion paragraff 7(a) o'r Cod, a chafodd ei hatal rhag gweithredu fel cynghorydd am bedair wythnos.

## Adnoddau'r awdurdod
## Gweler paragraff 7(b)

Dim ond yn unol â'i ofynion y cewch chi ddefnyddio adnoddau'r Cyngor neu awdurdodi pobl eraill i wneud hynny. **Mae'r paragraff hwn hefyd yn gymwys bob amser.** Os bydd eich Cyngor yn darparu adnoddau i chi (er enghraifft, ffôn, cyfrifiadur a chyfleusterau TG eraill), dim ond ar gyfer cyflawni'ch busnes Cyngor ac unrhyw weithgarwch arall y mae'r Cyngor wedi'ch awdurdodi i'w defnyddio ar eu cyfer y cewch ddefnyddio'r rhain.

Rhaid i chi fod yn gyfarwydd â'r rheolau ar gyfer defnyddio'r adnoddau hyn a wnaed gan eich Cyngor.

Mae methu â chydymffurfio â rheolau'ch Cyngor yn debygol o fod yn groes i'r Cod. Os byddwch yn awdurdodi rhywun (er enghraifft, aelod o'ch teulu) i ddefnyddio adnoddau'r Cyngor, rhaid i chi ofalu bod rheolau'r Cyngor yn caniatáu hyn.

## Defnyddio adnoddau at ddibenion priodol yn unig
## Gweler paragraffau 7(b)(v) a 7(b)(vi)

Rhaid i chi wneud yn siŵr mai dim ond at ddibenion priodol rydych chi'n defnyddio adnoddau'r Cyngor. Nid yw'n briodol defnyddio'r adnoddau at ddibenion gwleidyddol, gan gynnwys dibenion pleidiau gwleidyddol, nac awdurdodi pobl eraill i'w defnyddio yn y

fath fodd. Wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor, rhaid i chi roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan eich Cyngor.

**Enghraifft**
Cafwyd bod aelod o gyngor sir wedi torri'r Cod ar ddefnyddio ei offer cyfrifiadurol, drwy ddefnyddio cyfrifiadur a roddwyd iddo gan y Cyngor yn amhriodol at ddibenion preifat drwy lawrlwytho delweddau pornograffig amhriodol o oedolion ac anfon nifer o lythyrau i bapur newydd lleol, gan honni'n anwir mai aelodau o'r cyhoedd oedd yn eu hanfon. Penderfynodd y Panel Dyfarnu fod yr aelod wedi camddefnyddio offer y Cyngor gan dorri'r Cod a'i fod wedi dwyn anfri ar swydd yr aelod. Cafodd ei anghymwyso am 2 flynedd a 6 mis rhag bod, na dod, yn aelod o awdurdod lleol.

## Gwneud penderfyniadau'n wrthrychol
## Gweler paragraff 8(a)

Wrth gymryd rhan yng nghyfarfodydd eich Cyngor, neu wrth wneud penderfyniadau ynghylch busnes y Cyngor, rhaid i chi wneud hynny â meddwl agored ac yn wrthrychol. Yn ystod y broses penderfynu rhaid i chi weithredu'n deg ac ystyried budd y cyhoedd yn briodol. Mae'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan gyngor cymuned yn ymwneud â materion lleol ac ariannu prosiectau lleol. Er bod maint yr arian sy'n cael ei wario'n llai nag ar lefel sirol, rhaid i'r holl benderfyniadau gael eu gwneud ar sail y ffeithiau sydd o'ch blaen, a rhaid i chi beidio â phenderfynu ymlaen llaw i'r graddau eich bod yn hollol anfodlon ystyried yr holl dystiolaeth a chyngor a gewch chi. Rhagderfynu yw'r enw ar fod â meddwl hollol gaeedig. Mae gennych hawl i fod â safbwynt ymlaen llaw ynghylch mater penodol cyn cyfarfod (rhagdueddiad) ar yr amod eich bod yn cadw meddwl agored a'ch bod yn fodlon ystyried rhinweddau'r holl ddadleuon a phwyntiau a wneir ynghylch y mater a drafodir cyn i chi wneud penderfyniad. Mae rhagderfynu ar y llaw arall yn golygu'ch bod yn amlwg wedi penderfynu ar gwrs gweithredu cyn y cyfarfod ac yn gwbl amharod i ystyried y dystiolaeth a'r dadleuon a gyflwynir ar y mater hwnnw yn ystod y cyfarfod. Gallai rhagderfynu wneud y penderfyniad yn annilys, a byddai hefyd yn torri gofynion y Cod.

## Ystyried cyngor a roddir i chi a rhoi rhesymau
## Gweler paragraff 8(b)

Rhaid i chi roi sylw i'r holl gyngor a gewch gan eich Clerc. Fel arfer, y Clerc yw'r Swyddog Priodol hefyd ac mae ei rôl yn cynnwys ymchwilio i'r polisi, y canllawiau a'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r cyngor a roddir wrth wneud penderfyniadau.

Mae bob amser yn fuddiol cael cyngor mor gynnar â phosibl. Os gallwch, gofynnwch am gyngor mewn da bryd cyn cyfarfod, yn hytrach nag yn y cyfarfod neu'n union cyn iddo ddechrau. Gofalwch eich bod yn rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol i'r Clerc wrth iddo roi cyngor i chi.

Os byddwch yn gofyn am gyngor, neu os cynigir cyngor i chi, er enghraifft, ynghylch a

ddylech gofrestru buddiant personol, dylech ystyried y cyngor hwn cyn i chi benderfynu. Gallai methu â gwneud hynny olygu'ch bod yn torri gofynion y Cod.

Fel mater o arfer da, os byddwch yn anghytuno ag argymhellion y Clerc wrth wneud penderfyniad, dylech roi rhesymau clir dros eich penderfyniad. Os byddwch yn penderfynu pleidleisio'n groes i gyngor y Clerc, dylech sicrhau bod eich rhesymau dros wneud hynny'n cael eu cofnodi yn y cofnodion perthnasol.

### Treuliau
### Gweler paragraff 9(a)

Mae angen i chi ddilyn y gyfraith a gofynion eich Cyngor wrth hawlio treuliau a lwfansau. Os nad ydych yn sicr am eich hawliau, neu am y ffordd briodol o hawlio, dylech ofyn i'ch Clerc am gyngor. Mae angen i chi gadw cofnodion priodol o wariant wedi'u hategu gan dderbynebau os yw'n briodol, er mwyn i chi allu cyflwyno tystiolaeth briodol o'ch hawliadau.

Hyd yn oed os nad yw cynllun penodol yn mynnu'ch bod yn cyflwyno derbynebau, fe'ch cynghorir yn gryf i gadw'r rhain er mwyn gallu profi faint rydych wedi'i wario ar yr eitemau rydych yn hawlio amdanynt.

### Rhoddion a lletygarwch
### Gweler paragraff 9(b)

Mae'n bwysig nad ydych yn derbyn unrhyw roddion na lletygarwch i chi'ch hun, nac ar ran pobl eraill, a fyddai'n eich rhoi o dan rwymedigaeth neu'n ymddangos ei fod yn gwneud hynny. Gellid ystyried bod derbyn rhoddion neu letygarwch o'r fath yn tanseilio'ch gallu i fod yn wrthrychol wrth wneud penderfyniadau neu gyflawni gwaith y Cyngor. Mae hyn yn wir hefyd am unrhyw wasanaethau neu roddion mewn nwyddau.

Nid yw hyn yn eich atal rhag mynd i ddigwyddiadau swyddogol fel derbyniadau dinesig neu giniawau gwaith os yw'r rhain wedi'u hawdurdodi gan eich Cyngor.

# 3. Buddiannau personol a rhagfarnus

Mae elfennau yn y Cod sy'n ymwneud â buddiannau personol a rhagfarnus yn arwain at nifer o gwestiynau gan aelodau. Pwrpas yr elfennau hyn yw diogelu egwyddorion anhunanoldeb a gwrthrychedd. Eu nod yw rhoi hyder i'r cyhoedd fod penderfyniadau'n cael eu gwneud er y lles pennaf iddyn nhw, nid er y lles pennaf i aelodau awdurdodau neu bobl y mae ganddynt gysylltiad personol agos â nhw.

Mae buddiannau personol yn ymwneud â materion lle mae gennych chi neu rywun y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef ryw gyswllt â mater sy'n cael ei drafod. Bydd y buddiannau hyn yn rhai rhagfarnus pan fyddai sylwedydd annibynnol gwybodus yn gallu dod i'r casgliad y byddai'r buddiant yn dylanwadu ar eich pleidlais, neu ar eich penderfyniad.

Yn fy mhrofiad i, y gwahaniaeth rhwng buddiant personol a buddiant rhagfarnus, a'r camau y dylai aelod eu cymryd yn ôl natur ei fuddiant, sy'n achosi'r anhawster mwyaf i aelodau.

Mae'r paragraffau isod yn cynnig canllawiau yn y maes hwn. Rwyf yn argymell yn gryf, os nad ydych yn sicr a oes gennych fuddiant personol neu ragfarnus, neu, os oes gennych fuddiannau o'r fath, pa gamau y dylech eu cymryd, y dylech ofyn i'ch Clerc am gyngor. Fodd bynnag, chi fydd yn penderfynu pa gamau y dylid eu cymryd.

Er mwyn rhoi mwy o gymorth i chi, rwyf wedi cynnwys siart llif mewn Atodiad i'r canllawiau hyn. Mae wedi'i seilio ar ddogfen a baratowyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'n mynd â chi drwy'r cwestiynau y dylech ofyn i chi'ch hun wrth benderfynu a oes gennych fuddiant. Mae'r siart llif yn un esboniadol yn unig ac nid yw'n un swyddogol.

Mae canllawiau ar gofrestru buddiannau yn Rhan 4.

**Oes gennych chi gyswllt neu gysylltiad agos â'r eitem dan sylw?**

## Buddiannau Personol

## Gweler paragraff 10

Wrth i chi gyflawni'ch dyletswyddau, bydd angen i chi benderfynu a oes gennych fuddiant personol ac, os felly, a oes angen i chi ei ddatgelu. Mae'r rhan fwyaf o aelodau'n gwybod bod angen datgelu buddiannau personol mewn cyfarfodydd, ond mae adegau eraill, er enghraifft, wrth siarad â'r Clerc am y mater dan sylw, pan fydd angen i chi wneud hynny hefyd. Mae rhagor o fanylion am hyn isod.

Isod mae rhestr o gwestiynau y dylech eu gofyn wrth benderfynu a oes gennych fuddiant.

### Oes gennyf i fuddiant personol?

Bydd gennych **fuddiant personol** mewn rhan o fusnes eich Cyngor, gan gynnwys penderfyniadau sydd i'w gwneud, pan fydd honno'n ymwneud â neu'n debygol o effeithio ar:

1. eich swydd neu'ch busnes

2. eich cyflogwr, neu unrhyw ffyrm rydych yn bartner neu'n gyfarwyddwr sy'n cael tâl ynddo

3. unrhyw un sydd wedi talu am gostau'ch ethol neu'ch treuliau fel aelod

4. unrhyw gwmni y mae gennych gyfrannau ynddo sydd â gwerth nominal o fwy na £25,000 neu lle mae'ch daliad yn fwy nag 1% o gyfanswm y cyfalaf cyfrannau a ddyroddwyd, sydd ag eiddo neu dir yn ardal eich Cyngor

5. unrhyw gontract y mae'ch Cyngor yn ei wneud â chwmni rydych yn bartner, yn gyfarwyddwr sy'n cael tâl neu'n dal cyfrannau ynddo fel y nodwyd yn 4

6. unrhyw dir y mae gennych fuddiant ynddo ac sydd yn ardal eich Cyngor (mae hyn yn bwysig iawn ym mhob mater cynllunio gan gynnwys cynlluniau strategol)

7. unrhyw dir a osodir gan eich Cyngor i gwmni rydych yn bartner neu'n gyfarwyddwr sy'n cael tâl ynddo neu gorff fel y nodwyd yn 4

8. unrhyw gorff rydych wedi cael eich ethol, eich penodi neu eich enwebu iddo gan eich Cyngor

9. unrhyw

- awdurdod neu gorff cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus
- cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen neu gorff a gyfarwyddir at ddibenion elusennol
- corff ac iddo'r brif swyddogaeth o ddylanwadu ar bolisi neu farn gyhoeddus
- undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol
- clwb neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu yn ardal eich Cyngor, yr ydych yn aelod ohono neu lle rydych mewn swydd reoli gyffredinol, neu

10. unrhyw dir yn ardal eich Cyngor y mae gennych drwydded i'w feddiannu am o leiaf 28 diwrnod.

Mae bob amser yn fwy diogel datgan buddiant.  Fodd bynnag, holwch eich Clerc neu Swyddog Monitro os nad ydych yn sicr.

**Materion sy'n effeithio ar eich lles neu'ch sefyllfa ariannol**

Os gellid ystyried bod penderfyniad yn effeithio ar eich lles neu'ch sefyllfa ariannol chi neu les neu sefyllfa ariannol unrhyw un sy'n byw gyda chi neu rywun y mae gennych **gysylltiad personol agos** ag ef, yn fwy na phobl eraill yn ardal eich Cyngor, mae gennych fuddiant personol.

Enghreifftiau o benderfyniadau o'r math hwn yw materion amlwg fel dyfarnu contractau i gwmni'ch partner, yn ogystal â materion sy'n ymwneud â lleoli datblygiadau, lle gallai hynny wneud gwahaniaeth mawr i le rydych chi neu bobl y mae gennych gysylltiad agos â nhw yn byw.  Un enghraifft a gafwyd oedd lleoli meysydd chwarae, lle mae aelodau etholedig wedi

gwrthwynebu eu lleoli ger eu tai oherwydd materion yn ymwneud â sŵn.

**Beth yw "corff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus"?**

Mae'r ymadrodd "corff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus" wedi cael ei ddehongli'n eang gan y llysoedd at nifer o ddibenion gwahanol. Er nad yw'n bosibl gwneud rhestr derfynol o gyrff o'r fath, dyma rai o'r meini prawf i'w hystyried wrth benderfynu a yw corff yn cwrdd â'r diffiniad hwnnw:

- A yw'r corff hwnnw'n cyflawni gwasanaeth cyhoeddus?
- A yw'r swyddogaeth yn cael ei harfer o dan ddeddfwriaeth neu'n unol â phŵer statudol?
- A ellir cael adolygiad barnwrol o'r corff?

Wrth gynnal busnes cyngor cymuned mae'n debygol y byddwch yn gweithredu ar gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus. Gallech wneud hyn hefyd os ydych wedi cael eich penodi i weithredu ar ran y Cyngor mewn grŵp buddiant neu brosiect cymunedol.

**Beth yw ystyr "effeithio ar lesiant neu sefyllfa ariannol"?**

Un diffiniad posibl o'r term 'llesiant' yw bod yn fodlon a hapus. Mae unrhyw beth sy'n effeithio ar eich ansawdd bywyd, yn gadarnhaol neu'n negyddol, yn debygol o effeithio ar eich llesiant. Gall buddiant personol effeithio yn gadarnhaol ac yn negyddol arnoch chi neu ar bobl y mae gennych gysylltiad personol agos â nhw. Felly, os yw'n bosibl i chi neu iddyn nhw ennill neu golli oherwydd mater sy'n cael ei ystyried, mae angen i chi ddatgan buddiant personol yn y naill sefyllfa a'r llall.

**Mae pobl y mae gennych gysylltiad personol agos â nhw'n cynnwys ffrindiau, perthnasau, rhai rydych yn ymwneud â nhw drwy fusnes a rhai rydych wedi bod mewn anghydfod â nhw**

**Beth yw'r diffiniad o rywun y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef?**

Mae pobl y mae gennych gysylltiad personol agos â nhw yn cynnwys pobl fel ffrindiau agos, cydweithwyr y mae gennych gysylltiadau cryf iawn â nhw, pobl rydych yn ymwneud â nhw drwy fusnes a pherthnasau agos. Nid yw'n cynnwys cydnabod achlysurol, perthnasau pell neu bobl nad ydych ond yn dod i gysylltiad â nhw drwy'ch swydd fel aelod neu'ch gwaith yn y gymuned leol.

Gall pobl y mae gennych gysylltiad personol agos â nhw hefyd olygu rhywun rydych wedi bod mewn anghydfod ag ef, neu rywun y gellid credu bod gennych fuddiant mewn achosi anfantais iddo. Er enghraifft, ni fyddai bod yn aelod o'r un clwb golff â rhywun arall ynddo'i hun yn golygu bod gennych gysylltiad personol agos ag ef ond, os oeddech yn bartner golff iddo bob wythnos, gallai hynny olygu bod gennych gysylltiad personol agos ag ef. Os nad ydych yn siŵr, holwch eich Clerc neu Swyddog Monitro.

**Aelodau sy’n ”gwisgo dwy het”**

Os ydych yn aelod o gyngor cymuned ac o gyngor sir, ni chewch eich atal rhag trafod yr un materion yn y ddau le.  Er enghraifft, gallwch gymryd rhan mewn trafodaeth am gais cynllunio yr ymgynghorwyd â’ch Cyngor Cymuned yn ei gylch, a chymryd rhan wedyn mewn penderfynu ar y cais os ydych yn eistedd ar Bwyllgor Cynllunio eich Cyngor Sir.

Os byddwch yn gwneud hyn, fe’ch cynghorir yn gryf i ddweud yng nghyfarfod y Cyngor Cymuned y byddwch yn edrych ar y mater o’r newydd wrth ei ystyried yng nghyfarfod y Cyngor Sir, ac y byddwch yn ystyried yr holl wybodaeth a chyngor a roddir i chi.  Yn y Pwyllgor Cynllunio, dylech ddweud yn glir nad ydych wedi cael eich rhwymo gan farn y Cyngor Cymuned. Mae’r cyngor ynghylch gwneud penderfyniadau gwrthrychol yng nghyd-destun paragraff 8 o’r Cod yn berthnasol yma hefyd.

Wrth gwrs, os oedd y cais wedi cael ei gyflwyno gan y Cyngor Cymuned, yna byddai gennych fuddiant personol a buddiant rhagfarnus, a byddai’n ofynnol i chi ei ddatgan a thynnu’n ôl yn unol â’r canllawiau isod ynghylch “beth i’w wneud os oes gennych fuddiant rhagfarnus”.

**Enghraifft**

Cafwyd bod aelod o Gyngor Cymuned wedi torri’r Cod drwy fethu â datgan buddiant personol a rhagfarnus mewn cyfarfod a oedd yn trafod cydnabyddiaeth ariannol y Clerc; roedd yr aelod a’r Clerc mewn perthynas ac wedi dyweddïo ar y pryd.  Penderfynodd y Panel Dyfarnu y dylai’r aelod fod wedi datgan buddiant personol yn yr eitem busnes oherwydd ei gysylltiad personol agos â’r Clerc.  Penderfynwyd hefyd fod natur y berthynas rhwng yr aelod a’r Clerc yn achosi buddiant rhagfarnus gan ei fod yn golygu mantais sylweddol i’w ddarpar briod.  Roedd y Panel Dyfarnu yn credu y byddai’r buddiant yn effeithio ar ganfyddiad y cyhoedd o allu’r aelod i wneud penderfyniad er budd y cyhoedd.

Roedd y Panel Dyfarnu wedi nodi eto mai’r cwestiwn hanfodol oedd nid a oedd yr aelod wedi gwneud y penderfyniad heb ragfarn ond a oedd yn ymddangos ei fod wedi gwneud hynny. Cafodd yr aelod ei atal o’i swydd am 3 mis.

**Beth os nad ydw i’n gwybod am fy muddiant personol?**

Dim ond os ydych yn ymwybodol o fuddiant personol neu **os byddai’n rhesymol disgwyl i chi fod yn ymwybodol ohono** y bydd y ddyletswydd i ddatgan buddiant personol mewn cyfarfod yn gymwys.  Wrth reswm, nid oes disgwyl i chi ddatgan rhywbeth nad ydych yn ymwybodol ohono.  Ni fyddai’n ymarferol disgwyl i chi ymchwilio i gyflogaeth, buddiannau busnes a gweithgareddau eraill eich holl berthnasau a phawb y mae gennych gysylltiad agos â nhw.  Fodd bynnag, ni ddylech anwybyddu bodolaeth buddiannau y dylech wedi bod yn ymwybodol ohonynt, o safbwynt sylwedydd rhesymol a gwrthrychol.

**Ar ôl datgelu buddiant, cewch aros a chymryd rhan os nad yw'n fuddiant rhagfarnus**

## Beth i'w wneud os oes gennych fuddiant personol

## Gweler paragraff 11

Os byddwch yn penderfynu bod gennych fuddiant personol, yna rhaid i chi gymryd y camau canlynol cyn i'r mater gael ei drafod neu cyn gynted ag y daw'n amlwg i chi ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig:

- Datgan bod gennych fuddiant personol, a natur y buddiant hwnnw
  - mewn cyfarfodydd
  - wrth gyflwyno sylwadau ysgrifenedig (gan gynnwys negeseuon e-bost, ffacs etc.)
  - wrth wneud sylwadau ar lafar, hyd yn oed os yw'ch buddiant ar y gofrestr buddiannau.
- Cadarnhau'ch buddiant drwy neges e-bost neu mewn llythyr i'r swyddog cysylltiedig ac i'r Clerc cyn pen 14 diwrnod
- Ystyried a oes gennych fuddiant rhagfarnus (gweler isod).

Os ydych wedi cytuno â'r Clerc neu Swyddog Monitro fod y wybodaeth am eich buddiant personol yn wybodaeth sensitif, yna dylech ddatgan bodolaeth y buddiant personol, a chadarnhau bod y Clerc neu Swyddog Monitro wedi cytuno bod y wybodaeth amdano'n sensitif. Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn yr adran isod.

Os ydych yn datgan buddiant personol, cewch aros yn y cyfarfod, siarad a phleidleisio ar y mater, **oni bai fod eich buddiant personol hefyd yn fuddiant rhagfarnus**. Mae'r adran nesaf yn amlinellu'r hyn sy'n fuddiant rhagfarnus.

**Peidiwch â phenderfynu ar sail eich barn eich hun yn unig - meddyliwch beth fyddai aelod o'r cyhoedd yn ei feddwl**

## Buddiannau Rhagfarnus

## Gweler paragraff 12

### Oes gennyf i fuddiant rhagfarnus?

Bydd eich buddiant personol hefyd yn fuddiant rhagfarnus mewn mater os byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd, sy'n gwybod am y ffeithiau perthnasol, feddwl bod eich buddiant personol mor arwyddocaol fel ei fod yn debygol o liwio'ch barn ynghylch budd y cyhoedd. Ceir esemptiadau i hyn ym mharagraff 12(2) o'r Cod er bod nifer o'r enghreifftiau'n annhebygol o fod yn berthnasol i fusnes cyngor cymuned.

### Beth sydd mor arwyddocaol fel ei fod yn debygol o liwio'ch barn?

Os byddai aelod rhesymol o'r cyhoedd sy'n gwybod yr holl ffeithiau perthnasol yn meddwl y gallai'ch barn am y budd i'r cyhoedd fod wedi'i rhagfarnu, yna mae gennych fuddiant sy'n rhagfarnu. **Prawf gwrthrychol** yw hwn. Rhaid i chi benderfynu ar hyn - nid a fyddech yn gwneud y penderfyniad heb ragfarn, ond a ellid gweld eich bod yn gwneud hynny.

Rhaid i chi ofyn i chi'ch hun a fyddai **aelod o'r cyhoedd,** os oedd yn gwybod yr holl ffeithiau perthnasol, yn meddwl bod eich buddiant personol mor arwyddocaol fel y byddai'n debygol o liwio'ch barn. Mewn geiriau eraill, rhaid i'r buddiant ymddangos fel pe bai'n gallu niweidio neu amharu ar eich gallu i farnu budd y cyhoedd.

Fel arfer, ni fydd bodolaeth gwybodaeth leol, neu gysylltiadau o fewn y gymuned leol, yn ddigon ar eu pen eu hunain i fodloni'r prawf. Rhaid cael rhyw ffactor a all niweidio'ch gallu i farnu budd y cyhoedd yn wrthrychol. Mae natur y mater hefyd yn bwysig, gan gynnwys a yw'n effeithio ar nifer mawr o bobl yn yr un modd ynteu a oes effaith benodol arnoch chi neu ar grŵp llai.

Rhaid cofio egwyddorion cyffredinol wrth gymhwyso'r prawf hwn. Mae'n amlwg y dylech weithredu er budd y cyhoedd ac nid er budd pobl y mae gennych gysylltiad personol agos â nhw. Rydych yn gwarchod y pwrs cyhoeddus a budd y cyhoedd a dylai'ch ymddygiad a'ch penderfyniadau adlewyrchu'r cyfrifoldeb hwn.

Byddai gennych fuddiant rhagfarnus mewn ystyried a phenderfynu ar gais cynllunio os oedd rhywun y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef (er enghraifft, eich mab neu gyfaill agos) yn byw y drws nesaf i'r safle dan sylw. Y rheswm am hyn yw y byddai'r cais yn debygol o gael mwy o effaith ar y sawl y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef nag ar y rhan fwyaf o'r bobl sy'n byw yn ardal eich Cyngor ac mae hyn yn golygu bod gennych fuddiant personol yn y mater. Mae bodolaeth y cyswllt personol agos yn golygu y byddai aelod rhesymol o'r cyhoedd yn gallu meddwl y byddai hyn yn lliwio'ch barn am fudd y cyhoedd wrth ystyried y cais cynllunio. **Nid oes gwahaniaeth a fyddai'n gwneud hynny mewn gwirionedd ai peidio**.

Mewn achosion eraill, lle cafwyd anghydfod rhyngoch chi ac unigolyn y byddai penderfyniad yn gallu bod o anfantais iddo, gallai aelod gwybodus rhesymol o'r cyhoedd gasglu y byddech yn tueddu i bleidleisio'n unol â hynny, boed hynny'n wir ai peidio.

Ni fydd buddiant rhagfarnus gan gynghorwyr cymuned mewn penderfyniadau gan eu Cyngor sy'n ymwneud â grantiau, benthyciadau neu gymorth ariannol arall i grwpiau cymunedol neu sefydliadau gwirfoddol os nad yw'n werth mwy na £500. Ar ben hynny, ni fydd gan gynghorwyr cymuned sydd wedi'u penodi i'r grŵp cymunedol neu'r sefydliad gwirfoddol dan sylw, e.e. bwrdd neuadd gymunedol, gan eu Cyngor Cymuned ddim buddiant sy'n rhagfarnu mewn penderfyniadau a wneir gan eu Cyngor yng nghyswllt unrhyw grantiau, benthyciadau neu gymorth ariannol arall. Ar y llaw arall, os ydych yn aelod o fwrdd o'r fath drwy'ch hawl eich hun a heb gael eich penodi gan eich Cyngor, yna bydd gennych fuddiant rhagfarnus.

## Beth i'w wneud os oes gennych fuddiant rhagfarnus

**Rhaid i chi ddatgan eich buddiant a gadael yr ystafell**

### Gweler paragraff 14

Os ydych yn credu bod gennych fuddiant rhagfarnus ym musnes eich Cyngor, rhaid i chi gymryd camau penodol.

Er hynny, hyd yn oed os oes gennych fuddiant rhagfarnus, mae'r Cod yn cefnogi'ch rôl fel

eiriolwr cymunedol ac yn eich galluogi, mewn rhai amgylchiadau, i gynrychioli'ch cymuned ac i siarad am faterion sy'n bwysig iddyn nhw ac i chi.

**Pwynt allweddol**: Os oes gennych fuddiant rhagfarnus mewn mater sy'n cael ei drafod mewn cyfarfod, ar ôl i chi ddatgan eich buddiant personol yn y mater, rhaid i chi adael yr ystafell (neu unrhyw leoliad arall lle mae'r cyfarfod yn cael ei gynnal gan gynnwys, er enghraifft, lleoliad cyfarfod safle).

**Mae hyn yn berthnasol oni bai fod aelodau o'r cyhoedd yn cael cyflwyno sylwadau, rhoi tystiolaeth neu ateb cwestiynau am y mater,** drwy hawl statudol neu fel arall. Os felly, cewch chi hefyd ddod i'r cyfarfod i wneud hynny neu gyflwyno sylwadau drwy lythyr i'r cyfarfod cyhoeddus. Fodd bynnag, os byddwch yn dod i'r cyfarfod, rhaid i chi adael yr ystafell neu'r siambr ar unwaith wedi i'r cyfnod ar gyfer ystyried sylwadau ddod i ben, a chyn dechrau unrhyw drafodaeth am yr eitem, hyd yn oed os yw aelodau o'r cyhoedd yn cael aros. Ni chewch aros yn yr oriel gyhoeddus i wylio'r bleidlais ar y mater.

Ar ben hynny, rhaid i chi beidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad y mae gennych fuddiant rhagfarnus ynddo. Mae'r rheol hon yn debyg i'ch dyletswydd gyffredinol i beidio â defnyddio'ch safle fel aelod yn amhriodol i roi mantais neu anfantais i chi'ch hun neu i rywun arall. Felly, yn ogystal â gadael cyfarfodydd lle mae'r eitem yn cael ei thrafod, ni ddylech ysgrifennu na gwneud sylwadau ar lafar am y mater.

Nid yw'r Cod yn rhoi hawl gyffredinol i chi siarad mewn cyfarfod pan fydd gennych fuddiant rhagfarnus. Mae'r Cod yn ceisio sicrhau bod aelodau'n cael yr un hawliau ag aelodau cyffredin o'r cyhoedd i siarad ar faterion penodol mewn cyfarfodydd, er bod ganddynt fuddiant rhagfarnus. Fel arfer, mae'r hawliau hyn yn cael eu rheoli gan gyfansoddiad, rheolau gweithdrefn neu reolau sefydlog eich Cyngor, a gallent fod yn rhwym wrth amodau gan gynnwys terfynau amser neu'r ffaith mai dim ond yn ysgrifenedig y ceir cyflwyno sylwadau.

Pe byddai aelod cyffredin o'r cyhoedd yn cael siarad mewn cyfarfod am eitem benodol, dylech chi gael yr un cyfle. Byddwch yn gallu gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth, hyd yn oed os oes gennych fuddiant rhagfarnus yn yr eitem. Mae newidiadau diweddar yn y Cod hefyd yn darparu'r hawl i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r cyfarfod cyhoeddus yn yr amgylchiadau hyn. Fodd bynnag, ni chewch gymryd rhan yn y drafodaeth na gwylio'r bleidlais.

### Pryd y bydd yn rhaid i mi adael man y cyfarfod?

Rhaid i chi adael ar unwaith wedi i'r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau, rhoi tystiolaeth neu ateb cwestiynau ddod i ben, a chyn dechrau unrhyw drafodaeth.

### Beth mae dylanwadu ar benderfyniad yn ei olygu?

Rhaid i chi beidio â chyflwyno sylwadau na chymryd rhan mewn penderfyniadau y mae gennych fuddiant rhagfarnus ynddynt, ac eithrio lle mae gennych chi hawl i siarad fel yr eglurwyd

uchod.  Gallai'ch presenoldeb yn unig gael ei ystyried yn ffactor a allai ddylanwadu ar y broses penderfynu.

**Beth os na chaiff y cyhoedd siarad yn y cyfarfod am y mater?**

Os na chaiff aelod cyffredin o'r cyhoedd siarad am y mater, ni chewch chi wneud hynny na chyflwyno sylwadau ysgrifenedig os oes gennych fuddiant rhagfarnus. Rhaid i chi adael y man lle cynhelir y ddadl a rhaid i chi beidio â cheisio dylanwadu ar y drafodaeth mewn unrhyw ffordd.

Gall hyn ddigwydd, er enghraifft, pan fydd eich Cyngor yn trafod mater cyfrinachol mewn sesiwn gaeedig neu pan nad oes ganddo reolau gweithdrefn neu reolau sefydlog ar waith sy'n caniatáu i aelodau o'r cyhoedd siarad yn un o gyfarfodydd eich Cyngor.  Yn yr un modd â'r cyhoedd, ni chewch chi gymryd rhan os oes gennych fuddiant rhagfarnus.  Fodd bynnag, os yw'r cyhoedd yn cael eistedd yn yr oriel gyhoeddus i wylio'r cyfarfod, **bydd yn ofynnol i chi adael yr ystafell yn ystod y ddadl a'r bleidlais.**

**Enghraifft**

Cafwyd bod aelod o Gyngor Cymuned wedi torri'r Cod drwy fethu â datgan buddiant personol a rhagfarnus mewn cyfarfod a oedd yn ystyried cais cynllunio am fferm wynt ar dir cyfagos i fferm yr oedd yn berchen arni.  Roedd yr aelod wedi gwneud cytundeb Lesio Hawliau ar ei thir i hwyluso mynediad at y datblygiad arfaethedig.  Ar y dechrau, roedd yr aelod yn dibynnu ar y ffaith bod cymal cyfrinachedd yn y cytundeb hwn i egluro ei gweithredoedd.  Er hynny, roedd yr aelod wedi cymryd rhan mewn pleidlais gudd a gynhaliwyd i benderfynu a fyddai'r Cyngor Cymuned yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cais.

Yn union cyn y gwrandawiad gerbron y Panel Dyfarnu, derbyniodd yr aelod fod ganddi fuddiant personol yn yr eitem ac wedyn ei fod yn fuddiant rhagfarnus. Penderfynodd y Panel Dyfarnu fod yr aelod wedi methu â chydymffurfio â pharagraffau 11(1) a 14(1) o'r Cod.  Roedd o'r farn bod yr aelod wedi gadael i'w buddiannau personol gael y llaw uchaf a bod cadw'r buddiannau hynny'n breifat yn groes i'w dyletswyddau a chyfrifoldebau fel aelod etholedig.  Cafodd ei hatal o'i swydd am 3 mis.

## Goddefebau

### Os oes gennyf fuddiant rhagfarnus, a allaf gael goddefeb i ganiatáu i mi gymryd rhan yn y cyfarfod?

Gallwch wneud cais ysgrifenedig i Bwyllgor Safonau eich Cyngor Sir am oddefeb ar un neu ragor o'r seiliau canlynol:

- y byddai o leiaf 50 y cant o aelodau'r Cyngor neu'r Pwyllgor yn cael eu hatal rhag cymryd rhan lawn mewn cyfarfod oherwydd buddiannau rhagfarnus

y byddai o leiaf hanner y cabinet yn cael ei atal rhag gwneud hynny (dylid cynnwys yr arweinydd yn y cabinet wrth gyfrifo'r gyfran)

• yn achos cyngor sir/cyngor bwrdeistref sirol, y byddai'n amharu cymaint ar y cydbwysedd gwleidyddol yn y cyfarfod fel y byddai'n debygol o effeithio ar y canlyniad

• oherwydd natur eich buddiant, na fyddai'r ffaith eich bod yn cymryd rhan yn niweidio hyder y cyhoedd

• bod eich buddiant yn gyffredin ymysg cyfran sylweddol o'r cyhoedd

• bod gennych rôl neu arbenigedd penodol a fyddai'n cyfiawnhau eich cyfranogiad

• bod y mater yn ymwneud â chyllid neu eiddo sefydliad gwirfoddol ac rydych chi'n aelod o'i fwrdd neu ei bwyllgor drwy'ch hawl eich hun ac nid oes gennych fuddiant arall, er na fydd goddefeb a roddir i chi yn yr enghraifft hon yn caniatáu i chi bleidleisio ar y mater, neu

• bod y pwyllgor yn credu y byddai er budd y bobl yn ardal eich Cyngor i chi gymryd rhan a bod y pwyllgor yn hysbysu Gweinidogion Cymru cyn pen saith niwrnod.

• bod y pwyllgor yn credu ei bod yn briodol yn yr holl amgylchiadau, lle nad oedd yn bosibl fel arall, er mwyn gwneud addasiadau rhesymol i ddarparu ar gyfer anabledd rhywun.

Gallwch wneud cais am oddefeb yn unigol ac, mewn rhai amgylchiadau, gallwch wneud ceisiadau ar y cyd os yw nifer o aelodau am gael goddefeb i siarad neu bleidleisio ar yr un mater. Os bydd y Pwyllgor Safonau'n cymeradwyo eich cais, rhaid iddo roi'r oddefeb yn ysgrifenedig a chyn cynnal y cyfarfod. Os oes angen goddefeb arnoch, dylech wneud cais am un cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl.

Dim ond y Pwyllgor Safonau a all roi'r oddefeb a bydd yn gwneud hynny yn ôl ei ddisgresiwn. Bydd angen i'r Pwyllgor Safonau gydbwyso budd y cyhoedd mewn atal aelodau sydd â buddiannau rhagfarnus rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau gan grŵp o aelodau'r Cyngor sy'n weddol gynrychiadol. Pe byddai Cyngor neu bwyllgor yn methu â chael cworwm heb roi goddefeb, gall hyn fod yn rheswm dros roi goddefeb.

Os ydych wedi cael goddefeb, gallwch hefyd gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ond rhaid i chi roi manylion yr oddefeb ym mhob gohebiaeth. Os byddwch yn gwneud sylwadau llafar, yn bersonol neu dros y ffôn, rhaid i chi gyfeirio at yr oddefeb a chadarnhau hyn drwy lythyr cyn pen 14 diwrnod.

# 4. Cofrestru Buddiannau

## Gweler paragraff 15

**Pwyntiau allweddol**

Mae'n ofynnol i gynghorau cymuned gadw a chyhoeddi cofnod o fuddiannau eu haelodau mewn cofrestr o fuddiannau a gyhoeddir yn electronig.  Mae'r cofnod hwn yn cael ei gadw gan eich Clerc.  Mae'r gofrestr yn ddogfen y gellir ei chwilio pan fydd mater yn codi (neu cyn hynny), ac felly mae'n gadael i bobl eraill wybod pa fuddiannau sydd gennych, ac a allent arwain at wrthdaro buddiannau posibl.

Mae'r gofrestr yn eich amddiffyn chi hefyd.  Chi sy'n gyfrifol am benderfynu a fyddwch yn datgan buddiant mewn cyfarfod, ond gall fod o gymorth i chi wybod yn gynnar a yw pobl eraill yn credu y gellid cael gwrthdaro buddiannau.  Mae hefyd yn bwysig bod y cyhoedd yn gwybod am unrhyw fuddiant y byddwch chi neu aelodau eraill yn gorfod ei ddatgan, fel bod y cyhoedd yn gallu gweld bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd agored a gonest.  Mae hyn yn helpu i gynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn uniondeb llywodraethu lleol.

O ganlyniad i newidiadau diweddar yn y Cod, mae hefyd yn ofynnol, pan ddewch i wybod am newid mewn buddiant personol a gofrestrwyd, eich bod yn cofrestru'r newid hwnnw drwy hysbysu'ch Clerc drwy lythyr cyn pen 28 diwrnod.  Mae hefyd yn ofynnol, wrth ddatgelu buddiant personol am y tro cyntaf, eich bod yn ei gofrestru yn y gofrestr buddiannau drwy hysbysu'r Clerc drwy lythyr.

## Rhoddion a lletygarwch

**Gweler paragraff 17**

**Pwyntiau allweddol**

Rhaid i chi hysbysu'ch Clerc am unrhyw roddion neu letygarwch sy'n werth mwy na'r swm a bennwyd gan eich Cyngor a gewch yng nghyswllt eich dyletswyddau swyddogol fel aelod, ynghyd â ffynhonnell y rhodd neu'r lletygarwch.

Yn yr un modd â buddiannau eraill yn eich cofrestr buddiannau, gall fod gennych **fuddiant personol** mewn mater sy'n cael ei ystyried os yw'n debygol o effeithio ar berson a roddodd rodd neu letygarwch i chi sydd wedi'i gofrestru.  Os felly, rhaid i chi ddatgan bodolaeth a natur y rhodd neu'r lletygarwch, y person a'i rhoddodd i chi, sut y mae'r mater dan sylw yn berthnasol i'r person hwnnw ac wedyn penderfynu a yw'r buddiant hwnnw hefyd yn **fuddiant rhagfarnus**.  Mae hefyd yn arfer da darparu nodyn am unrhyw gynigion o roddion rydych wedi'u gwrthod.

**A yw'r rhodd neu'r lletygarwch yn gysylltiedig â'm dyletswyddau swyddogol fel aelod?**

Dylech ofyn i chi'ch hun, a fyddwn i wedi cael y rhodd hon pe na bawn i ar y Cyngor? Os nad ydych chi'n siŵr o'r cymhelliant y tu ôl i rodd neu letygarwch, rwyf yn argymell eich bod yn ei gofrestru neu'n siarad â'ch Clerc.

Nid oes angen i chi hysbysu'r Clerc am roddion a lletygarwch nad ydynt yn berthnasol i'ch rôl fel aelod, fel anrhegion Nadolig gan eich ffrindiau a'ch teulu, na rhoddion nad ydych yn eu derbyn. Fodd bynnag, dylech bob amser hysbysu'r Clerc am rodd neu letygarwch os byddai modd i bobl ei weld yn rhywbeth a roddwyd i chi oherwydd eich safle neu os yw eich Cyngor yn mynnu eich bod yn gwneud hynny.

**Beth os nad wyf yn gwybod beth yw gwerth rhodd neu letygarwch?**

Yn gyffredinol, os nad ydych yn siŵr o werth rhodd neu letygarwch, dylech hysbysu'r Clerc amdano, fel mater o arfer da ac yn unol â'r egwyddorion o fod yn agored ac yn atebol mewn bywyd cyhoeddus.


Efallai y bydd yn rhaid i chi amcangyfrif gwerth y rhodd neu'r lletygarwch. Hefyd, os ydych wedi cael nifer o roddion bach o'r un ffynhonnell dros gyfnod byr sydd, gyda'i gilydd, yn cyrraedd y gwerth a bennwyd gan eich Cyngor, dylech gofrestru hynny.

Mae'r Cod hefyd yn cyfeirio at fuddiant neu fantais faterol. Y ffordd o fesur hyn yw meddwl a fyddai sylwedydd annibynnol gwybodus yn gallu dod i'r casgliad y gellid gweld eich bod ar eich ennill o ganlyniad.

# Atodiad 1

## Datganiad o fuddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu

**Cwestiynau i ofyn i chi'ch hun. Os nad ydych yn siŵr, holwch eich Clerc neu eich Swyddog Monitro.**



## Mwy o wybodaeth

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn 01656 644200
Ffacs 01656 641199

e-bost holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk (ymholiadau cyffredinol)

Dilynwch ni ar Twitter: @OmbudsmanWales

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ein gwefan www.ombwdsmon-cymru.org.uk

## DATGANIADAU O DDIDDORDEB GAN AELODAU MEWN CYFARFODYDD

| |
|---|
| Enw'r Aelod: |
| Enw'r Cyfarfod: |
| Dyddiad y Cyfarfod: |
| Eitem ar y Rhaglen (rhif a theitl): |

**Rhaid i Aelodau lenwi blychau 1, 2, 3 a 4 isod.**

**1.** Natur y diddordeb personol yw:

**2.** Busnes y Cyngor y mae'r diddordeb personol yn ymwneud ag ef yw:

**3. Rhaid i'r Aelodau roi tic mewn un blwch**

☐ **Nid yw'r diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu*** ac fe gymerais ran yn yr eitem **NEU**

☐ **Mae'r diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu*** a gadewais y cyfarfod pan oedd yr eitem yn cael ei thrafod **NEU**

☐ **Mae'r diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu*** ond rwyf wedi cael caniatâd arbennig.

*Diddordeb sy'n rhagfarnu yw diddordeb personol sydd mor sylweddol fel y byddai aelod gwybodus o'r cyhoedd yn credu'n rhesymol na fyddai'r Aelod yn gallu gweithredu ar y mater er budd y cyhoedd.

4. Yn fy marn i, mae fy niddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu NEU sydd ddim yn rhagfarnu oherwydd:

Llofnod……………………………..….                    Dyddiad Llofnodi………………………

**DYLID RHOI'R FFURFLEN HON AR ÔL EI CHWBLHAU I AELOD O STAFF Y GWASANAETHAU PWYLLGOR YN YSTOD, NEU'N UNION AR ÔL, Y CYFARFOD.**



CC-016602-LB/160035

## Cofrestr Buddiannau Aelodau

Mae cofrestr buddiannau a ddatganwyd gan aelodau yn gysyniad a gynhwyswyd mewn sawl darn o ddeddfwriaeth llywodraeth leol, ac yn enwedig felly ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn ystod y ganrif hon. Mae'r cysyniad hwn yn gydnaws â llywodraethu agored a thryloyw. Ceir cysyniad tebyg ar gyfer cofnodi unrhyw roddion neu letygarwch a dderbyniwyd gan aelodau etholedig. Fodd bynnag, yn gyffredinol, cyfyngwyd gweithredu gofynion o'r fath i'r cyrff sector cyhoeddus mwy megis awdurdodau unedol. Yn fwy diweddar, mae canllawiau gan Lywodraeth Cymru wedi cadarnhau fod angen hefyd i gynghorau cymuned a thref yng Nghymru gadw "cofrestr" o'r fath a bod rhaid i'r gofrestr honno gael ei harddangos yn electronaidd ar wefan y cyngor, cyfleuster y mae'n rhaid i bob cyngor lleol ei gael o 2015/2016 ymlaen.

Yn rhwystredig iawn, cafwyd dryswch a gwahaniaethau barn a heriau ar y mater yma, o ran beth yn union sydd ei angen. Mae Un Llais Cymru yn barnu mai ystyr "cofrestr" yw dogfennaeth mewn unrhyw fformat sy'n dangos buddiannau aelodau (a byddai'r un peth yn wir ar gyfer unrhyw roddion neu letygarwch a dderbyniwyd gan aelodau). Nid yw gweision sifil Llywodraeth Cymru yn awgrymu unrhyw fformatau penodol i'r perwyl hwn yn y canllawiau a gyhoeddwyd ganddynt. Datblygodd Un Llais Cymru ffurflen enghreifftiol ar gyfer diben o'r fath (gweler isod).

## Beth mae angen i gynghorau ei wneud:

Yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, daeth yn amlwg nad yw'r cyfrifoldeb newydd i gyhoeddi'r gofrestr buddiannau ar-lein yn cynnwys llenwi'r ffurflen yr oedd Un Llais Cymru wedi'i dosbarthu i aelod gynghorau ar yr 28ain Mai 2015. Credwyd yn wreiddiol y cafodd y ddarpariaeth i eithrio cynghorwyr cymuned a thref o ofynion paragraff 15(1) y model god ymddygiad i gofrestru rhai buddiannau ariannol ac o fathau eraill o fewn 28 diwrnod i dderbyn eu swyddi ei dileu gan Ddeddf 2013. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau gyda swyddog perthnasol Llywodraeth Cymru, gwelwn nad yw hynny'n wir. Mae'r swyddog yn deall efallai y bu dryswch ar y mater hwn, ac fe gadarnhaodd nad yw Deddf 2013 yn effeithio o gwbl ar ofynion y cod ymddygiad sy'n ymwneud â datgelu a chofrestru buddiannau. Yn fyr, mae gofynion y cod ymddygiad, fel y mae'n berthnasol i gynghorau cymuned a thref, fel a ganlyn:

a) Rhaid i gynghorwyr ddatgan buddiant personol ac, os yn briodol, fuddiant rhagfarnol sy'n gysylltiedig â materion perthnasol pan maent yn bresennol mewn cyfarfodydd.
b) Pan mae cynghorwyr yn datgan buddiant personol am y tro cyntaf, rhaid iddynt roi cadarnhad ysgrifenedig o'r buddiant i'r Swyddog Priodol, cyn neu'n union wedi diwedd y cyfarfod. Mae'n arfer da i'r Swyddog Priodol gofnodi'r datganiadau hyn yng nghofnodion y cyfarfod.
c) Dylai'r Swyddog Priodol gofnodi buddiannau a ddatganwyd mewn cyfarfodydd am y tro cyntaf yn y gofrestr buddiannau yn unol ag adran 81 Deddf Llywodraeth Leol 2000. Rhaid i'r gofrestr fod ar gael i'w harchwilio gan

10/8/15

y cyhoedd ar unrhyw adeg resymol ac, yn dilyn dyfodiad Deddf 2013, rhaid iddi gael ei gosod ar wefan y cyngor.
d) Dylid diweddaru'r gofrestr cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol yn dilyn pob cyfarfod pan gaiff buddiannau newydd eu datgan.

Pa ddatganiadau i'w cofnodi:

Dylid gwneud datganiadau o fuddiannau yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru (trowch at y Canllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer aelodau cynghorau cymuned – sydd ar gael ar lecyn aelodau gwefan Un Llais Cymru). Mae'r canllawiau yn cynnwys manylion am fuddiannau personol a rhagfarnol ac maent yn cyfeirio hefyd at roddion a lletygarwch. Yn y pendraw, mater i'r aelodau yw penderfynu a ydynt yn gwneud datganiad o fuddiant ai peidio, gan ddibynnu ar amgylchiadau eu sefyllfa. Mae gan eraill (trydydd partïon) wastad yr hawl i herio unrhyw fethiant i ddatgan buddiant, ac mae'n bwysig felly fod aelodau'n cael eu hatgoffa i gymryd materion o'r fath o ddifrif.

Templed ar gyfer cofrestr/datganiadau:

Mae Un Llais Cymru wedi paratoi "templed" i'w ddefnyddio gan aelod gynghorau at ddibenion gweithredu cofrestr o'r fath, a chafodd ei ddosbarthu i aelod gynghorau. Mae copïau o'r templed hwn ar gael ar lecyn aelodau gwefan Un Llais Cymru, os oes angen. Os ydych yn defnyddio'r ffurflenni hyn (neu unrhyw rai eraill) ar gyfer cofnodi datganiadau o fuddiannau yn swyddogol, y "gofrestr" fel y cyfryw fydd y casgliad o'r holl ffurflenni yn cael eu cyflwyno gyda'i gilydd. Gellir cyflwyno'r rhain mewn unrhyw ddull cyfleus, efallai wedi'u trefnu yn ôl enw aelod neu ddyddiad. Yn naturiol, ni fydd aelodau nad ydynt wedi datgan unrhyw fuddiannau wedi llenwi unrhyw ffurflenni i'r perwyl hwnnw, sy'n golygu y bydd eu cofnodion yn wag (hynny yw, ni fydd ganddynt unrhyw gofnodion). Nid yw'n cael ei ystyried yn angenrheidiol dangos unrhyw ffurflenni "gwag" o'r fath ar wefan y cyngor, ond nid yw'n anghywir gwneud hynny os mynnwch.

10/8/15

ATODIAD 3

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Canllawiau Statudol

# Mynediad i Wybodaeth am Gynghorau Cymuned a Thref

Mai 2015

ISBN digidol 978 1 4734 3399 1
© Hawlfraint y Goron 2015
WG25090

# CANLLAW LLYWODRAETH CYMRU

# GWYBODAETH AM GYNGHORAU TREF A CHYMUNED

## Statws a Chymhwyso

Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru. Fe'i cyhoeddir, yn rhannol o dan adran 55(1) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan adran 55(1) y Ddeddf mae'n ddyletswydd statudol ar Gynghorau Cymuned a Thref i ystyried y canllaw hwn.

Mae'r canllaw hefyd yn berthnasol i'r ddarpariaeth yn y Ddeddf sy'n ymwneud â hysbysiadau cyhoeddus, cyfarfodydd a thrafodion y cynghorau a chofrestrau o fuddiannau aelodau.

## Cefndir

1. Cafodd Deddf Llywodraeth Leol ( Democratiaeth ) (Cymru ) 2013, y cyfeirir ati fel "y Ddeddf" yn y canllaw hwn, Gydsyniad Brenhinol ar 30 Gorffennaf 2013. Prif bwrpas y Ddeddf oedd diwygio cyfansoddiad a swyddogaethau'r hyn a elwir bellach yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Fodd bynnag, cyflwynodd y Ddeddf amrywiaeth o ddarpariaethau eraill sy'n gysylltiedig â llywodraeth leol.

2. Mae adrannau 55 i 58 o'r Ddeddf yn ymwneud â mynediad at wybodaeth, ac yn fwyaf penodol, fynediad at wybodaeth am Gynghorau Cymuned. (At ddibenion y canllaw hwn, mae unrhyw gyfeiriad at Gyngor neu Gynghorau Cymuned yn cynnwys unrhyw Gyngor Cymuned, Tref neu Ddinas sy'n gwasanaethu cymuned neu gymuned wedi'i grwpio ac a gafodd ei sefydlu yn unol â Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ( "Deddf 1972").

3. I grynhoi, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Cymuned gael gwefannau; i gyhoeddi hysbysiadau a phapurau'n electronig; ac i gyhoeddi eu cofrestr o fuddiannau'r aelodau yn electronig (y rhai a gedwir o dan adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ).

## Gwefannau Cynghorau Cymuned – Adran 55

4. Mae Adran 55 o Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Cymuned gyhoeddi gwybodaeth yn electronig am sut i gysylltu â hwy ac, os yw'n wahanol, sut i gysylltu â'r clerc. Mae'r wybodaeth a ddylai fod

ar gael yn electronig yn cynnwys rhif ffôn, cyfeiriad post a chyfeiriad e-bost.

5. Yn ogystal â hyn, mae’n rhaid i'r cyngor gyhoeddi’n electronig wybodaeth am bob un o'i aelodau, gan gynnwys rhestr o aelodau’r cyngor, enw pob aelod, manylion am sut i gysylltu â hwy, eu hymlyniad gwleidyddol (os o gwbl) ac unrhyw swydd a ddelir ganddynt neu bwyllgor y maent yn perthyn iddo o fewn y cyngor. Os yw'r gymuned dan sylw wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol, rhaid dangos y ward y mae pob aelod yn ei chynrychioli.

6. Rhaid i'r Cyngor Cymuned hefyd gyhoeddi cofnodion electronig o’i gyfarfodydd ac, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, ddogfennau y cyfeirir atynt yn y cyfarfodydd hynny. Mae'n rhaid iddynt hefyd gyhoeddi eu cyfrifon archwiliedig blynyddol yn electronig. Yn y ddau achos hyn, mae’n ofynnol i gynghorau gyhoeddi deunydd a gynhyrchwyd ar ôl y dyddiad pan ddaeth adran 55 i rym yn unig.

Nid yw'n ofynnol i Gynghorau Cymuned gyhoeddi unrhyw wybodaeth y maent yn cael eu hatal rhag ei datgelu gan unrhyw ddeddfwriaeth arall.

7. Wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan Adran 55, mae'n rhaid i Gynghorau Cymuned roi sylw i'r canllaw hwn.

**Canllaw ynglyn Gwefannau Cynghorau Cymuned**

8. Penderfyniad i bob Cyngor Cymuned unigol yw a fyddant yn gweithredu eu gwefan annibynnol eu hunain, neu a fyddant yn penderfynu cysylltu â Chynghorau Cymuned eraill yn eu hardal, neu â'r prif gyngor, neu ag unrhyw gorff arall sy’n hapus i gynnal eu safle. Fodd bynnag, mae’n ofynnol bod y gwefannau’n cael eu diweddaru'n rheolaidd a bod y cyhoedd yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth a ddisgrifir uchod.

9. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella cysylltiadau’r cyhoedd â llywodraeth leol yn gyffredinol a Chynghorau Cymuned yn benodol. Rydym yn teimlo ei bod yn angenrheidiol bod modd cysylltu’n electronig â phob awdurdod lleol a’u bod wedi cyhoeddi gwybodaeth ar y we. Byddai trigolion lleol yn disgwyl cael y cyfleuster hwn yn yr oes hon.

10. Mae gan y rhan fwyaf o’r Cynghorau Cymuned yng Nghymru bresenoldeb ar-lein ac maent yn cyhoeddi gwybodaeth yn electronig eisoes. Mae Cynghorau Cymuned yn cael eu hannog i ofyn am gymorth

gan Un Llais Cymru, eu Prif Gyngor neu ffynonellau dibynadwy eraill os oes angen er mwyn datblygu eu presenoldeb ar y we.

11. O dan adran 55, mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi'n electronig ei rif ffôn, ei gyfeiriad post ac e-bost ar y wefan. Mae'n rhaid cael yr wybodaeth hefyd ar gyfer clerc y Cyngor os yw'n wahanol i fanylion cysylltu â'r Cyngor. Byddai hefyd o fantais cael cyfeiriad e-bost cyffredinol at ddefnydd aelodau ac o bosibl Cadeirydd y cyngor. Mewn rhai achosion, bydd gan y Cyngor Cymuned ei swyddfeydd ei hun, neu bydd yn rhannu swyddfeydd, a byddai'n briodol cael rhif ffôn, cyfeiriad post ac e-bost y rhain hefyd. Ond bydd disgwyl i'r cynghorau gael trefniadau yn eu lle i ddarllen ac ymateb i negeseuon yn rheolaidd.

12. Nid yw'n orfodol i aelodau unigol gael cyfeiriadau e-bost. Mewn Prif Gyngor byddai hyn yn ddisgwyliedig oherwydd gall y Cyngor ei hun fel arfer roi cyfeiriadau e-bost ar wefan y Cyngor. Fodd bynnag, mae'n rhaid rhestru enwau'r aelodau a rhaid bod manylion ar-lein am sut i gysylltu â hwy. Bydd rhai cynghorau'n dymuno rhoi ffotograffau o bob aelod ar eu gwefan ond mae hyn yn benderfyniad iddynt hwy.

13. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi ymlyniad gwleidyddol aelodau'r cynghorau. Mae rhai Cynghorau Cymuned yn dewis peidio â gwneud hynny ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae hawl gan y cyhoedd i wybod beth yw argyhoeddiad gwleidyddol y rhai sydd mewn swydd etholedig, neu a ydynt yn annibynnol o unrhyw grŵp. Mae'n annerbyniol i aelod gelu ei ymlyniad gwleidyddol.

14. Os yw'r Cyngor Cymuned wedi'i rannu'n wardiau cymunedol, rhaid cyhoeddi'r ward y mae'r aelod yn ei chynrychioli. Os yw'n dal swydd o ryw fath yn y cyngor neu os yw'n perthyn i un o bwyllgorau'r cyngor, rhaid i hynny gael ei gyhoeddi ar y wefan.

15. Dylai aelodau cyfetholedig gael eu cofnodi er budd tryloywder i'w gwahaniaethu oddi wrth aelodau etholedig.

16. Mae paragraffau 4 i 6 uchod yn disgrifio'r dogfennau sydd angen eu rhoi ar y wefan. Dylai Cynghorau ddatblygu gweithdrefnau ar gyfer cadw eu gwefan mewn trefn, gan gadw archif o ddogfennau'r gorffennol am gyfnod rhesymol, ond bod modd cael gafael arnynt yn hawdd o'r dudalen flaen.

17.Os oes gan y Cyngor Gynllun Iaith Gymraeg a'i arfer o dan y Cynllun Iaith Gymraeg yw i gynhyrchu deunydd yn ddwyieithog, yna mae hynny'n berthnasol yr un fath i ddeunydd sy'n cael ei gynhyrchu yn electronig.

18.Dylai darpariaethau y Ddeddf cael ei hystyried yn amlinellu'r gofynion sylfaenol. Bydd llawer o gynghorau yn awyddus i roi llawer mwy o wybodaeth na hyn ar eu tudalennau gwe ac yn cael eu hannog i wneud hynny. Bydd angen i gynghorau roi sylw i'r Côd Ymarfer a Argymhellir ar gyfer Cyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol wrth ystyried pa mor briodol yw hyn y maent yn dymuno eu cyhoeddi.

http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/publicationsevents/publications/local-authority-publicity-wales/?lang=cy

19. Byddem yn disgwyl Cynghorau Cymuned i ystyried anghenion cymunedol gan gynnwys iaith, cyfathrebu a hygyrchedd. Mae gwefan Diverse Cymru yn rhoi arweiniad pellach.
http://www.diversecymru.org.uk

20. Dylai pob Cynghorau Cymuned a Thref gofrestru gyda'r wefan ganlynol,os hoffech Band Eang uwch gyflym gael eu hystyried yn eich cymuned leol.

http://btsf-wales-uat.lbi.co.uk/home?lang=_alt

21.O dan ddeddfwriaeth bresennol mae'n ofynnol i Gynghorau Cymuned osod unrhyw hysbysiadau cyhoeddus mewn un neu ragor o fannau amlwg yn eu hardal, ac mewn unrhyw fan arall sy'n ymddangos yn ddymunol ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhybudd (adran 232 o Ddeddf 1972). Mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad ychwanegol ar Gynghorau Cymuned i gyhoeddi unrhyw hysbysiad o'r fath yn electronig.

**Gwybodaeth am gyfarfodydd a thrafodion**

22. O dan ddeddfwriaeth mewn bodolaeth, mae'n ofynnol i Gynghorau Cymuned i bostio unrhyw hysbysiadau cyhoeddus mewn un neu fwy amlwg le yn eu hardal, ac yn unrhyw le arall sy'n ymddangos yn ddymunol ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhybudd (adran 232 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972). Mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad ychwanegol ar Gynghorau Cymuned i gyhoeddi unrhyw hysbysiad o'r fath yn electronig.

23.Mae deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes yn gwneud yn ofynnol i Gynghorau Cymuned i roi rhybudd o gyfarfodydd y Cyngor sydd ar ddod dri diwrnod clir cyn y cyfarfod cael ei gynnal drwy arddangos hysbysiad mewn lle amlwg yn y gymuned. Mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad ychwanegol ar gyfer hysbysiadau o'r fath i gael ei gyhoeddi yn electronig. Rhaid gwneud hyn dri diwrnod clir cyn y cyfarfod. Mae gofyniad i gyhoeddi yn electronig, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â'r busnes i'w drafod yn y cyfarfod

hefyd. Nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys pan fo'r dogfennau yn ymwneud â busnes sydd, ym marn y Cyngor, yn debygol i'w drafod yn breifat neu lle byddai datgelu dogfennau o'r fath yn groes i unrhyw ddeddfwriaeth arall.

24.O dan Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mae'n bosibl i gyfarfod cymunedol cael ei alw ar unrhyw adeg gan grŵp o etholwyr llywodraeth leol cyfanswm o 10% o'r etholwyr llywodraeth leol ar gyfer y gymuned, neu 50 o'r etholwyr (os yw 10% yn fwy na 50 o etholwyr ). Rhaid i'r rhai sy'n galw'r cyfarfod rhoi rhybudd i Gyngor Cymuned neu, os nad oes Cyngor Cymuned wedi'i sefydlu yn yr ardal, rhaid rhoi rhybudd i'r Prif Gyngor. O dan y darpariaethau newydd, gellir rhoi rhybudd i'r Cyngor Cymuned naill ai'n ysgrifenedig neu'n electronig. Lle mae'n cael ei roi ar ffurf electronig, rhaid i'r hysbysiad gydymffurfio â'r gofynion technegol a osodwyd gan y Prif Gyngor.

25. Mae'n rhaid i Gynghorau Cymuned a Prif Gynghorau ddarparu cyfleusterau ar gyfer hysbysiadau sydd i'w rhoi'n electronig a rhaid cyhoeddi hysbysiad cyhoeddus o'r cyfarfod cymunedol yn electronig yn ogystal â thrwy gyfryngau traddodiadol.

26.Yn olaf, mae'r Ddeddf yn cynnwys gofynion newydd sy'n ymwneud â chofrestru buddiannau aelodau. Adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn gofyn am Gyngor Cymuned (yn ogystal ag awdurdodau eraill) i gadw a chyhoeddi cofrestr o fuddiannau ariannol ac eraill aelodau fel a bennir yn y cod ymddygiad enghreifftiol (a ragnodir gan Orchymyn o dan adran 50 o'r Deddf 2000 *). Cyn cychwyn adran 58 o'r Ddeddf, mae'r gofrestr sydd ei angen i fod ar gael i'w harchwilio yn swyddfeydd y Cyngor ar bob adeg resymol. Mae Adran 58 o'r Ddeddf yn mynnu bod y gofrestr yn cael ei gyhoeddi ar ffurf electronig hefyd. Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am sefydlu a chynnal cofrestr o fuddiannau gan swyddog monitro'r prif awdurdod i'r 'swyddog priodol' o bob Cyngor Cymuned. Y 'swyddog priodol' yw'r aelod o staff y Cyngor a ddynodwyd gan y Cyngor i'r diben hwn.

* Ar hyn o bryd, 'Y Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Côd Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008'

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB GAN AELODAU MEWN CYFARFODYDD**

| |
|---|
| Enw’r Aelod: |
| Enw’r Cyfarfod: |
| Dyddiad y Cyfarfod: |
| Eitem ar y Rhaglen (rhif a theitl): |

**Rhaid i Aelodau lenwi blychau 1, 2, 3 a 4 isod.**

**1.** Natur y diddordeb personol yw:

**2.** Busnes y Cyngor y mae’r diddordeb personol yn ymwneud ag ef yw:

**3. Rhaid i’r Aelodau roi tic mewn un blwch**

☐ **Nid yw’r diddordeb personol yn un sy’n rhagfarnu*** ac fe gymerais ran yn yr eitem **NEU**

☐ **Mae’r diddordeb personol yn un sy’n rhagfarnu*** a gadewais y cyfarfod pan oedd yr eitem yn cael ei thrafod **NEU**

☐ **Mae’r diddordeb personol yn un sy’n rhagfarnu*** ond rwyf wedi cael caniatâd arbennig.

*Diddordeb sy’n rhagfarnu yw diddordeb personol sydd mor sylweddol fel y byddai aelod gwybodus o’r cyhoedd yn credu’n rhesymol na fyddai’r Aelod yn gallu gweithredu ar y mater er budd y cyhoedd.

4. Yn fy marn i, mae fy niddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu NEU sydd ddim yn rhagfarnu oherwydd:

Llofnod……………………………..….                Dyddiad Llofnodi………………………

**DYLID RHOI’R FFURFLEN HON AR ÔL EI CHWBLHAU I AELOD O STAFF Y GWASANAETHAU PWYLLGOR YN YSTOD, NEU’N UNION AR ÔL, Y CYFARFOD.**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **Cyngor Sir** |
| **DYDDIAD:** | **14 Mai 2019** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini 2018/19** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cadeiryddion y:**<br>1. **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol**<br>2. **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd ar waith y ddau bwyllgor sgriwtini yn ystod 2018/19 a darparu trosolwg o rhaglen waith sgriwtini ar gyfer 2019/20** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:**<br>**E-bost:**<br>**Rhif Ffôn** | **Anwen Davies (Rheolwr Sgriwtini)**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752578** |

1. **Argymhellion**

Gofynnir i'r Cyngor:

**A1** Gymeradwy'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini ar gyfer 2018/19

**A2** Nodi'r cynnydd parhau sy'n cael ei wneud o ran ein siwrnai leol i wella Sgriwtini a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar ymarfer

**A3** Penodi cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn Bencampwr Sgriwtini ar gyfer y cyfnod rhwng Mai, 2019 a Mai, 2020.

2. **Cefndir a chyd-destun**

**2.1** Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn ar Drosolwg a Sgriwtini yn trafod y gwaith a wnaed gan y ddau bwyllgor sgriwtini rhwng cyfarfod blynyddol y Cyngor ar 15 Mai, 2018 a 14 Mai, 2019

**2.2** Bu cadeiryddion y ddau bwyllgor sgriwtini yn arwain ar ddatblygu'r blaen raglenni gwaith yn ystod y cyfnod hwn. Caiff blaen raglenni gwaith y pwyllgorau sgriwtini eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini a gynhelir yn fisol ac i bob cyfarfod o'r pwyllgorau sgriwtini ar gyfer eu cymeradwyo

**2.3** **Ymagwedd "cyngor cyfan" i Sgriwtini:** mae rhaglen wella craffu wedi bod ar waith dros y 18 mis diwethaf gan roi sail cryf i symud ymlaen a sicrhau bod y rôl a gyflawnir gan Aelodau Sgriwtini yn nhrefniadau llywodraethu'r Awdurdod yn:

i. cefnogi dull cadarn ac effeithiol o wneud penderfyniadau
ii. gwneud cyfraniad sylweddol tuag at flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. yn parhau i esblygu.

Mae effaith a gwerth ychwanegol gweithgaredd sgriwtini'n cyfrannu at flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor drwy gefnogaeth a her.

3. **Rôl Pencampwr Sgriwtini**

**3.1** Mae gan y Pencampwr Sgriwtini rôl bwysig o ran hyrwyddo'r swyddogaeth trosolwg a sgriwtini yn y Cyngor a chyda phartneriaid allanol yr Awdurdod. Nid yw'n swydd fandadol ac ni cheir unrhyw gydnabyddiaeth ariannol am ei gwneud. Ystyrir bod y rôl yn allweddol wrth ddangos ymrwymiad yr Awdurdod i sicrhau

bod Sgriwtini yn gwneud y gorau o gyfraniad Aelodau nad ydynt yn aelodau'r Pwyllgor Gwaith i berfformiad cyffredinol ac "iechyd corfforaethol" y sefydliad

**3.2** Ar 14 Mai, 2015 penderfynodd y Cyngor y dylid penodi cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn Bencampwr Sgriwtini ar gyfer y cyfnod rhwng Mai, 2015 a Mai, 2016 ac y byddai'r rôl yn cael ei gwneud gan y ddau gadeirydd sgriwtini bob yn ail. O'r herwydd, dylid penodi Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fel y Pencampwr Sgriwtini dynodedig am y flwyddyn nesaf.

| **Atodiad:** |
|---|
| Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini 2018/19 |

F4.3--

# ADRODDIAD BLYNYDDOL TROSOLWG A SGRIWTINI:

# 2018-2019



Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

# CYNNWYS



| | |
|---|---|
| 1 | Rhagair |
| 2 | Ein strwythur lleol |
| 3 | Siwrnai sgriwtini leol |
| 4 | Asesu effaith Sgriwtini |
| 5 | Edrych ymlaen i 2019/20 |
| 6 | Cysylltu â Sgriwtini |

| ATODIADAU | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Beth ydy trosolwg a sgriwtini? |
| Atodiad 2 | Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth ein pwyllgorau sgriwtini |
| Atodiad 3 | Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o sgriwtini – sgôp |
| Atodiad 4 | Canlyniadau a Nodweddion Trosolwg a Sgriwtini Effeithiol mewn Llywodraeth Leol |
| Atodiad 5 | Y Weledigaeth ar gyfer Sgriwtini Effeithiol yn y Cyngor |

# 1. RHAGAIR

**Cynghorydd Aled Morris Jones**

- **Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2018/19**



Mae'n bleser gennyf ddarparu trosolwg o waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol dros y 12 mis diwethaf.

Caiff sgôp gwaith y Pwyllgor ei drafod yn yr adroddiad hwn ac mae'n deg nodi bod y llwyth gwaith yn parhau i fod yn sylweddol ac yn amrywiol. Cynhaliwyd cyfanswm o 20 cyfarfod yn ystod y flwyddyn ddinesig er mwyn i ni fedru cwblhau ein rhaglen waith:

- **Gosod cyllideb flynyddol 2019/20** – fel un o gyfrifoldebau pwysicaf y Pwyllgor, rhoddwyd sylw manwl i'r broses o adolygu'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Ystyriodd y Pwyllgor y gyllideb ddrafft a'r ymateb i Ymgynghoriad Cyhoeddus y Cyngor ac fe wnaeth gyfraniad hefyd i'r cynllun ymgynghori ar y gyllideb ddrafft. Mae cyfraniad y Panel Sgriwtini Cyllid wedi ychwanegu gwerth at y broses a bydd angen datblygu hyn ymhellach i'r dyfodol. Yn fy marn i, gwnaed cryn gynnydd yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf o ran y broses o osod y gyllideb a'r cyfraniad a wnaed gan Sgriwtini i'r broses hon gan sefydlu sylfaen gadarn wrth i ni symud tuag at baratoi ar gyfer cyllideb 2020/21.

- **Monitro perfformiad yn chwarterol** – bu'r Pwyllgor yn monitro perfformiad ar sail chwarterol yn ystod 2018/19, gan ddefnyddio'r cerdyn sgorio corfforaethol a gwybodaeth gefnogol. Mae'n deg dweud bod y cerdyn sgorio'n parhau i esblygu fel arf effeithiol i Aelodau Etholedig graffu ar, a monitro perfformiad. Mae ein gwaith fel pwyllgor hefyd wedi cynnwys monitro gweithrediad y cynllun gwella gwasanaethau plant ynghyd ag Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol.

  Mae aelodau'r Pwyllgor yn ymrwymedig i ddatblygu ymhellach yn ystod 2019/20 y gwaith sy'n gysylltiedig â'r rhan hon o raglen waith y Pwyllgor.

- **Blaenoriaethau trawsnewid** – rhoes y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol sylw i nifer o faterion o bwys yn ystod y 12 mis diwethaf gan gynnwys y strategaeth moderneiddio ysgolion a'r rhaglen foderneiddio ar gyfer ysgolion ynghyd â gwasanaethau cludiant ysgol.

**Ymgysylltiad gyda chymunedau a chydranddeiliaid eraill**
Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl grwpiau ac unigolion amrywiol sydd wedi dod gerbron y Pwyllgor i roi tystiolaeth ar wahanol faterion. Mae hon yn swyddogaeth Sgriwtini bwysig iawn oherwydd mae'n rhoi llais i gymunedau.

Eto eleni, dymunaf nodi'r cyfraniad sylweddol a wnaed gan y Panel Cyllid a'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant i raglen waith Sgriwtini yr Aelodau Etholedig yn ystod 2018/19 ac rwy'n falch o nodi bod eu cyfraniadau wedi cael eu canmol gan reoleiddwyr allanol ac eraill.

I gau, rwy'n credu fod Sgriwtini wedi parhau i ddatblygu'n dda dros y flwyddyn ddiwethaf gan adeiladu ar y gwelliannau y cychwynnwyd arnynt yn 2017/18. Mae sgriwtini o du'r Aelodau wedi ychwanegu gwerth at y broses gwneud penderfyniadau yn y Cyngor. Dylai'r ffocws hwn ar welliant barhau wrth i ni symud ymlaen. Diolch i bob aelod o'r Pwyllgor a'r swyddogion sydd wedi cynorthwyo a chyfrannu yn ystod 2018/19.

**Cynghorydd Aled Morris Jones**

**(Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)**

## Cynghorydd Gwilym O Jones



- **Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2018/19**
- **Pencampwr Sgriwtini 2018/19**

Mae'n deg dweud mai sgriwtini yw llygaid a chlustiau pawb sy'n byw ar Ynys Môn a'i fod yn rhoi cyfle i Aelodau, nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith, i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'i bartneriaid y rhai mwyaf effeithiol bosib i gwrdd ag anghenion trigolion.

Yn y lle cyntaf, fel y Pencampwr Sgriwtini cyfredol, hoffwn nodi'r cyfraniad pwysig y mae sgriwtini o du'r Aelodau Etholedig yn ei wneud i'n trefniadau llywodraethiant. Mae'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ran symud ein siwrnai welliant yn ei blaen yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer y dyfodol gan sicrhau'r rôl y mae Sgriwtini'n ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod:

i. Yn cefnogi proses gadarn ac effeithiol o ran gwneud penderfyniadau
ii. Yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Yn parhau i esblygu

Yn ystod 2018, cwblhaodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o'r trefniadau sgriwtini ac mae'n bleser gennyf adrodd y cyhoeddwyd adroddiad cadarnhaol ym mis Hydref, 2018 a ddaeth i'r casgliad:

*"Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei swyddogaeth trosolwg a sgriwtini ac mae'n gwneud trefniadau i gwrdd â heriau yn y dyfodol…"*

Bydd angen i'r siwrnai welliant hon barhau wrth i ni baratoi ar gyfer blwyddyn ddinesig 2019/20, gan ganolbwyntio'n benodol ar:

- Ddatblygu ymhellach ein trefniadau ar gyfer hyrwyddo ymgysylltiad y cyhoedd a chydranddeiliaid eraill yn y broses sgriwtini
- Adeiladu ar ein hunan-asesiad er mwyn ystyried dulliau mwy arloesol o graffu.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i roi blas o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn ystod 2018-2019. Mae'r pwyllgor yn gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith ac yn cyflwyno sylwadau ar waith yr Awdurdod a'i bartneriaid a'n nod yw sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus ar yr Ynys y gorau y gallant fod o fewn yr adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor. Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi craffu ar waith nifer o bartneriaethau pwysig. Dyma rhai enghreifftiau o'r gwaith mae'r Pwyllgor wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf:

- Mae gweithio ar y cyd rhwng **y Cyngor, y Bwrdd Iechyd a phartneriaid eraill** yn chwarae rôl hanfodol wrth gefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib. Mae cydweithio effeithiol gyda'r Bwrdd Iechyd a phartneriaid eraill yn hanfodol bwysig o safbwynt darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol. Yn ystod y flwyddyn,

clywodd y pwyllgor gan Swyddogion y Cyngor, cynrychiolwyr o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Medrwn Môn. Cafodd y pwyllgor ei sicrhau bod trefniadau gweithio ar y cyd yn cael eu datblygu a bod y cynnydd yn cael ei wneud, ond bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro'r maes pwysig hwn yn ystod 2019/2020.

- **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd (BCG)** – Mae'r pwyllgor wedi'i ddynodi i arwain ar y gwaith o graffu effeithiolrwydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod efo cynrychiolwyr o'r BGC i'w herio am y cynnydd sy'n cael ei wneud ar gyflawni Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn. Mae wedi gwneud hynny trwy edrych ar feysydd gwaith a oedd wedi'u gosod a cheisio sicrwydd fod Aelodau'r BGC wedi defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'u bod yn gweithio gyda'i gilydd i gwrdd â heriau tymor hir. Rydym hefyd wedi edrych ar y trefniadau llywodraethiant a'r fframwaith cyflawni a sefydlwyd er mwyn cefnogi gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

- **Perfformiad ysgolion** – Mae'r gwaith ar y cyd a wnaed gan y Cyngor a'i bartneriaid i wella perfformiad ysgolion hefyd yn agwedd bwysig o waith y Pwyllgor ac mae wedi derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd gan y Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion (y Panel). Cafodd y Panel ei sefydlu fel ffordd i Aelodau'r ddau Bwyllgor Sgriwtini allu ehangu eu dealltwriaeth o faterion addysg a chyfrannu at atebolrwydd Penaethiaid a Llywodraethwyr Ysgol am berfformiad ysgolion. Roedd modd i'r pwyllgor hefyd gwestiynu swyddogion o GwE[1] ar eu meysydd gwaith yn Ynys Môn, yn ogystal â chraffu perfformiad ysgolion yn dilyn yr arholiadau yn haf 2018. Mae Sgriwtini hefyd wedi bod yn monitro perfformiad y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd i sicrhau bod cysondeb a gwerth am arian rhwng y ddwy sir.
- **Partneriaethau eraill** – Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r pwyllgor wedi craffu ar nifer o faterion eraill, yn cynnwys blaenoriaethau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Môn a Gwynedd am y flwyddyn nesaf. Hefyd, cyrff megis Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru, a chraffu cyn i benderfyniadau gael eu gwneud ar strategaethau megis Strategaeth Digartrefedd Gogledd Cymru a'r Strategaeth Trechu Tlodi.

Credaf fod sgriwtini effeithiol yn golygu gweithio fel tîm a chredaf yn gryf fod y pwyllgor yn cyflawni hyn. Mae'r holl swyddogion yn llwyddo i weithio'n dda gyda'r Aelodau er mwyn cyflawni canlyniadau effeithiol ar gyfer ein trigolion, ac yn y bôn, dyna yw pwrpas sgriwtini da.


**Cynghorydd Gwilym O Jones**
**(Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a'r Pencampwr Sgriwtini)**

[1] GwE – Gwasanaeth Effeitholrwydd a Gwella Ysgolion ar gyfer Gogledd Cymru

## 2.0 EIN STRWYTHUR LLEOL

Mae pwyllgorau sgriwtini yn rhan o’r ffordd y mae llywodraeth leol yng Nghymru yn gweithredu. Eu prif bwrpas ydy dal y rheini sy’n gwneud penderfyniadau i gyfrif, gyrru gwelliant, gweithredu fel llais y gymuned a chwarae rhan yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu polisïau. Trafodir crynodeb o’r cyd-destun polisi cenedlaethol yn **ATODIAD 1.**


2.1 Mae ein strwythur lleol yn cynnwys 2 bwyllgor sgriwtini a thri phanel:




Rhoddir crynodeb o gylch gorchwyl ac aelodaeth ein pwyllgorau sgriwtini yn **ATODIAD 2.**

## 3.0 Y SIWRNAI O RAN GWELLA SGRIWTINI YN LLEOL

3.1 Yn dilyn comisiynu adolygiad lleol o’n trefniadau sgriwtini[2], rhoddwyd rhaglen wella mewn lle i ddatblygu a chryfhau ymhellach ar swyddogaeth drosolwg a sgriwtini’r Cyngor. Cynhaliwyd y rhaglen hon dros gyfnod o 18 mis ac mae wedi darparu sylfaen gref ar gyfer symud ymlaen, gan sicrhau fod rôl Aelodau pwyllgorau sgriwtini yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:




[2] Canolfan Graffu Gyhoeddus (Rhagfyr, 2017)

3.2 **Themau Gwella Allweddol**

Mae ein rhaglen welliant wedi blaenoriaethu nifer o themâu allweddol (ceir crynodeb ohonynt isod), er mwyn darparu fframwaith cadarn i:

- Esbonio rôl a chyfraniad Sgriwtini i drefniadau llywodraethiant y Cyngor
- Nodi'r camau y mae angen eu cymryd yn y tymor byr a'r tymor canol er mwyn gwella Sgriwtini ymhellach.

**SIWRNAI WELLA SGRIWTINI: THEMAU ALLWEDDOL**

Atgyfnerthu ymagwedd "Cyngor cyfan" i Graffu

Gwella effaith Craffu

Adeiladu'r capasiti a'r gallu ar gyfer Craffu effeithiol

Gwella ymgysylltiad â'r cyhoedd yn ein gwaith Craffu

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Sgriwtini

Rydym yn ddiweddar wedi mabwysiadu rhaglen ddatblygu sy'n darparu fframwaith lleol ar gyfer parhau â'n siwrnai Sgriwtini. Ym Mharagraff 5 isod, ceir crynodeb o'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae'n cychwyn mesur effaith y gwelliannau a wnaed gennym.

3.3 **Adolygiad Sgriwtini gan Swyddfa Archwilio Cymru**

Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) adolygiad o'n trefniadau sgriwtini yn ystod 2018. Ceir manylion am sgôp yr adolygiad hwn yn **ATODIAD 3.**

Roedd yr adroddiad yn un cadarnhaol gydag agweddau o arfer dda:

Mae'r Cyngor wedi cryfhau'i swyddogaeth craffu ac mae'n gwneud trefniadau i fodloni heriau'r dyfodol

Mae'r Cyngor yn cefnogi sgriwtini ac mae'r trefniadau sydd eu hangen i helpu aelodau pwyllgorau craffu i fodloni heriau'r dyfodol yn cael eu rhoi ar waith

Mae craffu'n cyfrannu at welliannau mewn perfformiad a gwneud penderfyniadau ac mae'r Cyngor yn gwerthuso ei effeithiolrwydd yn rheolaidd

Mae arfer pwyllgorau yn gwella, mae'r amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth y maent yn eu defnyddio wedi cynyddu ac mae blaen raglenni gwaith y pwyllgorau craffu yn alinio â gwaith y Cyngor



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

Gwelwyd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn awgrymu dau **gynnig ar gyfer gwella:**

- **C1** dylai swyddogaeth craffu'r Cyngor wella ymhellach trefniadau ar gyfer hyrwyddo ymgysylltiad y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill mewn gweithgareddau craffu
- **C2** dylai'r Cyngor ategu ei brofiad drwy hunan-asesu ychwanegol, er mwyn ystyried dulliau mwy arloesol o gynnal gweithgareddau craffu

Adroddwyd ar y canfyddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mis Rhagfyr, 2018[3]. Mae cynigion gwella Swyddfa Archwilio Cymru wedi'u cynnwys yn ein rhaglen ddatblygu lleol.

# 4 ASESU EFFAITH SGRIWTINI

4.1 Llwyddodd Sgriwtini i sicrhau nifer o **allbynnau** pwysig yn ystod y flwyddyn sirol ddiwethaf sy'n mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at ein cynorthwyo i asesu'r effaith y mae'r swyddogaeth wedi ei chael yn lleol:

- **Cyfarfodydd pwyllgor –** cynhaliwyd 26 o gyfarfodydd pwyllgorau sgriwtini yn ystod 2018/19:

| Pwyllgor | Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd |
|---|---|
| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | **16** |
| Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | **10** |

Yn ogystal, mae trefniadau cadarn wedi cael eu sefydlu i sicrhau bod cadeiryddion y pwyllgorau sgriwtini yn rhoi adborth yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith ar faterion sydd wedi cael eu hystyried gan y ddau bwyllgor.

- **Cyfarfodydd y Paneli Sgriwtini –** cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd o'r 3 phanel sgriwtini yn ystod 2018/19:

| Panel | Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd |
|---|---|
| Panel Gwella Gwasanaethau Plant | **11** |
| Panel Sgriwtini Cyllid | **5** |
| Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion | **12** |

Mae gweithrediad y paneli hyn wedi cael ei sefydlu'n gadarn drwy:

- Sefydlu trefniadau llywodraethiant cadarn i gefnogi pob panel
- Sicrhau ffocws / cylch gorchwyl a rhaglen waith clir ar gyfer y paneli
- Sefydlu proses adrodd / uchafu er mwyn sicrhau yr adroddir ar waith y paneli sgriwtini mewn modd amserol
- Sicrhau'r cyflymder priodol ar waith y panel, sydd yn cydymffurfio gyda blaenoriaethau corfforaethol.

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr, 2018

- **Blaen raglenni gwaith** – bellach, mae'r arfer o flaen raglennu gwaith wedi hen sefydlu ac mae hynny'n atgyfnerthu gwaith y ddau bwyllgor sgriwtini. Mae'r rhaglenni hyn yn bwysig o ran cynorthwyo aelodau pwyllgorau sgriwtini i flaenoriaethu eu gwaith ac maent yn cael eu trafod gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Mae'r naill bwyllgor a'r llall yn adolygu cynnwys eu blaen raglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac er mwyn cadw i fyny â blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau blaen raglennu gwaith bellach yn canolbwyntio fwyfwy ar:

  i. Agweddau strategol
  ii. Ymgysylltiad dinasyddion / rhanddeiliaid eraill a chanlyniadau
  iii. Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a'r rhaglen drawsnewid gorfforaethol ar gyfer 2017/2022
  iv. Risgiau
  v. Gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio
  vi. Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

- **Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion –** mae bellach wedi hen sefydlu ac yn parhau i gwrdd bob mis. Ystyrir y Fforwm yn gyfrwng pwysig i oruchwylio rhaglenni gwaith y pwyllgorau sgriwtini ac i gyd-drafod y blaenoriaethau gyda'r cadeiryddion ac is-gadeiryddion sgriwtini. Mae hefyd yn cymryd y cyfrifoldeb am arwain ar y gwaith o ddatblygu swyddogaeth trosolwg a sgriwtini'r Cyngor a'i gwella'n barhaus. Mae rôl y Fforwm hefyd wedi esblygu i gynnwys sgyrsiau misol rhwng y Pwyllgor Gwaith (Arweinydd), Cadeiryddion/Is-gadeiryddion Sgriwtini a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (Prif Weithredwr) er mwyn sicrhau gwell aliniad rhwng rhaglenni gwaith**.**

- **Datblygu, hyfforddi a chefnogi Aelodau –** drwy:

  - Sefydlu rhaglen ddatblygu raddol, wedi'i theilwro'n arbennig sy'n canolbwyntio ar elfennau allweddol llywodraethiant / sgriwtini:

    **Côd Ymddygiad / Cyfansoddiad**

    **Rôl ac ymddygiad Cadeiryddion Sgriwtini / Sgiliau cadeirio effeithiol**

    **Aliniad Sgriwtini gyda blaenoriaethau'r Pwyllgor Gwaith a blaenoriaethau corfforaethol**

    **Sgiliau sgriwtini ariannol effeithol**

    **Ymagwedd "Cyngor cyfan" at Sgriwtini**

    **Sgiliau cwestiynu effeithiol a sgiliau herio adeiladol**

    **Modelau arloesol / amgen o sgriwtini Aelodau**

  - Cynnal sesiynau o dro i dro ar gyfer rhannu gwybodaeth / codi ymwybyddiaeth Aelodau Sgriwtini ar faterion allweddol (ee Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus). Hefyd, fel fforwm ar gyfer hunan-asesiad Aelodau / adlewyrchu ar berfformiad sgriwtini.

- **Sgriwtini ar draws maes ehangach –** ymagwedd ehangach tuag at sgriwtini gan Aelodau wedi cael ei datblygu yn ystod y flwyddyn drwy:

  **i.** Gynllunio ymlaen yn effeithiol er mwyn sicrhau bod aliniad rhwng y pynciau a drafodir mewn sesiynau briffio i Aelodau, paneli sgriwtini a chyfarfodydd o'r pwyllgorau sgriwtini llawn
  **ii.** Egluro rôl yr Aelodau ar fyrddau rhaglen corfforaethol a sicrhau adroddiadau cadarn, lefel uchel ac amserol i'r pwyllgorau sgriwtini gan ddwyn sylw at unrhyw lithriad yn ôl yr angen
  **iii.** Datblygu ystod y pynciau trafodwyd mewn sesiynau briffio Aelodau i gefnogi Craffu a sicrhau bod gwybodaeth ar gael i Aelodau ar bynciau strategol a thrawsnewid.

- **"Cau'r cylch Sgriwtini" –** drwy sefydlu trefniadau cadarn i:

  **i.** Adrodd ar gynnydd neu uchafu materion o:

    - Baneli sgriwtini i'r rhiant bwyllgorau
    - Bwyllgorau sgriwtini i'r Pwyllgor Gwaith
    - Y byrddau rhaglen corfforaethol i'r pwyllgorau sgriwtini.

  **ii.** Alluogi ac annog hunan-ddadansoddiad ac adlewyrchiad gan Aelodau Sgriwtini er mwyn nodi cryfderau a meysydd ar gyfer datblygiad / ffocws pellach.

- **Sgriwtini a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol –** datblygu rôl Sgriwtini drwy:
  - Sicrhau bod Aelodau'n canolbwyntio ar y 5 ffordd i lunio cwestiynau
  - Datblygu templed newydd ar gyfer adroddiadau sgriwtini, gan roi llesiant cenedlaethau'r dyfodol wrth ei wraidd
  - Peilota rhan o fframwaith sgriwtini Comisiynydd Cymru ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol
  - Codi ymwybyddiaeth a rhoi gwybodaeth i Aelodau mewn sesiynau briffio a datblygu
  - Adolygu'r cynnydd a wnaed o ran datblygu rôl sgriwtini yn erbyn arfer orau
  - Sefydlu fframwaith i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaethau allweddol.

- **Ymgysylltiad dinasyddion â Sgriwtini –** datblygu datganiad polisi fel y sylfaen ar gyfer datblygu ymhellach ein prosesau ymgysylltu gyda dinasyddion drwy sgriwtini Aelodau a sefydlu camau i sicrhau y gwrandewir ar lais dinasyddion wrth wneud penderfyniadau yn lleol. Rydym bellach wedi gweithredu ein rhaglen gwella sgriwtini ac wedi mabwysiadu cynllun datblygu'n ddiweddar sy'n darparu fframwaith ar gyfer parhau â'n siwrnai sgriwtini.

**Mesur canlyniadau:**

4.2 Mae sefydlu ac asesu effaith Sgriwtini yn heriol oherwydd nid yw **canlyniadau** gweithgareddau trosolwg a sgriwtini bob amser yn weladwy ac nid oes modd yn aml eu mesur mewn modd systematig. Ymhellach, nid yw'n hawdd mesur gallu'r swyddogaeth sgriwtini i ddylanwadu ar y sawl sy'n gwneud penderfyniadau drwy drafodaeth a dadl. Fodd bynnag, ceir rhai enghreifftiau ble mae mewnbwn sgriwtini wedi ychwanegu gwerth ac / neu wedi dylanwadu ar y modd y mae cynigion wedi cael eu gweithredu gan y Cyngor:

- **Blaen raglenni gwaith –** mae rhaglenni gwaith sgriwtini bellach yn rhaglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu gyda llai o eitemau'n cael eu cynnwys er mwyn ychwanegu gwerth. Mae ein trefniadau hefyd yn sicrhau aliniad rhwng rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini a rhaglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

  **Canlyniad:** rhaglen waith dreigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini wedi'i halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

- **Y broses o osod y gyllideb ar gyfer 2019/20 –** mae ymagwedd fwy strategol sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac ar arfer orau wedi'i sefydlu'n lleol mewn perthynas â gosod y gyllideb[4]. Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi bod yn canolbwyntio ar nifer o faterion allweddol a oedd yn cynnwys craffu ar effaith y cynigion effeithlonrwydd ac ansawdd y pecyn ymgynghori lleol. Wrth symud ymlaen, bydd yr Awdurdod yn adeiladu ymhellach ar y gwaith hwn gan sicrhau bod y Panel Sgriwtini Cyllid yn cael mewnbwn yn gynt yn y broses o osod y gyllideb (drwy ganolbwyntio ar graffu'r broses, amserlen a'r gallu i gyflawni ar y cynigion arfaethedig).

  **Canlyniad:** ymagwedd fwy systematig o sgriwtini ariannol ac fel rhywbeth sy'n hanfodol ar gyfer sicrhau rheolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn.

- **Ymgysylltiad a chyfranogiad dinasyddion –** roedd mewnbwn sgriwtini i'r rhaglen moderneiddio ysgolion hefyd yn cynnwys ymgysylltiad uniongyrchol gyda, a chyfraniad gan lywodraethwyr ysgolion, rhieni a chymunedau lleol gyda hynny'n ychwanegu gwerth at y broses sgriwtini. Fe wnaeth rhanddeiliaid gymryd rhan yn yr elfennau canlynol o'r rhaglen moderneiddio ysgolion:

  - Ardal Seiriol (Llangoed, Beaumaris and Llandegfan)
  - Ardal Llangefni (Bodffordd a Corn Hir)
  - Ardal Llangefni a (Y Graig a'r Talwrn)

  Roedd mewnbwn sgriwtini i'r broses o osod y gyllideb hefyd yn cynnwys ymgysylltiad uniongyrchol gyda, a chyfraniad gan gynrychiolwyr o'r ysgolion cynradd ac uwchradd gyda hynny'n ychwanegu gwerth at y broses sgriwtini.

  **Canlyniad:** mae cyfraniad pobl leol a chydranddeiliaid eraill at y broses sgriwtini Aelodau wedi datblygu ymhellach ein gallu i sicrhau fod lleisiau pobl leol yn cael eu clywed fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau (***ymgysylltu'n well â'r cyhoedd***). Hefyd, sylfaen gref ar gyfer gwella canlyniadau i ddinasyddion.

[44] Disgwyliadau Uwch: Craffu ariannol mewn cyfnod heriol. Canllawiau i awdurdodau lleol Cymru (Canolfan Craffu Cyhoeddus Mehefin, 2014)

- **Datblygiad, hyfforddiant a chefnogaeth i Aelodau** – mae sicrhau bod gan unigolion sy'n ymwneud â Sgriwtini y sgiliau a'r cymwyseddau iawn yn elfen allweddol o baratoi ar gyfer sgriwtini effeithiol. Gyda hyn mewn golwg, mae rhaglen leol wedi cael ei theilwra'n arbennig ar gyfer aelodau sgriwtini wedi cael ei datblygu a'i sefydlu yn ystod 2018/19.

  **Canlyniad:** Mae Aelodau sy'n ymwneud â'r broses sgriwtini yn meddu ar y sgiliau a'r cymwyseddau iawn ac maent yn gallu cael mynediad i'r cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad y maent eu hangen er mwyn cyflawni eu rôl yn effeithiol (***penderfyniadau gwell***)

- **Gwelliant a pherfformiad y gwasanaethau plant –** mae'r broses o graffu siwrnai wella'r gwasanaethau plant wedi aeddfedu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf drwy fewnbwn y Panel Gwella Gwasanaethau Plant. Yn ystod Mai, 2018, cynhaliodd aelodau'r Panel hunan-asesiad o'i effaith ac adolygwyd 4 agwedd o'i waith:

  - Beth weithiodd yn dda
  - Nodi'r effaith a gafodd y Panel
  - Meysydd ar gyfer gwelliant
  - Anghenion datblygu aelodau

  Daeth Aelodau i'r casgliad fod sicrhau craffu ystyrlon a chadarn o bolisïau a'r cymorth/gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi plant a phobl ifanc fregus yn elfen allweddol o rôl arweinyddiaeth aelodau Sgriwtini. Mae'r ymarfer hunan-asesu hwn wrthi'n cael ei ail-adroddiad ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn fel rhan o adolygiad ehangach gan y Cyngor o waith y 3 phanel sgriwtini.

  Yn ei ail-arolygiad yn ddiweddar o'r gwasanaethau plant, fe wnaeth Arolygiaeth Gofal Cymru ganmol gwaith y Panel ynghyd ag ymrwymiad yr Aelodau i wella gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc:

*"…. Mae systemau arwain a llywodraethu cryf i'w cael o fewn y CSYM. Gallai aelodau'r Cyngor ddangos eu cyfraniad tuag at wella gwasanaethau plant. Dangoswyd eu gwybodaeth am yr heriau allweddol sy'n wynebu'r cyngor a sut maent yn rhyngweithio er mwyn cael effaith ar blant a'u teuluoedd ….*

*Roedd gan yr Aelodau Etholedig ddealltwriaeth glir o'u rôl a, chyda swyddogion, maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau fel Rhieni Corfforaethol. Roedd yr aelodau yr un mor eglur ynghylch yr angen am atebolrwydd ar bob lefel a phwysigrwydd systemau a phrosesau sicrhau ansawdd a all nodi unrhyw ddirywiad mewn perfformiad neu gyfleoedd a gollwyd, a chefnogi gwelliant cyn i'r sefyllfa waethygu…*

*Dangosodd yr aelodau ymrwymiad i wella gwasanaethau ar gyfer plant drwy gytuno ar gylch gorchwyl y Panel Gwella Plant cyn yr etholiad diwethaf yn syth ar ôl arolygiad diwethaf AGC. Mae'r panel gwella wedi parhau i gyfarfod yn fisol a noda'r aelodau eu bod yn fwy hyderus a bod y panel yn gynhyrchiol, gan roi cipolwg iddynt ar hynt y gwasanaeth.*[5]

Mae'r ffrwd waith hon wedi arwain at y canlyniadau positif isod:

[5] Adroddiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn dwyn y teitl "Inspection of Children's Services Isle of Anglesey County Council" Rhagfyr, 2018


**Canlyniadau**:

- Tîm o Aelodau sydd wedi datblygu gwybodaeth lefel uchel am gymhlethdodau gwasanaethau plant ynghyd â lefel o arbenigedd yn y maes gwasanaeth hwn
- Model o weithio sy'n canolbwyntio ar grŵp llai, gan annog presenoldeb a gwaith tîm da
- Creu amodau sy'n ffafriol i Sgriwtini effeithiol, e.e. bu gwelliant go iawn yn lefel a dyfnder y cwestiynau a ofynnwyd gan y Panel
- Gweithgareddau Sgriwtini sy'n cael eu cynllunio'n dda, sy'n effeithlon ac yn wrthrychol ac yn seiliedig ar dystiolaeth o amrediad o ffynonellau
- Aelodau Etholedig â gwell dealltwriaeth o'r cymhlethdodau a'r risgiau yn y Gwasanaethau Plant fel y gellir craffu'n fwy effeithiol, dal pobl i gyfrif a nodi blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

(***penderfyniadau gwell, canlyniadau gwell***)

- **Sgriwtini cyllid –** mae sgriwtini cyllid wedi datblygu'n sylweddol o waelodlin isel yn ystod y 18 mis diwethaf, gyda mewnbwn ac arweiniad allanol arbenigol gan CIPFA Cymru. Mae'r Panel Sgriwtini Cyllid wedi mabwysiadu ymagwedd strategol tuag at graffu materion ariannol ac wedi datblygu strategaeth gwestiynu effeithiol i danategu eu gwaith. Er enghraifft, mae ymyriadau gan y Panel mewn ymateb i bwysau sylweddol ar y gyllideb wedi sbarduno rhai mesurau lliniaru cadarnhaol gan y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Dysgu.

  Rydym yn parhau i weithio ochr yn ochr â CIPFA Cymru i ddatblygu ein siwrnai sgriwtini cyllid gyda'r amcanion canlynol mewn golwg:




**Ymarfer oedi ac adolygu (Gaeaf, 2018)**

Yn ystod mis Tachwedd, 2018, rhoes yr Aelodau wahoddiad i CIPFA Cymru ddychwelyd i gynorthwyo'r Panel i asesu cynnydd ac i osod blaenoriaethau ar gyfer rhaglen waith 2019/20. Mae CIPFA wedi canmol yr ymagwedd a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod tuag at sgriwtini ariannol:

*"….Cynnydd yn 2018*

- *Mae'r ymagwedd tuag at reoli a chynnal busnes yn y Panel wedi gwella'n sylweddol yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi newid o fod yn ymagwedd a oedd yn cael ei harwain gan swyddogion i bob pwrpas i un gall yr Aelodau a'r cadeirydd ei rheoli'n well ac yn fwy effeithiol*

- *Mae'r papurau a gynhyrchir yn gwella oherwydd bod mwy o eglurder ynghylch yr hyn sydd ei angen gan swyddogion i wella ansawdd y drafodaeth a'r her gan Aelodau*
- *Mae'r modd y caiff y Panel ei gadeirio wedi gwella gyda Chadeirydd enwebedig sy'n cymryd perchnogaeth o'r cyfarfod ac yn rheoli amseriad y cwestiynu a'r drafodaeth yn fwy effeithiol*
- *Mae'r cwestiynau a ofynnir gan Aelodau wedi gwella gyda mwy o ddealltwriaeth o'r materion ac, o'r herwydd, o berthnasedd y pwynt a'r her sy'n cael ei chyflwyno. Mae'n amlwg hefyd bod cynnydd yn ansawdd cyfraniadau'r Aelodau, gyda'r cyfan ohonynt o bryd i'w gilydd yn gofyn cwestiynau*
- *Yn anorfod, bydd newidiadau yn aelodaeth y Panel a dyna fu'r achos yn 2018. Fe wnaeth Aelodau newydd gyfrannu a chwestiynau ac mae hynny'n beth positif…."*

Wrth symud ymlaen, bydd y Panel yn datblygu ymhellach ei raglen waith a'i ymagwedd tuag at sgriwtini ariannol gyda CIPFA Cymru yn parhau i ddarparu arweiniad a chyngor proffesiynol, fel ffrind beirniadol.

**Canlyniad:**

- Ymagwedd fwy strategol sy'n seiliedig ar ganlyniadau i sgriwtini ariannol; gyda sgriwtini'n seiliedig ar ganlyniadau'n gwneud cyfraniad cadarn i drefniadau rheolaeth a llywodraethiant ariannol cryf yn y Cyngor (***penderfyniadau gwell, canlyniadau gwell***)

- **Monitro Perfformiad Ysgolion** – Mae Sgriwtini yn chwarae rhan weithredol yn y broses o fonitro ac annog gwelliant yn yr ysgolion a Gwasanaeth Dysgu'r Cyngor.

  Ers mis Mai 2018, mae Aelodau'r Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion wedi:

  - Cyfarfod â Phenaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr naw ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd.
  - Cyfarfod ag athrawon â Phenaethiaid y Grŵp Arweinyddiaeth Clwstwr y Cyfnod Sylfaen sy'n ceisio cynorthwyo ysgolion i gryfhau eu perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen.
  - Derbyn diweddariadau ar berfformiad ysgolion gan swyddogion y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion ar gyfer Gogledd Cymru (GwE).
  - Derbyn gwybodaeth ynghylch perfformiad gan y Gwasanaeth Dysgu.
  - Monitro gweithrediad Cynllun Gweithredu'r Gwasanaeth Dysgu.
  - Wedi derbyn sesiynau datblygu gan y Swyddog Perfformiad Ysgolion a Chynhwysiant a GwE ar wahanol faterion yn ymwneud ag addysg a monitro perfformiad.
  - Cynnal ymarfer hunan-werthuso.

  Yn ystod mis Rhagfyr 2018, derbyniodd y Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio ganlyniadau arholiadau haf 2018 wedi eu dilysu / data ar berfformiad ysgolion cynradd ac uwchradd. Yn ogystal, cyflwynwyd blaenoriaethau GwE i gefnogi ysgolion ar yr ynys am y flwyddyn i ddod, a oedd yn cynnwys camau i wella perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 4. hefyd, cyflwynwyd gwybodaeth perfformiad ynglŷn â'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd, a oedd yn caniatáu i'r gwasanaeth gael ei fonitro mewn modd adeiladol.

Mae cyswllt agos rhwng y Panel a'r Pwyllgor ac fe gyflwynodd y Panel dri adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod hwn.

**Canlyniadau:**

- Y Penaethiaid a Chadeiryddion y Cyrff Llywodraethu sydd yn y pen draw yn gyfrifol am berfformiad ysgolion. Fodd bynnag, mae craffu adeiladol gan y Panel a'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod hwn wedi cyfrannu tuag at wella addysg yn gyffredinol ar yr Ynys. Yn ystod Ionawr 2019, nid oedd unrhyw ysgol yn Ynys Môn yn y categori coch yn y System Gategoreiddio Genedlaethol ar gyfer Ysgolion a dim ond pum ysgol oedd yn y categori ambr. Mae'r ysgolion eraill ar yr Ynys naill ai yn y categori cymorth melyn neu'r categori gwyrdd.
- Datblygodd Aelodau'r Panel wybodaeth ar drefniadau perfformiad a monitro ac maent mewn sefyllfa i gyfrannu'n effeithiol at welliant parhaus ym mherfformiad yr ysgolion. Mae Aelodau wedi cychwyn mynychu gwahanol weithgareddau cymorth, monitro a hyfforddiant i ysgolion a drefnwyd gan GwE er mwyn cryfhau gwybodaeth ymarferol am yr hyn sy'n digwydd i wella perfformiad ysgolion.

- **Cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd a phartneriaid allweddol eraill**

Mae craffu'r cydweithio rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn bwysig ac mae'r Pwyllgor wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r agwedd hon gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Bwrdd Iechyd, y Sector Gwirfoddol a Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (a sefydlwyd i ddiwallu Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Canlyniadau:**

- Sicrhau bod partneriaid yn cydweithio i gwrdd â'r ymrwymiadau statudol i weithio gyda'i gilydd. Cafodd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio sicrwydd bod partneriaid yn mynd i'r cyfeiriad iawn ac yn datblygu gwasanaethau i gwrdd ag anghenion lleol ond mae llawer o waith ar ôl i'w wneud yn y maes pwysig hwn.
- Mae gweithio mewn partneriaeth yn faes cymhleth a rhaid i Aelodau fod yn ymwybodol o fentrau a chynigion partneriaid. Yn ystod y cyfnod hwn, mae Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio wedi gwella eu gwybodaeth a byddant mewn sefyllfa gryfach i ddarparu sgriwtini effeithiol drwy fonitro rheolaidd y flwyddyn nesaf.
- Wedi sicrhau bod partneriaid yn sylweddoli fod rhaid i fentrau sy'n cael eu cyflawni ar y cyd, gynorthwyo a chyfrannu tuag at gwrdd ag amcanion y Cyngor.

- **Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Môn a Gwynedd**

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Môn a Gwynedd yn 2016 yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Y penderfyniad a wnaed gan Bwyllgor Gwaith Ynys Môn bryd hynny oedd sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer Ynys Môn a fyddai'n cydweithio â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd. Cafodd y Cynllun Llesiant ei graffu gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ac ar 15 Mai, cymeradwywyd y Cynllun gan y Cyngor ar gyfer ei gyhoeddi.

Fe wnaeth y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio barhau i graffu ar y bartneriaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Canlyniadau:
- Craffu ar strwythur llywodraethu a threfniadau darparu y BGC. Cafodd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio sicrwydd fod y trefniadau llywodraethu yn cydymffurfio â gofynion statudol, ac nid oes angen unrhyw newidiadau ar hyn o bryd.
- Craffu ar y cynnydd ar gyflawni'r Cynllun Llesiant. Gallai'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio sicrhau ei hun fod y BGC yn cymryd camau i integreiddio ei bolisïau i mewn i gynlluniau a strategaethau cyrff cyhoeddus eraill a bod y blaenoriaethau yn cysylltu ag amcanion Cyngor Sir Ynys Môn.
- Bydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn parhau i fonitro cynnydd y BGC. Mae'n cadw cysylltiad agos â'r tîm sy'n cefnogi'r BGC. Bydd adroddiadau pellach yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgor i'w craffu yn ystod 2019/2020.

**Mesur Effaith ein Siwrnai Wella:**

4.3 Mae'r tabl isod yn crynhoi effaith rhai o'n meysydd gwelliant allweddol ar gyfer 2018/19:

**EFFAITH TAITH GWELLA SGRIWTINI**

| Thema | Sut | Effaith |
|---|---|---|
| **Gweledigaeth ar gyfer Craffu** | Rydym wedi parhau i brif ffrydio egwyddorion ein gweledigaeth, gan sicrhau eu bod yn nodwedd greiddiol o'n gwaith sgriwtini e.e. y sail i'n gwaith paratoadol ar gyfer y Cyngor newydd; sail i'n rhaglen ddatblygu Aelodau Sgriwtini; yn tanategu gwaith ein paneli sgriwtini<br>(**ATODIAD 5** – Datganiad Gweledigaeth Sgriwtini) | Tystiolaeth → cynnydd yn hyder yr Aelodau; gwell sgriwtini mewn pwyllgorau; strategaeth gwestiynu; ansawdd cyfraniadau'r Aelodau yng ngwaith paneli ac aeddfedrwydd y strategaethau cwestiynu; teimlad o Dîm Sgriwtini ymysg y rhan fwyaf o'r Aelodau.<br>(***penderfyniadau gwell, canlyniadau gwell***) |

| Thema | Sut | Effaith |
|---|---|---|
| **Datblygiad a chefnogaeth i Aelodau** | Rhaglen ddatblygu bwrpasol ar gyfer Aelodau Sgriwtini gyda'r amcan o ddatblygu:<br>• Sgiliau Craffu<br>• Lefelau uwch o wybodaeth dechnegol ar bynciau penodol | 1. Egwyddorion a gwerthoedd ein gweledigaeth Sgriwtini yn amlygu eu hunain drwy ymddygiad Aelodau<br>2. Strategaethau cwestiynu effeithiol ar waith<br>3. Mae gan yr Aelodau sy'n ymwneud â Sgriwtini y sgiliau a'r cymwyseddau cywir<br>4. Mae gan Aelodau Sgriwtini fynediad at gyfleoedd hyfforddiant a datblygu y mae angen iddynt eu cymryd er mwyn cyflawni eu rôl yn effeithiol.<br>(***canlyniadau gwell***) |
| **Trefniadau Sgriwtini addas i bwrpas** | **Alinio rhaglenni gwaith**<br>Canlynol bellach yn digwydd fel mater o drefn:<br>• Sgyrsiau alinio rhaglenni efo'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn y Fforwm Cadeiryddion/Is-gadeiryddion Sgriwtini (misol)<br>• Trafodaeth fisol rhwng yr Arweinydd, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a'r Rheolwr Sgriwtini<br>• Trafodaethau alinio rheolaidd → swyddogion sgriwtini a phenaethiaid gwasanaeth<br>**Cyfleoedd ehangach i graffu**<br>Cyfleoedd i graffu tu allan i'r cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol → sesiynau briffio, paneli, byrddau trawsnewid | 1. Gwell aliniad rhwng yr holl raglenni gwaith sy'n sicrhau bod materion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd yn cael eu blaenoriaethau ar gyfer Sgriwtini<br>2. Ffocws ar faterion strategol → Cynllun y Cyngor a blaenoriaethau trawsnewid, canlyniadau a risgiau<br>3. Trefniadau sgriwtini sydd wedi eu halinio; cyfraniad effeithiol i'n trefniadau llywodraethu.<br>(***penderfyniadau gwell***) |

| Thema | Sut | Effaith |
|---|---|---|
| **Paneli sgriwtini** | • Rhaglenni gwaith mewn lle gan y 3 phanel<br>• Mewnbwn arbenigol i gefnogi'r Panel Cyllid (CIPFA Cymru)<br>• Asesiad o raglen wella gwasanaethau plant gan Arolygiaeth Gofal Cymru<br>• Asesiad o baneli gan Swyddfa Archwilio Cymru. | 1. Ffocws clir i waith y paneli<br>2. Model o weithio yn ffocysu ar grwpiau llai → presenoldeb da, Aelodau'n datblygu lefel o "arbenigedd" pwnc, ymdeimlad o berchnogaeth ac o weithio mewn tîm<br>3. Craffu materion allweddol mewn dyfnder.<br>(***penderfyniadau gwell***) |
| **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)** | Sylfaen gadarn mewn lle i ddatblygu ymhellach ar raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.<br>Nod: craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gwaith partneriaeth yn unol â chanllawiau cenedlaethol. | Arwyddion cynnar o dystiolaeth sy'n ymddangos → mae strwythur lleol mewn lle sy'n addas i bwrpas; hyder yr Aelodau'n cynyddu; trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd ar y posibilrwydd o sefydlu panel ar y cyd i graffu'r BGC<br>Cydymffurfiaeth â chanllawiau cenedlaethol<br>(***ymgysylltu'n well***) |
| **Templed Sgriwtini** | Mae templed adrodd diwygiedig yn cael ei dreialu ar hyn o bryd a chaiff ei gyflwyno'n iawn yn ystod ail hanner 2019. | Eglurder ynghylch rôl Sgriwtini → amcanion cryno, cwestiynau sgriwtini clir, cydymffurfiaeth â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br>(***penderfyniadau gwell***) |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | Mae'r 5 ffordd o weithio yn tanategu'r strategaeth cwestiynu sgriwtini. | Gosod y 5 ffordd o weithio yng nghanol y swyddogaeth Sgriwtini gan Aelodau.<br>(***canlyniadau gwell***) |
| **Hunan-asesiad o'n trefniadau Sgriwtini** | • Mae'r Aelodau a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn cwblhau hunanasesiad fel rhan o'n gwaith wrth fesur y canlyniadau ac effaith gweithgaredd Sgriwtini yn y Cyngor<br>• Hunanasesiad gan yr Aelodau sy'n eistedd ar y | Mesur lleol o ganlyniadau ac effaith Sgriwtini fel teclyn ar gyfer gwelliant parhaus<br>Yr Aelodau yn berchen ar y daith wella Sgriwtini<br>Mae rhaglenni gwaith y paneli yn parhau i alinio gyda blaenoriaethau corfforaethol |

| Thema | Sut | Effaith |
| --- | --- | --- |
| | paneli sgriwtini | (***penderfyniadau gwell, canlyniadau gwell***) |

### 4.4 Hunan-asesiad o effeithiolrwydd Sgriwtini

Mae ein gwaith o fesur canlyniadau ac effaith arferion Sgriwtini yn y Cyngor hefyd wedi cynnwys rhywfaint o waith arolwg gydag Aelodau eto eleni, drwy gyfrwng grwpiau trafodaeth bychan a chan ddefnyddio cwestiynau craidd fel fframwaith ar gyfer y drafodaeth. Eleni rydym hefyd wedi gofyn am farn aelodau'r Pwyllgor Gwaith a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

**Cwestiynau craidd yr hunan-asesiad:**

- Beth oedd yr uchafbwyntiau yn Sgriwtini dros y flwyddyn ddiwethaf?
- Yn eich tyb chi, pa effaith gafodd Sgriwtini yn ystod 2018/19 wrth gefnogi'r Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniadau cadarn?
- A oes unrhyw agweddau y gellir eu gwella neu gyflawni'n well i'r dyfodol?
- Pa anghenion datblygu sydd gennych yn y rôl i'r dyfodol?
- Unrhyw sylwadau cyffredinol eraill ynglŷn â dylanwad a / neu effaith y gwaith gan Aelodau Sgriwtini yn y prosesau gwneud penderfyniadau?

**Yr hyn oedd gan ein Haelodau i'w ddweud……**

A. <u>Aelodau Sgriwtini</u>

Ein holl Aelodau Sgriwtini wedi cymryd rhan yn yr hunan-asesiad. Isod, ceir blas o'r hyn yr oedd ganddynt i'w ddweud. Mae canfyddiadau'r ymarfer hwn wedi cael eu bwydo i mewn i'n blaenoriaethau gwelliant ar gyfer 2019/20:

**EDRYCH YN ÔL**

**Un o'r uchafbwyntiau i mi yn sicr fu craffu ar y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion, gan edrych ar y manteision a'r anfanteision a chynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i symud y rhaglen yn ei blaen ar ôl edrych ar gryfderau a gwendidau y cynllun**

**Fe wnaethom ni'n bendant gefnogi'r Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniadau effeithiol trwy eu craffu. Enghraifft o hyn fyddai cynllunio'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Ein rôl ni yw cwestiynu a gwerthuso eu hadroddiadau cyn iddynt gael eu mabwysiadu, ac yn fy marn i mae hyn yn gweithio'n dda gan amlaf**

**Mae'r trefniadau cryfach ar gyfer adrodd i'r Pwyllgor Gwaith yn ychwanegu gwerth i'n trefniadau llywodraethu**

**Ar y cyfan, rwy'n teimlo bod Sgriwtini wedi gwella'n aruthrol, ond mae gennym dal le i wella**



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

Rydym wedi cwblhau gwaith Sgriwtini da iawn yn ein Paneli. Fel Aelodau rydym wedi gallu canolbwyntio ar feysydd penodol. Mae'r strwythur newydd yn gweithio'n dda ac rydym wedi cael adborth positif gan ein rheoleiddwyr

Mae craffu rhai o'n partneriaethau allweddol wedi bod yn uchafbwynt i mi yn 2018/19. Mae angen i'r gwaith hwn barhau

Mae ein rhaglen hyfforddiant a datblygu wedi bod yn wych. Mae'r mentora a'r cyngor arbenigol allanol wedi bod yn uchafbwynt i mi

Rwy'n aelod o'r Panel Sgriwtini Ysgolion ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i gwrdd â Phenaethiaid, cadeiryddion Llywodraethwyr a chynrychiolwyr GwE er mwyn monitro perfformiad ein hysgolion. Mae'r paneli eraill yn gwneud gwaith gwych hefyd.

## EDRYCH YMLAEN

Mae rhai adroddiadau a gyflwynir i Sgriwtini yn faith ac nid ydynt bob tro'n hawdd i'w darllen. Byddai crynodebau sy'n canolbwyntio ar y prif faterion yn help i ni, ond gallai hynny fod yn her efo materion cymhleth.

Mae sesiynau briffio misol yn rhagorol a dylent barhau. Maent yn rhoi llawer o wybodaeth gefndirol i ni i'n cynorthwyo mewn cyfarfodydd pwyllgor sgriwtini.

Mae cyllid yn bwydo i'r rhan fwyaf o faterion gerbron Sgriwtini a byddwn yn elwa o hyfforddiant pellach ar reolaeth ariannol.

Er yn her oherwydd ein maint, dylai fod yna gapasiti i bwyllgorau wneud rhywfaint o waith yn annibynnol i flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith

Mae'n bwysig bod Sgriwtini yn parhau i glywed lleisiau cymunedau a phartïon eraill sydd â diddordeb, ar draws yr ystod o faterion rydym yn eu hystyried

Wrth symud ymlaen, mae angen i bresenoldeb yn y rhag-gyfarfodydd wella ymhellach ac mae angen i ni ddeall pam fel bod modd i ni greu'r amodau i gefnogi presenoldeb da

Byddai balans rhwng eitemau'r ddau bwyllgor sgriwtini yn caniatáu i ni wella ymhellach

Byddai gallu ymweld â Sir debyg i ni yn ein galluogi i wella ymhellach yn lleol.

**Mae cydweithio rhwng Cynghorau yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru. Dylid cael eglurhad ar y strwythur ar gyfer craffu gwasanaethau a ddarperir yn rhanbarthol**

**Byddai datblygiad proffesiynol parhaus mewn perthynas â Sgriwtini unwaith neu ddwywaith y flwyddyn yn dda**

B. Aelodau'r Pwyllgor Gwaith

Fe wnaeth holl Aelodau'r Pwyllgor Gwaith gymryd rhan yn yr hunanasesiad. Dyma grynodeb o'u sylwadau:

Roedd gwaith y paneli sgriwtini heb amheuaeth yn un o'r uchafbwyntiau yn ystod 2018/19. Maent wedi aeddfedu llawer iawn dros y flwyddyn ddiwethaf ac wedi dod yn ffordd effeithiol o graffu a hefyd datblygu arbenigedd yr Aelodau.

Cawsom nifer o argymhellion gan y pwyllgorau sgriwtini ar faterion sy'n flaenoriaeth strategol i'r Cyngor

Mae profiad da ymysg ein Aelodau a photensial gwirioneddol mewn Sgriwtini i wneud gwahaniaeth

Mae'r trefniadau ar gyfer adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Gwaith ar argymhellion y pwyllgorau sgriwtini wedi cryfhau, ac mae hyn i'w groesawu

Mae clywed llais cymunedau a rhan-ddeiliaid eraill yn rhan bwysig o'n gwaith fel y Cyngor. Roedd y pwyllgorau sgriwtini yn fodd i glywed lleisiau'r cymunedau yn uniongyrchol, er mwyn siapio argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith

Mae'n rhaid i ni ddangos gwerthfawrogiad o'r cyfraniad a wneir gan Aelodau Sgriwtini. Rydym yn Awdurdod bychan ond yn cyfrannu llawer

Bydd sicrhau cydbwysedd y rhaglenni gwaith ar draws y ddau bwyllgor yn caniatáu i ni gryfhau ein trefniadau sgriwtini ymhellach

Wrth greu'r amodau i'r pwyllgorau sgriwtini allu mireinio ymhellach argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r Pwyllgor Gwaith, bydd hynny'n ein galluogi i gynyddu effaith sgriwtini

C. Uwch Dîm Arweinyddiaeth

Fe dderbyniwyd sylwadau gan aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth fel rhan o'r ymarferiad hunan-asesiad:

Mae cadarnhad Swyddfa Archwilio Cymru o lwyddiant Sgriwtini i'w groesawu

Mae rôl Sgriwtini wedi bod yn hanfodol i wasanaethau cymdeithasol dros y flwyddyn ddiwethaf. Trwy'r strwythur, mae'r Gwasanaeth wedi gallu derbyn adborth a sialens i'n cynlluniau.

Gwnaed cyfraniad sylweddol gan Sgriwtini tuag at lwyddiant y Cyngor

Dros amrywiaeth o adroddiadau ac argymhellion mae'r pwyllgorau wedi dylanwadu ar ein gwaith. Yn benodol yn y maes Plant wrth siapio ein cynlluniau datblygu ac wrth dderbyn diweddariadau ar gynnydd ein gwasanaethau

Ym maes Oedolion mae Sgriwtini wedi rhoi sylw i'n gwaith mewn meysydd penodol yn cynnwys anabledd dysgu, cwynion ac ein partneriaethau

Ar y cyfan, fe gafodd Sgriwtini effaith gadarnhaol er mwyn cyfarch materion o flaenoriaeth corfforaethol. Esiamplau o cwestiynu da, deallus gan Aelodau

# 5.0 EDRYCH YMLAEN I 2019/20

5.1 Bydd yr Awdurdod yn parhau ar y cam nesaf o'i daith wella, ac mae'r meysydd allweddol canlynol wedi eu blaenoriaethu yn y rhaglen ddatblygu a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer gweithredu arnynt dros y misoedd i ddod:

## MEYSYDD ALLWEDDOL DATBLYGU SGRIWTINI

| Thema | Sut | Canlyniad[6] |
|---|---|---|
| **Gweledigaeth** | Parhau i brif lifo egwyddorion ein gweledigaeth | ***Canlyniadau gwell*** |
| **Datblygiad a chefnogaeth i Aelodau** | a. Datblygu ymhellach ar y rhaglen dreigl mewn lle i gefnogi a datblygu Aelodau Sgriwtini – ffocws ar hunan-asesu; sgiliau cadeirio; craffu data perfformiad; craffu cyllidol; materion technoleg gwybodaeth; E-ddysgu<br>b. Cynnal sesiynau briffio / datblygu / adolygu byr yn rheolaidd gyda'r Aelodau Craffu | ***Penderfyniadau gwell*** |
| **Paneli Sgriwtini** | Adolygu cynnydd gwaith y paneli i sicrhau:<br>• rhaglenni gwaith clir a chadarn<br>• cyflymder a ffocws priodol<br>• meysydd yn unol â blaenoriaethau corfforaethol | ***Penderfyniadau gwell*** |
| **Ymgysylltiad Cyhoeddus yn ein gwaith Craffu** | Adeiladu ar ein gwaith cychwynnol trwy ffurfioli mewnbynnau i bynciau sydd o ddiddordeb cyhoeddus gan grwpiau rhan-ddeiliaid presennol sy'n gweithio gyda'r Cyngor | ***Ymgysylltu'n well*** |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | Egluro rôl Craffu drwy ddatblygu ymhellach ar y templed adroddiadau Sgriwtini a chwestiynau sgriwtini allweddol | ***Canlyniadau gwell*** |
| **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gwaith partneriaethol** | • Datblygu rhaglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio i graffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac effeithlonrwydd partneriaethau yn unol â'r canllawiau cenedlaethol<br>• Cynnal trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd ar y posibilrwydd o sefydlu panel ar y cyd i graffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | ***Ymgysylltu'n well*** |

[6] Canlyniadau a Nodweddion am Drosolwg a Sgriwtini Effeithiol i Lywodraeth Leol – Craffu Da? Cwestiwn Da! Swyddfa Archwilio Cymru 2014

| Thema | Sut | Canlyniad[6] |
|---|---|---|
| **Modelau arloesol o Sgriwtini gan Aelodau** | Ystyried ffyrdd mwy arloesol o ymgymryd â gweithgaredd Sgriwtini | ***Penderfyniadau gwell, canlyniadau gwell, ymgysylltu'n well*** |
| **Hunanasesiad o'n trefniadau Sgriwtini lleol** | Aelodau'n cwblhau ymarferion hunanasesu:<br>• fel rhan o'r broses o baratoi'r Adroddiad Blynyddol Sgriwtini<br>• i asesu canlyniadau ac effaith ein paneli sgriwtini | ***Canlyniadau gwell*** |

## 6.0 CYSYLLTU Â SGRIWTINI

6.1 I ddysgu mwy am sgriwtini ar Ynys Môn neu i wneud unrhyw sylwadau cysylltwch os gwelwch yn dda â:

Yr Uned Sgriwtini,
Cyngor Sir Ynys Môn,
Swyddfeydd y Cyngor,
Llangefni.
Ynys Môn.
LL77 7TW

| | | |
|---|---|---|
| Anwen Davies | Rheolwr Sgriwtini (arwain ar gefnogi'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol) | (01248) 752578<br>AnwenDavies@ynysmon.gov.uk |
| Geraint Wyn Roberts | Swyddog Sgriwtini (arwain ar gefnogi'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio) | (01248) 752039<br>GeraintRoberts @ynysmon.gov.uk |

# ADRODDIAD BLYNYDDOL TROSOLWG A SGRIWTINI: 2018-2019

# ATODIADAU



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

# ATODIAD 1

# BETH YW TROSOLWG A SGRIWTINI?
## Cyd-destun polisi cenedlaethol

**Cyd-destun cenedlaethol:**
Mae pwyllgorau sgriwtini yn rhan o'r ffordd y mae llywodraeth leol yng Nghymru yn gweithredu. Yn ogystal â sefydlu Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniadau, mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu un neu ragor o bwyllgorau sgriwtini. Eu rôl bennaf yw dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, gyrru gwelliant, gweithredu fel llais y gymuned a chwarae rôl wrth ddatblygu ac adolygu polisïau.

Mae'r Ganolfan Graffu Gyhoeddus (CfPS)[7] yn arddel pedair egwyddor allweddol i gefnogi gwaith sgriwtini effeithiol gan Aelodau:

i. Darparu her "cyfaill beirniadol" i'r rheini sy'n llunio polisïau ac yn gwneud penderfyniadau
ii. Sicrhau y clywir llais a phryderon y cyhoedd a chymunedau
iii. "Llywodraethwyr annibynnol eu meddwl" sy'n arwain y broses sgriwtini ac yn cymryd perchnogaeth ohoni
iv. Yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gyrru gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn, sef "Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad". Roedd y Papur Gwyn yn gwahodd sylwadau ar gynigion ynghylch gweithio'n fandadol yn rhanbarthol i ddarparu amrediad o wasanaethau, rhoi sylw i faterion yn ymwneud â'r gweithlu a gweithredu ad-drefnu etholiadol. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi Papur Gwyrdd i ddilyn[8] y llynedd yn egluro ei ddyheadau ac ynddo mae'n cynnig datganiad o fwriad i gael llywodraeth leol gryfach, wedi ei grymuso yng Nghymru. Mae'r cynigion hyn yn amlinellu'r ymagwedd at y dyfodol i lywodraeth leol "i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cryfach, mwy cydnerth a chynaliadwy gydag atebolrwydd democrataidd wrth eu gwraidd"[9]. Disgwylir y bydd cynigion penodol yn cael eu datblygu hefyd ynglŷn â swyddogaethau sgriwtini Aelodau a hynny o fewn y cyd-destun lleol a hefyd o ran dal i gyfrif y gwasanaethau a ddarperir trwy drefniadau rhanbarthol. Bydd rhaid i ni felly ddatblygu'n barhaus ein fframwaith a threfniadau sgriwtini lleol mewn ymateb i'r ddeddfwriaeth newydd arfaethedig a chyd-destun polisi cenedlaethol sy'n esblygu. Disgwylir y Bil Llywodraeth Lleol yn ddiweddarach eleni.

---

[7] Canllaw Sgriwtini Da, Canolfan Graffu Gyhoeddus 2004

[8] Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl (20 Mawrth, 2018)

[9] Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl (20 Mawrth, 2018, p.2)

# ATODIAD 2

# CYLCH GORCHWYL AC AELODAETH EIN PWYLLGORAU SGRIWTINI

Mae'r swyddogaeth trosolwg a sgriwtini yng Nghyngor Sir Ynys Môn yn parhau i gael ei chyflawni drwy gyfrwng strwythur sy'n cynnwys dau o riant bwyllgorau sgriwtini – Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

## Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

### Cylch gorchwyl:

- Ffocws gwaith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yw darparu sicrwydd ynghylch cyflawni a darparu'r holl wasanaethau; sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol a'i amcanion ar gyfer ei wasanaethau (fel yr amlinellwyd yn y Cynllun Corfforaethol, y Gyllideb Flynyddol, y Fframwaith Polisi a Chyllideb, y Fframwaith Rheoli Perfformiad, Polisïau Corfforaethol neu eu cynlluniau a'u polisïau olynol); a chefnogi a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant parhaus
- Mae aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn cynnal cyfarfodydd paratoi cyn pob pwyllgor er mwyn paratoi a rhoi ffocws i'r drafodaeth yng nghyfarfodydd ffurfiol y pwyllgor. Ystyrir bod hyn yn arfer dda a bwriedir parhau â'r trefniadau hyn yn 2019/20.

### Aelodaeth

- Y Cynghorydd Aled Morris Jones yw cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a chaiff gefnogaeth gan yr Is-gadeirydd, sef y Cynghorydd Dylan Rees. Mae deg o aelodau'n gwasanaethu ar y pwyllgor[10] gyda darpariaeth ar gyfer 4 aelod cyfetholedig:

[10] Mae aelodaeth cynghorwyr ar y Pwyllgorau Sgriwtini yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor

## Aelodaeth Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

| | [redacted] | | | | [redacted] | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
|  | Cyng Aled Morris Jones (Cadeirydd) | Twrcelyn | Annibynwyr Môn |  | Cyng Dylan Rees (Is-gadeirydd) | Canolbarth Môn | Plaid Cymru |
|  | Cyng Lewis Davies | Seiriol | Plaid Cymru |  | Cyng John Griffith | Talybolion | Plad Cymru |
|  | Cyng Alun Roberts | Seiriol | Plaid Cymru |  | Cyng Nicola Roberts | Canolbarth Môn | Plaid Cymru |
|  | Cyng Richard Griffiths | Twrcelyn | Y Grŵp Annibynnol |  | Cyng Richard O Jones | Twrcelyn | Y Grŵp Annibynnol |
|  | Cyng J Arwel Roberts | Ynys Gybi | Plaid Lafur |  | Cyng Bryan Owen | Bro Aberffraw | Annibynwyr Môn |

| Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn ystod rhan o 2018-2019 | |
|---|---|
| Cyng Trefor Lloyd Hughes | Cyng Shaun Redmond |
|  |  |

## PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

**Cylch gorchwyl:**

- Prif ffocws y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yw sicrhau yr hyrwyddir buddiannau Dinasyddion Ynys Môn ac y gwneir y defnydd gorau o adnoddau'r Cyngor, yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor, sy'n dangos gwerth ychwanegol yn sgil gweithio gyda phartneriaid. Mae cylch gorchwyl y pwyllgor yn cynnwys trefniadau rhanbarthol a chenedlaethol yn ogystal â threfniadau lleol
- Y pwyllgor hefyd yw'r Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn enwebedig sy'n delio â materion trosedd ac anhrefn, fel sy'n ofynnol o dan Adrannau 19 a 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006. Hwn yw'r pwyllgor dynodedig hefyd ar gyfer craffu gwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd.
- Mae'r Pwyllgor wedi cyflwyno'r arfer o gynnal cyfarfodydd briffio gydag aelodau cyn pob cyfarfod ffurfiol o'r pwyllgor sgriwtini. Caiff hyn ei weld fel arfer da a bwriedir parhau â'r trefniadau hyn yn 2019/20.

**Aelodaeth:**

- Y Cynghorydd Gwilym Jones yw Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a chaiff gefnogaeth gan yr Is-gadeirydd, sef y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones. Mae deg o aelodau hefyd yn gwasanaethu ar y pwyllgor hwn gyda darpariaeth ar gyfer 4 aelod cyfetholedig:

## Aelodaeth Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | [redacted] | | | | [redacted] | | |
|  | Cyng Gwilym O Jones<br><br>(Cadeirydd) | Llifon | Y Grŵp Annibynnol |  | Cyng Robert Llewelyn Jones (Is-gadeirydd) | Caergybi | Annibynwyr Môn |
|  | Cyng Dafydd Roberts | Bro Rhosyr | Y Grŵp Annibynnol |  | Cyng Vaughan Hughes | Lligwy | Plaid Cymru |
|  | Cyng Alun Roberts | Seiriol | Plaid Cymru |  | Cyng Margaret Roberts | Lligwy | Plaid Cymru |
|  | Cyng Nicola Roberts | Canolbarth Môn | Plaid Cymru |  | Cyng Trefor Lloyd Hughes | Ynys Gybi | Plaid Cymru |
|  | Cyng Kenneth P Hughes | Talybolion | Annibynwyr Môn |  | Cyng Glyn Haynes | Caergybi | Plaid Lafur |

| Aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn ystod rhan o 2018-2019 | |
|---|---|
| Cyng Robin Williams | |
|  | |



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

Gall ein pwyllgorau sgriwtini wneud eu gwaith mewn un o'r ffyrdd canlynol:

- Ystyried y pwnc yn ystod cyfarfod ffurfiol
- Ystyried y pwnc yn fanylach trwy sefydlu panel canlyniad sgriwtini NEU
- Cynnal sesiynau anffurfiol ar faes polisi penodol.

.

Unwaith eto yn ystod 2018/19, roedd y pwyllgorau sgriwtini yn ymwybodol o'r angen i geisio canolbwyntio eu gwaith ar ganlyniadau ac o fewn fframwaith Swyddfa Archwilio Cymru o nodweddion a chanlyniadau sgriwtini a throsolwg effeithiol mewn llywodraeth leol[11]:

- Canlyniadau gwell
- Penderfyniadau gwell
- Ymgysylltu'n well

Crynhoir y fframwaith arfer gorau yma yn **ATODIAD 4** i'r adroddiad hwn.

**Galw penderfyniadau i mewn:** gall pwyllgorau sgriwtini "alw i mewn" benderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith, Aelod Portffolio neu swyddog sydd wedi cael pwerau dirprwyol gan y Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniad penodol. Nid yw'r pwyllgorau sgriwtini ond yn galw penderfyniad i mewn pan mae rheswm da dros wneud hynny (drwy Brawf o Arwyddocâd), ac yn ystod 2018/19 gwnaed hyn 3 gwaith, gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Gwelwyd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn galw mewn y penderfyniadau canlynol gan y Pwyllgor Gwaith / Deilydd Portffolio:

1. **Penderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith**

- Moderneiddio Ysgolion yn ardal Llangefni (Y Graig a Talwrn) (Awst, 2018)
- Moderneiddio Ysgolion yn ardal Seiriol (Awst, 2018)

2. **Penderfyniad gan Ddeilydd Portffolio**

- Argymhelliad i werthu hen safle Ysgol Llaingoch (derbyn y cynnig uchaf) (Medi, 2018).

[11] Craffu Da? Cwestiwn Da! Swyddfa Archwilio Cymru, 2014

**ATODIAD 3**

# ADOLYGIAD O SGRIWTINI GAN SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Fe wnaeth Swyddfa Archwilio Cymru gynnal adolygiad cenedlaethol o sgriwtini yn ystod 2017/18 gyda gwaith maes ym mhob ardal awdurdod lleol. Roedd tri diben i'r adolygiad:

- Edrych ar ba mor 'addas i'r dyfodol' yw ein trefniadau sgriwtini a pha mor dda yw ein sefyllfa i ymateb i heriau yn y dyfodol (gan gynnwys y pwysau sy'n dal i fod ar y pwrs cyhoeddus a'r symud posib tuag at weithio'n rhanbarthol rhwng y Cynghorau)
- Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a sut ydym yn ymateb mewn perthynas â'n gwaith sgriwtini.

Cafodd gwaith maes a gwaith casglu tystiolaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru ar drefniadau Sgriwtini y Cyngor ei gwblhau yng ngwanwyn, 2018. Cafodd yr adroddiad ar ein trefniadau lleol ei gyhoeddi ym mis Hydref, 2018.



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

## ATODIAD 4

# Canlyniadau a Nodweddion am Trosolwg a Sgriwtini Effeithiol i Lywodraeth Leol[12]

| Canlyniad<br><br>**Beth mae craffu da yn anelu at ei gyflawni** | Nodweddion<br><br>**Sut olwg fyddai arno? Sut y gallem ei adnabod?** |
|---|---|
| **1. Mae atebolrwydd democrataidd yn llywio gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.**<br><br>***'Canlyniadau Gwell'*** | **Yr amgylchedd**<br><br>i) Mae gan drosolwg a chraffu rôl benodol a gwerthfawr o fewn trefniadau gwella a llywodraethu'r cyngor.<br><br>ii) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn cael y cymorth sydd ei angen arni gan swyddogion penodedig sy'n gallu cynnal gwaith ymchwil annibynnol yn effeithiol, ac mae'n rhoi dadansoddiadau, cyngor a hyfforddiant o ansawdd uchel i gynghorwyr.<br><br>**Arfer**<br><br>iii) Mae ymchwiliadau'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn anwleidyddol, yn fethodolegol gadarn ac yn cynnwys amrywiaeth eang o dystiolaeth a safbwyntiau.<br><br>**Effaith**<br><br>iv) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn herio gwneuthurwyr penderfyniadau a darparwyr gwasanaethau yn rheolaidd ar sail tystiolaeth.<br><br>v) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn darparu atebion hyfyw yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn i broblemau cydnabyddedig. |
| **2. Mae'r broses o wneud penderfyniadau democrataidd yn atebol, yn gynhwysol** | **Yr amgylchedd**<br><br>i) Mae cynghorwyr trosolwg a chraffu yn cael y cyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd eu hangen arnynt i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol.<br><br>ii) Mae'r broses yn cael cefnogaeth effeithiol gan dîm rheoli corfforaethol y cyngor sy'n sicrhau bod y wybodaeth a roddir i'r swyddogaeth trosolwg a chraffu o ansawdd uchel ac y caiff ei darparu mewn modd amserol a |

[12] Craffu Da? Cwestiwn Da! Swyddfa Archwilio Cymru, 2014

| | |
|---|---|
| **ac yn gadarn.**<br><br>***'Penderfyniadau gwell'*** | chyson.<br><br>**Arfer**<br><br>iii) Caiff y swyddogaeth trosolwg a chraffu ei harwain gan gynghorwyr, mae'n ystyried safbwyntiau'r cyhoedd, partneriaid a rheoleiddwyr, ac yn cydbwyso'r broses o flaenoriaethu pryderon y gymuned yn erbyn materion lle ceir risg strategol a materion o bwysigrwydd strategol.<br><br>iv) Caiff cyfarfodydd a gweithgareddau'r swyddogaeth trosolwg a chraffu eu cynllunio'n dda, eu cadeirio'n effeithiol ac maent yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddi.<br><br>**Effaith**<br>v) Mae gwneuthurwyr penderfyniadau yn sicrhau eu bod yn atebol i'r cyhoedd mewn perthynas â'u cyfrifoldebau portffolio o fewn pwyllgorau trosolwg a chraffu. |
| **3. Mae'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn trafodaethau democrataidd am y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu nawr ac yn y dyfodol.**<br><br>*'Ymgysylltu'n well'* | **Yr amgylchedd**<br><br>i) Mae'r weithrediaeth a'r tîm rheoli corfforaethol yn cydnabod y swyddogaeth trosolwg a chraffu fel un o systemau pwysig y cyngor ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned, ac mae'r swyddogaeth yn hwyluso mwy o gyfranogiad gan y cyhoedd ym maes llywodraethu.<br><br>**Arfer**<br><br>ii) Nodweddir y swyddogaeth trosolwg a chraffu gan drefniadau cyfathrebu effeithiol er mwyn codi ymwybyddiaeth o atebolrwydd democrataidd ac annog cyfranogiad.<br><br>iii) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn gweithredu mewn modd anwleidyddol ac yn ymdrin yn effeithiol â thensiwn, gwrthdaro a materion gwleidyddol sensitif.<br><br>iv) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn meithrin ymddiriedaeth a chydberthnasau da ag amrywiaeth eang o ran-ddeiliaid mewnol ac allanol.<br><br>**Effaith**<br><br>v) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn galluogi i 'lais' pobl a chymunedau lleol ledled yr ardal gael ei glywed fel rhan o'r prosesau gwneud penderfyniadau a llunio. |



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

# ATODIAD 5

## Gweledigaeth ar gyfer sgriwtini effeithiol yng Nghyngor Sir Ynys Môn

**Gweledigaeth**

Mae Sgriwtini yn Ynys Môn yn anelu at sicrhau gwell ganlyniadau ar gyfer dinasyddion a chymunedau a hefyd ychwanegu at effeithiolrwydd y Cyngor drwy helpu i wneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy tryloyw, cynhwysol, atebol a chost effeithiol.

**Egwyddorion Arweiniol ar gyfer Sgriwtini yn Ynys Môn**

- Mae sgriwtini yn creu awyrgylch o gyd-ymddiriedaeth, cydweithio a rhannu cyfrifoldebau er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer cymunedau lleol.
- Mae Aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith yn anwleidyddol yn y modd y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cefnogi a herio.
- Mae gweithgaredd sgriwtini yn ehangu yn uniongyrchol y sylfaen dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer gwneud penderfyniadau a chyflwyno rhaglenni trawsnewid oherwydd mae'n rhoi syniad o'r modd y mae cymunedau lleol yn debygol o deimlo am y cynigion.
- Mae Aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith yn helpu i sicrhau y cymerir ymagwedd strategol, tymor hir pan mae bwriad i ailgyflunio gwasanaethau ar raddfa fawr a hynny drwy ddarparu her adeiladol wrth roi prawf ar ragdybiaethau, edrych ar risgiau a herio'r modd y mae adnoddau'n cael eu blaenoriaethu.

**Ein Gwerthoedd**

**Trosolwg a Sgriwtini yn Ynys Môn….**

- Mae'n edrych 'ymlaen ac at allan' ac yn rhagweithiol yn hytrach nag yn 'fewnol ac mewn modd ymatebol'
- Mae gan sgriwtini rôl sydd wedi ei diffinio'n glir ac sy'n cael ei gwerthfawrogi yn nhrefniadau gwella a llywodraethiant y cyngor.
- Mae'n anwleidyddol, yn gadarn o ran ei fethodoleg ac yn cynnwys amrediad eang o ffynonellau tystiolaeth a safbwyntiau gan gynnwys rhai gan bartneriaid strategol, rheoleiddwyr a'r cyhoedd.
- Mae'n cael ei arwain gan gynghorwyr sy'n cael y cyfleoedd hyfforddi a datblygu y maent eu hangen i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol.
- Mae'n derbyn cefnogaeth effeithiol gan dîm uwch arweinyddion y Cyngor sy'n sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir ar gyfer trosolwg a sgriwtini o ansawdd uchel ac yn cael ei darparu mewn modd amserol a chyson.
- Mae'n cymryd i ystyriaeth bryderon a fynegir ar lefel ward mewn modd nad yw'n blwyfol wrth reoli ei raglen waith ar gyfer y dyfodol.
- Mae'n cael ei gynllunio'n dda, ei gadeirio'n effeithiol ac mae'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddo.
- Mae'n cael ei gydnabod gan y pwyllgor gwaith a'r uwch dîm arweinyddiaeth fel mecanwaith pwysig yn y Cyngor ar gyfer ymgysylltiad cymunedol ac mae'n golygu ei bod yn haws i ddinasyddion ymwneud â llywodraethiant.
- Adeiladu ymddiriedaeth a pherthnasau cadarnhaol gydag amrediad eang o gydran-ddeiliaid mewnol ac allanol.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu / Cyngor Sir** |
| **Dyddiad:** | **23 Ebrill 2019 / 14 Mai 2019** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 2018/19 – Adroddiad y Cadeirydd** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>**01248 752601**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg**<br>**01248 752611**<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur yr Adroddiad a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adrodd i'r rhai hynny 'sy'n gyfrifol am lywodraethiant' (y Cyngor Sir) asesiad o'i berfformiad ar ei weithgareddau yn ystod y flwyddyn er mwyn arddangos sut mae'r Pwyllgor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar weithgareddau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod 2018/19.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'n cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gyfer 2018/19 cyn ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor Sir ar 14 Mai 2019.

## 3. Gwybodaeth Gefndirol

3.1. Mae Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'n un o bwyllgorau statudol y Cyngor. Mae'n elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor sy'n darparu adnodd annibynnol a lefel uchel i gefnogi llywodraethu da a rheolaeth ariannol gyhoeddus gadarn.

3.2. Mae'r Pwyllgor yn darparu sicrwydd annibynnol i'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu ynglŷn â digonolrwydd y fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchedd reoli fewnol, ac uniondeb y drefn adrodd ariannol. Drwy oruchwylio archwilio mewnol ac allanol a rheoleiddwyr eraill, mae'n gwneud cyfraniad pwysig o ran sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol yn eu lle.

## 4. Llywodraethu

4.1. Swyddogaethau craidd pwyllgor archwilio yw bod yn fodlon bod datganiadau sicrwydd yr awdurdod, yn cynnwys y datganiad llywodraeth blynyddol, yn rhoi gwir adlewyrchiad o'r amgylchedd risg ac unrhyw weithredoedd sydd eu hangen er mwyn ei wella ac arddangos sut mae llywodraethiant yn cefnogi cyflawniad o amcanion yr awdurdod.

4.2. Derbyniodd y Pwyllgor y Datganiad o Gyfrifon 2017/18 drafft cyn eu hadolygu gan Archwilwyr Allanol yn ei gyfarfod ar 27 Mehefin 2018. Yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2018 cymeradwyodd y Pwyllgor y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2017/18 a chyfeiriwyd y ddogfen i sylw Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr, yn unol â'r gofyn statudol.

4.3. Mae dogfennau llywodraethu eraill a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Adroddiad Blynyddol Llywodraethu Gwybodaeth yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth ar gyfer 2017/18, a ddarparodd y Pwyllgor â sicrwydd am effeithlonrwydd trefniadau'r Cyngor o ran Llywodraethu Gwybodaeth.

- Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ar Bryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban ar gyfer 2017/18, a ddarparodd y Pwyllgor a sicrwydd rhesymol bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r prosesau angenrheidiol yn unol â'i Bolisi Pryderon a Chwynion a'i Bolisi / Arweiniad Chwythu'r Chwiban.

- Adroddiad mewn perthynas â Derbyn Polisïau, a oedd yn nodi'r data o ran cydymffurfiaeth am y flwyddyn gyntaf ers gweithrediad y Porth Polisi, a oedd yn darparu'r Pwyllgor â sicrwydd bod aelodau unigol o staff yn darllen, yn deall ac yn derbyn yn ffurfiol y polisïau Llywodraethu Gwybodaeth allweddol;

- Yr Adroddiad Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar gyfer 2017/18, a ddarparodd y Pwyllgor a sicrwydd fod gan y Cyngor drefniadau priodol ar gyfer materion iechyd a diogelwch.

## 5. Rheoli Risg

5.1. Mewn perthynas â rheoli risg, swyddogaethau allweddol pwyllgor archwilio yw ystyried effeithlonrwydd trefniadau rheoli risg yr awdurdod a'r amgylchedd rheoli, adolygu proffil risg y sefydliad a chael sicrwydd bod rheolwyr yn cymryd y camau priodol ar faterion yn ymwneud â risg, yn cynnwys partneriaethau a chydweithrediadau â sefydliadau eraill.

5.2. Yn ogystal, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cynnwys gofyniad i awdurdodau lleol benodi Pwyllgor â chyfrifoldeb i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth mewnol a llywodraethiant corfforaethol y Cyngor. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hefyd yn nodi'r angen iddo fodloni'r gofynion hyn.

5.3. Cymerodd y Pwyllgor sicrwydd gan yswirwyr y Cyngor, Zurich Municipal (ZM), a gynhaliodd Wiriad Iechyd Rheoli Risg yn ystod mis Tachwedd 2018 gan ddod i'r casgliad fod rheoli risg ar lefel 'Reoledig' (lefel 3) yn y Cyngor, o fewn y pum lefel o aeddfedrwydd yn y Model Perfformiad a ddefnyddiwyd. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi datblygu Cynllun Gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r arsylwadau a'r argymhellion a godwyd gan ZM.

5.4. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gefnogi datblygiad y fframwaith Rheoli Risg o fewn y Cyngor yn ystod y flwyddyn ac ystyriwyd risgiau corfforaethol y Cyngor ar 19 Medi 2018 a 12 Chwefror 2019.

## 6. Cyfrifon Ariannol

6.1. Mewn perthynas â chyfrifon ariannol, swyddogaeth graidd y Pwyllgor yw i adolygu'r cyfrifon ariannol, barn yr archwilydd allanol a'r adroddiadau i aelodau a monitro gweithredoedd rheolwyr mewn ymateb i'r materion a godwyd gan archwilwyr allanol.

6.2. Derbyniodd a nododd y Pwyllgor y Datganiad o Gyfrifon drafft ar gyfer eu harchwilio ar gyfer 2017/18 yn ei gyfarfod ar 27 Mehefin 2018.

6.3. Ar 19 Medi 2018, adroddodd y Prif Swyddog Ymgysylltu ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru fod yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu rhoi barn diamod ar y datganiadau ariannol yn unol â'r amserlen statudol, yn amodol ar gwblhau'r gwaith sy'n weddill yn foddhaol ac ar dderbyn Llythyr Sylwadau'r Cyngor.

6.4. O ganlyniad, penderfynodd y Pwyllgor argymell i'r Cyngor Llawn y dylid derbyn Datganiad Cyfrifon 2017/18.

## 7. Rheoli Trysorlys

7.1. Mae'r pwyllgor archwilio hefyd yn cefnogi'r Cyngor drwy ymgymryd â rôl ehangach oherwydd mae'n adolygu ac yn monitro trefniadau rheoli trysorlys yn unol â Rheoli Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer a Chanllawiau Traws-Sector (CIPFA, 2017).

7.2. Yn unol â'i gylch gorchwyl a Chod Ymarfer a Chylch Gorchwyl CIPFA ar gyfer Rheoli Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus (2011), ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2017/18. Cyflwynodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) yr adroddiad i'r Pwyllgor ei ystyried a'i graffu'n unol â'r rheoliadau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chynllun Dirprwyo Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2017/18 ar 24 Gorffennaf 2018.

7.3. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad canol blwyddyn ar Reoli Trysorlys yn ei gyfarfod ar 4 Rhagfyr 2018 er mwyn monitro datblygiadau a thueddiadau.

7.4. Bu'r Pwyllgor yn craffu Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2019/20 ar 12 Chwefror 2019. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2019/20 ac argymell y Datganiad i'r Pwyllgor Gwaith heb unrhyw sylwadau ychwanegol.

7.5. Fel rhan o’r broses o graffu ar yr adroddiadau uchod, adolygodd y Pwyllgor lefel y risg y mae’r Cyngor yn agored iddi a’i allu i reoli risg mewn perthynas â’i weithgareddau Rheoli Trysorlys.

## 8. Archwilio Mewnol

8.1. Mewn perthynas â swyddogaethau archwilio mewnol yr Awdurdod, swyddogaeth graidd y Pwyllgor yw goruchwylio ei annibyniaeth, ei wrthrychedd, perfformiad a phroffesiynoldeb, cefnogi effeithiolrwydd y broses archwilio mewnol a hyrwyddo defnydd effeithiol o archwilio mewnol o fewn y fframwaith sicrwydd.

8.2. Mae ganddo hefyd rôl i gefnogi perthnasau effeithiol rhwng archwilio allanol ac archwilio mewnol, asiantaethau archwilio a chyrff perthnasol eraill a mynd ati’n weithredol i hyrwyddo gwerth y broses archwilio.

8.3. Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2016/17 gan y cyn Bennaeth Archwilio a Risg yn ei gyfarfod ar 27 Mehefin 2018. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn barn archwilio gyffredinol y Pennaeth Archwilio a Risg mewn perthynas â digonolrwydd ac effeithlonrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheoli’r Cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.

8.4. Cymeradwyodd y Pwyllgor fân newidiadau i’r Siartr Archwilio mewnol yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2018.

8.5. Cymeradwyodd y Pwyllgor y Strategaeth Archwilio Mewnol a’r Cynllun Archwilio Blynyddol ar gyfer 2019/20 yn ei gyfarfod ar 12 Chwefror 2019.

8.6. Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg ar ganlyniadau pob aseiniad archwilio i bob un o gyfarfodydd arferol y Pwyllgor fel rhan o'r adroddiad diweddaru ar archwilio mewnol. Roedd yr Adroddiadau hefyd yn cynnwys manylion am gynnydd gwasanaethau wrth weithredu gweithredoedd rheolwyr er mwyn mynd i’r afael â ‘Materion/Risiau’ a godwyd gan Archwilio mewnol a bob chwe mis derbyniodd y Pwyllgor adroddiad manwl at yr holl ‘Faterion/Risgiau’ ‘Coch’ ac ‘Ambr’ a godwyd gan Archwilio Mewnol ac oedd yn parhau i fod angen sylw.

## 9. Archwilio Allanol

9.1. Swyddogaethau craidd pwyllgor archwilio yw ystyried adroddiadau ac argymhellion archwilio mewnol ac asiantaethau archwilio a’u goblygiadau o ran llywodraethiant, rheoli risg neu reolaeth.

9.2. Archwiliwr Cyffredinol Cymru yw archwiliwr allanol statudol y Cyngor. Mae rôl yr Archwiliwr Cyffredinol yn cynnwys archwilio sut mae’r Cyngor yn rheoli a gwario arian cyhoeddus, yn cynnwys sut mae’n cyflawni gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a pha mor dda mae’r Cyngor yn cynllunio ar gyfer gwella.

9.3. Mae Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwiliwr Cyffredinol, yn ymgymryd â’r Gwaith Perfformiad. Adroddodd yr Arweinydd Perfformiad Archwilio, yn y cyfarfod ar 24 Ebrill 2018, ar y gwaith a wnaed mewn perthynas ag Adroddiad Gwella Blynyddol

2017/18, yn cynnwys crynodeb o adroddiadau lleol, cynnydd a chyhoeddiadau a gynlluniwyd a gwaith presennol Swyddfa Archwilio Cymru a gwaith cenedlaethol ynghyd â gwaith penodol ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.

9.4. Adroddodd Swyddfa Archwilio Cymru yng nghyfarfod 19 Medi 2018 fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2018/19 mewn perthynas â gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Cadarnhaodd hefyd nad oedd Estyn nac Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cynnal unrhyw adolygiadau yn y Cyngor yn ystod cyfnod yr adroddiad.

9.5. Cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiadau archwilio allanol ar y Parodrwydd am Wylfa Newydd a'r effaith ar gapasiti corfforaethol i'r cyfarfod ar 27 Mehefin 2018 ac adroddiad ar 'Safbwynt y Defnyddiwr Gwasanaeth – Safon Ansawdd Tai Cymru' i gyfarfod 19 Medi 2018. Adroddodd hefyd i gyfarfod 14 Rhagfyr 2018 ar ganlyniad yr adolygiad o drefniadau craffu'r Cyngor – 'Trosolwg o Sgriwtini – Pa mor Addas i'r Dyfodol?'

9.6. Mae Deloitte, ar ran yr Archwiliwr Cyffredinol, yn ymgymryd â gwaith archwilio ariannol. Yn y cyfarfod ar 19 Medi 2018 adroddodd ar ei fwriad i gyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol ar gyfer 2017/18.

9.7. Cyflwynwyd y Llythyr Archwilio Allanol Blynyddol ar gyfer 2017/18, ynghyd â'r rhybudd o ardystiad o gwblhau'r archwiliad o gyfrifon 2017/18 i gyfarfod 12 Chwefror 2019 er gwybodaeth.

9.8. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn ac ystyried adroddiadau diweddaru rheolaidd gan Swyddfa Archwilio Cymru a Deloitte. Mae hon yn agwedd bwysig ar fusnes y Pwyllgor er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr holl adroddiadau allanol, un ai yn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu neu un o'r Pwyllgorau Sgriwtini, a bod yn y camau priodol yn cael eu cymryd.

## 10. Gwrthsefyll Twyll a Llygredd

10.1. Ym mis Rhagfyr 2018, cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg ddau adroddiad i'r Pwyllgor yn ymwneud â thwyll; darparodd y cyntaf sicrwydd fod y Cyngor wedi lleihau i'r eithaf ar ba mor agored ydyw i dwyll o ran teithio am bris rhatach a chafwyd manylion yn yr ail adroddiad am yr ymarfer Menter Twyll Cenedlaethol a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Swyddfa'r Cabinet. Roedd yn cynnwys manylion am y gwaith y byddai Archwilio Mewnol yn ei wneud er mwyn dodo o hyd i hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus.

## 11. Amlder Cyfarfodydd

11.1. Er mwyn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau yn effeithiol fe ddylai'r Pwyllgor gyfarfod yn rheolaidd – o leiaf bedair gwaith y flwyddyn a chael polisi clir ar yr eitemau hynny y bydd yn eu hystyried yn breifat a'r rhai y bydd yn eu hystyried yn gyhoeddus.

11.2. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu'r Pwyllgor yn ffurfiol ar 6

achlysur. Ceir gwybodaeth am aelodaeth y Pwyllgor a phresenoldeb mewn cyfarfodydd yn ystod 2017/18 yn Atodiad A.

11.3. Mae cylch gorchwyl y pwyllgor yn ei alluogi i gyfarfod yn breifat ac ar wahân gyda'r archwiliwr allanol a'r Pennaeth Archwilio a Risg os oes angen er nad oedd angen am hynny yn ystod 2018/19.

## 12. Strwythur ac Aelodaeth

12.1. Mae'r Pwyllgor yn annibynnol ar swyddogaethau'r pwyllgor gwaith a sgriwtini ac yn cynnwys aelod annibynnol yn unol â'r ddeddfwriaeth. Mae ganddo hawliau mynediad clir i bwyllgorau/swyddogaethau eraill ac mae'n uniongyrchol atebol i'r Cyngor.

12.2. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys wyth o aelodau'r Cyngor, gyda chydbwysedd gwleidyddol, a hyd at ddau Aelod Lleyg wedi eu cyfethol a'u penodi gan y Pwyllgor. Dechreuodd y ddau Aelod Lleyg cyfetholedig ym mis Mehefin 2017. Mae Aelodaeth yn wrthrychol, yn annibynnol, yn wybodus a chanddo gymysgedd o arbenigedd.

12.3. Mae Aelodau yn gefnogol o egwyddorion llywodraethu da a'u gweithrediad ymarferol er mwyn cyflawni amcanion sefydliadol. Mae gan Aelodau agweddau diduedd ac yn trin archwilwyr, y pwyllgor gwaith a rheolwyr yn deg ac mae ganddynt y gallu i herio'r pwyllgor gwaith a'r uwch reolwyr yn ôl yr angen.

12.4. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 15 Mai 2018, etholwyd y Cynghorydd Peter S Rogers yn Gadeirydd a'r Cynghorydd Robert Llewelyn Jones yn Is-Gadeirydd.

12.5. Mae'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Archwilio a Risg hefyd yn mynychu pob cyfarfod o'r Pwyllgor. Mae'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro, a'r archwilydd allanol a benodwyd, hefyd yn mynychu'n rheolaidd. Mae'r Swyddogion hyn yn gallu cael mynediad i'r Pwyllgor, neu'r Cadeirydd, yn ôl yr angen.

## 13. Cylch Gorchwyl

13.1. Mae arfer dda yn awgrymu y dylai pwyllgorau adolygu eu cylch gorchwyl o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau priodoldeb. Adolygodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ei cylch gorchwyl ddiwethaf ym mis Chwefror 2015 a rhoddwyd cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Ebrill a'r Cyngor Sir ym Mai 2015.

13.2. Cytunodd y Pwyllgor i ohirio'r dasg o adolygu ei gylch gorchwyl tan ar ôl cyhoeddi y canllawiau newydd CIPFA.

13.3. Ym mis Mai 2018, fe adolygodd CIPFA ei ganllawiau yn llwyr a'u diweddaru er mwyn cymryd i ystyriaeth y newidiadau deddfwriaethol a datblygiadau proffesiynol sydd wedi effeithio ar y sector cyhoeddus gan gynnwys cyflwyniad y Fframwaith Darparu Llywodraethiant Da Mewn Llywodraeth Leol (CIPFA/Solace 2016). Mae'r canllawiau diwygiedig yn diweddaru swyddogaethau craidd y pwyllgor archwilio mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg, rheolaeth mewnol ac archwilio.

13.4. Fe wnaeth CIPFA hefyd ddiweddaru rôl y pwyllgor archwilio mewn perthynas ag atal twyll er mwyn adlewyrchu'r Cod Ymarfer ar reoli'r Risg o Dwyll a Llygredigaeth.

13.5. Yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2018, fe gadarnhaodd y Pwyllgor ei Gylch Gorchwyl diwygiedig, ac fe wnaeth y Pwyllgor Gwaith ei gadarnhau ar 29 Hydref 2018 a'r Cyngor Sir ei fabwysiadu ar 11 Rhagfyr 2018.

## 14. Effeithiolrwydd

14.1. Mae'r Pwyllgor wedi gweithio yn unol â'i gylch gorchwyl, sy'n cynnwys gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â rôl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o ran monitro rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol yn y Cyngor.

14.2. Bydd y Pwyllgor yn cynnal hunan-asesiad manwl yn erbyn Canllawiau Ymarferol newydd CIPFA ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Heddlu (2018) yn ystod 2019/20.

14.3. Mae gweithredoedd a godwyd gan y Pwyllgor a'u datrysiadau wedi'u nodi yn Atodiad B.

14.4. Gweler Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2018/19 yn Atodiad C. Gallai hyn newid yn dilyn hunan-asesiad y Pwyllgor o effeithlonrwydd yn ystod 2019/20.

## 15. Sylwadau'r Cadeirydd

15.1. Hoffai'r Cadeirydd fynegi ei ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor am eu presenoldeb a'u cyfraniad i waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

15.2. Hoffai'r Cadeirydd hefyd fynegi ei ddiolch i'r gweithwyr hynny o fewn y Cyngor sydd wedi mynychu a chyfrannu at gyfarfodydd ac, yn benodol, mae hefyd yn manteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i staff y Gwasanaethau Cyllid ac Archwilio Mewnol am eu cymorth parod.

15.3. Mae'r Cadeirydd yn manteisio ar y cyfle hwn i atgoffa'r Cyngor o bwysigrwydd gwaith y Pwyllgor, sydd hyd yn oed yn fwy perthnasol yn y sefyllfa economaidd bresennol o ran sicrhau bod y Cyngor yn cael ei redeg mewn modd effeithiol a bod gwerth am arian yn cael ei sicrhau.

**15.4.** Mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i barhau i weithio gyda staff y Cyngor er mwyn cefnogi gwelliannau parhaus yng ngweithrediadau'r Cyngor yn 2019/20.

**CYNGHORYDD PETER S ROGERS**
**CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**
**23 EBRILL 2019**

# Atodiad A – Amlder Cyfarfodydd a Phresenoldeb

| Aelodau | Cyfarfodydd | | | | | | Nifer y Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 24/04/18 | 27/06/18 | 24/07/18 | 19/09/18 | 04/12/18 | 12/02/19 | |
| Cyng Peter S Rogers (Cadeirydd) | Presennol | Presennol | Ymddiheuriadau | Presennol | Presennol | Presennol | **5 / 6** |
| Cyng Robert Ll. Jones (Is-gadeirydd) | Ymddiheuriadau | Presennol | Ymddiheuriadau | Presennol | Presennol | Presennol | **4 / 6** |
| Cyng John Griffith (cyn ddeilydd portffolio Cyllid) | Ymddiheuriadau (Deilydd Portffolio) | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | **5 / 6** |
| Cyng Richard Griffiths | Presennol | Presennol | Ymddiheuriadau | Ymddiheuriadau | Ymddiheuriadau | Presennol | **2 / 6** |
| Cyng Gwilym O. Jones | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Ymddiheuriadau | Presennol | **5 / 6** |
| Cyng Dylan Rees | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | **6 / 6** |
| Cyng Alun Roberts | Presennol | Ymddiheuriadau | | Presennol | Presennol | Presennol | **4 / 6** |
| Cyng Margaret M. Roberts | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Ymddiheuriadau | **5 / 6** |
| Cyng Robin Williams (deilydd portffolio Cyllid presennol) | Presennol | Ymddiheuriadau (Deilydd Portffolio) | Presennol (Deilydd Portffolio) | Presennol (Deilydd Portffolio) | Ymddiheuriadau (Deilydd Portffolio) | Ymddiheuriadau (Deilydd Portffolio) | **3 / 6** |
| Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | Presennol | **6 / 6** |
| Mr Jonathan Mendoza (Aelod Lleyg) | Presennol | Presennol | Presennol | Ymddiheuriadau | Presennol | Presennol | **5 / 6** |
| **Cyfanswm ar gyfer y Pwyllgor[1]** | **8** | **8** | **5** | **8** | **8** | **9** | |

[1] Yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor, bydd y Pwyllgor yn cynnwys wyth aelod etholedig a dau aelod lleyg. Bydd cydbwysedd gwleidyddol o aelodau etholedig ac ni fyddant yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith ond mae angen i'r deilydd Portffolio Cyllid, cyn belled â bo hynny'n bosibl, fynychu pob cyfarfod o'r Pwyllgor.

## Atodiad B – Cynnydd mewn perthynas â'r Camau Gweithredu a godwyd gan y Pwyllgor yn 2018/19

| Dyddiad Cyfarfod pan godwyd | Cyf. yn y cofnodion | Mater a Godwyd | Camau Gweithredu sydd eu hangen | Cyfrifoldeb am Weithredu | Dyddiad Cwblhau | Statws Cyfredol | Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 27/06/18 | 3 | Datganiad Cyfrifon 2017/18 a Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2017/18 | Darparu'r Pwyllgor â gwybodaeth ar sut mae ffigyrau alldro'r Gyllideb ym mharagraff 3.4.1 o'r adroddiad naratif yn cael eu cysoni i'r datganiadau ariannol. | Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifo | Ar unwaith | Rhoes y Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifo y wybodaeth i'r Aelod Lleyg yn dilyn y cyfarfod. | |
| 19/09/18 | 5 | Adroddiad Blynyddol: | Cymeradwyo'r prif negeseuon o'r Tabl gwersi a Ddysgwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad, sef -<br><br>Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn atgoffa'r holl Benaethiaid Gwasanaeth bod yn rhaid dilyn y Siartr Gofal Cwsmer bob amser wrth ddelio â'r cyhoedd ac i sicrhau hyfforddiant rheolaidd a hyfforddiant gloywi yn ôl yr angen. | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor_ / Swyddog Monitro | Ar unwaith | Cwblhawyd. | |

| **Dyddiad Cyfarfod pan godwyd** | **Cyf. yn y cofnodion** | **Mater a Godwyd** | **Camau Gweithredu sydd eu hangen** | **Cyfrifoldeb am Weithredu** | **Dyddiad Cwblhau** | **Statws Cyfredol** | **Statws RAG** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | O hyn allan, bod system gorfforaethol newydd i gael ei gweithredu lle bydd angen i wasanaethau gwblhau log gwersi a ddysgwyd ffurfiol ar ddiwedd proses gwynion ar gyfer unrhyw gwynion sy'n cael eu derbyn neu'n cael eu derbyn yn rhannol. | | | | |
| 19/09/18 | 10 | Archwilio Allanol: Safbwynt y Defnyddiwr Gwasanaeth – Safon Ansawdd Tai Cymru – CSYM | Y Gwasanaeth Tai i gynnal adolygiad ôl-weithredol o ddiddymiad y gwasanaeth warden yn ei gynlluniau tai gwarchod. | Pennaeth Gwasanaethau Tai | Heb ei nodi | Disgwyl am ddiweddariad | |

| Dyddiad Cyfarfod pan godwyd | Cyf. yn y cofnodion | Mater a Godwyd | Camau Gweithredu sydd eu hangen | Cyfrifoldeb am Weithredu | Dyddiad Cwblhau | Statws Cyfredol | Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 04/12/18 | 4 | Diweddariad ar Gynnydd Archwilio mewnol | Pennaeth Archwilio a Risg i ddarparu'r Pwyllgor â'r canlynol –<br><br>• Data ar ddefnydd yn y gorffennol ac ar hyn o bryd o ran teithio am bris rhatach<br>• Data meincnodi mewn perthynas â chasglu incwm am brydau ysgol | Pennaeth Archwilio a Risg | Pwyllgor Nesaf | Cwblhawyd. Darparodd y Pennaeth Archwilio a Risg y wybodaeth i gyfarfod Chwefror 2019 y Pwyllgor. | |
| 04/12/18 | 8 | Blaen Raglen Waith | Penderfynwyd nodi a derbyn y Blaen Raglen waith yn amodol ar gynnwys y Llythyr Archwilio am 2017/18 fel eitem ar gyfer cyfarfod Chwefror 2019 o'r Pwyllgor. | Pennaeth Archwilio a Risg i ddiweddaru'r Flaen Raglen Waith yn ôl yr angen. | Ar unwaith | Cwblhawyd | |

| Dyddiad Cyfarfod pan godwyd | Cyf. yn y cofnodion | Mater a Godwyd | Camau Gweithredu sydd eu hangen | Cyfrifoldeb am Weithredu | Dyddiad Cwblhau | Statws Cyfredol | Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12/02/19 | 2 | Rheoli dyledion ysgolion. | Pennaeth Archwilio a Risg i holi Cynghorau yng Nghymru lle mae lefel y dyledion prydau ysgol yn isel a pha arferion sydd ganddynt yn eu lle er mwyn rheoli dyledion prydau ysgol. | Pennaeth Archwilio a Risg | Ar unwaith | Gwybodaeth wedi'i chael gan Gyngor Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac wedi'i rhannu â'r Gwasanaeth Dysgu. | |
| 12/02/19 | 3 | Adroddiad Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2017/18 | Gofynnwyd i'r Swyddog Iechyd a Diogelwch Corfforaethol gadarnhau'r canlynol –<br><br>Os oes unrhyw reswm penodol am y cynnydd yn nifer yr ymosodiadau corfforol ac a yw'r cynnydd yn adlewyrchu tueddiad cynyddol.<br><br>Y gwahaniaeth rhwng dau gategori o "Drais Corfforol gan Unigolyn" yn y Tabl mathau o ddigwyddiadau ar dudalen 6 yr adroddiad. | Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol | Ar unwaith | Mae'r Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch yn adrodd yn ôl i gyfarfod Ebrill 2019 o'r Pwyllgor. | |

## Atodiad C – Blaen Raglen Waith 2019/20

| Dyddiad | Cyfrifon | Archwilio Mewnol | Archwilio Allanol | Rheoli Trysorlys | Rheoli Risg | Llywodraethu | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ebrill 2019** | | Adroddiad Diweddaru<br><br>Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2018/19 | Cynllun Blynyddol 2019<br><br>Adroddiad Cynnydd | | | | Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd<br><br>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor – Adroddiad y Cadeirydd |
| **Gorff 2019** | Datganiad Cyfrifon a Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2018/19 | Adroddiad Diweddaru | Adroddiad Cynnydd | Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol 2018/19 | Adolygiad Blynyddol o'r Strategaeth Rheoli Risg | Adroddiad Yswiriant Blynyddol 2018/19 | |
| **Medi 2019** | Argymell ar gyfer cymeradwyaeth y Cyngor, y Datganiad Cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol | Adroddiad Diweddaru<br><br>'Materion/Risgiau' Archwilio Mewnol sy'n weddill<br><br>Adolygiad o'r Siartr Archwilio mewnol | Adroddiad ar Gyfrifon i'r rhai hynny sydd â chyfrifoldeb am Lywodraethiant (ISA 260) | | Adolygiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol | Cynnydd a wnaed o ran Adroddiadau Rheoleiddio Allanol<br><br>Adroddiad Iechyd a Diogelwch Corfforaethol Blynyddol 2018/19 | Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |

| Dyddiad | Cyfrifon | Archwilio Mewnol | Archwilio Allanol | Rheoli Trysorlys | Rheoli Risg | Llywodraethu | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Adroddiad Craffu Diogelwch TGCh blynyddol 2018/19 | |
| **Rhagfyr 2019** | | Adroddiad Diweddaru | Adroddiad Cynnydd | Craffu ar Adroddiad Canol Blwyddyn Gweithgareddau Rheoli Trysorlys yn 2019/20 | | | Adroddiad Blynyddol ar Dwyll a Llygredd<br><br>Adolygiad Blynyddol o Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio |
| **Chwefror 2020** | | Strategaeth Archwilio Mewnol 2020/21 ar gyfer ei gymeradwyo<br><br>Adroddiad diweddaru ar<br><br>'Faterion/Risgiau' Archwilio mewnol sy'n weddill. | Adroddiad Cynnydd | Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020/21 yn cynnwys Dangosyddion Darbodus | Cofrestr Risg Gorfforaethol | Cynnydd a wnaed ar Adroddiadau Rheoleiddio Allanol | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **14 MAI 2019** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd – Adroddiad Blynyddol 2018/19** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd ar waith y Pwyllgor yn ystod 2018/19** |

## 1. Rhagarweiniad

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gefnogir gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Prif bwrpas y Pwyllgor yw adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth yn yr Awdurdod o ran staff, swyddfeydd ac adnoddau eraill er mwyn cyflawni dyletswyddau a swyddogaethau Gwasanaethau Democrataidd. Dan y Mesur, rhaid i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn i adrodd ar faterion o'r fath i'r Cyngor.

Dyma'r seithfed adroddiad blynyddol y mae'r Pwyllgor wedi ei ddarparu ers ei sefydlu yn 2012.

## 2. Rhaglen Waith y Pwyllgor

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2018/19 a cheir ynddo hefyd sylwadau ar y statws cyfredol.

Yn gyffredinol, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar y meysydd canlynol:

- Cynlluniau Hyfforddi a Datblygu Aelodau
- Gwe-ddarlledu cyfarfodydd
- Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol
- Materion cysylltiedig ag Aelodau yn cynnwys – Siartr Cymru ar gyfer datblygiad a chefnogaeth Aelodau
- Adroddiadau Blynyddol Aelodau
- Cynhaliwyd cyfanswm o 5 cyfarfod o'r Pwyllgor dros y deuddeg mis diwethaf.

Yn y tabl isod, ceir crynodeb o'r materion a drafodwyd ym mhob cyfarfod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

| Dyddiad y Pwyllgor | Pwnc | Statws Cyfredol |
|---|---|---|
| 02/05/2018 | Ethol Cadeirydd / Ethol Is-gadeirydd | Cynhelir cyfarfod arbennig ar 14 Mai, 2019 i ethol Is-gadeirydd |
| 26/09/2018 | Materion yn ymwneud ag Aelodau | Roedd yr adroddiad yn ymwneud â'r materion canlynol:<br>i) Gwybodaeth wedi'i diweddaru ar baratoad yr adroddiadau blynyddol yn nodi bod 29 o'r 30 adroddiad wedi eu derbyn ac wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.<br>ii) Yr amserlen ar gyfer ail-gyflwyno hunanasesiad y Cyngor ar gyfer Siartr CLlLC ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau<br>iii) Gwybodaeth ar wiriadau DBS Aelodau ac Aelodau cyfetholedig.<br>iv) Y defnydd o system reoli pwyllgorau Modern.gov ar gyfer cynnwys cofnodion presenoldeb a hyfforddiant aelodau.<br>v) Cyrff allanol – fframwaith gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer monitro partneriaethau allweddol fel rhan o'i raglen waith<br><br>Cyflwynwyd diweddariad pellach i'r Pwyllgor ym Mawrth 2019. |
| | Cynlluniau Datblygu Aelodau | Ystyriwyd adroddiad cynnydd ar y cynllun datblygu a hyfforddiant gan gynnwys e-ddysgu. Cyflwynwyd diweddariad pellach i'r Pwyllgor ym Mawrth 2019. |
| | Rhaglen Waith y Pwyllgor | Roedd yr adroddiad hwn yn crynhoi'r materion ar gyfer eu hystyried gan y Pwyllgor yn 2018/19. |
| 27/11/18 | Rhybudd o Gynigiad – Gwe-ddarlledu Pwyllgorau Sgriwtini | Cafodd y Rhybudd o Gynigiad a oedd yn edrych i ymestyn gwe-ddarlledu i Bwyllgorau Sgriwtini ei gyfeirio at y pwyllgor ar gyfer ei ystyried. Bu'r Pwyllgor argymell na ddylid gwneud unrhyw newid i'r cyfansoddiad a chadarnhawyd hyn gan y Cyngor ar 11 Rhagfyr, 2019. |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhybudd o Gynigiad – Cyfraniadau Cyhoeddus mewn cyfarfodydd | Ceisiodd y Rhybudd o Gynigiad ddiwygio’r Cyfansoddiad er mwyn galluogi cynigion gan aelodau o’r cyhoedd a gefnogir gan 50 o lofnodion gan unigolion sy’n byw yn Ynys Môn i gael eu trafod yn y Cyngor llawn. Bu’r Pwyllgor argymell na ddylid gwneud unrhyw newid i’r cyfansoddiad a chadarnhawyd hyn gan y Cyngor ar 11 Rhagfyr, 2019. |
| | Adroddiad Drafft y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRP) 2019 / 20 | Roedd yr adroddiad yn delio ag argymhellion yn yr adroddiad drafft ac fe’i derbyniwyd gan y Pwyllgor. Cyflwynwyd adroddiad pellach ar adroddiad blynyddol yr IRP ar gyfer 2019/20 i’r Pwyllgor ar 25 Mawrth. |
| 05/03/2019 | Adroddiad Blynyddol IRP ar gyfer 2019 / 20 | Ystyriwyd adroddiad terfynol yr IRP gan y Pwyllgor. Bydd y cynnig yn cael ei adrodd i’r Cyngor ar 14 Mai, 2019. |
| | Strategaeth Datblygu Aelodau 2019 / 20 | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd ystyried y Strategaeth ddrafft ar gyfer Datblygu Aelodau i’w chymeradwyo.<br>Mae’r Strategaeth yn darparu fframwaith holl gyffredinol ar gyfer datblygiad Aelodau ac yn nodi’r disgwyliadau a osodir ar Aelodau i ymgymryd â hyfforddiant fel rhan o’u rolau. Cymeradwywyd y Strategaeth gan y Pwyllgor. |
| | Cynllun Datblygu a Hyfforddi Aelodau ar gyfer 2018 / 19 | Roedd yr adroddiad yn cynnwys diweddariad ar gynnydd o ran darparu’r cynllun hyfforddiant yn dilyn adroddiad i’r Pwyllgor ym Medi 2018. Derbyniwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor. |
| | Materion Aelodau | Roedd yr adroddiad cyn cynnwys diweddariad ar nifer o faterion a oedd yn berthnasol i Aelodau, yn dilyn adroddiad i’r Pwyllgor hwn ym Medi, 2018.<br>Mae’r Cyngor bellach wedi derbyn cadarnhad gan CLILC fod y cyflwyniad ar gyfer adnewyddu’r statws Siartr Datblygiad Aelodau wedi ei gymeradwyo. |
| | Adroddiadau Blynyddol Aelodau | Bu’r adroddiad hwn amlinellu’r amserlen ar gyfer cwblhau adroddiadau blynyddol, i’w cyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin, 2019. Derbyniwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor. |

| | | |
|---|---|---|
| 02/05/2019 | Cynllun Datblygu Aelodau 2019 / 20 | Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad ar bynciau penodol i'w cynnwys yn y rhaglen datblygu. Bydd y rhaglen yn cael ei ddiweddaru yn ystod y flwyddyn a'i fonitro gan y pwyllgor hwn. Derbyniwyd yr adroddiad gan argymell i'r Cyngor Sir ei dderbyn ar 14.5.2019 |

**Argymhelliad:**

Gofynnir i'r Cyngor Sir dderbyn yr adroddiad a nodi'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2018/19.

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
**02/05/2019**

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***(TANYSGRIFENNU GEMAU'R YNYSOEDD 2025 / UNDERWRITING THE ISLAND GAMES 2025)***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

| | |
|---|---|
| Paragraff(au) 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) 14 Schedule 12A Local Government Act 1972 | |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae'r Cyngor yn agored ac yn dryloyw ynghylch sut mae ei cronfeydd yn cael eu defnyddio.<br><br>The Council is open and transparent how its funds are being used | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Mae'r adroddiad sy'n atodol yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif a gyflwynwyd gan Bwyllgor Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn.<br><br>The attached report contains commercially sensitive information submitted by the Ynys Môn Island Games Committee. |
| Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/~~llai o bwys~~ na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]<br><br>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/~~does not outweigh~~ the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate] | |

Document is Restricted

This page is intentionally left blank